



RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

46/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/07/2018

Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol

Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014:
Adroddiad Terfynol

A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers,
I. Madoc-Jones
Uned Tai Cynaliadwy ac Astudiaethau Trefol (SHUSU)
Prifysgol Salford



SHUSU
SUSTAINABLE HOUSING
& URBAN STUDIES UNIT

Adroddiad Ymchwil Llawn: A. Ahmed, M. Wilding, A. Gibbons, K. Jones, M. Rogers,
I. Madoc-Jones (2017). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad GSR
46/2018.
Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-homelessness-legislation/?lang=cy>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o
reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Lucie Griffiths

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Email: lucie.griffiths@llyw.cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad: nod y Gwerthusiad	5
2.	Dull Methodolegol o Weithredu'r Gwerthusiad	12
3.	Dadansoddiad eilaidd o'r ystadegau digartrefedd	24
4.	Effeithiau a Phrosesau'r Ddeddf	36
5.	Gweithredu a Gweinyddu	79
6.	Gweithio mewn Partneriaeth	106
7.	Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion	134
8.	Grwpiau sy'n agored i newid	156
9.	Y Sector Rhentu Preifat	186
10.	Diwygio lles a heriau strwythurol eraill	203
11.	Casgliadau ac Argymhellion.....	224
12.	Argymhellion	232
13.	Cyfeirnodau.....	240
	Atodiad 1 Arolwg o'r Awdurdodau Lleol - Ton 2.....	241
	Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer cyfweld penaethiaid gwasanaeth	264
	Atodiad 3: Cwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen yr awdurdod lleol	266
	Atodiad 4: Cwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen y Landlordiaid Cymdeithasol / Trydydd Sector.....	267
	Atodiad 5: Cwestiynau ar gyfer cyfweld defnyddwyr gwasanaethau (Ton 2)	268
	Atodiad 6: Ymgynghoriad â Darparwyr Gwasanaethau ar draws ardaloedd astudiaethau achos Cydnabyddiaeth.....	270 276

Rhestr o'r Tablau

Tabl 1: cyfveliadau a gwblhawyd yn nhon 1 a 2.....	17
Tabl 2: Prif reswm am ddigartrefedd (2016-17)	26
Tabl 3: Aelwydydd ag angen blaenoriaethol (Adran 75) yn ôl math o aelwyd (2015-16)	28
Tabl 4: Camau cadarnhaol a gymerwyd gan awdurdodau lleol (2016-17).....	29
Tabl 5: Camau a gymerwyd i atal a lleddfu (2016-17)	31
Tabl 6: Demograffeg atal, lleddfu a rhyddhau cadarnhaol (2016-17).....	33
Tabl 7: Rhesymau dros gyflawni dyletswydd dan adran 75 (2016-17).....	34
Tabl 8: Cysylltiad lleol ar draws awdurdodau lleol	64
Tabl 9: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A1	270
Tabl 10: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A2	271
Tabl 11: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A3	272
Tabl 12: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A4	273
Tabl 13: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A5	274
Tabl 14: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A6	275

Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 1: Oed Defnyddwyr Gwasanaethau	19
Ffigur 2: Cyfansoddiad teuluol defnyddwyr gwasanaethau.....	20
Ffigur 3: Hyd a math o lety dros dro yn ôl math o aelwyd (2016-17, Ion-Mawrth).....	32
Ffigur 4: Canlyniadau Tai.....	37
Ffigurau 5 i 10: Canlyniadau tai yn ôl ardal awdurdod lleol.....	37
Ffigur 11: Barn am waith ataliol (Nifer=22)	43
Ffigur 12: Darparu gwasanaethau ataliol (N=22)	45
Ffigur 13: Cynnydd mewn darparu gwasanaethau ataliol yn y flwyddyn ddiwethaf (N=22)	46
Ffigur 14: Ymestyn y ddyletswydd i 56 diwrnod	56
Ffigur 15: Pobl o awdurdodau lleol eraill/trawsffiniol	63
Ffigur 16: Rhoi cymorth i sicrhau llety (Nifer=22).....	67
Ffigur 17: Cynnydd yn y cymorth i sicrhau llety yn y flwyddyn ddiwethaf (N=22)	68
Ffigur 18: Newidiadau mewn defnyddio llety dan Gymorth i Sicrhau (N=22).....	70
Ffigur 19: Newid mewn math o lety i lety sicr (N=22).....	73
Ffigur 20: Heriau wrth weithredu'r Ddeddf (N=22)	79
Ffigur 21: Y tair her uchaf a nodir gan eich awdurdodau lleol (N=22).....	81
Ffigur 22: Cynnydd yn adnoddau'r awdurdodau lleol (N=22)	89
Ffigur 23: Newidiadau lleol i gwrdd â'r galw (N=22).....	90
Ffigur 24: Newid yn lefel yr adnoddau atal (N=22).....	90
Ffigur 25: Adnoddau atal (N=22)	92
Ffigur 26: Newidiadau yn adnoddau awdurdodau lleol i gynnig gwasanaethau Cymorth i Sicrhau (N=22).....	93
Ffigur 27: Y ffyrdd y mae'r rhaglen ddigartrefedd yn llywio gwaith comisiynu Gwasanaethu Cefnogi Pobl (N=20).....	115
Ffigur 28: Targedu Adnoddau Cefnogi Pobl i Gefnogi Atal Digartrefedd (N=22*)	117
Ffigur 29: Prosesau pyrth/atgyfeirio ar gyfer y Gwasanaethau Cefnogi Pobl (N=22*)	121
Ffigur 30: Cydweithredu a gweithio'n rhyngasiantaethol yn sgil y Ddeddf	130
Ffigur 31: Barn awdurdodau lleol am y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a gynigir (Nifer=22) ...	135
Ffigur 32: Barn awdurdodau lleol am newid mewn diwylliant i gefnogaeth sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion (Nifer=22)	135
Ffigur 33: Canfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau o gefnogaeth	139
Ffigur 34: Y defnydd a wneir o'r Cynllun Tai Lleol yn ôl defnyddwyr gwasanaethau.....	150

Ffigur 35: Awdurdodau lleol sydd wedi gwneud newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor/sicrhau llety (yn ôl grŵp demograffig; Nifer=22)	156
Ffigur 36: Barn am fonitro cydraddoldeb (N=22).....	182
Ffigur 37: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A1	270
Ffigur 38: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A2	271
Ffigur 39: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A3	272
Ffigur 40: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A4	273
Ffigur 41: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A5	274
Ffigur 42: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A6	275

1. Cyflwyniad: nod y Gwerthusiad

- 1.1 Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 newidiadau mawr i'r ffordd y mae'n mynd i'r afael â digartrefedd (o fis Ebrill 2015), gyda'r newidiadau craidd yn Rhan 2 y Ddeddf¹ wedi'u hanelu at ymestyn gwasanaethau sy'n atal digartrefedd a rhoi cymorth i bob ymgeisydd cymwys. Mae gwerthusiad ôl-weithredu hydredol o'r rhan hon o'r Ddeddf, sy'n canolbwyntio ar y broses a'r effaith, bellach wedi'i gwblhau.
- 1.2 Nod cyffredinol y gwerthusiad yw deall sut mae sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref (awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau'r trydydd sector) wedi gweithredu'r Ddeddf. Bydd yr ymchwil yn llywio dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith y Ddeddf ar bobl sy'n ddigartref / sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- 1.3 Mae'r amcanion gwerthuso penodol fel a ganlyn:
- Awdurdodau lleol yn gwerthuso gweithrediad y ddeddfwriaeth.
 - Gwerthuso effeithiau tymor byr a thymor hwy'r ddeddfwriaeth newydd.
 - Nodi'r angen am welliannau, datblygiadau a chefnogaeth bellach i sicrhau bod gwasanaethau cyson da yn cael eu darparu ledled Cymru.
 - Asesu effaith y ddeddfwriaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.
 - Gwerthuso effeithiau'r pwyslais llawer mwy a roddir ar atal sy'n nodwedd graidd o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a hynny ar ddigartrefedd.
- 1.4 Roedd y gwerthusiad yn cynnwys dwy don o waith maes. Cyflwyno'r adroddiad terfynol hwn ganfyddiadau'r ail don ac adolygu canfyddiadau perthnasol o'r adroddiad interim.
- 1.5 Mae'r adroddiad terfynol wedi'i strwythuro fel a ganlyn: Cyflwyniad a Chefnidir i'r Ddeddf; Dull Methodolegol i'r Gwerthusiad; Dadansoddiad Eilaidd o Ystadegau Digartrefedd; Effeithiau a Phrosesau'r Ddeddf; Gweithredu a Gweinyddu; Gweithio mewn Partneriaeth, Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion; Grwpiau sy'n Agored i newid; y Sector Rhentu Preifat; Heriau Strwythurol; a Chasgliadau ac Argymhellion.

¹ Trwy'r adroddiad drwyddo draw cyfeirir at hyn fel y Ddeddf.

Cyflwyniad a Chefndir i'r Ddeddf

- 1.6 Mae digartrefedd yn fater cymhleth gydag achosion strwythurol ac unigol lluosog. Mae cryn dystiolaeth i achosion digartrefedd, er ei bod yn anodd ei fesur yn iawn gan nad yw'r diffiniadau'n gyson, maent yn anodd eu monitro (gweler Fitzpatrick, Kemp & Klinker, 2000) ac maent yn cynnwys: tlodi a diweithdra, prinder tai fforddiadwy, effeithiau dirwasgiad, gostyngiadau mewn tai a budd-daliadau eraill, materion iechyd meddwl, perthynas yn chwalu, camddefnyddio alcohol a sylweddau, amser a dreuliwyd yn y carchar a digwyddiadau bywyd trawmatig
- 1.7 Hyd nes y cyflwynwyd Deddf Tai (Cymru) 2014, roedd deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru wedi'i seilio ar Ddeddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977 y Deyrnas Unedig a ddiwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Tai 1996 a'r Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001. Derbyniodd y ddeddfwriaeth hon ddyletswydd statudol i ailgartrefu aelwydydd ag angen blaenoriaethol ac oedd yn anfwriadol ddigartref. Roedd y ddarpariaeth hon yn ddetholus, oherwydd yn hanesyddol nid oedd dyletswydd i ailgartrefu'r rhai oedd yn syrthio'r tu allan i'r categori angen blaenoriaethol, yn anfwriadol (a chysylltiad lleol).
- 1.8 Rhoes Datganoli yn 1998-99 gyfle i Lywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau cyfansoddiadol i'r polisi tai a digartrefedd² (Mackie, 2014), a gwelir diwygiadau digartrefedd yng Nghymru yn un o'r enghreifftiau gorau hyd yma o Lywodraeth Cymru'n defnyddio ei phwerau (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2017). Gan arwain i fyny at y ddeddfwriaeth, comisiynodd Llywodraeth Cymru dros 15 o adroddiadau yn ymwneud â digartrefedd oedd yn canolbwyntio ar: atal digartrefedd; atebion tai ar gyfer grwpiau penodol; effeithiolrwydd rhaglenni Llywodraeth Cymru; gwella iechyd pobl ddigartref; a dysgu o brofiadau'r ddeddfwriaeth flaenorol (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2015) Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Digartrefedd Deng Mlynedd, a addawodd: 'Ymhen deng mlynedd mae arnom eisiau gweld digartrefedd wedi'i leddfu i'r eithaf'. (Llywodraeth Cymru, 2009: 1).

² Cafodd prif bwerau deddfu eu pasio i Lywodraeth Cymru yn sgil y refferendwm yn 2011.

1.9 Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 - a weithredwyd ym mis Ebrill 2015 - nifer o newidiadau yn y modd yr eir i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

- Cyflwyno dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol i gynorthwyo i atal digartrefedd i unrhyw un sy'n gofyn am gymorth³ a'r ddyletswydd bod awdurdodau'n cymryd 'camau rhesymol' i atal neu leddfu digartrefedd.
- Ymyriadau mwy hyblyg gan awdurdodau lleol i sicrhau y caiff digartrefedd ei atal yn fwy effeithiol.
- Newid yn y diwylliant sefydliadol i ategu dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion / partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a phobl sy'n dod ymlaen am gymorth⁴.
- Cynyddu hyd yr amser pan ystyrir bod pobl yn cael eu bygwth â digartrefedd o 28 diwrnod i 56 diwrnod ac ymestyn y ddyletswydd atal i bawb, nid i'r rheiny sydd ag angen blaenoriaethol yn unig.
- Newidiadau mewn cymhwyso darpariaethau angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol.
- Creu fframwaith newydd i gynnwys cymdeithasau tai.
- Creu fframwaith newydd i weithio gyda'r sector rhentu preifat i liniaru digartrefedd.

1.10 Nod y Ddeddf yw sicrhau:

- bod cymorth ar gael i bawb sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref;
- y cynhelir ymyriadau cynnar i atal argyfyngau;
- bod llai o bwyslais ar angen blaenoriaethol;
- y gwneir y defnydd gorau o adnoddau, gan gynnwys llety rhent preifat;
- bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda phobl i'w cynorthwyo i ddod o hyd i'r ateb tai gorau; a
- bod yna weithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau i gyflawni atebion cynaliadwy.


1.11 Mae hyn yn golygu bod gan fwy o bobl bellach hawl i gael cymorth nag o'r blaen, er nad yw cynnig tai cymdeithasol bellach yn brif fath o gymorth sydd ar gael; yn lle hynny, gall awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd yn haws trwy gynnig llety yn y sector preifat.

³ Mae modd i drydydd parti gyflwyno ceisiadau ar ran rhywun, ond rhaid i'r unigolyn fod wedi cytuno.

⁴ Argymhellwyd yn y Côt Canllawiau ddefnyddio Cynlluniau Tai Personol ond nid ydynt yn ofyn statudol.

- 1.12 Mae'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn golygu bellach bod tri cham i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru: (1) atal digartrefedd (atal); (2) lleddfu digartrefedd (lleddfu); a (3) sicrhau llety. Mae'r ddau gam cyntaf ar gael i bawb, p'run a oes angen blaenoriaethol, digartrefedd bwriadol neu gysylltiad lleol. O fewn y cam hwn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd 'camau rhesymol' i atal neu lleddfu digartrefedd pan fydd pobl mewn perygl o fod yn ddigartref yn y 56 diwrnod nesaf neu eu bod, mewn gwirionedd, yn ddigartref. Mae camau rhesymol yn cynnwys: cynorthwyo pobl i ddod o hyd i lety, cynorthwyo gyda bondiau a rhent ymlaen llaw, atgyfeirio pobl at wasanaethau cefnogi ac atgyfeirio pobl at wasanaethau cyfryngu i gynorthwyo'u teulu i aros gyda'i gilydd ac aros yn eu llety. Daw'r trydydd cam i rym os nad yw'r gweithgarwch atal a lleddfu'n atal pobl rhag dod yn ddigartref. Yn y cam hwn, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol asesu a yw pobl yn gymwys dan y categorïau angen blaenoriaethol, digartrefedd anfwriadol a chysylltiad lleol. Os yw aelwydydd yn gymwys ar gyfer y ddyletswydd i sicrhau cartref, rhaid i'r awdurdod lleol eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety addas y mae'n rhaid iddo fod ar gael am o leiaf chwe mis.
- 1.13 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i awdurdodau lleol bellach ddilyn cyfres o ddyletswyddau fel y'u hamlinellir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer atal a lleddfu digartrefedd.

1.14 Ceir eglurhad o bob un o'r dyletswyddau hyn isod⁵.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016: 4)

Noder: Mae 'Arall' yn cynnwys gwrthodwyd cymorth, dim cydweithrediad a rhesymau eraill

⁵ Nid yw hyn yn ystyried proses brofi'r cysylltiad lleol

- 1.15 Golyga A62, y Ddyletswydd i Asesu, bod rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o amgylchiadau person (neu aelwyd), os yw'r person hwnnw'n mynd atynt am lety, neu os ydynt yn gofyn am gymorth i gadw llety neu i gael llety arall. Bydd yr awdurdod lleol yn asesu a yw'r person yn ddigartref neu a fydd yn ddigartref o fewn y 56 diwrnod nesaf (mewn geiriau eraill, a yw'r person dan fygythiad digartrefedd). Os yw'r awdurdod lleol yn derbyn bod y person yn ddigartref neu'n cael ei fygwth â digartrefedd - hynny yw, mae ddyletswydd cymorth yn ddyledus iddynt - yna mae'n rhaid i'r awdurdod asesu: yr amgylchiadau sy'n arwain at ddigartrefedd / bygythiad digartrefedd y person, anghenion y person / ei aelwyd o ran tŷ, a oes ganddo unrhyw anghenion cymorth, a oes unrhyw ddyletswyddau eraill yn berthnasol a pha ganlyniadau y mae'r person / ei aelwyd am eu cyflawni gyda chymorth yr awdurdod a sut y gall gefnogi hyn.
- 1.16 Unwaith y bydd y Ddyletswydd i Asesu wedi'i chyflawni, os derbynnir bod rhywun dan **fygythiad digartrefedd** o fewn 56 diwrnod dan a62, ac yn gymwys i gael cymorth, yna mae'r awdurdod lleol yn derbyn y Ddyletswydd i helpu i atal ymgeisydd rhag dod yn ddigartref (a66). Rhaid i'r awdurdod lleol bellach gymryd 'camau rhesymol' (a65) fel y nodir uchod i helpu i atal y person rhag dod yn ddigartref.
- 1.17 Os derbynnir bod rhywun **yn ddigartref** ac yn gymwys i gael cymorth dan adran 62 y Ddeddf, mae'r awdurdod lleol yn derbyn y Ddyletswydd i helpu i sicrhau llety (a73). Os ystyrir bod yr unigolyn / ei aelwyd yn debygol o fod ag angen blaenoriaethol, bydd yr awdurdod lleol hefyd yn eu rhoi mewn llety dros dro (dan adran 68 y Ddeddf) tra byddant yn cymryd camau rhesymol i'w helpu i sicrhau llety. Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gymryd camau rhesymol dan adran 73 yng nghyswllt aelwydydd nad ydynt yn debygol o fod mewn angen blaenoriaethol.
- 1.18 Mae a75 o'r Ddeddf - y Ddyletswydd i sicrhau llety - yn berthnasol i'r ymgeiswyr hynny sydd ag angen blaenoriaethol, er enghraifft merched beichiog; pobl â phlant dibynnol yn yr aelwyd; pobl sy'n agored i niwed; pobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig; pobl y mae angen iddynt adael eu cartref oherwydd argyfwng, er enghraifft o ganlyniad i dân neu lifogydd; pobl ifanc 16 ac 17 oed; Pobl ifanc 18-21 oed a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu oedd yn y system ofal yn flaenorol; cyn-bersonél milwrol a ddaeth yn ddigartref wrth adael y lluoedd arfog; a phobl a allai fod yn agored i niwed o ganlyniad i fod dan glo neu yn y ddalfa. Os yw camau i leddfu digartrefedd yn aflwyddiannus, ac mae'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr unigolyn / aelwyd ag angen blaenoriaethol ac yn gymwys i gael cymorth, (ac os yw'r awdurdod yn ystyried p'run a ydynt yn fwriadol

ddigartref, yna mae angen iddynt fod yn fodlon bod y digartrefedd yn anfwriadol) yna mae'n rhaid iddynt dderbyn y Ddyletswydd i sicrhau llety (unwaith mae a73 wedi dod i ben). Mae'r awdurdod lleol yna'n cyflawni'r ddyletswydd hon trwy sicrhau y cynigir llety am gyfnod nad yw'n llai na chwe mis, a gall hyn nawr fod yn gynnig o eiddo yn y sector preifat.

2. Dull Methodolegol o Weithredu'r Gwerthusiad

2.1 Dechreuodd gwaith gwerthuso'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf a'i effaith yn 2016. Roedd y gwerthusiad ei hun yn cynnwys methodolegau ymchwil ansoddol a meintiol a nifer o gamau cyflenwol gan ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau gweithredu gwaith ymchwil. Ar ddechrau'r prosiect, daeth y tîm astudio dan arweiniad Llywodraeth Cymru a Grŵp Ymgynghorol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru. Datblygwyd offerynnau ymchwil gan y tîm ymchwil a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gweithgarwch a ganlyn wedi'u cwblhau:

- Dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd (2015-16 / 2016-17).
- Arolwg ac adolygiad o 22 awdurdod lleol [ton gyntaf: Mehefin-Awst 2016 / ail don: Awst - Hydref 2017].
- Ymgynghori â rhanddeiliaid cenedlaethol [Hydref-Tachwedd 2016].
- Dewis o chwe ardal yr awdurdodau lleol i gynnal astudiaeth achos er mwyn ymgynghori ac ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau [Medi 2016].
- Astudiaeth achos: Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau [ton gyntaf: Hydref 2016-Ionawr 2017 / ail don: Mehefin-Gorffennaf 2017].
- Astudiaeth achos: Ymgysylltu ac ymgynghori â darparwyr gwasanaethau [Mawrth - Mehefin 2017].
- Casglu ac adolygu'r wybodaeth: adolygiad polisi a llenyddiaeth.
- Grŵp ffocws gyda Rhwydwaith Digartrefedd [Ionawr 2018]

Dadansoddiad eilaidd o ystadegau digartrefedd

2.2 Cymerwyd yr holl ddata hyn o'r wefan Ystadegau ar gyfer Cymru (Stats Cymru) sydd ar gael i'r cyhoedd. Cafodd yr ystadegau digartrefedd a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru oddi wrth awdurdodau lleol bob chwarter eu harchwilio. Yn benodol, defnyddiwyd data Ebrill 2016 - Mawrth 2017 (y flwyddyn lawn ddiweddaraf sydd ar gael) ar gyfer yr adroddiad hwn, a gwnaed cymariaethau â'r flwyddyn flaenorol (2015-16)⁶.

⁶ Cyhoeddwyd yn yr Adroddiad Interim 2017

Ymgynghori â rhanddeiliaid cenedlaethol

2.3 Cynhaliwyd pymtheg o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol o'r sefydliadau a ganlyn:

- Tai Cymunedol Cymru (1).
- Sefydliad Siartredig Tai Cymru (1).
- Cymorth Cymru (1).
- Sefydliad Addysg Uwch (1).
- Rhwydwaith Digartrefedd (1).
- Shelter Cymru (2).
- Cymdeithas Landlordiaid Preifat (1).
- Prosiect Take Notice (1).
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1).
- Is-adran Polisi Tai Llywodraeth Cymru (4).
- Tai Pawb (1).
- Sefydliad Siartredig Tai (1).

2.4 Nodwyd bod y sefydliadau / unigolion uchod yn arwyddocaol yng ngwaith llunio'r Ddeddf, neu eu bod mewn sefyllfa i roi persbectif pwysig ynglŷn â'i hethos, ei gweithredu a'i heffaith. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweild yn rhan o broses adolygu'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd flaenorol yng Nghymru a datblygu Deddf Tai (Cymru) 2014. Roedd eraill yn drafftio a chraffu'r Ddeddf cyn ei gweithredu, mae rhai yn ymwneud â'i gweithrediad strategol ac roedd eraill yn ymwneud â datblygu'r Côd Canllawiau. Er mwyn cadw'r rhanddeiliaid cenedlaethol a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli'n anhysbys, ni chynhwysir unrhyw wybodaeth wahaniaethol gyda'r darnau o'u cyfweiliadau.

Arolwg o'r awdurdodau lleol (Y Don Gyntaf)

2.5 Pwrpas yr arolwg oedd casglu gwybodaeth ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r gwahanol gamau a amlinellir yn y Ddeddf. Datblygwyd yr arolwg gan y tîm ymchwil yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru, ac arbrofwyd arno gydag un awdurdod lleol i wirio'r cynnwys cyn ei gyflwyno i weddill yr awdurdodau lleol.

2.6 Cafwyd ymatebion (un o bob tîm tai'r awdurdodau lleol) rhwng y 4^{ydd} o Orffennaf a'r 25^{ain} o Awst 2016. Anfonwyd e-bost gan Lywodraeth Cymru at gysylltiadau allweddol yn nhimau tai awdurdodau lleol yn cyflwyno'r arolwg gan gynnwys dolen i'r arolwg. Anfonwyd

negeseuon atgoffa dilynol gan y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru hyd nes y cafwyd ymateb gan bob awdurdod lleol (hynny yw, cyfradd ymateb 100%).

Arolwg o'r awdurdodau lleol (Yr Ail Don)

- 2.7 Unwaith eto nod ail don yr arolwg oedd casglu gwybodaeth ansoddol a meintiol yn ymwneud â'r Ddeddf ond, yn fwy penodol, ddeall newidiadau ym mhrofiadau tîm tai'r awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ers iddynt gwblhau'r arolwg o'r don gyntaf. Roedd yr arolwg yn bennaf seiliedig ar arolwg y don gyntaf, gyda rhai addasiadau i gipio newidiadau diweddar, ystod ehangach o wybodaeth (er enghraifft, ychwanegwyd cwestiynau ar y camau a gymerwyd i gynnal cysylltiad ag aelwydydd sy'n colli apwyntiadau a sut mae awdurdodau lleol yn penderfynu bod aelwyd wedi gwrthod cydweithredu), ac i hwyluso gwaith categorïddio ymatebion yn well.
- 2.8 Gweinyddwyd ail don yr arolwg yn yr un modd â'r cyntaf: anfonwyd e-bost gan gysylltiadau allweddol at dimau tai awdurdodau lleol yn cynnwys dolen ac yn cyflwyno'r arolwg. Unwaith eto, cafwyd cyfradd ymateb 100% (h.y. un ymateb gan bob awdurdod lleol) yn dilyn negeseuon atgoffa'r tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru. Cafwyd ymatebion (un gan bob tîm tai awdurdodau lleol) rhwng yr 11^{eg} o Awst a'r 2il o Hydref 2017⁷.
- 2.9 Cyfeirir at ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol fel hynny trwy'r penodau canfyddiadau.

Detholiad o astudiaethau achos

- 2.10 Dewiswyd chwe astudiaeth achos ar sail daearyddiaeth: trefol / gwledig / arfordirol a gogledd / canol / de Cymru a ph'run oedd yr awdurdod lleol wedi cadw stoc tai ynteu ei drosglwyddo i landlord cymdeithasol cofrestredig⁸. Roedd meini prawf ychwanegol wedi'u hallosod o Stats Cymru, gyda pherfformiad yn seiliedig ar ddigartrefedd sydd wedi'i atal (a66) a'i leddfu (a73) yn llwyddiannus hefyd yn arwain y dewis. Cafodd astudiaethau eraill a gâi eu cynnal ar hyn o bryd gan Shelter Cymru⁹ a Swyddfa Archwilio Cymru¹⁰ eu hystyried, er nad oedd hyn, o reidrwydd, yn golygu na chaent eu cynnwys.

⁷ Gweler Atodiad 1 ar gyfer Ton 2 Arolwg Awdurdodau Lleol

⁸ Mae 11 allan o 22 o awdurdodau lleol wedi trosglwyddo stoc i landlord cymdeithasol cofrestredig

⁹ Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Ceredigion, Sir y Fflint, Conwy a Rhondda Cynon Taf

¹⁰ Ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Swydd Ddinbych, Merthyr Tudful ac Abertawe

**Astudiaeth achos: Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau
[y don gyntaf: Hydref 2016–Ionawr 2017]**

- 2.11 Un o elfennau allweddol y gwerthusiad hwn oedd archwilio effaith newidiadau mewn gwasanaeth o safbwynt y bobl sydd wedi derbyn cefnogaeth. Er mwyn deall profiadau gwasanaethau ac effaith y gefnogaeth a gafwyd gan bobl, cynhaliwyd ton gyntaf yr ymchwil ansoddol hydredol gyda phobl a ddaeth i'r gwasanaethau digartrefedd ym mhob un o'r meysydd astudiaeth achos.
- 2.12 Gweithiodd y tîm prosiect mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol oedd yn cynnal astudiaethau achos er mwyn cael mynediad at ffrâm samplu i sicrhau y defnyddid ymatebwyr o ddemograffeg eang, gan gynnwys: y rhai sy'n ddigartref / mewn perygl o fod yn ddigartref; amrywiaeth o fathau o aelwydydd; a phobl â nodweddion gwarchodedig. Lle'r oedd yn briodol, lleolwyd aelodau'r tîm ymchwil yn swyddfeydd yr awdurdodau lleol oedd yn cymryd rhan, gan fod hyn yn cynnig y dulliau mwyaf effeithiol i recriwtio cyfranogwyr yn nhon 1.
- 2.13 Nod y tîm ymchwil oedd cyfweld 25 o ddefnyddwyr gwasanaethau ymhob ardal astudiaeth achos yn y don gyntaf gan ragweld y byddai rhai'n gadael yn ystod y cyfnod o chwech i wyth mis. Cynhaliwyd 154 o gyfweiliadau i gyd ar draws chwe ardal yr awdurdodau lleol a dylanwadwyd ar y sampl gan y bobl a ddaeth i'r awdurdod lleol yn dweud eu bod yn ddigartref neu'r bobl oedd yn derbyn cymorth gan yr awdurdodau lleol yn ystod amser y gwaith maes. Trefnwyd mwyafrif y cyfweiliadau gan staff yr awdurdodau lleol a'r hosteli a'u cynnal mewn swyddfeydd awdurdodau lleol, neu hosteli a llochesi. Er mai'r nod cychwynnol oedd cyfweld pobl pan oeddynt yn mynd at yr awdurdod lleol am gymorth am y tro cyntaf, dim ond mewn ardaloedd trefol y bu hyn yn bosib, lle'r oedd nifer y bobl oedd yn chwilio am gymorth yn ddigon uchel i wneud hynny. Addaswyd ac ehangwyd y strategaeth samplu gychwynnol ar gyfer ardaloedd mwy gwledig i gynnwys pobl oedd eisoes yn derbyn gwasanaethau. Treuliodd ymchwilwyr amser ychwanegol yn yr ardaloedd hyn, gan gynnal cyfweiliadau ffôn pan ofynnwyd amdanynt.
- 2.14 Pwrpas casglu data oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau oedd cael gwybodaeth am eu profiadau byw o ran mynediad at wasanaethau a'u llywio a phrofiadau o atal a llwybrau i'w cefnogi. Rhoddwyd yr opsiwn iddynt gael cynnal cyfweiliadau yn Gymraeg neu Saesneg, (dewisodd pawb gael eu cyfweld yn Saesneg).

- 2.15 Canolbwynt cyfweiliad ton 1 oedd cipio data sylfaenol perthnasol ar gyfer dilyniant yn nhon 2 a sefydlu perthynas â chyfranogwyr ymchwil. O'r herwydd, roedd cyfweiliadau yn nhon 1 yn weddol strwythuredig ac yn fyr, ac fe'u bwriadwyd i gymryd dim mwy na thua 15 munud.
- 2.16 Canolbwyntiodd y cyfweiliadau'n bennaf ar bedair thema allweddol:
- Rhesymau dros gael cymorth gan Atebion Tai (gan gynnwys rhesymau dros ddod yn ddigartref / bod mewn perygl o fod yn ddigartref ac unrhyw anghenion cymorth / nodweddion gwarchodedig sydd ganddynt).
 - Profiadau o'r broses gefnogi (cadarnhaol a negyddol) (e.e. pa mor dda y teimla pobl iddynt gael eu cefnogi; a gawsant eu trin ag urddas a pharch yn ystod y cysylltiad cychwynnol â'r gwasanaeth).
 - Lefel y sefydlogrwydd tai y maent yn disgwyl / gobeithio fod wedi'i chyflawni dros y chwe mis nesaf.
 - Barn am fylchau a ganfyddir mewn budd-daliadau /cefnogaeth.
- 2.17 Eglurwyd pwrpas a natur yr ymchwil yn fanwl i'r holl ddarpar gyfweledigion. Eglurodd yr ymchwilydd bod cymryd rhan yn yr ymchwil yn gwbl wirfoddol, bod pobl yn rhydd i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg, ac y câi'r holl wybodaeth a dderbynnir ei storio'n ddiogel ac y byddir yn ymdrin â hi'n gyfrinachol. Pwysleisiodd ymchwilydd eu bod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol ac na fyddai cymryd rhan yn yr ymchwil yn cael unrhyw effaith ar y gefnogaeth y byddant yn ei derbyn. Gwahoddwyd darpar gyfranogwyr hefyd i ofyn unrhyw gwestiynau oedd ganddynt ynghylch y gwerthusiad. Cafwyd caniatâd ar sail gwybodaeth ac fe'i cofnodwyd cyn cynnal unrhyw gyfweiliadau. Gyda chaniatâd, cofnodwyd cyfweiliadau'n ddigidol (dim ond un person a wrthododd ganiatâd ac yn yr achos hwn gwnaethpwyd nodiadau manwl gan yr ymchwilydd). Cynigiwyd taleb siopa gwerth £10 i'r cyfranogwyr, a hynny am eu hamser.
- 2.18 Ar ôl cwblhau cyfweiliad ton 1, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu caniatâd i ailgysylltu â nhw mewn chwech i wyth mis. Cytunodd pawb a gafodd eu cyfweld a phan ofynnwyd iddynt, rhoesant eu manylion cyswllt i'r tîm ymchwil ac, mewn sawl achos, fanylion cyswllt aelodau'r teulu, ffrindiau a / neu weithwyr cymorth y gellid cysylltu â nhw. Ar ôl chwe mis, ailgysylltwyd â phawb oedd yn cymryd rhan yn nhon 1 yr ymchwil a'u gwahodd i fynd am ail gyfweiliad.

**Astudiaeth achos: Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau
[yr ail don: Mehefin-Gorffennaf 2017]**

2.19 Gwnaed ymdrech dda iawn i ailgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Gofynnodd aelodau'r tîm astudio i ddefnyddwyr gwasanaethau gadarnhau a oeddent yn rhoi caniatâd iddynt ofyn i'r awdurdod lleol am eu manylion cyswllt pe bai'r rhain wedi newid rhwng dwy don yr ymchwil a chytunodd pawb. Mewn sawl achos, fodd bynnag, ni allai'r awdurdod lleol ddarparu rhagor o fanylion cyswllt y tu draw i'r rhai a gasglwyd eisoes gan y tîm ymchwil. Mewn rhai achosion, nid oedd teuluoedd defnyddwyr gwasanaethau yn gwybod lle oeddynt. Gwnaed nifer o ymdrechion i ailgysylltu â'r rhai a gyfwelwyd trwy alwad ffôn, neges destun, e-bost a llythyr (gan gynnwys trwy fanylion yr ail a'r trydydd cyswllt). Gwelodd y tîm astudio hefyd amrywiaeth eang yng ngwybodaeth staff awdurdodau lleol am amgylchiadau'r achosion unigol. Lle bo modd, mae gwybodaeth gan aelodau o staff yr awdurdodau lleol / hosteli / aelodau o deulu defnyddwyr gwasanaethau wedi'i chynnwys i nodi sefyllfa dai defnyddwyr gwasanaethau adeg ail don yr ymchwil. Cafwyd y wybodaeth fwyaf cyflawn am amgylchiadau tai pobl yn yr ail don o gyfweliadau, a hynny o'r meysydd astudiaethau achos hynny lle'r oedd y tîm astudio'n gweithio gyda staff hosteli er mwyn cael defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan yn yr ymchwil. At ei gilydd, dilyswyd sefyllfa dai 87 o bobl, ac roedd amgylchiadau 67 o bobl yn anhysbys.


Tabl 1: cyfweliadau a gwblhawyd yn nhon 1 a 2

Ardal	Cyfweliadau a gwblhawyd, ton a	Cyfweliadau a gwblhawyd, ton b	Cyswllt wedi'i wneud, statws wedi'i gadarnhau, ond yr ymatebwr yn methu neu'n anfonlon gwneud cyfweliad llawn, ton b	Statws tai wedi'i gadarnhau gan y cyngor neu aelod o'r teulu	Cyfanswm tai wedi'i gadarnhau'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol	Cyfanswm statws anhysbys
1	26	11	3	8	22	4
2	27	12	0	2	14	13
3	25	6	1	8	15	10
4	21	9	0	0	9	12
5	25	13	1	2	16	9
6	30	6	0	8	14	16
Cyf	154	57	5	28	90	64
Cyfanswm a gadarnhawyd yn uniongyrchol			62			154


- 2.20 Yn ardaloedd dau, tri a chwech, roedd canran uchel iawn o ddynion sengl - carfan a allai fod yn un dros dro - a gafodd eu cyfweld mewn hosteli neu lochesi nos, ac adlewyrchir hyn yn niferoedd is y cyfweliadau dilynol. Roedd nifer y rhai a gyfwelwyd mewn hosteli mewn ardaloedd eraill, yn is yn ail don yr ymchwil.
- 2.21 Yn ardal astudiaeth achos un, cymerodd 11 o'r 26 person gwreiddiol ran mewn cyfweliad dilynol. Gwnaed cysylltiad â thri arall, ac er nad oedd yn bosib cynnal ail gyfweliad, bu iddynt ddilysu eu hamgylchiadau tai, gyda dau yn cael eu lleoli mewn llety â chymorth landlord cymdeithasol cofrestredig, ac un mewn Llety Dros Dro. Nid oedd yn bosib ailgysylltu â 12 o'r defnyddwyr gwasanaethau. O'r rhain, cadarnhaodd yr awdurdod lleol a'r hostel fod un person wedi symud i mewn gyda'r teulu; roedd dau wedi symud i dai cymdeithasol; roedd un arall yn aros yn yr hostel tra oedd yn aros am lety yn y sector preifat; roedd un wedi symud i dŷ â chymorth; roedd un wedi cael gwaharddeb, gofynnwyd iddo adael yr hostel ac nid oedd neb yn gwybod lle'r oedd; roedd dau wedi cael eu troi allan o'r hostel ar ôl cyfnodau seicotig treisgar, rhoddwyd un ohonynt mewn Llety Dros Dro a'r llall mewn Gwely a Brecwast. Roedd lleoliad pedwar person yn anhysbys.
- 2.22 Yn ardal dau, cymerodd 12 o'r 27 person gwreiddiol ran mewn cyfweliad dilynol. Nid oedd modd ailgysylltu â 15 o ddefnyddwyr gwasanaethau. O'r rhain, hysbysodd staff hostel y tîm astudio bod dau berson a gyfwelwyd yn yr hostel wedi symud i dai cymdeithasol ers hynny. Roedd lleoliad yr 13 person arall yn anhysbys.
- 2.23 Yn ardal astudiaeth achos tri, cymerodd chwech o'r 25 o ddefnyddwyr gwasanaethau ran mewn cyfweliad dilynol. Gwnaed cyswllt gydag un person arall nad oedd am gymryd rhan yn y cyfweliad ond cadarnhaodd ei fod wedi bod yn y carchar ac yn cysgu allan. Roedd pymtheg o'r deunaw a gyfwelwyd oedd yn weddill wedi bod yn byw mewn hosteli yn ystod ton gyntaf y gwaith maes. Rhoes staff yr hostel wybod i'r tîm astudio bod dau berson wedi'u lleoli mewn tai cymdeithasol, roedd tri yn y carchar, a'r dybiaeth oedd bod dau berson yn cysgu allan. Gofynnwyd i un person adael yr hostel, ac roedd un arall yn bwriadu gadael. Roedd lleoliad wyth person yn anhysbys.
- 2.24 Yn ardal astudiaeth achos pedwar, cymerodd naw allan o 21 o bobl ran mewn cyfweliad dilynol. Nid oedd y tîm astudio'n gallu ailgysylltu â 12 o'r rhai a gyfwelwyd ac roedd lleoliad y rhain yn anhysbys

- 2.25 Yn ardal pump, cymerodd 13 o'r 25 defnyddiwr gwasanaeth gwreiddiol ran mewn cyfweliad dilynol. Gwnaed cyswllt gydag un person arall nad oedd yn gallu parhau â chyweliad llawn, ond cadarnhaodd ei fod wedi'i leoli mewn llety rhent preifat. Nid oedd y tîm astudio'n gallu ailgysylltu â deg o'r rhai a gyfwelwyd. O'r rhain, cadarnhaodd yr awdurdod lleol fod un person wedi'i leoli mewn tŷ cymdeithasol, a chadarnhaodd cyswllt eilaidd bod person arall yn aros yn yr un llety ansefydlog ag yn nhon gyntaf yr ymchwil a'i fod yn dal i geisio cael ei ailgartrefu. Roedd lleoliad y naw person arall yn anhysbys.
- 2.26 Yn ardal astudiaeth achos chwech, cymerodd chwech o'r 30 defnyddiwr gwasanaethau gwreiddiol ran mewn cyfweliad dilynol. Nid oedd y tîm astudio'n gallu ailgysylltu â 24 o'r rhai a gyfwelwyd. Cadarnhaodd yr awdurdod lleol / aelodau'r teulu fod dau o bobl wedi marw, roedd un person mewn uned ddadwenwyno breswyl, un yn y carchar, un yn yr ysbyty, un wedi symud i dŷ cymdeithasol, ac roedd dau yn cysgu allan. Roedd lleoliad 16 o bobl yn anhysbys.
- 2.27 Cysylltwyd yn uniongyrchol â chyfanswm o 35 o ddynion a 22 o ferched yn yr ail don o gyfweliadau, o gymharu â 99 o ddynion a 55 o ferched yn y sampl wreiddiol. O'r 57 hyn, nododd 56 eu bod yn wyn ac yn Brydeinig. Yn nhon a, gwrthododd un ymatebwr roi ei hoedran, gan roi cyfanswm o 153 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Gwelir cyfansoddiad oedran a theulu defnyddwyr gwasanaethau yn y ffigurau isod:

Ffigur 1: Oed Defnyddwyr Gwasanaethau



Ffigur 2: Cyfansoddiad teuluol defnyddwyr gwasanaethau



2.28 Ar wahân i'r ffaith mai pobl sengl oedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn y ddwy don, yr unig beth arall a ddangosir yn glir yw cyfran is y bobl ifanc dan 25 oed a rhieni sengl a gafodd eu hailgyfweld. Gallai ffactorau lluosog y mae'n amhosib eu canfod heb gynnal cyfweiliad fod yn rheswm am hyn ond mae'n fwyaf tebyg ei fod yn gysylltiedig â'u hamgylchiadau ansicr.

2.29 Gofynnwyd ystod o gwestiynau i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r nod oedd cael gwybodaeth fanwl am eu hamgylchiadau tai. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweiliadau wyneb yn wyneb a chynhaliwyd rhai dros y ffôn (ar gais defnyddiwr gwasanaethau). Rhoes aelodau'r tîm astudio grynodedig o'r cyfweiliad blaenorol cyn gofyn:

- beth oedd wedi newid ynghylch yr amgylchiadau tai ers y cyfweiliad blaenorol
- beth oedd eu sefyllfa dai gyfredol ac a oedd unrhyw beth y byddent yn hoffi ei newid
- a oedd ganddynt gysylltiad lleol yn yr ardal yr oeddynt yn gwneud cais am dŷ ynddi
- pa gymorth a gawsant gan yr awdurdod lleol, pa mor dda yr oeddynt yn deall y wybodaeth a roddwyd iddynt;
- a oedd ganddynt Gynllun Tai Personol;
- eu profiadau o ran cefnogaeth; ac
- eu barn am y sector rhentu preifat, yr awdurdod lleol a'r landlord cymdeithasol cofrestredig¹¹.

¹¹ Gweler Atodiad 2 am restr gyfweld ton 2 defnyddwyr gwasanaethau

- 2.30 Trwy'r penodau canfyddiadau cyfeirir at ddefnyddwyr gwasanaethau (yn dilyn dyfyniadau o'r cyfweiliadau) fel DG gyda rhif ardal astudiaeth achos yr awdurdod lleol yn dilyn hyn.

Cyfweiliadau gyda defnyddwyr gwasanaethau (Mawrth – Mehefin 2017)

- 2.31 Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd ymgynghoriadau gydag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau yn cynrychioli'r sector statudol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Trydydd Sector ar draws chwe safle'r astudiaeth achos. Ceisiodd y tîm ymchwil ymgynghori ar draws y sectorau hyn ym mhob safle, gan gasglu barn a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid gwasanaeth, arweinyddion Cefnogi Pobl, rheolwyr gwasanaethau a staff rheng flaen.
- 2.32 Dewiswyd chwe astudiaeth achos ar sail daearyddiaeth (trefol / gwledig / arfordirol a gogledd / canol / de Cymru) a ph'run a oedd yr awdurdod lleol wedi cadw stoc dai neu ei drosglwyddo i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Cymerodd cyfanswm o 148 o bobl ran mewn ymgynghoriadau. Roedd 79 yn gyflogedig yn y sector statudol, roedd 24 yn gyflogedig gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a 45 yn cynrychioli'r Trydydd Sector. O ran rôl cyfranogwyr, roedd hyn yn cynnwys sbectrwm o swyddi, o swyddogion rheng flaen i reolwyr tîm a gwasanaethau, yn ogystal ag arweinyddion a phenaethiaid adrannau. Hefyd, cyfwelodd y tîm astudio â chynghorwyr oedd â phortffolios perthnasol a phobl a gyflogir mewn rolau penodol iawn oedd yn gysylltiedig â maes ymarfer penodol: er enghraifft, swyddogion oedd wedi'u gorchymyn i weithio gyda rhai sy'n gadael y carchar, neu swyddogion â gwybodaeth arbenigol am iechyd meddwl (yn ogystal â digartrefedd). Fel y cyfryw, mae'r tîm, gan gynnwys pobl o wahanol sectorau, yn ogystal â phobl sy'n meddu ar wahanol rolau, wedi ei gwneud yn bosib i lu o safbwyntiau a phrofiadau gael eu casglu fel data sy'n sail i'r gwerthusiad hwn.
- 2.33 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 148 o ddarparwyr gwasanaethau ar draws ystod o sectorau ac awdurdodau. Cynhaliwyd ymgynghoriadau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2017/12.
- 2.34 Gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth am y materion a ganlyn:
- eu rôl wrth weithredu'r dull sy'n ymateb i ofynion atal;
 - y goblygiadau y mae Rhan 2 o'r Ddeddf wedi'u cael i'w hawdurdod / sefydliad;
 - gweithgarwch atal allweddol yn eu hawdurdod;
 - sut mae'r Ddeddf wedi gwneud i'r gefnogaeth ganolbwyntio ar unigolion;

¹² Gweler Atodiad 3 am ddadansoddiad manwl o'r ymgynghoriad â darparwyr y gwasanaeth ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos

- pa effaith y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar wasanaethau a ddarperir i bobl sy'n dod i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref ac nad oes ganddynt gysylltiad lleol / sut caiff cysylltiad lleol ei ddehongli;
- profiad o weithio mewn partneriaeth dan y Ddeddf;
- sut mae'r Ddeddf yn cael effaith ar agendâu eraill yn eu hawdurdod;
- pa mor effeithiol y mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn ei gwneud yn bosib gweithredu Rhan 2 y Ddeddf;
- pa mor glir yw'r llwybrau ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion o ran cymorth;
- yr effaith y mae Rhan 2 y Ddeddf wedi'i chael ar y rheiny sydd ag angen blaenoriaethol a'r rhai nad ydynt ag angen blaenoriaethol;
- effaith y Ddeddf ar y rhai â nodweddion gwarchodedig; yr hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gweithredu;
- y defnydd gorau o adnoddau;
- defnyddioldeb y Côt Canllawiau;
- unrhyw newidiadau i weithdrefnau cofnodi a monitro;
- barn am ddata canlyniadau ystadegol;
- cryfderau'r Ddeddf a phryderon yn ei chylch;
- unrhyw ganlyniadau annisgwyl a gyfyd o weithredu'r Ddeddf;
- camau pellach y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi gweithrediad y Ddeddf;
- unrhyw gamau i leihau baich gweinyddol staff; a
- trefniadau/digwyddiadau¹³ partneriaeth.

2.35 Aeth trafodaethau grŵp ffocws â staff rheng flaen yr awdurdodau lleol i'r afael â'r pynciau a ganlyn:

- Gweithgarwch allweddol i atal digartrefedd;
- cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- heriau yn y rôl oherwydd y Ddeddf;
- anghenion hyfforddiant sy'n disgwyl sylw;
- darpariaethau ar gyfer pobl ifanc / pobl sengl / pobl â nodweddion gwarchodedig / pobl sy'n cysgu allan;
- ymestyn y cyfnod pan fo pobl dan fygythiad digartrefedd i 56 diwrnod;
- dehongli camau rhesymol;

¹³ Gweler Atodiad 4 am y rhestr gyfweld ar gyfer penaethiaid gwasanaeth

- defnyddioldeb y Côt Canllawiau; a
- cryfderau a gwendidau'r Ddeddf¹⁴.

2.36 Canolbwyntiodd trafodaethau grŵp ffocws â staff rheng flaen y landlord cymdeithasol cofrestredig / y trydydd sector ar y pynciau a ganlyn:

- rôl mewn perthynas â digartrefedd;
- gweithgarwch atal allweddol;
- cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- gweithio mewn partneriaeth;
- prosesau atgyfeirio;
- trefniadau gweithio gyda'r awdurdod lleol i atal pobl rhag cael eu troi allan;
- newidiadau / heriau i'r rôl yn dilyn gweithredu'r Ddeddf;
- darpariaethau ar gyfer pobl ifanc / pobl â nodweddion gwarchodedig / pobl sy'n cysgu allan;
- a chryfderau a gwendidau'r Ddeddf¹⁵.

2.37 Trwy'r penodau canfyddiadau, er mwyn dynodi'r sector a'r ardaloedd astudiaeth achos cyfeirir at y darparwyr gwasanaethau o awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan fel ALL; cyfeirir at gyfranogwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel LCC; a dynodir cyfranogwyr o sefydliadau'r trydydd sector fel TS. Mae'r ardal astudiaeth achos yn dilyn y disgrifiad hwn.

¹⁴ Gweler Atodiad 5 am gwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen yr awdurdodau lleol

¹⁵ Gweler Atodiad 6 am gwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen landlordiaid cymdeithasol cofrestredig/y trydydd sector

3. Dadansoddiad eilaidd o'r ystadegau digartrefedd

- 3.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r ystadegau digartrefedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu bob chwarter oddi wrth awdurdodau lleol. Daw'r holl ddata o'r wefan Stats Cymru sydd ar gael i'r cyhoedd. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau a ddefnyddir yma ar gyfer Ebrill 2016 - Mawrth 2017. Rhain yw'r data llawn diweddaraf sydd ar gael. Fel gyda'r adroddiad interim, ni ddadansoddir data yma yng nghyswllt pobl sy'n cysgu allan oherwydd natur arbrofol y data.
- 3.2 Adeg ysgrifennu'r adroddiad interim, roedd yr ystadegau wedi'u dad-ddynodi dros dro fel Ystadegau Gwladol oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru dan y Ddeddf a'r amser yr oedd ei hangen ar awdurdodau lleol i addasu i'r newidiadau. Daeth y dad-ddynodiad i ben ym mis Gorffennaf 2017, yn dilyn gwaith Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i ddatrys y materion. Er hynny, mae angen bod yn ofalus wrth gymharu data dros amser, oherwydd y materion ansawdd data a amlinellir gyda data 2015-16, a newidiadau i'r data chwarterol a blyneddol ar gyfer 2016-2017 (gweler Datganiad Blyneddol Llywodraeth Cymru, 2016-17: Tud 5)
- 3.3 Mae cyfyngiadau eraill ar ddata a nodwyd yn yr adroddiad interim yn parhau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r ffaith nad oes data amrwd, crynhoi data, a chasglu data mewn tablau cyfan (h.y. nid data cofnod unigol) ar gael. Er bod y data a gyhoeddir a'r defnydd a wneir o sêr at berwyl datgelu, mae'n golygu bod y graddau y gellir dadansoddi perthnasoedd yn y data yn gyfyngedig, yn enwedig felly oherwydd crynhoi data trwy ddefnyddio sêr pan fo cyfanswm o dri neu lai ar gyfer categori penodol. At hynny, mae defnyddio sêr yn golygu na all y cyfansymiau bob amser fod yn gyson â'i gilydd.
- 3.4 O ran y canfyddiadau, mae nifer o gysylltiadau â data 2015-16 a gwahaniaethau. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn fanylach isod, fodd bynnag, ymhlith y newidiadau allweddol mae cynnydd yn nifer yr achosion a gofnodwyd ym mhob un o'r prif gamau (a mwyafrif y canlyniadau nawr yn digwydd yn a73, yn hytrach nag yn a66 fel oedd yn digwydd yn 2015-16) ; gosod tai cymdeithasol awdurdodau lleol oedd y cam mwyaf cyffredin a gymerwyd i atal a lleddfu digartrefedd yn 2016-17; ac mae nifer a chyfran yr aelwydydd y tybir eu bod wedi dod yn ddigartref yn fwiadol wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel y mae achosion o aelwydydd nad ydynt yn cydweithredu a aseswyd dan a75 (aelwydydd sy'n gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac ag angen blaenoriaethol).

Aelwydydd dan fygythiad digartrefedd / a gaiff eu derbyn fel rhai digartref

- 3.5 Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd yn nifer y canlyniadau ym mhob un o'r prif gamau o'u cymharu â 2015-16¹⁶. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall aelwydydd gael eu cyfrif fwy nag unwaith os ydynt yn gwneud cais am gymorth ar fwy nag un achlysur yn ystod y flwyddyn, ac y tybir eu bod yn gymwys am gymorth. Bellach mae mwyafrif y canlyniadau'n digwydd dan a73 (dyletswydd i helpu sicrhau llety), yn wahanol i 2015-16 pan oedd y rhan fwyaf o ganlyniadau dan a66 (dan fygythiad digartrefedd). Mae'r prif resymau dros a66 ac a73 yn aros yr un fath, fodd bynnag. Y rhesymau pam fo aelwydydd dan fygythiad digartrefedd, yw colli llety rhent neu glwm (3,345 o aelwydydd), rhiant nad ydyw bellach yn gallu cartrefu eu plentyn neu'n anfodlon gwneud hynny (1,317 o gartrefi), a'r berthynas â'r partner wedi chwalu (1,137 o aelwydydd). Y rhesymau mwyaf cyffredin pam fo'r aelwydydd hynny a asesir yn ddigartref dan adran 73, yw bod y berthynas â'r partner wedi chwalu (2,304 o aelwydydd), ac yna golli llety rhent neu glwm (1,947 o aelwydydd), a rhiant nad ydyw bellach yn gallu cartrefu eu plentyn neu'n anfodlon gwneud hynny (1,668 o aelwydydd) .
- 3.6 Er bod nifer y rhai a aseswyd ag angen blaenoriaethol wedi cynyddu ers 2015-16, mae'n dal i fod â nifer isaf y prif ganlyniadau, oherwydd y pwyslais ar atal a chymorth i sicrhau. Mae'r prif resymau pam fo'r rhai ag angen blaenoriaethol yn ddigartref ym 2016-17 yn debyg i rai 2015-16, gan gynnwys: colli llety rhent neu glwm (540 o aelwydydd), y berthynas â'r partner wedi chwalu (453 o aelwydydd), a rhiant nad ydyw bellach yn gallu cartrefu eu plentyn neu'n anfodlon gwneud hynny (327 o aelwydydd).

¹⁶ Yn 2015-16, roedd cyfanswm nifer yr aelwydydd fel a ganlyn: 7128 (a66); 6891 (a73); 1,611 (a75).

Tabl 2: Prif reswm am ddigartrefedd (2016-17)

	Dan fygythiad digartrefedd (a66)	Aseswyd fel digartref (a73)	Ag angen blaenoriaethol (a75)
Rhiant bellach ddim yn gallu cartrefu eu plentyn neu'n amharod i wneud hynny	1,317	1,668	327
Perthnasau neu ffrindiau eraill nad ydynt bellach gallu eu cartrefu neu'n amharod i wneud hynny	870	1,452	222
Y berthynas â'r partner wedi chwalu (Cyfanswm)	1,137	2,304	453
Heb fod yn dreisgar	627	1,143	129
Treisgar	510	1,161	321
Trais ac aflonyddu	93	240	57
Cymhelliant hiliol	*	6	*
Oherwydd crefydd / cred	*	3	*
Oherwydd ailbennu rhywedd (hunaniaeth rhywedd)	*	*	*
Oherwydd hunaniaeth / cyfeiriadedd rhywiol	3	3	*
Oherwydd anabledd	*	6	*
Oherwydd rheswm arall	87	222	54
Ôl-ddyledion morgais (ailfeddiannu neu fath arall o golli cartref)	192	90	12
Ôl-ddyledion rhent ar anheddau'r sector cymdeithasol	393	159	9
Ôl-ddyledion rhent ar anheddau'r sector preifat	531	192	33
Colli llety rhent neu glwm	3,345	1,947	540
Yr eiddo presennol yn anfforddiadwy	249	63	18
Yr eiddo presennol yn anaddas	348	318	81
Person yn gadael carchar	159	1,323	144
Mewn sefydliad neu ofal (e.e. ysbyty, cartref preswyl, y fyddin ac ati)	234	357	63
Eraill (yn cynnwys pobl ddigartref mewn argyfwng, dychwelyd o dramor, cysgu allan neu mewn hostel)	336	771	114
Cyfanswm cartrefi	9,210	10,884	2,076

Noder: 1. * Mae eitem y data'n ddadlennol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi.

2. Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael eu hadnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Ffynhonnell: Stats Cymru

Angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd

- 3.7 Wrth archwilio aelwydydd ag angen blaenoriaethol yn ôl math o aelwyd, aelwydydd person sengl (1,005) sydd bennaf, ac yna aelwydydd rhiant sengl â phlant dibynnol (759), a chyplau â phlant dibynnol (201). Er bod y niferoedd cyffredinol wedi cynyddu o 2015-16, mae cyfran yr aelwydydd sydd ag angen blaenoriaethol yn eithaf tebyg yn ôl math o aelwyd. Yn fwy penodol, mae cyfran ychydig yn uwch o rieni sengl yn 2016-17 (37% o gymharu â 34% yn 2015-16), a chyfran ychydig yn is o gyplau â phlant dibynnol (10% o gymharu â 12% yn 2015-16) a chartrefi person sengl (48% o gymharu â 49% yn 2015-16)¹⁷.
- 3.8 Unwaith eto, mae'r rhesymau dros fod ag angen blaenoriaethol yn eithaf tebyg i 2015-16. Y prif reswm am aelwydydd person sengl yn ystod 2016-17 oedd bod aelod yn agored i niwed¹⁸, ac yna dianc rhag trais domestig neu fygythiad trais, a bod yn gyn-garcharor sy'n agored i niwed o ganlyniad i gael ei gadw yn y ddalfa. Y prif newidiadau oedd bod dianc rhag trais domestig neu fygythiad trais wedi cynyddu o 123 o aelwydydd (2015-16) i 147 o aelwydydd (2016-17), tra bod bod yn gyn-garcharor wedi gostwng o 129 o aelwydydd (2015-16) i 84 o aelwydydd (2016-17). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bu newidiadau i'r ffordd y casglwyd data ar gyn-garcharorion ar gyfer 2016-17¹⁹.

¹⁷ Yn 2015-16, y ffigurau oedd: aelwydydd person sengl (792), aelwydydd rhiant sengl â phlant dibynnol (543), a chyplau â phlant dibynnol (189).

¹⁸ Mae aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed yn cynnwys aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd henaint, anabledd corfforol neu salwch meddwl / anabledd dysgu, trais, camdriniaeth neu aflonyddu, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, a'r rhai dros 21 oed sy'n agored i niwed o ran pobl yn camfanteisio arnynt.

¹⁹ Disodlwyd 'cyn-garcharor nad oes ganddo lety i ddychwelyd iddo wedi iddo gael ei ryddhau o'r ddalfa' gan 'cyn-garcharor sy'n agored i niwed o ganlyniad i gael ei gadw yn y ddalfa' sef yr hyn a ddefnyddwyd ar ffurflen 2015-2016.

Tabl 3: Aelwydydd ag angen blaenoriaethol (Adran 75) yn ôl math o aelwyd (2015-16)

	Cwpl â phlant dibynnol	Aelwyd rhiant sengl â phlant dibynnol	Aelwyd rhiant sengl	Pob grŵp aelwyd arall	Cyfanswm
Aelwydydd â phlant dibynnol	195	660	Amherth.	9	864
Aelwydydd lle mae aelod yn feichiog ac nid oes plant dibynnol eraill	Amherth.	Amherth.	69	33	102
Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed	3	12	576	54	645
Person sy'n gadael gofal neu mewn perygl penodol o gael rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol neu'n ariannol arno, yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn ond dan 21	*	*	63	6	69
Person ifanc 16 neu 17 mlwydd oed	*	3	57	3	63
Person sy'n dianc rhag trais domestig neu fygythiad trais	*	84	147	6	237
Person sy'n gadael y lluoedd arfog	*	*	*	*	*
Aelwydydd sy'n ddigartref mewn argyfwng	*	*	6	*	6
Cyn-garcharor sy'n agored i niwed o ganlyniad i gael ei gadw yn y ddalfa	*	*	84	*	84
Cyfanswm yr aelwydydd	201	759	1005	111	2076

Noder: Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael eu hadnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Ffynhonnell: Stats Cymru

Camau a gymerir gan yr awdurdod lleol

- 3.9 Ledled Cymru, roedd cyfran yr achosion atal oedd yn llwyddiannus yn 62%. O ran lleddfu, mae cyfran yr achosion llwyddiannus yn gostwng i 41%, cyn codi eto i 81% ar gyfer rhyddhad cadarnhaol. Mae'r patrwm hwn yn debyg i raddau helaeth i hwnnw yn 2015-16 gan fod pwyslais ar atal yn hytrach na lleddfu ond bod gan ryddhau'r gyfradd llwyddo uchaf, yn rhannol oherwydd nifer llai'r cartrefi sy'n cyrraedd y cam hwn²⁰. Fodd bynnag, gallai'r cynnydd cyffredinol yn y canlyniadau yn a73, a nodir uchod, ynghyd â'r gyfradd llwyddo ychydig is olygu bod awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau yn lleddfu cartrefi ar hyn o bryd.
- 3.10 Yr ardaloedd sydd wedi nodi nifer uchaf yr achosion o lwyddo i atal yw Gwynedd, Sir Benfro, Caerffili, Ynys Môn ac Abertawe. Mae hyn yn gynnwys sylweddol mewn achosion llwyddiannus i Ynys Môn, ac i ryw raddau Sir Benfro, gan mai cyfraddau llwyddo o 60% a 69%, yn y drefn honno, oedd ganddynt yn 2015-16. Yn y tri awdurdod lleol arall, fodd bynnag, roedd canran yr achosion o lwyddo i atal yn is yn 2016-17 nag yn 2015-16. Yng

²⁰ Yn 2015-16 64.5% oedd cyfran yr achosion atal llwyddiannus 45.1% oedd yr achosion lleddfu a 79.7% yr achosion o gyflawni cadarnhaol.

Ngwynedd, roedd gostyngiad o 85% yn 2015-16 i 78% yn 2016-17, yn Abertawe roedd gostyngiad o 75% i 73%, ac yng Nghaerffili gostyngiad o 78% i 73%.

- 3.11 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu ansawdd y gwaith sy'n digwydd yn yr awdurdodau lleol. Yn wir, nid yw'r ystadegau'n dweud wrthym am fathau o achosion, yr adnoddau sydd ar gael, na'r pwysau y gallent eu hwynebu. Hefyd, nid yw'r data'n cyfeirio at waith a wnaed dan adran 60 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth), na'r gwaith a wneir sy'n arwain at rai penderfyniadau 'dim yn ddigartref'.

Tabl 4: Camau cadarnhaol a gymerwyd gan awdurdodau lleol (2016-17)

	Achosion llwyddiannus o atal (Adran 66) %	Achosion llwyddiannus o leddfu (Adran 73) %	Achosion o ryddhau cadarnhaol (Adran 75) %
Cyfartaledd Cymru	62	41	81
Abertawe	73	54	78
Blaenau Gwent	52	58	100
Bro Morgannwg	57	47	65
Caerdydd	52	27	92
Caerffili	73	46	82
Casnewydd	49	30	69
Castell-nedd Port Talbot	55	42	65
Ceredigion	71	48	61
Conwy	58	42	75
Gwynedd	78	66	71
Merthyr Tudful	61	36	100
Pen-y-bont ar Ogwr	67	47	57
Powys	61	44	75
Rhondda Cynon Taf	63	50	85
Sir Benfro	73	52	91
Sir Ddinbych	54	31	76
Sir Fynwy	58	50	95
Sir y Fflint	63	49	80
Sir Gaerfyrddin	64	43	83
Torfaen	50	28	61
Wrecsam	64	62	60
Ynys Môn	73	63	100

Ffynhonnell: Stats Cymru Llywodraeth Cymru

Mathau o gamau a gymerwyd

- 3.12 Fel gydag ystadegau 2015-16, mae gwaith ataliol wedi cynnwys llawer mwy o achosion o gael llety amgen (4,380 o aelwydydd) na chefnogi pobl i aros yn eu cartrefi presennol (1,338 o aelwydydd). Mae llety amgen wedi bod yn dai cymdeithasol awdurdod lleol (1,050 o aelwydydd) i'r rhan fwyaf o deuluoedd, ac yna lety yn y sector rhentu preifat trwy gynlluniau cymhelliant landlordiaid (939 o aelwydydd). Mae'r ffigur hwn yn drawiadol o ystyried mai dim ond 11 o'r 22 awdurdod lleol sydd wedi cadw eu stoc dai eu hunain. O'r herwydd, mae tai cymdeithasol awdurdodau lleol wedi goddiweddyd llety sector rhentu preifat ers ffurflenni data 2015-16, pan mai llety sector rhentu preifat, gyda chynlluniau cymhelliant landlordiaid, a heb gynlluniau landlordiaid, oedd y canlyniadau mwyaf cyffredin.
- 3.13 O'r rhai a gafodd gefnogaeth i aros yn eu cartrefi eu hunain, y camau mwyaf cyffredin (252 o aelwydydd) yw negodi neu eiriolaeth gyfreithiol. Mae datrys ôl-ddyledion rhent neu ffioedd gwasanaeth (243 o aelwydydd) yn dilyn hyn yn agos bellach. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn yn amlygu pa mor aml y mae awdurdodau lleol yn cynnig cymorth ariannol.
- 3.14 O ran lleddfu, tai cymdeithasol awdurdodau lleol (774 o aelwydydd) oedd y cam yr adroddwyd amlaf arno, ac yna lety sector rhentu preifat gyda chynllun cymhelliant landlordiaid (738 o aelwydydd). Awgryma hyn y defnyddir tai cymdeithasol fwy ar gyfer lleddfu, er yn 2015-16 dim ond y pedwerydd cam yr adroddwyd arno amlaf oedd hwn.

Tabl 5: Camau a gymerwyd i atal a lleddfu (2016-17)

Aros yn y cartref presennol	Ataliwyd	Lleddfwyd
Cyfryngu a chymodi	159	
O'r rhain, maent ar gyfer person ifanc	69	
Taliadau ariannol	156	
Cyngor ar Ddyledion a Chyngor Ariannol	102	
Datrys problemau Tai a Budd-dal Lles	138	
Datrys ôl-ddyledion rhent neu dâl gwasanaeth	243	
Mesur i atal camdriniaeth ddomestig	51	
Negodi neu eiriolaeth gyfreithiol i sicrhau bod rhywun yn gallu aros mewn llety yn y sector rhentu preifat	252	
Ymyriadau ôl-ddyledion morgais neu achub morgeisi	36	
Rhoi cymorth arall neu gefnogaeth arbenigol yng nghyswllt problemau	198	
Cyfanswm: Aros yn y cartref presennol	1,338	
Cael llety amgen		
Unrhyw fath o lety â chymorth nad yw'n hunangynhwysol	117	540
Llety sector rhent preifat gyda chynllun cymhelliant landlordiaid *	939	738
Llety sector rhent preifat heb gynllun cymhelliant landlordiaid	942	717
Llety wedi'i drefnu gyda ffrindiau, perthnasau neu ddychwelyd adref	315	420
Llety â chymorth hunangynhwysol	126	435
Tai Cymdeithasol - Awdurdod Lleol	1,050	774
Tai Cymdeithasol – Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	795	720
Cynllun perchnogaeth tai cost isel, Ateb tai marchnad cost isel	6	3
Cymorth neu gefnogaeth arall	90	153
Cyfanswm: Cael llety amgen	4,380	4,500
Cyfanswm cyffredinol	5,718	


Noder: 1. * Er enghraifft, bond diarian, ffi canfyddwr, taliad blaendal, rhent ymlaen llaw, taliad yswiriant landlord. 2. Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael eu hadnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm. Ffynhonnell: Stats Cymru Llywodraeth Cymru

Llety dros dro

- 3.15 Hyd at 31 Mawrth 2017, roedd cyfanswm o 2,013 o aelwydydd wedi'u cartrefu dros dro, sy'n gynnwys o 138 o aelwydydd ar yr un cyfnod yn 2016²¹. Unwaith eto, roedd y mwyafrif mewn llety preifat (786 o aelwydydd). Mae'n dal yn wir fod llai o deuluoedd â phlant mewn llety dros dro, o'i gymharu ag aelwydydd eraill. Mae yna hefyd dueddiadau tebyg i 2015-16 o ran ers faint y mae aelwydydd wedi bod mewn llety dros dro, gyda dros ddwy ran o dair o aelwydydd, sy'n cael llety dros dro, yn y llety hwnnw am gyfnod o hyd at chwe mis.

²¹ Mae'r ffigurau diweddaraf o Stats Cymru'n datgelu bod 2,088 o aelwydydd wedi cael llety dros dro ym Medi 2017. Nid yw'r ffigurau hyn wedi'u defnyddio yma gan na ellir dadansoddi'r data yn ôl hyd amser mewn llety dros dro.

Ffigur 3: Hyd a math o lety dros dro yn ôl math o aelwyd (2016-17, Ion-Mawrth)



Noder: 1. Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael eu hadnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm. 2. Nid yw'n cynnwys ffigurau o lai na thair aelwyd a ddangosir fel seren ar Stats Cymru.

Ffynhonnell Stats Cymru Llywodraeth Cymru

Nodweddion Demograffig

- 3.16 Wrth archwilio canlyniadau yn ôl rhywedd, dylid nodi yn gyntaf mai parhau mae'r achos bod mwy o aelwydydd benywaidd yn cael canlyniadau na gwrywaidd. Fel yn 2015-16, o'r rhai a gafodd ganlyniad cadarnhaol yn y camau atal a rhyddhau, merched oedd y mwyafrif. Yn fwy penodol, roedd y cyfansymiau merched yn 3,576 ar gyfer atal a 1,107 ar gyfer rhyddhau cadarnhaol (63% a 66% o'r cyfansymiau priodol). Dynion oedd mwyafrif y rhai a gafodd ganlyniad cadarnhaol yn y cyfnod lleddfu (2,418 o aelwydydd; 54% o'r cyfanswm).

3.17 324 a 246 yw nifer aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael canlyniadau cadarnhaol yn y cyfnodau atal a lleddfu. 6% a 5% o achosion yn y cyfnodau priodol yw hyn, sy'n is na'r 7% o achosion cyffredinol o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. O ran rhyddhau cadarnhaol, mae'r ffigurau ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (240) yn codi i 14% o achosion. Mae'r ffigurau hyn yn eithaf tebyg i'r rhai ar gyfer 2015-16, pan oedd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) fel a ganlyn: atal 6%, lleddfu 7%, a rhyddhau cadarnhaol 15%.

Tabl 6: Demograffeg atal, lleddfu a rhyddhau cadarnhaol (2016-17)

Rhywedd a grwpiau oed		Atal	Lleddfu	Rhyddhad cadarnhaol	Total
Benyw	16-17 oed	69	78	33	183
6765 (57%)	18-24 oed	843	603	339	1,785
	25 oed a throsodd	2,664	1,398	735	4,797
	Cyfanswm menywod	3,576	2,079	1,107	6,765
Gwryw	Oed 16-17 oed	45	66	27	138
5097 (43%)	Oed 18-24 oed	357	504	84	948
	Oed 25 oed a throsodd	1,713	1,845	456	4,014
	Cyfanswm gwrywod	2,115	2,418	567	5,097
Oed anhysbys		27	*	*	30
Cyfanswm Menywod, Gwrywod ac Anhysbys		5,718	4,500	1,674	11,892
Ethnigrwydd					
Gwyn					
10026 (84%)		4,923	3,789	1,311	10,026
BME	Cymysg	24	36	30	93
810 (7%)	Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	81	45	48	171
	Du neu Ddu Brydeinig	114	93	72	279
	Grŵp ethnig arall	105	72	90	267
	Cyfanswm BME	324	246	240	810
Ethnigrwydd anhysbys		468	465	120	1,056
Cyfanswm Gwyn, BME ac anhysbys		5,718	4,500	1,674	11,892

Noder: 1. * Mae eitem y data'n ddadlennol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi. 2. Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael ei adnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Ffynhonnell: Stats Cymru Llywodraeth Cymru

Rhyddhad cadarnhaol

3.18 Fel y nodir uchod, nid yw rhyddhad cadarnhaol o reidrwydd yn golygu bod y cartrefi hynny wedi dod o hyd i lety. Fodd bynnag, mae cyfran yr aelwydydd ag angen blaenoriaethol sy'n derbyn cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (1,410 allan o 2,076 o aelwydydd) yn

parhau i gynyddu²², sy'n awgrymu y gallai dewisiadau amgen fod yn gyfyngedig i aelwydydd sy'n cyrraedd y cam hwn. Yn wir, gweddol fychan yw'r niferoedd sy'n derbyn cynnig sector preifat (201). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai yn a75 yn unig y mae rhai cynlluniau dyrannu yn cynnig llety i bobl ddigartref ac, felly, canlyniad i nifer fechan yr opsiynau sydd ar gyfer pobl ddigartref cyn y cam hwn yw'r ffigurau hyn i ryw raddau.

- 3.19 O'r rheiny na chafodd gynnig llety, mae'r rheswm mwyaf cyffredin yr un fath â hwnnw yn 2015-16: gadael y llety'n wirfoddol (156 o aelwydydd). At ei gilydd, mae cyfran yr aelwydydd y tybir eu bod yn ddigartref yn fwriadol (84 aelwydydd) wedi gostwng ers 2015-16 pan oedd 90 o aelwydydd ac mae'r gyfran sy'n gwrthod cydweithredu hefyd wedi gostwng rhyw fymryn o 2.1 y cant i 1.6 y cant, gyda'r nifer yn aros heb newid ar 33 o aelwydydd²³.

Tabl 7: Rhesymau dros gyflawni dyletswydd dan adran 75 (2016-17)

Rheswm	Nifer
Wedi peidio â bod yn gymwys	18
Tynnu'r cais yn ôl	78
Camgymeriad ffaith	*
Wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety a ddarperir dan adran 75	84
Derbyniwyd cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (rhan vi Deddf Tai 1996)	1,410
Derbyniwyd cynnig sector preifat	201
Yn wirfoddol, peidiodd â meddiannu llety sydd ar gael dan adran 75	156
Gwrthod cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (Rhan VI 1 Deddf Tai 1996)	81
Gwrthod cynnig o lety addas yn y sector rhentu preifat	9
Gwrthod cynnig o lety interim addas dan adran 75	6
Gwrthod cydweithredu	33
Cyfanswm	2,076

Noder: 1. * Mae eitem y data'n ddadlennol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi. 2. Mae'r holl ffigurau wedi'u crynhoi'n annibynnol i'r 3 agosaf i ddiogelu unigolion rhag cael eu hadnabod. O ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaeth rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Ffynhonnell: Stats Cymru Llywodraeth Cymru

Crynodeb

- 3.20 Er bod cyfyngiadau yn y graddau y gellir gwneud cymariaethau oherwydd materion ansawdd data blaenorol, gellir gweld nifer o newidiadau allweddol o ddata 2015-16:

²² Derbyniodd 67.9% o aelwydydd gynnig o lety yn 2016-17, o gymharu â 66.6% yn 2015-16.

²³ Tybiwyd bod 4.1% o aelwydydd a ryddhawyd dan adran 75 yn 2016-2017 wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety a ddarperir dan adran 75, o gymharu â 5.8% yn 2015-16. Ystyriwyd bod 1.6% o aelwydydd wedi gwrthod cydweithredu yn 2016-17, o gymharu â 2.1% yn 2015-16.

- Bu cynnydd yn nifer y canlyniadau a gofnodwyd ym mhob cam o gymharu â 2015-16. Mae mwyafrif y canlyniadau'n digwydd dan a73 bellach (dyletswydd i helpu i sicrhau llety).
- Mae gosod tai cymdeithasol awdurdodau lleol wedi goddiweddyd llety sector rhentu preifat fel y cam a gymerir amlaf i atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn drawiadol o ystyried mai dim ond 11 o'r 22 awdurdod lleol sydd wedi cadw eu stoc tai eu hunain.
- Mae cyfran yr aelwydydd y tybir eu bod wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ac sy'n gwrthod cydweithredu wedi gostwng yn a75.

3.21 Fodd bynnag, mae nifer fawr o gysylltiadau hefyd â data 2015-16. Dyma nhw:

- Cartrefi person sengl yw'r rhan fwyaf o'r aelwydydd ag angen blaenoriaethol o hyd, ac yna aelwydydd rhiant sengl â phlant. Nid yw'r rhesymau dros fod ag angen blaenoriaethol wedi newid: oherwydd bod aelod o'r teulu yn agored i niwed, ac yna dianc rhag trais yn y cartref neu fygythiad trais yn y cartref.
- Mae gwaith ataliol yn parhau i gynnwys llawer mwy o achosion o gael llety amgen na chefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Er bod ychydig o gynnydd wedi bod mewn defnyddio llety dros dro, mae patrymau defnyddio llety yn aros yr un fath. Nid yw mwyafrif yr aelwydydd mewn llety dros dro yn cynnwys plant, maent mewn llety yn y sector preifat, ac maent yn y llety hwnnw am lai na chwe mis.
- Mae mwy o aelwydydd benywaidd na gwrywaidd yn cael canlyniadau – parhau mae hyn. Fodd bynnag, dynion yw mwyafrif y rhai sy'n derbyn canlyniadau yn y cyfnod lleddfu.
- Mae aelwydydd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn dal i gael eu tangynrychioli mewn canlyniadau yn y camau atal a lleddfu, ond maent yn cael eu gorgynrychioli yn y cam rhyddhad cadarnhaol.
- Mae cyfran yr aelwydydd ag angen blaenoriaethol sy'n derbyn cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu'n parhau i gynyddu. Er y gallai hyn awgrymu y gallai dewisiadau amgen fod yn gyfyngedig i aelwydydd sy'n cyrraedd y cam hwn, mae hefyd yn rhannol oherwydd nad oedd llawer o opsiynau cyn y cam hwn - yn enwedig gan mai yn a75 yn unig yr oedd rhai cynlluniau dyrannu yn cynnig llety i bobl ddigartref.

4. Effeithiau a Phrosesau'r Ddeddf


Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau, ymgynghoriadau â darparwyr gwasanaethau sy'n cynrychioli'r sector statudol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r trydydd sector ar draws chwe awdurdod lleol, ac arolygon gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru. Cyflwynir barn a phrofiadau darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phrosesau ac effeithiau'r Ddeddf, tra bod canfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau'n datgelu profiadau personol o ddarpariaethau'r Ddeddf, o ran sut yr oeddynt yn ymwneud â'r broses a'r effaith ar eu bywydau. Mae'n bwysig nodi nad oedd defnyddwyr gwasanaethau bob amser yn gallu esbonio neu gyfleu dealltwriaeth lawn o'u llwybr tai, gan nad oeddent yn ymwybodol o fanylion y ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, nid oeddent bob amser yn deall eu hamgylchiadau, er enghraifft, a ystyriwyd eu bod ag angen blaenoriaethol neu'n bod yn fwriadol ddigartref; neu oedd eu digartrefedd wedi'i atal neu ei leddfu.
- 4.2 Mae'r bennod wedi'i strwythuro fel a ganlyn: yn gyntaf trafodir y canlyniadau tai ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ers y don gyntaf o waith maes; yna, caiff darpariaethau canlynol y Ddeddf eu gwerthuso gan dynnu oddi ar ddata ar draws carfanau awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau: Atal; Camau Rhesymol; Methu Cydweithredu a Dod â'r Ddyletswydd i ben; Ymestyn y ddyletswydd i 56 diwrnod; Bwriadoldeb, Angen Blaenoriaethol a Chysylltiad Lleol; Cymorth i Sicrhau; a Dyletswydd i Sicrhau.

Canlyniadau tai i ddefnyddwyr gwasanaethau


- 4.3 O'r 62 o ddefnyddwyr gwasanaethau yr oedd eu hamgylchiadau tai yn cael eu dilysu'n uniongyrchol trwy gyfweiliad yn y cyfweiliadau ail don, roedd y gyfran fwyaf o lawer wedi ei lleoli mewn tai cymdeithasol (24 o bobl). Dywedwyd bod naw o bobl ychwanegol wedi symud i dai cymdeithasol gan ddarparwyr gwasanaethau / cysylltiadau eraill sy'n gwneud cyfanswm o 33. Mae hyn ychydig dros hanner y bobl hynny y gellid cadarnhau eu hamgylchiadau tai yn ail gam yr ymchwil. Yr ail rif uchaf (17 o bobl) oedd y rhai a ganfu llety yn y sector rhentu preifat. Felly, roedd 50 allan o 154 o bobl wedi symud i lety sefydlog. At ei gilydd, dilyswyd amgylchiadau tai 90 o bobl gyda sefyllfa 64 o bobl yn anhysbys.

Ffigur 4: Canlyniadau Tai




4.4 Cafwyd amrywiadau sylweddol ymhlith y chwe ardal astudiaeth achos o ran canlyniadau tai i ddefnyddwyr gwasanaethau. Er bod y gwahaniaethau'n cael eu harchwilio'n fanylach isod, mae Ffigurau 5 i 10 yn rhoi syniad cychwynnol o ganlyniadau fesul ardal.


Ffigurau 5 i 10: Canlyniadau tai yn ôl ardal awdurdod lleol




Canlyniadau Tai Ardal 2 (cysylltiadau uniongyrchol nifer=12, cysylltiadau anuniongyrchol nifer=2)




Canlyniadau Tai Ardal 3 (cysylltiadau uniongyrchol nifer=7, cysylltiadau anuniongyrchol nifer=8)




Canlyniadau Tai Ardal 4 (cysylltiadau uniongyrchol nifer=9, cysylltiadau anuniongyrchol nifer=0)



Canlyniadau Tai Ardal 5 (cysylltiadau uniongyrchol nifer=14, cysylltiadau anuniongyrchol nifer=2)



Canlyniadau Tai Ardal 6 (cysylltiadau uniongyrchol nifer=6, cysylltiadau anuniongyrchol nifer=8)



4.5 Ar draws pob un o ardaloedd yr astudiaeth achos, gellir disgrifio bron pob defnyddiwr gwasanaeth fel rhywun sy'n agored i niwed mewn rhyw ffordd, gan iddynt fod ag ystod o faterion iechyd meddwl a chorfforol. Roedd gan ddeg ymatebwr anabledau corfforol sylweddol; 13 broblemau iechyd meddwl difrifol ac roedd gan chwech o bobl broblemau gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol. Dim ond dau o'r defnyddwyr gwasanaethau oedd heb gael eu heffeithio'n sylweddol gan y materion hyn, ac roedd gan y ddau hyn blant dibynnol.

4.6 Yn y don gyntaf o waith maes, roedd yr awdurdod lleol yn gweithio i atal digartrefedd mewn 31 o achosion ac i ddod o hyd i dai i'r rhai oedd eisoes yn ddigartref mewn 98 o achosion. Roedd pedwar ar hugain o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi dod o hyd i dai yn ddiweddar, ond roedd y rhai yn y sector rhentu preifat yn dal i deimlo'n ansicr gan aros ar y rhestrau aros am dŷ cymdeithasol. O'r 57 aelwyd a gafodd eu hailgyfweld, roedd 11 wedi bod yn wynebu digartrefedd, roedd 32 wedi bod yn ddigartref, ac roedd 13 wedi dod o hyd i dŷ adeg y cyfweiliad cyntaf yn nhon 1. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth wedi bod yn ddigartref oherwydd bod ei berthynas wedi chwalu, ond dychwelodd at y partner ar ôl gwrthod cynnig o dŷ cymdeithasol.

- 4.7 Ymddengys bod y gwahaniaeth o ran canlyniadau tai defnyddwyr gwasanaethau'n ddibynnol ar sawl factor, megis y galw am dai rhent cymdeithasol a phreifat, ac ymatebolrwydd staff unigol. Er enghraifft, cefnogwyd cwpl oeddrannus sy'n wynebu cael eu troi allan o lety rhent preifat gan fudiad trydydd sector a'u hailgartrefu gan landlord cymdeithasol cofrestredig:

'Mi ddaethon nhw [sefydliad y trydydd sector] draw a chael gafael ar y gymdeithas dai, mi gawson nhw afael, neu mi wnaethon nhw geisio cael gafael, ar rai landlordiaid preifat a doeddwn i'm yn cael i nunlle gyda landlordiaid preifat o gwbl. Daeth y gymdeithas dai, wythnos cyn i mi gael fy - neu pan ddaeth y gwerthiant i ben, roedd yn bum diwrnod mewn gwirionedd, daeth i fyny a rhoi i mi ... yr allweddi i'r tŷ hwn' (DG, A4)

- 4.8 Yn ardal un, roedd rhan fwyaf y defnyddwyr gwasanaethau wedi treulio amser mewn llety dros dro cyn ymgartrefu mewn tai mwy parhaol. Roedd yr awdurdod lleol wedi defnyddio taliadau tai dewisol i dalu am y gwahaniaeth rhwng budd-dal tai a rhenti'r sector preifat yn achos un person a roddwyd yn y sector rhentu preifat. Cafodd defnyddiwr gwasanaethau arall, a fu'n ddigartref o bryd i'w gilydd ers blynnyddoedd lawer, gefnogaeth gan yr awdurdod lleol, sef cyfryngu parhaus rhyngddo ef a'i landlord preifat:

'Rhent preifat ydi o ac rwy'n meddwl bod y cyngor wedi sicrhau bod y pryderon yr wyf wedi'u cael am y landlord yn troi rownd, o bosib, a dod â thenantiaeth i ben oherwydd cwyn neu gamddealltwriaeth neu unrhyw beth, dw i'n meddwl bod y cyngor wedi datrys hynny i mi' (A1)

- 4.9 Fodd bynnag, yn ardal dau, er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi nodi pwysau sylweddol gan yr awdurdod lleol i symud i'r sector preifat (a gwnaeth pump hynny yn y pen draw), nid oedd yr un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdod lleol i wneud hynny. Arhosodd dau o bobl yn y llety yr oeddent yn byw ynddo yn y don gyntaf o'r gwaith maes gan ddweud eu bod wedi cael eu dal mewn amgylchiadau lle'r oedd tai'n orlawn ac amodau'n ansefydlog.

- 4.10 Gwelwyd yr achosion mwyaf o gysgu allan yn ardaloedd tri a chwech. Yn ardal tri, roedd 11 o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi treulio amser yn cysgu allan, yn bennaf oherwydd bod y berthynas â'r teulu wedi chwalu, cyn cael cymorth gan yr awdurdod lleol neu le mewn hostel. Dim ond un person a gafodd ei gyfweld a ddywedodd ei fod yn cael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol i symud i'r sector rhentu preifat. Yn ardal chwech, ymddengys hefyd y bu nifer uchel o unigolion yn symud rhwng gwahanol fathau o lety

dros dro a threulio amser yn cysgu allan. Yn yr ardal hon, dim ond un defnyddiwr gwasanaethau (rhan o gwpl) a gafodd gynnig tŷ cymdeithasol yn dilyn adfeddiannu eu llety sector preifat.


- 4.11 Yn ardal 5, ail-gartrefwyd 11 o bobl mewn tai rhent preifat neu gymdeithasol, a chafodd dau berson gymorth gyda blaendal rhent. Er enghraifft, roedd un cwpl ifanc oedd yn disgwyl babi yn gallu symud o lety a rennir i gartref newydd pan oedd denantiaeth yn dod i ben:

'Fe wnaethon nhw dalu am y bond ar y tŷ, am y blaendal ... mae'n sicr, mae mewn cymdogaeth braf. Mae'n agos at y teulu' (DG, A5)

Agweddau tuag at atal

- 4.12 Mae'r Ddeddf wedi newid y ffordd y mae Timau Atebion Tai yn gweithio gyda phobl sy'n ddigartref / dan fygythiad digartrefedd (Shelter Cymru, 2015) yn sylfaenol. Mae atal yn dynodi unrhyw ymyriadau sy'n osgoi digartrefedd, er y gall hyn orsymleiddio'r cymhlethdod ac ystod y gweithgarwch a gynhelir (Mackie, 2015). Yn flaenorol, roedd atal y tu allan i'r ddeddfwriaeth, mae bellach wrth wraidd y Ddeddf, ac erbyn hyn mae mwy o hyblygrwydd yn y modd y gall awdurdodau lleol ymyrryd i fynd i'r afael ag achosion digartrefedd. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth hyd yma fod amrywiaeth sylweddol mewn dulliau mewn awdurdodau a rhwng awdurdodau (Shelter Cymru, 2016; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).
- 4.13 Dengys canfyddiadau arolwg o'r awdurdodau lleol - fel y gwelir yn y siart isod - bod mwyafrif clir yn teimlo bod eu hawdurdod lleol yn gwneud gwaith mwy ataliol, bod hyn yn fwy cynhwysol ac effeithiol. Dywedodd mwyafrif llai fod y gwaith ataliol a wneir yn fwy effeithiol.

Ffigur 11: Barn am waith ataliol (Nifer=22)



4.14 Nododd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol mai un cryfder sylfaenol y Ddeddf oedd 'bod rhaid i bawb gael asesiad os ydynt yn dod i mewn a'u bod dan fygythiad' (ALI, A2) a bod awdurdodau lleol dan 'ddyletswydd i gynorthwyo mwy o bobl, felly mae hynny o fudd i'r cyhoedd' (ALI, A3). Y gred oedd bod yr agenda atal yn gweithio i lawer o bobl, ac yn sicr roedd mwy o bobl yn gymwys am gymorth na than y ddeddfwriaeth flaenorol.

4.15 Rhoes mwyafrif llethol darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector groeso i'r pwyslais ar atal. Fel y nododd un person 'Rwy'n meddwl bod y symudiad tuag at atal, ymyrraeth gynnar yn wirioneddol gadarnhaol' (ALI, A3). Disgrifiodd darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol arall atal fel 'cryfder mawr i ni. Mae'n help mawr i ni' (ALI, A3). Mynegodd darparwr gwasanaethau arall y manteision o weithredu'n ataliol nad oedd bellach yn golygu gwirio mynediad at wasanaethau. Y teimlad oedd bod hyn yn wahanol i'r fframwaith blaenorol lle'r oedd arferion bob dydd (megis gwneud penderfyniadau) wedi'u gwreiddio yn y ddeuliaeth dyletswydd / dim dyletswydd:

'Yn amlwg, rydych chi'n ceisio'ch gorau i'r person hwnnw, ac mae'n troi mwy o amgylch atal. Mae'n golygu symud oddi wrth jesd gwneud penderfyniad ynghylch a oes gennych chi ddyletswydd ai peidio. Mae'n troi mwy o amgylch atal, a chael y canlyniadau cywir, felly rwy'n meddwl bod hynny wedi bod yn gadarnhaol.' (ALI, A1)

4.16 Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau na fu unrhyw newidiadau sylweddol ers cyflwyno'r Ddeddf oherwydd bod gwaith atal eisoes yn cael ei wneud yn eu hawdurdod lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cyfnod blaenorol yr ymchwil lle

dywedodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) a Chefnogi Pobl fod atal eisoes wedi'i ymgorffori yn eu hagendâu a'u hymarfer. Rhoes un darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eglurhad i hyn gan ddatgan 'o ran ein rôl, yn amlwg, nid ydym wedi gweld newid mawr, oherwydd roeddem yn gwneud llawer o'r pethau beth bynnag' (LCC, A3).

- 4.17 Dywedodd darparwr gwasanaethau'r awdurdodau lleol arall bod cydbwysedd y cyfrifoldeb rhyngddyn nhw a defnyddwyr gwasanaethau wedi newid er bod gwaith atal eisoes yn cael ei wneud:

'Rydym eisoes yn gwneud cryn dipyn o waith atal. Rydyn ni'n rhoi llawer iawn o'r baich ar yr unigolion nawr i geisio dod o hyd i ateb i'w problemau. Rydym yn ceisio peidio â bod yn gyngor sy'n datrys popeth iddyn nhw ac mae hynny'n eithaf heriol.' (ALI, A2)

- 4.18 Teimlai darparwyr gwasanaethau ar draws y sector statudol, y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector nad oedd rhywfaint o waith atal a wnaed eisoes yn cael ei gipio'n effeithiol nac yn cael ei gydnabod yn briodol: 'mae yna lawer o waith atal sy'n digwydd nad yw'n cael ei gipio'n unlle'. (ALI, A3). Atgyfnerthwyd hyn gan Bennaeth Gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a bwysleisiodd y rôl bwysig y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi ei chwarae yn hanesyddol mewn cynnal ac atal tenantiaeth er na châi hyn bob amser ei gydnabod:

'Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu cydnabod am y cyfraniad y maen nhw'n ei wneud i'r agenda atal, a hefyd y ffaith eu bod yn rhagweithiol iawn pan fo materion yn codi a gallwch weld bod tenantiaethau'n methu.' (LCC, A3)

Awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau ataliol

- 4.19 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, nododd yr ymatebion fod ystod o wasanaethau ataliol yn cael eu cynnig ar draws yr awdurdodau lleol, fel y gwelir yn y ffigur isod. Mae cymysgedd gymharol gyfartal o wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol a'r rhai a ddarperir gan sefydliadau eraill. Y gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gael eu cynnig yn fewnol yw gwybodaeth a chyngor; negodi gyda landlordiaid preifat / cymdeithasol; taliadau trwy grant neu fenthyciad; rhaglenni i gynyddu nifer y lletyau fforddiadwy sydd ar gael; a gwarantau y caiff taliadau eu gwneud. Cymorth gyda rheoli dyledion, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent; trafod gyda landlordiaid preifat / cymdeithasol; gwybodaeth a chyngor; a thaliadau trwy grant neu fenthyciad yw'r


math o weithgarwch ataliol y dywedwyd amlaf eu bod wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ac eithrio cymorth wrth reoli dyledion, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent, gwasanaethau a ddarperir yn fewnol yw'r rhain yn bennaf.

Ffigur 12: Darparu gwasanaethau ataliol (N=22)

Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a restrir isod, i gynorthwyo i atal ymgeisydd rhag dod yn ddigartref dan adran 66 o'r Ddeddf, nodwch a yw hyn trwy ddarpariaeth Awdurdod Lleol neu ddarpariaeth nad yw'n un Awdurdod Lleol


■ Darpariaeth Awdurdod Lleol

■ Darpariaeth nad yw'n Awdurdod Lleol



Ffigur 13: Cynnydd mewn darparu gwasanaethau ataliol yn y flwyddyn ddiwethaf (N=22)

Nodwch hefyd a yw gwaith darparu'r gwasanaeth hwn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



4.20 Yn gyson â'r ymatebion gan yr awdurdodau lleol, nododd darparwyr gwasanaethau weithgarwch atal penodol yr oeddynt yn ymwneud â nhw'n arferol. Maent fel a ganlyn:

- Cyllidebu a rheoli dyledion.
- Ôl-ddyledion rhent ac adneuron / bondiau rhent.
- Cyngor ar fudd-daliadau lles ac adolygiadau ohonynt.
- Cyngor ar dai.
- Cyfeirio at Ateb Tai.
- Cyfeirio at weithwyr cymorth fel y bo'r angen.

- Cyfeirio at weithwyr cyn-denantiaeth.
- Cyfryngu â landlordiaid (yn enwedig yn y sector rhentu preifat).
- Cyfryngu gydag aelodau o rwydweithiau anffurfiol (teulu a ffrindiau).

4.21 Mae modd rhoi'r gweithgarwch hwn yn y categorïau bras a ganlyn:

- Cyngor a chymorth cyffredinol;
- cyngor a chefnogaeth ariannol; a
- cyfeirio at asiantaethau cefnogi eraill.

4.22 Er bod naw defnyddiwr gwasanaethau ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol yn nodi y cawsant addewid o gefnogaeth ariannol ar ffurf blaendal a rhent y mis cyntaf wrth symud i lety rhent preifat, tri pherson gafodd hyn mewn gwirionedd. Cafodd pum defnyddiwr gwasanaethau ddodrefn gan yr awdurdod lleol ar ôl iddynt dderbyn cynnig o lety.

4.23 Disgrifiwyd atal mewn sawl ffordd gan ddarparwyr gwasanaethau ac, yn aml, o ran gweithredu'n greadigol wrth ddatrys problemau: *'beth bynnag fo'r broblem sydd gennym, cawn weld a oes ffordd o'i chwmpas'* (ALI, A1). Yn ychwanegol at yr athroniaeth ragweithiol o ddatrys problemau y credir ei bod wedi'i hymgorffori yn y ddyletswydd atal, disgrifiodd un arall hi fel hyrwyddo *'dull gweithredu'n gyfannol'* (ALI, A1).

4.24 Yn hytrach na disgrifio ymyriadau dan ymbarél atal, rhoddwyd atal yng nghyd-destun canlyniadau gan rai darparwyr gwasanaethau ac, yn yr achos hwn, fel osgoi cael eich troi allan o lety, dod o hyd i lety dros dro ac atebion tai tymor hir:

'Pobl ... yn dod i'r awdurdod ac yn dweud eu bod yn ddigartref ac wedi cael eu troi allan o leodd ac nid yw'n digwydd gymaint y dyddiau hyn. Rwy'n credu eu bod yn gwneud llawer mwy o ymdrech i atal pobl rhag mynd yn ddigartref o'u llety eu hunain, wyddoch chi.' (ALI, A1)

4.25 Fodd bynnag, dywedodd sawl darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fod gwrthdaro posib rhwng agendâu sy'n anghyson â'i gilydd. Er enghraifft, gallai atal weithiau fod yn groes i faterion cynaliadwyedd cymunedol ehangach. Mae'r sylwadau a ganlyn gan un darparwr gwasanaethau'n dangos sut ceir y cydbwysedd hwn a sut bod osgoi cael eich troi allan yn hollbwysig wrth atal digartrefedd, ond mae angen cael cydbwysedd rhwng hyn â buddiannau trigolion eraill a'r gymdogaeth ehangach:

'I ni, mewn gwirionedd, [Atal] yw'r gwrthdaro rhwng cynnal y denantiaeth, rheoli tenantiaethau – ac mewn gwirionedd, yn y pen draw, landlord cymdeithasol ydyn ni; nid ydyn ni yma i weld pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref; rydyn ni yma i roi llety i bobl

ddigartref yn ogystal ag i bawb arall sydd ar y gofrestr - ond mae gennym ddyletswydd i'n tenantiaid, mae gennym ddyletswydd i'r gymuned. O ran achosion dadfeddiannu, hwn yw'r pwynt olaf, go iawn' (LCC, A1)

- 4.26 Soniodd nifer o ddarparwyr gwasanaethau am ddefnyddio cyfryngu fel ffurf o atal ac fe'i nodwyd fel ymyriad allweddol a fyddai'n cynorthwyo i reoli ystod o faterion a gododd gyda landlordiaid (yn enwedig y rhai yn y sector rhentu preifat):

'[O] gyfryngu rhwng tenantiaid, landlord, ceisio achub [tenantiaeth] ... Materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu gyflwr eiddo, byddwn yn camu i mewn' (ALI, A1)

- 4.27 Disgrifiodd darparwr gwasanaethau arall gyfryngu gydag asiantaethau statudol eraill yn ogystal â gydag adrannau awdurdodau lleol eraill:

'Mae rhywun wedi mynd i'r carchar, byddwn ni'n cysylltu â'r carchar, gyda'r tenant, i weld a oes modd ei arbed, gweld a ydyn nhw'n cwrdd â'r budd-dal tai 13 wythnos. Os nad ydyn nhw, fe welwn a yw'n ymarferol i ni dalu, ac ydyw'n gynaliadwy.' (ALI, A1)

- 4.28 Y maes cymorth allweddol arall a ddarperir gan awdurdodau lleol oedd gwneud y mwyaf o fudd-daliadau'r oedd gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl iddynt. Ymddengys bod ardaloedd un a phump wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth, gyda phum defnyddiwr gwasanaethau ar draws y meysydd hyn yn nodi eu bod wedi derbyn y math hwn o gefnogaeth atal. Yng ngeiriau un defnyddiwr gwasanaethau oedd yn gofalu am fab anabl:

'Pan fyddwch chi'n cael budd-dal tai, dim ond £400 y mis y cewch chi ac mae'r llefydd yn mynd am rhwng £500 a £600 y mis, ac mi ddywedon nhw, wel os rhowch [eich mab] ar y rhestr, mae o'n cael hanner, byddwch chi'n cael hanner, felly fe wthiodd hwnnw o i fyny, felly nawr mi allwn ni gael yr un yma. Mae hyn yn £520 ond mi allen ni fynd yn uwch mewn gwirionedd os oedd angen, ond nid oes angen i ni ... Y person o'r cyngor a esboniodd hyn, fo oedd yn siarad amdano. Yna mae gennych chi'ch ôl-ddyledion rhent, felly cysylltu â budd-daliadau tai, landlordiaid eto, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yno ... Eto, gyda dyledion morgais, ceisio gweld oes unrhyw deulu, ffrindiau, unrhyw gynlluniau achub morgeisi ar gael.' (DG, A1)

- 4.29 Tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw at atgyfeirio ac atgyfeiriadau at wasanaethau perthnasol fel mesur ataliol pwysig mewn perthynas â gwneud y gorau o fudd-daliadau lles:

'Mae gennym ni bellach dîm lles mewnol hefyd. ... Rydym yn eu hatgyfeirio, yn tydyn i'r tîm lles, ac yna efallai y bydden nhw'n cynnal asesiad i weld ydi rhywun yn gymwys am fwy o fudd-dal. Rwy'n meddwl bod yr holl swyddogion tai yn gwybod pa fudd-daliadau sydd ar gael, ond nid ydyn nhw o reidrwydd wedi cael yr amser i allu gwneud yr achosion unigol. Dyna sy'n gweithio'n dda iawn; mae'n ddull gweithredu'n gyfannol yng nghyswllt rheolaeth ariannol.' (LCC, A1)

4.30 Roedd rôl y gefnogaeth fel y bo'r angen yn cyd-fynd yn amlwg ag atal, ac ar draws safleoedd yr astudiaeth achos roedd amrywiad yn y ffordd y câi hyn ei gontractio a'i drefnu. O'r herwydd, roedd gan ddarparwyr gwasanaethau farn gymysg am y ffyrdd yr oedd cefnogaeth fel y bo'r angen yn gweithio'n dda o fewn yr agenda atal. Lle nad oedd cefnogaeth ar y gweill yn gweithio cystal, roedd yn ymddangos ei fod yn gysylltiedig â'r ffordd y câi ei reoli neu ei gontractio yn hytrach nag ag union ansawdd darparu'r gwasanaeth.

4.31 Cododd rhai darparwyr gwasanaethau fater effaith y galw cynyddol am gymorth tenantiaeth, a'r pwysau cynyddol ar staff cymorth:

'Gyda'n gweithwyr cymorth, pan fydd rhywun yn symud allan, os oedden nhw'n teimlo bod angen cymorth tenantiaeth ar yr unigolyn hwnnw, bydden nhw wedi'u hatgyfeirio at gymorth tenantiaeth o'r blaen, lle nawr, mae hi'n eithaf anodd dwyn rhywun arall i mewn. Mae hynny'n golygu bod ein gweithwyr cymorth wedyn yn cefnogi pobl sydd wedi symud ymlaen. Cyn gynted ag y bydd rhywun yn symud allan, mae rhywun yn symud i mewn. Mae eu llwyth achos wedi cynyddu oherwydd eu bod yn cefnogi'r person newydd a'r person sydd wedi ei symud allan, ie.' (TS, A2)

4.32 O safbwynt y defnyddiwr gwasanaethau, ymddengys mai ymweliadau rheolaidd a chymorth tenantiaeth wedi iddo gael ei ailgartrefu oedd y gefnogaeth a gâi ei gwerthfawrogi fwyaf. Dywedodd pedwar o bobl iddynt dderbyn y math hwn o gefnogaeth gan awdurdodau lleol, ac roedd un ar ddeg yn ei dderbyn gan un ai landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r trydydd sector. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

'Gyda [sefydliad y trydydd sector], nid wyf yn meddwl y gallen nhw fod wedi gwneud mwy. Fe weithion nhw'n dda iawn, iawn. Maen nhw wedi dal i gadw mewn cysylltiad. Beth oedd o? Tua mis yn ôl oedd hi, fe gnociodd y ferch ar y drws, 'Sut wyt ti?' | Ydi bob dim yn iawn? Ydych chi eisiau i mi eich helpu efo unrhyw beth? ' ac rwy'n dweud, 'Dw i'n iawn.' Fe eisteddodd i lawr, hanner awr, wel, ie, rhywbeth fel yna ac mi aeth, ac, wel, mae'n siŵr y byddaf yn ei gweld eto mewn ychydig wythnosau.' (DG, A4)

- 4.33 Fodd bynnag, codwyd natur gyfyngedig amser cefnogaeth fel y bo'r angen gan rai darparwyr fel un a allai beryglu'r gwaith atal:

'Mae gan [un] cleient' yn amlwg lefelau isel o anawsterau dysgu. Mae yna bethau eraill sy'n digwydd. Mae ganddi blentyn ag ADHD. Mae yna lawer o bethau sy'n mynd ymlaen efo'r person hwnnw. Yn y bôn, gyda chymorth, mae'n ymdopi . Yn y diwedd, roedd ganddi ôl-ddyledion eto mewn llety dros dro, yr wyf yn ei reoli. Roedd fy ngweithiwr yn gweithio gyda hi, fe sefydlodd gynllun cyllidebu. Rwy'n eithaf siŵr y bydd yn digwydd eto iddi hi. Mae hi'n [ifanc], ond y pwynt yw bod y person hwnnw'n debygol o fod angen cymorth lefel isel gydol ei hoes i reoli ei thenantiaeth. Pam nad ydyn ni'n edrych ar hynny?' (TS, A2)

Camau rhesymol

- 4.34 Rhoes y Ddeddf ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gyflawni camau rhesymol i atal a lleddfu digartrefedd. Yn gyffredinol, credai darparwyr gwasanaethau fod y syniad o gamau rhesymol wedi dod â newidiadau cadarnhaol i bolisi ac ymarfer a disgrifiwyd hyn mewn ffyrdd gwahanol fel gwneud cefnogaeth 'symlach' a 'chyfannol' yn bosib, ac wedyn arwain at gamau 'cynhwysfawr' i atal digartrefedd. Yn bennaf, ystyriwyd bod cymryd camau rhesymol yn cynnwys ystod o weithgareddau oedd yn atal digartrefedd, a dylai'r rhain gael eu teilwra i bob unigolyn. Y gred oedd bod cyfathrebu'n dryloyw ac yn rheolaidd gyda defnyddwyr gwasanaethau, bod yn glir ynghylch hawliau a chyfrifoldebau a chanolbwyntio ar yr unigolyn, yn allweddol wrth gefnogi camau rhesymol i atal digartrefedd.
- 4.35 Tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw at y cysylltiad rhwng camau rhesymol ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion,

'wel, mae'r camau rhesymol yn rhesymol i'r unigolyn, yn tydyn?' (ALI, A2).

Trafododd darparwr gwasanaethau arall awdurdodau lleol y ffordd y gellid gweithredu camau rhesymol yn greadigol tra'u bod yn dal i 'gael eu gyrru gan bobl', ac roedd nifer o enghreifftiau cadarnhaol a roddwyd ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos lle'r oedd darparwyr gwasanaethau'n dangos dulliau creadigol o gymryd camau rhesymol fel mae'r darnau a ganlyn o gyfweiliad yn dangos:

'Wel, y camau rhesymol fyddai a ydych chi wedi ceisio ymweld, maen nhw wedi cael llythyrâu, galwadau ffôn, ac unrhyw beth rydych chi wedi'i wneud o fewn y gwasanaeth, y cymorth tenantiaeth, ie, atgyfeiriadau at Gyngor ar Bopeth ac yn y blaen. Beth fydden

ni wedi'i wneud o fewn y gwasanaethau hynny i geisio sicrhau bod y tenantiaid yn gweithio gyda ni ac yn ymgysylltu.' (ALI, A1)

'Rwy'n tueddu i wneud yr asesiad a chael yr holl wybodaeth ac yna ddefnyddio gweddill y dydd i wneud ymchwiliadau. Os ydynt yn ddigartref, gwneud penderfyniad ac yna roi camau rhesymol ar waith; beth fydda i'n ei wneud i'r ymgeisydd a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud drostyn nhw'u hunain. Felly, dim ond sicrhau eu bod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnyn nhw, gallan nhw gael mynediad at yr holl fudd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw, maen nhw'n gwybod lle gallan nhw fynd am lety dros dro.' (ALI, A3)

'Ymgymryd â chyfyngu neu fynd trwy ddyledion neu faterion cyllidebu rhywun. Oes oedd yna rybudd am ôl-ddyledion rhent, trefnu cynllun ad-dalu gyda'r landlord, defnyddio cymorth fel y bo'r angen, byddai'r math yna o beth yn gam rhesymol.' (ALI, A4)

- 4.36 Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr gwasanaethau trydydd sector a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dal i deimlo nad oedd pob awdurdod lleol wedi gweithredu camau rhesymol yn llawn, neu wedi cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac yn ofni bod meddylfryd *'tic yn y blwch'* yn dal i barhau ar adegau:

'Rwy'n credu y gallai rhai pethau fod ychydig yn fwy creadigol. Alla i ddim rhoi union enghreifftiau i chi ond mi all fod yna feddylfryd 'tic yn y blwch, gall?' (TS, A4)

- 4.37 4.37 Pan gafodd y Ddeddf ei gweithredu gyntaf, dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â dehongli 'rhesymol'. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau'r awdurdodau lleol, *'Nid wyf yn meddwl ei bod wedi bod yn hawdd i'r staff yn y dechrau, nag oedd, yn penderfynu beth oedd camau rhesymol. Pa mor rhesymol yw rhesymol?'* (ALI, A1).

- 4.38 Eto, roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n dal i deimlo bod yr hyn y gellid ei ystyried yn 'rhesymol' yn parhau i fod yn dibynnu ar ddehongliad:

'Pa mor bell ydych chi'n mynd? Sawl cynnig o dai sydd raid i chi eu rhoi iddyn nhw? Os yw'n addas, mae'n addas ac rydych chi'n meddwl, wel mae'n rhesymol, rwyf wedi cael hyd i rywle fforddiadwy i chi, mae maint yr eiddo'r hyn yr ydych ei eisïau, efallai nad yw'n union lle'r oeddech yn dymuno'i gael, ond rydyn ni'n meddwl ei fod yn rhesymol, mae'n addas felly, wyddoch chi, ac maen nhw'n dweud, 'Wel, na dw i'm eisïau hynny.' (ALI, A1)

- 4.39 Nododd darparwyr gwasanaethau eraill nad oedd hyn yn gwarantu canlyniad cadarnhaol, hyd yn oed pan oedd defnyddwyr gwasanaethau'n dilyn y camau a osodwyd ar eu cyfer:
- 4.40 *'[Dywedodd y defnyddiwr gwasanaeth] Mi ffoniais bawb ar y rhestr, es i mewn i bob swyddfa gwerthu tai, methais gael unrhyw le, dyma fi' (TS, A2).* Dywedodd darparwyr gwasanaethau eraill nad yw pob rhanddeiliad yn gweithredu camau rhesymol yn sensitif bob amser, ac roedd rhai o'r farn nad oedd camau rhesymol mewn gwirionedd yn rhesymol, gan fod heriau'n wynebu defnyddwyr gwasanaethau:
- 'Nid yw hanner fy nghleientiaid yn medru darllen, mae rhai ohonynt yn cael cymaint o lythrau gan y beili, nid ydynt yn agor y post. Ewch yno, cnociwch; nid yw pobl yn fodlon trio.'* (ALI, A1)
- 'Yr hyn rydw i wedi'i weld hyd yn hyn, y camau rhesymol oedd mi fyddwch chi'n cysylltu ag asiant gosod, dyma restr o landlordiaid, mae'r rhestr honno'n hen ac nid yw'n rhesymol os meddylwch chi am y cwsmeriaid y byddwn yn eu gweld, allan nhw ddim fforddio mynd at asiantiaid gosod, allan nhw ddim mynd yno a thalu £95 i rywun ddweud wrthyn nhw nad oes ganddyn nhw gredyd da iawn, rhywbeth y maen nhw'n ei wybod yn barod! Nid oes raid iddyn nhw dalu £95 i rywun ddweud wrthyn nhw, ac yn realistig mae angen tua £1,000 ymlaen llaw amyn nhw i allu talu blaendal, rhent mis ymlaen llaw, ddigwyddith hynny fyth.'* (TS, A6)
- 4.41 Roedd llawer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws y sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn gweld gweithredu dull wedi'i safoni gyda phobl oedd yn arbennig o agored i niwed yn broblem, gan ei gwneud hi'n fwy heriol iddynt ymwneud â'r broses. Nododd darparwyr gwasanaethau bod angen ystyried camau rhesymol yn unigol ac mewn cyddestun daearyddol. Tynnodd un cyfranogwr o'r awdurdodau lleol sylw at y ffaith fod cwmpas a natur yr adnoddau lleol yn allweddol gan nodi:
- 'Mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn eich ardal benodol chi. Efallai y bydd rhywbeth nad yw'n rhesymol yma yn rhesymol yn rhywle arall.'* (ALI, A1)
- 4.42 Cafodd cydbwysedd y cyfrifoldeb wrth gymryd camau rhesymol o ran y defnyddiwr gwasanaeth, Atebion Tai a rhanddeiliaid eraill eu trafod sawl gwaith yn ystod yr ymgynghoriad â'r darparwyr gwasanaethau. Trafodir hyn hefyd yn y bennod sy'n troi o amgylch ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion. Roedd rhai darparwyr o'r farn bod 'camau rhesymol' yn rhoi mwy o 'reolaeth' i ddefnyddwyr gwasanaethau yn y berthynas darparwyr / defnyddwyr a'i fod, fel y cyfryw, yn ddefnyddiol.

- 4.43 Gwelodd rhai darparwyr gwasanaethau bod cyflwyno camau rhesymol yn rhoi manteision pellach i ddefnyddwyr gwasanaethau gan ei fod yn eu gwneud fel darparwyr yn fwy atebol. Fodd bynnag, roedd eraill yn ystyried mai cyfrifoldeb y defnyddiwr yn bennaf oedd y camau a gymerwyd dan gamau rhesymol gan mai *'gan y cleient y mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw'*. (TS, A2)
- 4.44 Yn ogystal, credai rhai darparwyr gwasanaethau bod y ffyrdd y gweithredir camau rhesymol weithiau'n mynd yn groes i ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion. Nododd un darparwr gwasanaethau'r trydydd sector:
- 'Mae'r camau rhesymol yn rhoi mwy o arfau i'r awdurdod roi'r gorau i'r ddyletswydd honno. Dyna'r hyn sy'n ymddangos, mae'n cael ei ddefnyddio mwy ar gyfer y bwriadoldeb.'* (TS, A2)
- 4.45 Roedd methu â chydweithredu â chamau rhesymol yn 'aneglur' i lawer o ddarparwyr gwasanaethau a nododd rhai anhawster gyda gorfodi hyn wrth weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i newid:
- 'Pan fyddwch chi'n delio â chleientiaid sy'n agored iawn i niwed, dydw i ddim yn siŵr eich bod chi'n siŵr a ydyn nhw'n cydweithredu ai peidio neu os nad ydyn nhw'n gwybod beth i'w wneud. Gallwch drio, ac maen nhw'n ei wneud, mae'r staff yn ymdrechu'n galed iawn i esbonio i bobl beth fydd yn digwydd a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud a beth wnawn ni a phopeth arall ac rydym wedi cynhyrchu'r cynllun tai, y cynllun tai personol a phopeth arall ond nid yw rhai o'n cleientiaid ni fyth am allu gwneud hynny.'* (ALI, A5)
- 4.46 Yn yr achos hwn, roedd yn amlwg bod yna wahaniaeth i'w weld o ran y ddyletswydd a'r canfyddiadau ynghylch a oedd defnyddwyr gwasanaethau wedi methu ymgymryd â chamau rhesymol. Mae gallu defnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth a phroblemau sydd wedi'u hen wreiddio yn fater cymhleth sydd hefyd yn ymwneud â gwahanol ddisgwyliadau a diffiniadau o *'rhesymol'*. Mae hefyd yn codi rhai tensiynau mewn perthynas â'r athroniaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd wedi'i hymgorffori yn y Ddeddf. Teimlai darparwyr gwasanaethau, ar y cyfan, bod pwysau rhesymol yn cael eu pwysoli o blaid yr awdurdod lleol yn hytrach na defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r baich ar y cleient ac mae rhagdybiaeth o asiantaeth a chapasiti, sy'n codi materion sylweddol i bobl sy'n agored i niwed.

Methu cydweithredu a dod â'r ddyletswydd i ben

- 4.47 Gan dynnu ar ddata o'r arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd 21 awdurdod lleol eu bod yn cymryd camau i gadw cysylltiad ag aelwydydd sy'n colli apwyntiad neu sy'n methu dod yn ôl gyda gwybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, dywedodd un nad oeddynt wedi gwneud hynny. Ychwanegwyd y cwestiwn hwn i arolwg o'r ail don, ac felly nid yw'n bosib mesur maint y newid yn y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaeth hyd yn oed yr awdurdod lleol y dywedwyd nad yw'n cymryd camau i gynnal cyswllt, y sylw eu bod yn *'ysgrifennu, anfon neges destun neu'n galw'*. Cyfeiriodd pob un o'r 21 awdurdod lleol arall at negeseuon e-bost, negeseuon testun a galwadau ffôn a / neu lythyrau. Yn y pegwn mwy cynhwysfawr, dywedodd un awdurdod:

'Mae rheoli achosion dwys pan fo capasiti'n caniatáu'n golygu bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cwblhau. Hefyd mae gan y cleientiaid hynny sydd mewn gwely a brecwast a llety dros dro swyddog pwrpasol sy'n eu cynorthwyo i reoli eu lleoliadau / llety a mynd i'r afael â'r bwriad o gyflymu'r broses symud ymlaen a sicrhau bod gweithredoedd cynlluniau tai personol i gwsmeriaid yn cael eu cyflawni.'

- 4.48 Cyfeiriodd tri ymatebwr i'r arolwg at drydydd parti, gan gynnwys *'gwasanaethau cymorth hysbys y maent yn ymwneud â nhw'*. Fodd bynnag, cydnabuwyd cyfyngiadau mewn pedwar ymateb o ran cydnabod pan nad oedd rhywun yn ymateb, a dywedodd dau awdurdod lleol eu bod yn cau achosion pan nad ydynt yn cael ymateb (dau ymgais neu saith diwrnod). Dywedodd un awdurdod lleol:

'Byddwn yn cymryd camau i gysylltu ag aelwydydd, ond nid gyda'r rheiny sy'n colli apwyntiad cychwynnol neu nad ydyn nhw wedi'u hasesu gennym'.

- 4.49 Nodwyd y cafwyd cryn ymdrechion o ran cynorthwyo pobl i gydweithredu. Mae'r broses o sut mae pob awdurdod lleol yn penderfynu bod aelwyd wedi gwrthod cydweithredu'n golygu sawl ymdrech i gysylltu â'r aelwyd, er bod hyn yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, dyfarnodd pum awdurdod lleol bod y teulu'n gwrthod cydweithredu ar ôl iddynt fethu ymateb i ohebiaeth dro ar ôl tro. Er enghraifft:

'Cyfweliad wyneb yn wyneb, llythyr ac yna llythyr dilynol, yna os nad oes cyswllt ... llythyr yn dweud wrthyn nhw nad ydyn nhw'n cydweithredu'.

- 4.50 I chwe awdurdod lleol, roedd hyn yn golygu mynd ati'n fwriadol i beidio â gwneud dim â Chynllun Tai Personol. Er enghraifft:

'Methu cydweithredu yw lle rydyn ni wedi bod mewn cysylltiad â pherson a chytuno ar weithredoedd fel rhan o Gynllun Tai Personol ond eu bod yna'n gwrthod gwneud dim â'r cynllun hwnnw'.

- 4.51 Trafododd pum awdurdod sut roeddent yn ystyried yr hyn sy'n rhesymol gan ystyried bod rhai pobl yn agored i niwed. Er enghraifft:

'Wrth edrych i gau achos mae swyddogion achos yn cwblhau 'rhestr wirio cau achos' sy'n dangos pa ymdrechion a wnaed i gefnogi cleient i gymryd rhan ac rydym yn ffactorio bod rhai yn arbennig o agored i niwed neu faterion ychwanegol a allai olygu bod cymryd rhan yn fwy heriol i gwsmeriaid penodol'.

Ymestyn y ddyletswydd o 28 i 56 diwrnod


- 4.52 Ymhelaethodd y Ddeddf y diffiniad o fod dan fygythiad digartrefedd fel y gall pobl nawr gael cymorth os ydynt o fewn 56 diwrnod o golli eu cartref, yn hytrach na 28 diwrnod²⁴.
- 4.53 Mae ymatebion i arolwg yr awdurdod lleol yn nodi bod gwaith ataliol cynnar yn parhau i dyfu mewn nifer o awdurdodau. Dyweddodd deg awdurdod lleol y bu newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y modd yr oeddynt yn ymateb i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn mwy na 56 diwrnod. Cyfeiriodd naw o'r awdurdodau lleol hyn at waith mwy ataliol. Dywedodd un awdurdod lleol bod mwy o gymorth i gleientiaid yn yr ysbyty a'r carchar, a dywedodd un ohonynt eu bod yn gweithio gyda landlordiaid mwy, gyda landlordiaid yn atgyfeirio eu tenantiaid presennol *'yn y gobaith y gall cyngor cynnar gynnal tenantiaethau'*. Dywedodd un o'r awdurdodau lleol eu bod yn blaenoriaethu cefnogaeth a chymorth i'r rhai sydd mewn perygl o fewn 56 diwrnod *'o ganlyniad i'r cynnydd yn y llwyth gwaith'*. Teimlai dau ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol nad oes bob amser ganlyniad cadarnhaol i waith ataliol:

'Mwy o bwyslais ar atal, fodd bynnag ni ellir atal rhai achosion, e.e. Hysbysiadau gan landlordiaid sy'n dymuno gwerthu eu heiddo'.

'Ein nod yw atal digartrefedd ond mae ein llwyth achosion mor uchel nes ein bod yn cael ein hunain yn ymladd achosion lleddfu yn bennaf'.

²⁴ Dim ond i'r rhai hynny oedd ag angen blaenoriaethol yr oedd yr hen ddyletswydd atal 28 diwrnod yn berthnasol.

Ffigur 14: Ymestyn y ddyletswydd i 56 diwrnod



- 4.54 Ystyriai darparwyr gwasanaethau ymhob maes a phob sector astudiaeth achos bod yr amserlen estynedig o 56 diwrnod a gyflwynwyd yn Adran 73 o'r Ddeddf yn gryfder, gan gynnig amser iddynt fod yn fwy hyblyg a chanfod atebion i'r bygythiad digartrefedd: 'mae'n rhoi mwy o gyfle i ni atal, felly po fwyaf o amser sydd gennym, mae o hyd yn gadarnhaol, rwy'n meddwl '(ALI, A1). Cytunodd eraill:

'Os ydych yn dweud wrthyf i, wyddoch chi, a dweud y gwir os ydych chi wedi derbyn rhybudd, gallwch chi ddod i'r Cyngor 56 diwrnod cyn hynny a bydd rhywun yn eich cynorthwyo a, chyd gobaith, byddwch chi'n dod o hyd i lety dros dro cyn i chi a'ch teulu fod yn ddigartref, felly peth da yw hynny.' (TS, A2)

- 4.55 Yn ogystal â chanolbwyntio ar unigolion, y gred oedd bod y cyfnod 56 diwrnod yn fodd i gael asesiad a chanlyniad ar sail gwybodaeth gan ei fod yn gwneud model ymarfer gwahanol yn bosib:

'Felly weithiau nid ydych chi'n cael syniad llawn o anghenion rhywun o ran cymorth nes eu bod mewn gwirionedd yn mynd drwy'r gwasanaethau oherwydd na fydd pawb yn datgelu pethau'n llawn yn eu hasesiad, felly fyddwch chi ddim yn cael darlun llawn o'r hyn yw eu hanghenion amlwg yn y cyfweiliad hwnnw, yr oll ydych chi eisiau yw ... trio cael llety. Dim ond yn yr wythnosau wedi hynny ... y byddwch chi'n dechrau gweld y rhesymau craidd hynny, yr hyn sydd wedi'i harwain nhw [i'r hostel]'. (TS, A2)

- 4.56 Yn ogystal, dywedodd darparwyr gwasanaethau bod cael cyfnodau hwy o amser i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau'n eu galluogi i nodi'r 'rhesymau craidd' hyn a rhoi digon o gyfle i naill ai roi cynllun gweithredu ar waith, neu o leiaf ddechrau gwneud hynny. Roedd consensws ynglŷn â hyn oherwydd gwelwyd bod y cyfnod 56 diwrnod i'w weld yn galluogi

swyddogion i gyfryngu mewn ffordd ystyrion ar ran defnyddwyr gwasanaethau, ond hefyd roedd yn cynnig sicrwydd i landlordiaid bod camau'n cael eu cymryd.

- 4.57 Fodd bynnag, er gwaethaf ymestyn yr amser pan ystyrir bod pobl mewn perygl digartrefedd i 56 diwrnod, roedd pobl yn dal i ddod i'r Cyngor pan oeddent mewn argyfwng - hynny yw, pan oeddent, mewn gwirionedd, yn ddigartref:

'Rydyn ni'n tueddu i gael llawer mwy o bobl yn dod aton ni lle caiff dyletswydd 73 ei dderbyn yn hytrach na 66, felly nid ydyn nhw'n dod yn ddigon cynnar, ond er mwyn ceisio ei atal, mae'n debyg eu bod i gyd yn dod i mewn bryd hynny pan maen nhw'n gwbl ddigartref ac, 'Rwy'n cael fy nhroi allan yfory', math o beth. Mae fel 'O, Dduw, 'sgennym ni ddim llawer o amser!' (ALI, A3)

Bwriadoldeb, angen blaenoriaethol a chysylltiad lleol

- 4.58 Ehangodd y Ddeddf gylch gorchwyl pobl sy'n ddigartref / dan fygythiad digartrefedd ac yn y cam cyntaf diystyrir bwriadoldeb, angen blaenoriaethol a chysylltiad lleol.
- 4.59 Dywedodd pedwar ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol eu bod wedi diystyru bwriadoldeb ar gyfer unrhyw un o ddibenion a75 i grŵp penodol ag angen blaenoriaethol, a dywedodd 18 nad ydynt wedi gwneud hynny. Yn ddiddorol, mae hyn yn llai nag yn yr arolwg o'r don gyntaf, sy'n awgrymu na all un awdurdod ddiystyru bwriadoldeb mwyach. Dywedodd pob un o'r pedwar sydd wedi diystyru bwriadoldeb mai yn achos pobl ifanc 16-17 oed oedd hyn, gydag un awdurdod yn ychwanegu nad oeddynt wedi 'sylwi fawr ddim effaith'. Roedd un awdurdod hefyd yn cynnwys rhai sy'n gadael gofal, ac roedd awdurdod arall yn cynnwys teuluoedd â phlant.
- 4.60 Dywedodd tri awdurdod lleol eu bod wedi gwneud newidiadau i'w safiad gwreiddiol ar fwriadoldeb ers Gorffennaf 2015, a dywedodd 19 nad oeddent wedi gwneud hynny. Mae hyn yn gynydd ar yr arolwg o'r don gyntaf, pan nad oedd unrhyw awdurdod lleol wedi newid ei safiad. Nododd y rhai a wnaeth newidiadau 'y caiff ei ddefnyddio'n anaml', 'ei adolygu'n flynyddol', ac 'ni chaiff neb sy'n dod i'r Cyngor oherwydd trais domestig ei ystyried yn fwriadol ddigartref'. O'r rheiny nad ydynt wedi gwneud newidiadau, esboniodd pump iddynt benderfynu defnyddio bwriadoldeb fel dewis olaf ac ar gyfer nifer isel o gartrefi'n unig. Er enghraifft:

'Nid ydyn ni'n gwneud niferoedd uchel o benderfyniadau bwriadoldeb. Rydym yn defnyddio hyn fel ffordd o drafod gyda pherson iddyn nhw ymwneud â ni a gweithio efo ni'.

- 4.61 Mewn un awdurdod lleol oedd yn cofnodi unrhyw newid, dywedwyd eu bod yn diystyru bwriadoldeb oherwydd 'mae pob cartref yn cael ei asesu a rhoddir cymorth p'run a oes bwriadoldeb ai peidio.', Mae safiad un Awdurdod Lleol 'yn parhau i gael ei adolygu', er bod un arall wedi dweud 'nad oes ganddynt 'unrhyw gynlluniau i ddiystyru bwriadoldeb '. Nododd tri awdurdod lleol eu bod wedi adolygu eu hagwedd tuag at fwriadoldeb heb wneud newidiadau, er bod un yn parhau i fod yn agored i ddatblygu darn o waith o gwmpas bwriadoldeb gyda Shelter.
- 4.62 Nododd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol bod defnyddio bwriadoldeb yn ôl disgresiwn pob awdurdod lleol wedi dod gyda chyflwyno'r Ddeddf:
- 'Rwy'n gwybod bod rhaid i bob awdurdod lleol wneud y penderfyniad a oedden nhw'n mynd i'w ddefnyddio ai peidio, ac rwy'n meddwl eu bod nhw i gyd wedi gwneud hynny yn y diwedd. Nid oes cyfeiriad o uwchlaw ynghylch beth ydyn ni am ei wneud â hynny. Mae'n rhaid i'r swyddog achos unigol benderfynu yn seiliedig ar y wybodaeth y byddwn yn ei chael yn ôl o bob achos.'* (ALI, A3)
- 4.63 Ymhlith darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol, ymddengys bod disgresiwn a dehongliad amrywiol o fwriadoldeb yn arwyddocaol. Ystyriwyd bod bwriadoldeb yn 'ddefnyddiol', gan rai, ac y byddai cael gwared ar fwriadoldeb yn gyfan gwbl yn 'naïf' mewn achosion penodol; er enghraifft, lle nad yw pobl yn talu eu rhent. Fodd bynnag, roedd nifer yn gwrthgyferbynnu'r defnydd o fwriadoldeb ag ethos sy'n canolbwyntio ar unigolion:
- 'Canolbwyntio ar unigolion, atal, bob tro ... i mi, mi siarada i efo rhywun, ac mi gasgla i wybodaeth. Fy marn i yw, mae'n debyg ei fod yn fwriadol ddigartref, felly fy a73, mi wna i'r mwyaf ohono ... Mae'r dyn hwnnw'n dal i fod angen rhywle i fyw ... ond fy mwriad yw peidio â nodi hwnnw fel bwriadoldeb. Rwyf eisiau ei ailgartrefu cyn i mi gyrraedd hynny.'* (ALI, A1)
- 4.64 Yn y dyfyniad hwn, disgrifiodd y darparwr gwasanaethau sut i osgoi cyrraedd penderfyniad bwriadoldeb, gan ddangos ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion a'r gallu i weithio'n hyblyg o fewn y system.
- 4.65 Yn wir, câi bwriadoldeb ei ddehongli'n wahanol ymhlith staff Atebion Tai yn yr un awdurdod lleol fel y dengys y dyfyniad a ganlyn:

'Hyd yn oed os ydyn nhw'n fwriadol, rwy'n dal i weithio gyda nhw hyd nes – yn dal i ymweld â nhw yn eu cartref, neu jesd yn gweithio gyda nhw er gwaethaf pethau (y rheol 56 diwrnod) - nes eu bod yn cael cartref addas.' (ALI, A3)

- 4.66 Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o barhau ag ethos y system flaenorol ymhlith rhai darparwyr awdurdodau lleol – gwirio a chanfod rhesymau i beidio â chynorthwyo:

'[...] allwn ni ddim cynnig dyletswydd i bob cleient; does gennym ddim yr eiddo i gynnig dyletswyddau i bawb, ac mae'n golygu ein bod ni'n rhoi unrhyw fath o eiddo neu ddyletswydd i'r bobl sydd â'r flaenoriaeth uchaf yn gyntaf. Weithiau mae'n anodd dod o hyd i fwriadoldeb, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i chi chwilio amdano.' (ALI, A3)

- 4.67 Roedd rhai yn ystyried bwriadoldeb yn gymal angenrheidiol:

'Pe na fuasem yn eu canfod yn fwriadol [ddigartref], beth fyddai'r ateb?' (ALI, A3)

- 4.68 Roedd tystiolaeth felly o rai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn rhyddhau eu hunain o gyfrifoldeb a defnyddio bwriadoldeb fel ffordd o reoli adnoddau prin, rhywbeth nad yw yn ysbryd y Ddeddf.

- 4.69 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau o'r farn bod bwriadoldeb yn cael ei gyfuno â nodau eraill y Ddeddf o ran cynyddu cyfrifoldeb personol, gan bwysleisio asiantaeth unigol a chyfuno bwriadoldeb gydag angen blaenoriaethol yn yr achos hwn:

'Dwi'n gallu gweld rhywfaint o resymeg o ran ni ddylech wneud teuluoedd â phlant 'yn fwriadol' ac ati, ond dylai'r holl bethau hyn ymwneud â rhoi cyfrifoldeb personol iddynt, yn enwedig gyda llywodraeth San Steffan o ran Credyd Cynhwysol, gan roi rheolaeth yn ôl iddyn nhw eu hunain. Os yw pobl yn dewis peidio â thalu eu biliau, talu'r rhent, bod ag ôl-ddyledion, cael eu troi allan o'u cartrefi' (ALI, A3)

Angen blaenoriaethol

- 4.70 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd ugain o ymatebwyr nad yw eu hawdurdod lleol wedi newid y modd y maent yn defnyddio'r prawf agored i niwed dan a71 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod dau wedi dweud y bu newid yn y maes hwn. I un awdurdod, roedd hyn yn golygu defnyddio prawf tebyg i'r Prawf Johnson²⁵ gyda'r prawf newydd yn cael ei ystyried fel un '*nad yw mor llym*'. Dywedodd y llall eu bod yn cynnig mwy o

²⁵ Mae prawf Johnson yn gysylltiedig â dyfarniad Goruchaf Lys Hotak, Kanu a Johnson o 2015 pan ddatganodd diffiniad gweithiol o angen blaenoriaethol y dylai person fod yn: *sylweddol mwy agored i niwed na'r person cyffredin pan gaiff ei wneud yn ddigartref*

gymorth i bobl gyda llety dros dro tra bo ymholiadau'n cael eu gwneud *'yn unol â chyfraith achosion diweddar'*.

- 4.71 Dywedodd pymtheg o ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol nad ydynt wedi newid eu hagwedd at y rhai sy'n gadael carchar a / neu ddalfa ieuenctid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd saith eu bod. Nid yw dau o'r saith awdurdod lleol bellach yn cynnig llety yn awtomatig, gydag un o'r rhain yn nodi nad yw *'adnoddau yn caniatáu i hyn barhau'n anffodus'*. Mae pump o'r saith awdurdod lleol yn cyfeirio at waith mwy ataliol, fel partneriaeth gyda'r gwasanaeth prawf, swyddi ailsefydlu mewn carchardai, a dilyn y llwybrau ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar. Mynegodd un o'r rhain bryder bod y gwasanaethau prawf yn rhoi pwysau arnynt i ddarparu ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar nad oeddent ag angen blaenoriaethol. Trafododd un awdurdod rwystrau rhag gweithredu'n fwy ataliol:

'O ystyried methiant mynych i lynu wrth y llwybr carcharorion, mae'n rhaid i ni fynd ati'n rheolaidd i fynd ar drywydd gwybodaeth frys ar ôl ychydig iawn o rybudd o ryddhau'.

- 4.72 Roedd yn ymddangos bod dealltwriaeth defnyddwyr gwasanaethau o angen blaenoriaethol a'r gwahanol adrannau a dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yn wahanol iawn. Roedd rhai pobl yn ymwybodol eu bod yn cael eu hystyried yn angen blaenoriaethol:

'Mae'n debyg mai hi oedd yr un a lwyddodd i gael rhywle mor gyflym hefyd, dydw i ddim yn gwybod. Dydw i ddim yn gwybod. ... Dywedodd angen blaenoriaethol ar y ffôn wrth ddyn a gofynnodd o iddi, 'Oes gennych chi brawf', a dywedodd hithau, 'Rwy'n darllen llythyr diagnosis nawr.' (DG, A1)

'Yr hyn a wnaethon nhw ei bwysleisio oedd, cyn gynted ag y gwnes i eu ffonio, fe wnaethon nhw anfon llythyr yn ôl i esbonio beth oedd fy amgylchiadau; oherwydd fy mod yn cael fy ystyried yn ddigartref, mae dyletswydd arnyn nhw - rwy'n gwybod ei fod yn ofnadwy gwybod hynny nawr - mae dyletswydd arnyn nhw i ddarparu llety i mi felly gwnaethon nhw'n siŵr fy mod yn ymwybodol o hynny.' (DG, A4)

- 4.73 I'r rhai a gyfwelwyd ac oedd yn sengl a heb broblemau iechyd neu broblemau iechyd meddwl heb eu diagnosio, ymddengys bod dealltwriaeth fwy cyffredinol eu bod yn annhebygol o gael eu hailgartrefu, er bod y mwyafrif wedi cofrestru i fod ar y rhestr aros am dŷ cymdeithasol.

'Fe wnes i gofrestru i fynd arni. Roedd hynny'n rhan o'r broses wrth gwrdd â [staff opsiynau tai] ... Buaswn yn dychmygu nad ydw i mwyach ar y rhestr, ond wrth siarad yn realistig, rwy'n berson sengl, dim dibynyddion, dydw i ddim yn flaenoriaeth iddyn nhw o gwbl.' (DG, A5)

- 4.74 I ddarparwyr gwasanaethau, fel gyda bwriadoldeb, cydnabuwyd effaith tymor hir defnyddio 'angen blaenoriaethol' mewn perthynas â goblygiadau adnoddau:

'Gallaf ddeall hynny yn y tymor hir ... Pe baech yn tynnu rhai grwpiau allan o'r hafaliad, dim ond gwneud pawb yn angen blaenoriaethol, nid wyf yn gweld sut y byddai hynny'n gweithio'n ariannol oherwydd nid wyf yn meddwl bod gennym y llety dros dro ac rwy'n meddwl y gallai hynny fod yn llyffethair ariannol i bob awdurdod lleol.' (ALI, A3)

- 4.75 Er bod y darparwr gwasanaethau hwn o'r farn bod y Ddeddf yn dal i gael ei thraed dani, roedd eraill o'r farn y gellid nodi newidiadau positif yn barod. Nododd un arall yn glir eu bod o'r farn bod yr agwedd ataliol yn gweithio gan mai dim ond un person a gafodd ei ailgartrefu trwy ddyletswydd adran 75 yn ei awdurdod yn ystod y deng mis diwethaf, *'yn ystod y deng mis diwethaf, dim ond un sydd wedi cyrraedd y ddyletswydd lawn gennyf, Adran 75, oherwydd rydw i wedi cartrefi pawb ymlaen llaw'*. (ALI, A1). Credai'r darparwr gwasanaethau hwn fod y cyfuniad o *'fynd o gyngor (adran 68) a chymorth (adran 73)'* neu *'effaith domino'* hyn, ar y cyd â'r amserlen wedi gweithio.

- 4.76 Roedd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau'n cydnabod yr anawsterau o ddod o hyd i lety priodol i bobl ag anghenion cymhleth, hyd yn oed os ystyriwyd eu bod ag angen blaenoriaethol. Tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw hefyd at y ffaith fod amseroedd aros hir yn arwain at heriau pellach i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig os na fyddai'r eiddo a gynigir wedi bod yn ddewis cyntaf iddynt, neu ddim mewn ardal lle roeddent yn dymuno byw:

'Os ydyn nhw'n anfwriadol ac yn flaenoriaeth yna maen nhw yn y band argyfwng yn syth. Achos o eistedd mewn llety gwely a brecwast neu loches neu hostel yw hi nes eu bod yn cael cynnig llety a dyna pam yr ydyn ni'n cael trafferth ymgysylltu weithiau oherwydd eu bod yn gwybod, mi ddisgwylia i nes i rywle ddod i fyny dw i'n ei hoffi fymryn.' (ALI, A3)

- 4.77 Fodd bynnag, ymhlith darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos, roedd consensws bod y Ddeddf wedi gwella canlyniadau i bobl y tybir eu bod mewn angen nad yw'n flaenoriaeth:

'Mae'n debyg ei fod wedi gwella i'r rhai nad oedd eu hangen yn flaenoriaeth ... Yn amlwg, o safbwynt cyfreithiol a dyletswydd, mae'n well iddyn nhw, ond yn sicr nid i bobl sy'n gadael y carchar oherwydd, yn amlwg, roedden nhw'n angen blaenoriaethol yn awtomatig o'r blaen, ond dan y ddeddfwriaeth newydd, ychydig iawn y byddwn yn ei ddweud sydd nawr.' (ALI, A3)

- 4.78 Yn gyffredinol, teimlad darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol oedd bod amrywiad ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos ac ar draws grwpiau cleientiaid, gyda'r rhai nad ydynt yn cael eu hystyried ag angen blaenoriaethol yn elwa llawer mwy ar y newidiadau.

Cysylltiad lleol

- 4.79 Dengys ymatebion i'r arolwg o'r awdurdodau lleol bod canfyddiad bod diffyg prawf cysylltiad lleol yn a66 ac a73 wedi cynyddu galw am gymorth digartrefedd. Yn fwy penodol, dywedodd dau awdurdod lleol y bu cynnydd sylweddol, 15 yn dweud bod cynnydd bychan, a phump yn dweud dim newid. Mae hwn yn gynnydd yn yr arolwg o'r don gyntaf pan nododd un awdurdod gynnydd sylweddol, nododd tri ar ddeg gynnydd bychan, chwech yn nodi na fu newid, a dau yn nodi gostyngiad bychan yn y galw.
- 4.80 Dywedodd pedwar ymatebwr i'r arolwg y bu newid yn y flwyddyn ddiwethaf yn y broses darparu cymorth i bobl sy'n chwilio am gymorth heb gysylltiad lleol, a dywedodd 18 na fu newid. Eglurodd pob un o'r pedwar oedd yn gwneud newidiadau bod hyn yn gynnydd mewn cefnogaeth. Roedd un awdurdod lleol yn priodoli hyn i'w cynllun porth, rhywbeth oedd yn cipio atgyfeiriadau am gymorth yn well. Cyfeiriodd y tri arall yn fwy penodol at y math o gefnogaeth oedd ar gael. Cymorth i adleoli oedd hwn, ac, ar gyfer y rhai na ellir eu hatgyfeirio yn ôl, cynigir llai o gymorth:

'Er ein bod ni yn cynorthwyo, nid ydym yn rhoi blaendaliadau.


'Rhoddir cymorth i gynorthwyo pobl i edrych yn y sector preifat a hefyd yn y bandio, polisi dyrannu'.

- 4.81 Roedd dau o'r awdurdodau lleol nad ydynt wedi gwneud newidiadau yn cyfiawnhau hyn wrth ddweud nad oedd angen gwneud hynny. Ychwanegodd un mai 'ychydig iawn o achosion sydd ganddynt o'r tu allan i'r sir'. Nododd tri awdurdod a ddywedodd nad oeddynt yn newid eu bod yn cynnig cefnogaeth fesul achos, a allai gynnwys camau rhesymol i gynorthwyo i sicrhau llety, mynd ar y gofrestr tai, atgyfeirio at asiantaethau eraill, neu gynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r ardal lle mae ganddynt gysylltiad. Dywedodd un o'r awdurdodau lleol hyn y 'bu twf yn nifer y bobl sy'n dod i'r Cyngor o ardaloedd eraill'.

Teimlai dau eu bod yn gofyn iddynt gymryd ceisiadau y gallai awdurdodau lleol eraill er derbyn. Er enghraifft:

'Dim newid ers i'r ddeddfwriaeth ddod i mewn, fodd bynnag mae awdurdodau lleol eraill yn gwrthod derbyn ac yn ceisio gwrthio'r ddyletswydd arnon ni'.

Ffigur 15: Pobl o awdurdodau lleol eraill/trawsffiniol



4.82 Dim ond pum awdurdod lleol a nododd iddynt wneud newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor i bobl o awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Esboniodd pedwar ymatebwr hyn gan ddweud bod asesiad cychwynnol nawr, er y gellid parhau i atgyfeirio at awdurdodau lleol eraill *'os na chafwyd hyd i gysylltiad lleol'*. Fodd bynnag, dywedodd un o'r awdurdodau lleol hyn eu bod wedi profi problemau trawsffiniol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran anawsterau gydag awdurdodau lleol o Loegr yn derbyn neu'n ymateb yn briodol i atgyfeiriadau'.

4.83 Disgrifiwyd hyn gan y rhai nad ydynt wedi gwneud newidiadau trwy ddweud nad yw'n angenrheidiol (dau awdurdod lleol), gydag un o'r rhain yn nodi eu bod yn *'Dilyn y Côd Canllawiau yn ôl yr angen'*. Mae un awdurdod lleol yn y broses o newid a chael system TG newydd, gan gynnwys *'gwell cyfleusterau / gwybodaeth gwefan'*. Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith bod gwaith ychwanegol o hyd, er nad oedd wedi gwneud newidiadau,:

'Bu cynnydd amlwg yn niferoedd rhai o'r tu allan i'r sir yn gwneud ceisiadau. Hyd yn oed os nad ydynt ag angen blaenoriaethol mae yna waith ychwanegol o hyd'.

- 4.84 Dywedodd wyth o ymatebwyr i arolwg yr awdurdod lleol bod newidiadau mewn perthynas â sicrhau llety i bobl o awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill. Roedd dau o'r rhain yn teimlo bod pobl yn dod i mewn i'w hardal oherwydd ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael. Roedd un o'r rhain yn teimlo mai canfyddiadau aelwydydd oedd hyn, tra bod y llall yn teimlo bod aelwydydd yn cael eu cynghori gan asiantaethau eraill i fynd at eu hawdurdod lleol. Mynegodd un ymatebwr rwystredigaeth gydag awdurdod arall:

'Rydym yn cael problem gydag un awdurdod lleol yn peidio â chymryd cais gan eu bod o'r ardal hon felly maen nhw'n ei ailatgyfeirio'n ôl yma er eu bod nhw am wneud cais mewn man arall'.

- 4.85 Dywedodd dau awdurdod lleol bod materion trawsffiniol. I un roedd hyn yn cynnwys *'Ychydig o anhawster yn atgyfeirio at Awdurdodau Lleol yn Lloegr'* tra yn y llall, roedd mwy o bobl yn dod dros y ffin. I un person arall a atebodd, y broblem oedd *'Egluro meini prawf y cysylltiad lleol'* ei hun.
- 4.86 Nododd y rhai nad ydynt wedi gwneud newidiadau nad ydynt yn ystyried cysylltiad lleol fel rhan o'r asesiad cychwynnol o ddigartrefedd a chynnig *'cefnogaeth i gleientiaid a ddewisodd beidio â dychwelyd i'w bwrdeistref leol ac sy'n cysgu allan i gael cymorth gan y gwasanaeth ailgysylltu'*.
- 4.87 Roedd gan fwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau (134) gysylltiad lleol ar draws yr awdurdodau lleol

Tabl 8: Cysylltiad lleol ar draws awdurdodau lleol

	Cysylltiad Lleol	Dim Cysylltiad Lleol	Anhysbys
A1	20	3	2
A2	25	1	1
A3	24	1	
A4	20	1	
A5	21	3	1
A6	24	4	2

- 4.88 O brofiadau defnyddwyr gwasanaethau awgrymir defnyddio dim cysylltiad lleol i wrthod gwasanaethau i'r rhai a gyfwelwyd mewn un awdurdod yn unig (A2). Disgrifiodd un defnyddiwr gwasanaeth sut bu raid iddo brofi ei gysylltiad lleol:

'Chefais i mo 'ngeni yn [dref], er fy mod yma ers 22 mlynedd, gofynnwyd i mi roi tystiolaeth fy mod yn byw yma ers dros bum mlynedd, ac roedden nhw eisiau tystiolaeth ddogfennol o filiau mewn atgyfeiriadau blaenorol. Dydyn nhw ddim gen i. Dw

i ddim yn cadw hynny. Pan es i i'r carchar, fe wnes i golli fy holl bethau, felly dyna beth arall. 'Does gen i ddim, felly mae'n rhaid i mi sortio hynny allan, yn ôl pob tebyg, os ydw i eisiau aros ar y gofrestr tai. Rwy'n meddwl bod hynny'n beth gwirion. ... Mae'n chwerthinllyd, pan hawliais i fudd-dal tai am y nesáu peth at 20 mlynedd yma, felly'r oll sydd raid iddyn nhw'i wneud yw edrych ar eu cyfrifiadur ac mi allan nhw weld, felly pam sy raid i mi?' (DU, A2)

- 4.89 Dywedodd darparwyr gwasanaethau fod cysylltiad lleol yn cyflwyno materion penodol i awdurdodau lleol yr ystyriwyd eu bod yn fwy dymunol i fyw ynddynt:

'Rydym yn ardal wyliau hefyd, felly rydyn ni bob amser wedi cael y rhai a ddaw o'r tu allan i'r sir, daethon nhw yma ar wyliau, hoffi'r lle ac eisiau aros, ond mi gawson nhw ychydig a ddaeth o Loegr pan ddaeth y ddeddfwriaeth newydd allan yn gyntaf.' (ALI, A1)

- 4.90 Yn arwyddocaol, roedd yna ddealltwriaeth amrywiol ymhlith darparwyr gwasanaethau o'r hyn oedd cysylltiad lleol. Roedd rhai yn ddryslyd ynglŷn â sut i'w ddefnyddio a nodwyd gwahaniaethau arwyddocaol o ran sut y defnyddiai ardaloedd yr astudiaeth achos y cysylltiad lleol ac ansicrwydd ynghylch pa adrannau o'r Ddeddf oedd yn berthnasol a phryd. Roedd tystiolaeth hefyd bod cysylltiad lleol yn cael ei ddefnyddio i reoli a gwirio adnoddau

'Mae yna lawer o gamddealltwriaeth o ran pryd y byddwch chi'n atgyfeirio'n ôl at awdurdod arall. Mae rhai yn dweud eich bod yn cymryd adran 62, ac yna byddwch chi'n atgyfeirio ar unwaith. Mae eraill yn dweud eich bod yn derbyn 73 neu 66, ac yna'n atgyfeirio. [Mae yna] lawer o ddryswch'. (ALI, A1)

- 4.91 Roedd gwahaniaethau rhwng y ffordd yr oedd darparwyr gwasanaethau unigol (o fewn yr un awdurdod) yn dehongli cysylltiad lleol hefyd yn amlwg:

'Rydw i eto'n edrych yn eithaf llac ar gysylltiad lleol. Roedd gen i ŵr bonheddig, ac roedd yn ddadl rhyngof fi a chydweithiwr, roedd yn dweud bod ganddo gefnder ond roedd gweddill ei deulu wedi marw'. (ALI, A1)

- 4.92 Yn yr achos hwn, roedd darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol hwn a'i gydweithiwr yn anghytuno dros y math o berthynas deuluol oedd yn gyfystyr â chysylltiad lleol ystyrlon. Daeth y cyfranogwr i'r casgliad bod 'pobl yn cymryd y cysylltiad lleol yn rhy ddifrifol: eu barn nhw yw,' Nid ydym eisiau i bobl o'r tu allan ddod i mewn '. Ia, 'anfonwch nhw yn ôl o ble daethon nhw!' Fy marn i yw, wel wyddoch chi, dydi hynny ddim yn deg'. Fodd bynnag,

mi wnaethon nhw gyfaddef bod rhaid ystyried 'rhesymoldeb' oherwydd 'allwn ni ddim dweud 'iawn, mae gennych gyfylder sawl gwaith drosodd yma, pan fo'ch chwaer yn byw mewn awdurdod arall, efallai y byddech chi'n mynd ati hi am gymorth.'(ALI, A1)

- 4.93 Yn wir, teimlai rhai darparwyr gwasanaethau nad oedd y Côt Canllawiau o gymorth mewn amgylchiadau o'r fath. Pan oedd canllawiau'n bodoli, roedd rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn dal i gymryd camau er mwyn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau hyd yn oed pan oeddent o'r farn mai eithaf tenau oedd eu hawliadau o gysylltiad lleol:


'Bydd pobl yn ceisio dod o hyd i gysylltiad ... dim ond rhieni, brodyr neu chwiorydd y byddwn ni'n eu defnyddio fel cysylltiad lleol 'lly, ond byddan nhw'n dweud bod ganddyn nhw fodryb sy'n byw yn [Tref yng Nghymru], a'i bod yn byw yno ers blynyddoedd. Efallai na fydden nhw wedi siarad â nhw ers cyfnod hir, ond mi wnawn nhw gysylltu â'r bobl hynny, dim ond i weld a allwn ni sefydlu cysylltiad lleol. Weithiau, allwch chi ddim, a rhaid i chi eu hanfon yn ôl.' (LA, A3)

Cymorth i sicrhau llety

- 4.94 Mae ymatebion i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau Cymorth i Sicrhau yn cael eu cynnig ym mhob un o'r awdurdodau lleol, er nad ydynt bob amser trwy ddarpariaeth fewnol. Mae'r canlyniadau'n debyg i'r rhai ar gyfer Atal yn yr ystyr bod negodiadau gyda landlordiaid preifat / cymdeithasol, taliadau trwy grant neu fenthyciad a gwybodaeth a chyngor yn fwyaf tebygol o gael eu cynnig gan ddarpariaeth fewnol. Mae'r mathau o wasanaethau Cymorth i Sicrhau y dywedir eu bod wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn debyg i'r rhai a nodir dan Atal: gwybodaeth a chyngor, llety, cymorth wrth reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent, a thaliadau trwy grant neu fenthyciad.

Ffigur 16: Rhoi cymorth i sicrhau llety (Nifer=22)


Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau a restrir isod, i gynorthwyo i sicrhau llety i ymgeiswyr digartref dan adran 73 y Ddeddf, nodwch a ydynt yn cael eu darparu trwy'r Awdurdod Lleol neu trwy ddarpariaeth Awdurdod nad yw'n Awdurdod Lleol



- 4.95 Dywedodd un awdurdod lleol y bu cynnydd yn y bondiau; y cynllun nwyddau gwyn; a'r cyllid trosiannol y bu'n eu darparu'n fewnol. Ymhlith gwasanaethau eraill 'cynorthwyo i sicrhau' yr adroddwyd arnynt roedd darparu bondiau, cydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gyda'r cyfan yn cael ei ddarparu'n fewnol.

Ffigur 17: Cynnydd yn y cymorth i sicrhau llety yn y flwyddyn ddiwethaf (N=22)

Nodwch hefyd a fu cynnydd yn y gwasanaeth a roddwyd y flwyddyn ddiwethaf




Newidiadau mewn defnyddio llety dan Gymorth i Sicrhau

- 4.96 Mae mwy na hanner yr ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol o'r farn y bu newid yn y defnydd a wnaed o'r sector rhentu preifat yn eu hawdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwy penodol, dywedodd dau awdurdod lleol fod cynnydd sylweddol, deg yn dweud y bu cynnydd bychan, chwech heb newid, tri lleihad bychan, ac un yn dweud y bu gostyngiad sylweddol (gweler y ffigur isod). Roedd y rhai a ddywedodd y bu cynnydd sylweddol yn priodoli hyn i roi *'sylv penodol'*, a *'pherthynas weithio dda gyda'n hasiantaeth gosod tai cymdeithasol a hefyd hyblygrwydd cyllid trosiannol'*.
- 4.97 O'r deg awdurdod lleol a ddywedodd y bu ychydig o gynnydd, nododd saith eu bod yn ymdrechu i ddwyn i mewn landlordiaid y sector rhentu preifat. Cyfeiriodd pedwar o'r rhain at gael staff ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Er enghraifft, cyfeiriodd un awdurdod at gael asiantaeth osod leol yn eu tîm. Dywedodd un awdurdod lleol y bu cynnydd yn y gwaith gyda'r sector rhentu preifat *'oherwydd diffyg tai cymdeithasol fforddiadwy'*. Fodd bynnag, gwelai dau arall fod agweddau cwsmeriaid yn newid. Er enghraifft:
- 'Mae cleientiaid nawr yn ei weld fel dewis amgen derbyniol i dai cymdeithasol oherwydd cysylltiadau cryfach â landlordiaid preifat'*.
- 4.98 Dywedodd un na fu unrhyw newid, gan fod y cysylltiadau da â landlordiaid yn ddibynnol ar waith sylweddol gan yr awdurdod lleol ar ffurf *'cymorth sy'n gysylltiedig â thenantiaeth a chymorth rheoli arian'*. Cyfeiriodd dau at faterion parhaus nad ydynt yn gallu eu datrys hyd yn hyn. Er enghraifft:
- 'Yn hanesyddol, mae hi wastad wedi bod yn anodd rhentu yn [ardal yr awdurdod lleol] oherwydd amharodrwydd gosod i ymgeiswyr digartref a hefyd oherwydd y rhenti uchel nad ydynt yn cael eu talu gan lwfans tai lleol. Mae angen gwarantwyr hefyd, na allwn eu hwyluso ar hyn o bryd'*.
- 4.99 O'r chwe awdurdod lleol a ddywedodd y bu gostyngiad bychan, esboniodd dau fod hyn oherwydd bod eiddo'r sector rhentu preifat yn mynd yn anodd ei sicrhau a bod y cynnydd mewn prisiau yn golygu nad yw *'llawer [o landlordiaid] eisiau tenantiaid sydd ar fudd-daliadau mwyach.'* Y rheswm am hyn yn ôl un oedd colli eiddo a rennir, *'a arweiniodd at golli pum uned'*. Priodolwyd hyn gan yr awdurdod lleol a nododd ostyngiad sylweddol i gyfuniad o landlordiaid nad ydynt yn cofrestru â Rhentu Doeth Cymru a Diwygio Lles:

'Allwn ni ddim cyflawni dyletswydd i eiddo lle nad yw'r landlord wedi'i gofrestru. Mae Credyd Cynhwysol wedi ei gwneud yn anodd dwyn i mewn landlordiaid preifat oherwydd yr oedi mewn taliadau a'r materion ynghylch darparu rhent yn uniongyrchol'.

Ffigur 18: Newidiadau mewn defnyddio llety dan Gymorth i Sicrhau (N=22)



4.100 Teimlai llai o ymatebwyr i'r arolwg y bu cynnydd mewn defnyddio hosteli yn eu hawdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd dau awdurdod lleol y bu cynnydd sylweddol, chwech yn dweud y bu cynnydd bychan, deuddeg dim newid, a dau yn dweud y bu gostyngiad sylweddol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr hynny oedd yn teimlo y bu cynnydd sylweddol at bobl sengl, gydag un yn gweld cynnydd mewn *'lleoliadau saith diwrnod yn ein hostel ein hunain a reolir gan yr awdurdod lleol dan gamau rhesymol'*.

4.101 Esboniodd tri awdurdod lleol a ddywedodd bod cynnydd bychan bod hyn o ganlyniad i natur y rhai a ddeuai i'r Cyngor i ddweud eu bod yn ddigartref . Yn un o'r rhain, golygai hyn gynnydd yn y rhai sy'n cysgu allan a *'chynnydd mewn cwsmeriaid ag anghenion â chymorth y mae angen llety â chymorth arnynt'*. Yn y ddau arall, unigolion ag anghenion cymhleth nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau eraill ac felly *'yn aml yn anoddach eu symud ymlaen i lety addas'* oedd y rhain. Esboniwyd y cynnydd bach i dri ymatebwr fel dull rheoli newid, gyda phrosiectau Cefnogi Pobl nawr yn *'cefnogi mwy ar y Ddeddf'* mewn un awdurdod. Dywedodd un ymatebwr ei fod wedi *'sicrhau bod gwely argyfwng â chymorth ar gael i'r rhai nad ydynt ag angen blaenoriaethol, pan na chaiff ei ddefnyddio gan rywun sydd wedi'i leoli gan yr Awdurdod'*. Esboniodd un y cynnydd fel a ganlyn:

'Fyddwn ni ddim yn caniatáu i unrhyw un gysgu allan. Mae hyn wedi golygu cynnydd yn y bobl hynny nad oes ganddynt angen blaenoriaethol amlwg yn defnyddio llety gwely a brecwast a hosteli'.

- 4.102 O'r 12 awdurdod lleol oedd yn dweud na fu newid, roedd esboniadau'n amrywio rhwng y pedwar a ddywedodd fod galw cyson / uchel yn parhau a'r ddau oedd â *'dim hostel yn yr ardal'*. Roedd dau awdurdod lleol yn gobeithio gwella'r sefyllfa oherwydd y *'gellir rheoli'r galw am wasanaethau'n well'* trwy'r porth cymorth, a rhoi mesurau ar waith i *'fonitro'r gefnogaeth a roddir i'n cleientiaid'*. Fel enghraifft o'r galw uchel, dywedodd un ymatebwr:
- 'Mae gennym hostel deuluol ... ac mae hon wedi bod yn llawn drwy'r flwyddyn, caiff ei defnyddio ar gyfer llety brys yn hytrach na llety gwely a brecwast. Mae ymgeiswyr yn aros yn hirach yn yr hostel deuluol oherwydd bod ymchwiliadau'n cymryd mwy o amser'.*
- 4.103 Mewn un o'r awdurdodau lleol a ddywedodd y bu gostyngiad sylweddol, canfuwyd bod hyn yn ganlyniad i *'waith atal gwell'*. Yn yr awdurdod arall, roedd hyn o ganlyniad i beidio â bod â hosteli a methu atgyfeirio at awdurdodau cyfagos mwy oherwydd newidiadau yn y meini prawf cymhwyster.
- 4.104 Dywedodd dros hanner yr awdurdodau y bu cynnydd mewn defnyddio llety dros dro (ac eithrio hosteli) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwy penodol, dywedodd dau y bu cynnydd sylweddol, dywedodd deg y bu cynnydd bychan, saith dim newid, a dywedodd tri y bu gostyngiad bychan. Mewn un awdurdod lleol lle dywedwyd y bu cynnydd sylweddol mewn defnyddio llety gwely a brecwast, priodolwyd hyn i'r *'stoc gyfyngedig o lety dros dro a diffyg llety symud iddo ar draws yr holl sectorau tai'*.
- 4.105 Roedd awdurdodau a ddywedodd y bu cynnydd bychan yn priodoli hyn i amrywiaeth o faterion, gydag un ymatebwr yn nodi cyswllt â'r diffyg llety symud ymlaen a phedwar arall yn egluro y bu newid oherwydd bod angen cartrefu pobl am fwy o amser oherwydd cynnydd yn nifer y bobl sydd ag anghenion lluosog, *'y cyfnod ymchwilio i weld a oes rhai ag angen blaenoriaethol'*, a theuluoedd mawr. Er enghraifft:
- 'Mae gennym ni nifer fawr o deuluoedd ar ein radar sydd mewn perygl mawr neu'n ddigartref oherwydd materion megis cap budd-daliadau, ôl-ddyledion rhent, landlordiaid yn gwerthu. Pan fydd teuluoedd mawr yn cyrraedd ein llety dros dro neu unedau brys, mae'r cyfnodau aros yn llawer mwy arwyddocaol oherwydd diffyg eiddo ar gyfer teuluoedd mwy yn y sector cymdeithasol a'r sector rhentu preifat'.*
- 4.106 O'r awdurdodau lleol hynny a ddywedodd nad oedd unrhyw newid, dywedodd un *'eu bod yn cael eu cartrefu am gyfnod hwy oherwydd ein bod yn cael trafferth dod o hyd i lety symud ymlaen'* er na fu newid yn y niferoedd cyffredinol. Dywedodd un arall, er y bu

cynnydd mewn pobl sengl yn dod at yr awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref, nid yw hyn wedi cael effaith ar ddefnyddio llety dros dro gan nad yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod ag angen blaenoriaethol ac nid oes dyletswydd dros dro yn ddyledus. Ymhelaethodd dau awdurdod lleol a ddywedodd na fu unrhyw newid trwy ddweud y gellid bod wedi gweld gostyngiadau. Ychwanegodd un o'r rhain *'bod hyn yn cynnwys cynghori cleientiaid eu bod yn debygol o gael cynnig rhent preifat naill ffordd neu'r llall'*.

- 4.107 Teimlai un awdurdod lleol oedd yn dweud bod gostyngiad bychan, y gellid esbonio hyn fel *'gwaith ataliol o ansawdd uchel a wneir gan yr awdurdod'*. Priodolai'r awdurdod arall y gostyngiad i *'newid yn yr angen blaenoriaethol i droseddwy'*. Priodolai traean eu hymateb trwy ddweud bod y gostyngiad bychan yn nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn llety gwely a brecwast a'r gostyngiad bychan yn gyffredinol yn yr amser a dreuliwyd mewn llety dros dro yn cael ei wrthbwysu i ryw raddau gan *'gynnydd bychan mewn llety teuluol'*.

Dyletswydd i sicrhau

- 4.108 Dywedodd hanner ymatebwyr i'r arolwg y bu cynnydd yn y flwyddyn ddiwethaf mewn defnyddio'r sector rhentu preifat i gyflawni eu dyletswyddau i sicrhau llety ar gyfer ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol. Gwelai ddau fod hyn yn gynnydd sylweddol, naw yn ei weld yn gynnydd bychan, wyth fel dim newid, un yn ei weld fel lleihad bychan, a dau fel gostyngiad sylweddol (gweler y ffigur isod). Priodolwyd hyn gan un o'r rhai oedd yn nodi cynnydd sylweddol i *'ddiffyg adnoddau tai cymdeithasol gan fod y sector rhentu preifat wedi'i ddefnyddio'n sylweddol'*, tra bod yr ail yn teimlo bod *'nifer uwch o achosion a75 oherwydd amserlenni o pan weithredwyd y ddeddf'*. Ymhlith y naw awdurdod lleol a ddywedodd y bu cynnydd bychan, roedd cyferbyniad rhwng y rhai a'i gwelai yn nhermau dod o hyd i dai i ateb y galw (dau awdurdod lleol), a ffyrdd newydd o weithio (dau awdurdod lleol). Fel enghraifft o alw:


'Mae cynnydd yn adlewyrchiad o'r galw cyffredinol am lety a chyfraddau symud ymlaen ... Nid yn benodol newid mewn proses neu ffyrdd o weithio'.

- 4.109 Ar y llaw arall, priodolai ymatebwr arall yr awdurdodau lleol y newid i ffyrdd newydd o weithio:

'Mae nifer yr achosion dyletswydd lawn wedi gostwng oherwydd y gwaith atal a wnaed yn gynnar yn y broses, mae hyn wedi arwain at weld y sector rhentu preifat bellach yn ddewis amgen derbyniol i dai cymdeithasol.'

4.110 Mynegodd un awdurdod gynnydd mewn defnyddio'r sector preifat trwy 'annog pobl i edrych ar le y byddent yn hoffi byw'. Fodd bynnag, i un arall: 'mae cyflawni dyletswydd wedi caniatáu hyn ond byddan nhw'n dal i geisio sicrwydd daliadaeth mewn tai cymdeithasol'.

Ffigur 19: Newid mewn math o lety i lety sicr (N=22)



4.111 I'r awdurdodau lleol hynny oedd yn dweud nad oedd unrhyw newid, priodolwyd hyn i weithredu'n ôl yr arfer mewn pedwar awdurdod. Tynnodd tri o'r rhain sylw at rwystrau parhaus, gan nodi eu bod yn wynebu'r 'un rhwystrau ag y llynedd' a 'dim ond ychydig o gleientiaid sy'n barod i dderbyn y sector rhentu preifat'. Ychwanegodd y trydydd awdurdod lleol fod 'taliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag asiantaethau gosod yn aml yn gwneud y llety'n anfforddiadwy'.

4.112 Eglurodd un ymatebwr i'r arolwg y gostyngiad bychan i'r ffaith ei fod yn ymddangos yn 'anoddach sicrhau llety rhent preifat'. Yn yr un modd, roedd y ddau ymateb oedd yn nodi gostyngiad sylweddol yn priodoli hyn i ddiffyg eiddo sector rhentu preifat fforddiadwy a diwygio lles. Er enghraifft:

'Mae rhenti yn y sector rhentu preifat yn cynyddu ac oherwydd y galw uchel mae mwy o landlordiaid yn gwrthod cymryd tenantiaid sydd ar fudd-daliadau'.

4.113 Dywedodd dau awdurdod lleol y bu cynnydd sylweddol mewn defnyddio tai cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wyth yn dweud cynnydd bychan, a 12 yn dweud na fu newid. Mae hyn yn gyson â'r data eilaidd, sy'n dangos bod tai cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio amlaf i leddfu digartrefedd. O'r rheiny sy'n nodi cynnydd sylweddol, dywedodd un eu bod wedi diwygio eu polisi dyrannu i roi 'dewis ychwanegol', tra nododd awdurdod lleol arall niferoedd cyffredinol uwch mewn achosion a75.

- 4.114 O'r ymatebwyr hynny a ddyweddodd y bu cynnydd bychan ac oedd yn cynnig esboniadau'r tu hwnt i adolygu'r polisi dyrannu a'r rhestr aros, cyfeiriodd pedwar at gwrdd â phatrymau newidiol y galw ar gyfer teuluoedd digartref a'r ffordd y maent wedi gallu cyflawni canlyniadau cadarnhaol o hyn. Er enghraifft:

'Nid ydym wedi newid ein prosesau na'n polisi ar gyfer tai cymdeithasol mewn ffordd arwyddocaol i ymateb i alw newidiol ar gyfer digartrefedd ond gyda mwy o deuluoedd yn dod yn ddigartref, rydym wedi gweld cynnydd mewn canlyniadau cadarnhaol i Dai Cymdeithasol trwy'n Cofrestr Tai Cyffredin.'

- 4.115 O'r 12 awdurdod lleol oedd yn dweud na fu newid, dau yn unig a gynigiodd esboniad pellach. Yn achos y ddau, roedd hyn oherwydd y cynhelir gwaith yn ôl yr arfer, gydag un yn cyfeirio at ffactorau cyfyngu:

'Stoc gyfyngedig yn dod ar gael ... person sengl na ellir ei ystyried ar gyfer llety dwy ystafell wely ... asesiad cyn-denantiaeth llym ar fforddiadwyedd'.

- 4.116 Dywedwyd y cafwyd llai o newid mewn defnyddio tai â chymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cofnododd chwe awdurdod lleol gynnydd bychan a chofnododd 16 dim newid. O'r chwech hynny a ddyweddodd y bu cynnydd bychan, priodolai ddau ohonynt hyn i gynnydd yn y galw, gydag un yn nodi bod *'mwy o bobl ifanc yn dod atom am gymorth'*, a'r llall bod *'mwy o bobl gydag anghenion cymhleth lluosog yn dod atom'*. Eglurodd un awdurdod lleol arall y cafwyd y cynnydd oherwydd adolygiad o'r broses o gael mynediad i lety â chymorth:

'Mae'r llwybr i lety â chymorth wedi'i adolygu i sicrhau ei fod yn fwy cadarn a bod angen cymorth mewn gwirionedd ar y cleientiaid sy'n defnyddio'r llety hwn a bod y gefnogaeth a gynigir yn bodloni angen y cleient'.

- 4.117 Roedd yr unig esboniadau gan ymatebwyr yr awdurdodau lleol hynny oedd yn datgan nad oedd unrhyw newid, yn ymwneud â chynnal busnes yn ôl yr arfer (un awdurdod) a darparwyr ddim yn ymgysylltu i gynnig lleoliadau *'er gwaethaf ein hymdrechion i gefnogi'r ymgeisydd drwy'r broses asesu'*.

Crynodeb

- 4.118 Mae'n amlwg o arolwg yr awdurdod lleol bod amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol yn cael ei chynnig ar draws awdurdodau lleol ac, yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod cydbwysedd cymharol gytbwys o ran y gwasanaethau a gânt eu darparu gan awdurdodau

lleol a'r rhai na chânt eu darparu ganddynt. Mae dros hanner yr awdurdodau lleol wedi cynyddu'r gwasanaethau ataliol a ddarperir ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- 4.119 Mae mwyafrif clir yr ymatebwyr i'r arolwg yn gweld bod eu hawdurdod lleol wedi ymgymryd â gwaith mwy ataliol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys ar gyfer pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn mwy na 56 diwrnod), mae'r gwaith ataliol yn fwy cynhwysol, a bod cynyddu'r cyfnod y credir bod ymgeiswyr dan fygythiad digartrefedd i 56 wedi cael effaith gadarnhaol. Mae nifer lai o'r farn bod y gwaith ataliol hwn yn fwy effeithiol.
- 4.120 Cynigiodd awdurdodau lleol ymateb cymysg pan ofynnwyd a fu newid yn lefel yr adnoddau atal sydd ar gael iddynt. Dywedodd dros hanner yr awdurdodau lleol bod problemau sylweddol oherwydd prinder adnoddau ar gyfer gwasanaethau ataliol, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn nodi bod y galw am wasanaethau'n drech na'u gallu i'w cyflenwi. Yn ôl y sôn, mae dros draean o awdurdodau wedi dyrannu adnoddau, gan gynnwys cyllid trosiannol a chyllid Cefnogi Pobl er mwyn cynnig gwasanaethau ataliol
- 4.121 Dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod wedi parhau i ddefnyddio'r prawf agored i niwed dan adran 71, ac ar gyfer y rheiny sy'n gadael carchar a / neu'r ddalfa ieuencid dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 4.122 Mae hanner yr awdurdodau lleol yn nodi cynnydd mewn defnyddio llety rhent preifat a llety dros dro dan Gymorth i Sicrhau. Mae awdurdodau lleol hefyd yn adrodd ar gynnydd cyffredinol yn y defnydd a wneir o hosteli dan Gymorth i Sicrhau yn y flwyddyn ddiwethaf, er ei fod i raddau llai.
- 4.123 O ran demograffeg, dywedwyd mai ar gyfer pobl sengl y bu'r newid mwyaf mewn sicrhau llety, gyda mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn datgan ei bod yn mynd yn anos eu sicrhau. Priodolir hyn yn bennaf i fforddiadwyedd / diffyg llety addas. Mae hanner awdurdodau lleol o'r farn bod newidiadau i sicrhau llety i bobl â phroblemau iechyd meddwl, yn bennaf oherwydd cynnydd canfyddedig yn nifer y bobl a ddaeth at y cyngor yn dweud eu bod yn ddigartref a fforddiadwyedd llety arbenigol. Roedd y rhai oedd yn cysgu allan yn dilyn yn agos. Nodwyd anawsterau cynyddol hefyd i bobl o awdurdodau lleol / trawsffiniol eraill, a phobl â 'nodweddion gwarchodedig' (ac eithrio iechyd meddwl), er bod hyn i raddau llai.

- 4.124 Dywedodd hanner awdurdodau lleol fod mwy o ddefnydd o'r sector rhentu preifat yn y Ddyletswydd i Sicrhau. Roedd tai cymdeithasol yn agos iawn y tu ôl iddo. Nodwyd hefyd gynnydd llai mewn defnyddio tai â chymorth dan y Ddyletswydd i Sicrhau.
- 4.125 Er bod tri awdurdod yn nodi eu bod wedi gwneud newidiadau i'w safbwynt ar fwriadoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid yw mwyafrif clir yr awdurdodau lleol wedi anwybyddu bwriadoldeb at ddibenion a75 ar gyfer grŵp anghenion blaenoriaethol penodol. Yn y pedwar awdurdod lleol sydd, mae hyn wedi bod ar gyfer pobl 16-17 oed yn bennaf. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn awyddus i nodi bod bwriadoldeb yn cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion negodi yn yr achosion prin y câi ei ddefnyddio.
- 4.126 Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn credu bod absenoldeb prawf cysylltiad lleol yn a66 ac a73 wedi cynyddu'r galw am gymorth digartrefedd. Mae pedwar awdurdod lleol wedi gwneud newidiadau yn eu proses ar gyfer darparu cefnogaeth i bobl sy'n chwilio am gymorth heb gysylltiad lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf trwy gynyddu cymorth.
- 4.127 Mae llawer o dystiolaeth o greadigrwydd ac ymrwymiad ymhlith darparwyr gwasanaethau wrth weithredu camau rhesymol ac effeithiau cadarnhaol ar fywydau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Felly, mae'n amlwg bod y Ddeddf wedi newid yn sylfaenol y ffordd y mae Timau Atebion Tai yn gweithio gyda phobl sy'n ddigartref / dan fygythiad digartrefedd ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yr un fath ymhob man ac mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau a'r tu mewn iddynt. Gellir dadlau bod y sgiliau sydd eu hangen i weithredu'r Ddeddf yn wahanol iawn i'r rhai ar gyfer y ddeddfwriaeth flaenorol, lle'r oeddid yn canolbwyntio ar asesu ac ymddengys nad oes gan bob aelod o'r staff y sgiliau angenrheidiol i weithredu'r trefniadau newydd yn llwyddiannus (trafodir hyn yn fanylach yn y bennod nesaf).
- 4.128 Mae'n amlwg bod ffactorau strwythurol yn cael effaith ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau (y tai a chymorth sydd ar gael mewn ardal benodol) a ffactorau unigol (rhyngweithio â darparwyr gwasanaethau). Mae'r canlyniadau tai ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ar draws chwe ardal yr astudiaeth achos yn dyst i hyn.
- 4.129 Rhoddwyd croeso eang i ethos y Ddeddf, estyniad o'r cyfnod pan fo pobl dan fygythiad digartrefedd a manyleb 'camau rhesymol'; ac mae yna lawer o enghreifftiau cadarnhaol lle mae awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol. Fodd bynnag, er bod y Ddeddf yn darparu fframwaith, mae modd dehongli rhai agweddau ohoni, yn benodol, 'camau

rhesymol', yn wahanol a gall gael effaith negyddol ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae yna bryderon hefyd y gallai safoni darpariaeth gwasanaeth fod yn anfantais i'r defnyddwyr gwasanaethau hynny sy'n agored i niwed neu'r rhai sydd â phroblemau gallu.

- 4.130 Mae tystiolaeth hefyd nad yw pob darparwr gwasanaethau wedi ymgysylltu'n llawn ag ethos y Ddeddf, a bod yr hen system o wirio ac asesu'n parhau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod awdurdodau lleol yn nodi cymorth ariannol fel gweithgarwch ataliol sylweddol, ac mae yna oblygiadau adnoddau i'r dyfodol gan fod cyllid trosiannol yn cynnal hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi, er bod naw o ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol wedi dweud eu bod wedi cael addewid o gymorth ariannol ar ffurf blaendal a rhent y mis cyntaf wrth symud i lety rhent preifat, dim ond tri o bobl a gafodd hyn mewn gwirionedd.
- 4.131 Er bod 21 allan o 22 awdurdod lleol wedi cadarnhau eu bod yn cymryd camau i gynnal cysylltiad ag aelwydydd sy'n colli apwyntiadau â Thimau Atebion Tai, roedd nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau nad oedd cyfrif ohonynt yn yr ymchwil. Roedd y tîm astudio'n gallu gwirio amgylchiadau tai 90 o ddefnyddwyr gwasanaethau o'r 154 o bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil gwreiddiol ar adeg yr ail don o waith maes (6 mis yn ddiweddarach). Fodd bynnag, nid oedd yn hysbys lle'r oedd 64 o bobl ac roedd hyn yn bryder. Rhagdybio fyddai nodi bod amgylchiadau tai'r bobl hyn wedi'u datrys neu eu bod wedi tynnu'n allan o'r system oherwydd nad oeddent yn derbyn cymorth. Mae hefyd yn bosib bod amgylchiadau personol pobl yn golygu eu bod yn rhoi'r gorau i ymwneud â Thimau Atebion Tai. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd achosion wedi'u cau ond nid oedd y rhesymau dros hyn bob amser yn glir.
- 4.132 Mae canlyniadau data awdurdodau lleol 2016-17 yn dangos bod cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer yr achosion a gofnodwyd ym mhob un o'r prif gamau: 9,210 yn a66; 10,884 yn a73, a 2,076 yn a75. Yn gyffredinol, cafodd 5,718 o aelwydydd eu hatal rhag mynd yn ddigartref rhwng mis Mawrth 2016 ac Ebrill 2017. Yn yr un cyfnod, cafodd 4,500 gymorth, a chafwyd rhyddhad cadarnhaol ar gyfer 1,674. Ym mis Mawrth 2017, cartrefwyd 2,013 o aelwydydd dros dro - cynnydd o 138 ar yr un cyfnod yn 2016.
- 4.133 Roedd 50 o ddefnyddwyr gwasanaethau o 154 posib y cysylltwyd â nhw yn yr ail don wedi'u hailgartrefu mewn tai cymdeithasol (33) neu'r sector rhentu preifat (17). Mae hyn yn bron i draean o'r sampl gwreiddiol. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran yn yr ymchwil yn parhau mewn tai nad ydynt yn rhai sicr/

dros dro (21) chwe mis wedi iddynt droi at y Cyngor a dweud eu bod yn ddigartref / dan fygythiad digartrefedd, ac roedd naw yn cysgu allan.

- 4.134 Mae amrywiad sylweddol ar draws awdurdodau ac o fewn Timau Atebion Tai ynglŷn â deall a dehongli cysylltiad lleol a bwriadoldeb. Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau'n gweld bwriadoldeb fel bod yn groes i ethos y Ddeddf, ond mae tystiolaeth bod bwriadoldeb yn dal i gael ei ddefnyddio i reoli mynediad at gefnogaeth a gwasanaethau. Gall hyn gael effaith andwyol ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

5. Gweithredu a Gweinyddu


Cyflwyniad

- 5.1 Yn y bennod hon trafodir gweithredu a gweinyddu'r Ddeddf. Trefnir canfyddiadau dan y penawdau a ganlyn: heriau wrth weithredu'r Ddeddf; galw am wasanaethau; biwrocratiaeth; y Côd Canllawiau; Seilwaith TG; meincnodi, ystadegau a monitro.

Heriau wrth weithredu'r Ddeddf

- 5.2 O'r arolwg o'r awdurdodau lleol, nododd mwyafrif clir (16 o ymatebwyr) eu bod wedi cael heriau wrth weithredu'r Ddeddf. Roedd chwech o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r datganiad nad yw eu hawdurdod lleol wedi wynebu heriau sylweddol wrth weithredu'r Ddeddf o fis Ebrill 2015, ac anghytunodd deg ohonynt, nid oedd tri ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, roedd dau yn cytuno ac un yn cytuno'n gryf. Yn gyffredinol, mae hyn yn debyg i nifer yr awdurdodau lleol a ddywedodd eu bod yn wynebu heriau yn yr arolwg o'r don gyntaf, pan ddywedodd 17 awdurdod lleol eu bod wedi profi heriau (anghytunodd wyth yn gryf ac anghytunodd naw).

Ffigur 20: Heriau wrth weithredu'r Ddeddf (N=22)



- 5.3 Y baich gweinyddol, diffyg llety sector rhentu preifat / fforddiadwy addas a chynnydd yn nifer yr achosion yw'r heriau a amlygir yn amlaf gan awdurdodau lleol; fel y gwelir yn y ffigur isod. Mae hyn yn debyg i'r arolwg o'r don gyntaf, mai baich gweinyddol, diffyg llety addas / fforddiadwy ac adnoddau ariannol oedd y tair her yr adroddwyd arnynt amlaf. Ymhlith yr heriau eraill yn yr arolwg o'r ail don roedd '*diffyg eiddo un ystafell wely fforddiadwy yn y sector cymdeithasol / preifat*', yn ôl un un awdurdod lleol, a '*chleientiaid mwy cymhleth yn ôl un arall*:'


'Mae gwasanaethau eraill yn aml yn gwneud cam â chwsmeriaid ac nid ydynt yn darparu ymyriadau priodol sy'n gwaethygu a chynyddu'r risg digartrefedd, sy'n golygu ein bod ni (y rhwydwaith diogelwch terfynol) yn amsugno anghenion uchel ac achosion cymhleth llawer mwy, a byddent yn costio mwy i'w rheoli oherwydd bod pobl yn aros yn hwy mewn llety tymhorol a brys'

- 5.4 Dywedodd yr un awdurdod lleol hefyd fod 'diffyg opsiynau llety â chymorth' yn her arall, yn enwedig gan fod 'nifer gynyddol o gleientiaid ag anghenion o ran cymorth yn golygu bod angen mwy o dai â chymorth arnom'. Yn wir, dywedodd yr awdurdod hwn eu bod ofn:

'Y bydd partneriaid sy'n draddodiadol yn datblygu tai â chymorth yn adolygu eu sefyllfa a'r risg o ddatblygiadau newydd, a hynny oherwydd newidiadau arfaethedig ar gyfer cyfundrefn rhenti llety â chymorth ac effaith diwygio lles'.

Ffigur 21: Y tair her uchaf a nodir gan eich awdurdodau lleol (N=22)

Beth fydddech chi'n ei ddweud oedd y tair prif her yr oedd eich Awdurdod Lleol yn eu hwynebu wrth weithredu Rhan 2 y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?



Noder: Mae

ailgartrefu carcharorion wedi newid o fod yn 'Llwybr carcharorion' er mwyn cipio'n gywirach yr her yn hytrach na'r ateb arfaethedig.

Y Galw am wasanaethau

- 5.5 Pan ofynnwyd iddynt *'Beth yw effaith y Ddeddf ar y galw am wasanaethau digartrefedd yn eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf'*, nododd 12 o ymatebwyr i arolwg yr awdurdod lleol y gwelwyd cynnydd sylweddol canfyddedig, dywedodd saith bod cynnydd bychan, a dywedodd un nad oedd newid. Ymatebodd dau *'arall'*.
- 5.6 Roedd yr awdurdodau lleol hynny a ddywedodd bod cynnydd sylweddol, wedi'u rhannu rhwng y rheiny a welai hyn yn ganlyniad cynnydd yn nifer y bobl oedd yn defnyddio gwasanaethau (chwe awdurdod lleol), a'r rhai oedd yn ei weld yn bennaf fel cynnydd mewn llwyth gwaith. Mewn un awdurdod lleol, roedd y cynnydd i'w weld mewn pobl sengl yn bennaf:
- 'Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn pobl yn dod i'r Cyngor yn dweud eu bod yn ddigartref, yn enwedig pobl sengl. Mae dros 70% o'r holl achosion wedi bod yn bobl sengl ac oherwydd diffyg llety addas a fforddiadwy, mae cael canlyniad cadarnhaol i'r grŵp hwn yn heriol iawn'.*
- 5.7 Roedd pump o awdurdodau lleol yn gweld gwaith ataliol a faint o gymorth y mae hawl gan bobl ei gael yn arwain at gynnydd mewn llwyth gwaith. Nododd un ymatebwr anghenion cymhleth y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, tra bod un arall yn pryderu nad oedd y cynnydd yn cael ei godi yng nghanlyniadau'r ystadegau:
- 'Mae nifer y cleientiaid sy'n dod i'r awdurdod wedi codi'n sylweddol ac nid yw'r gwaith hwn yn cael ei gydnabod yn y canlyniadau [ystadegol] gan nad oes canlyniad yn cael ei gofnodi, fodd bynnag, mae'r gwaith sydd wedi'i wneud ar hwn yn fawr'.*
- 5.8 Roedd ymatebion yr awdurdodau lleol hynny a welai gynnydd bychan hefyd yn cyfeirio at y gwaith atal a'r cynnydd yn y cymorth sydd ar gael (un awdurdod lleol), ynghyd â mwy o achosion a llwyth gwaith (dau awdurdod lleol). Roedd dau o'r farn bod y llwybr carcharorion wedi cynyddu'r galw am wasanaethau. Er enghraifft:
- 'Mae'r llwybr carcharorion ei hun wedi creu cynnydd gydag unrhyw ad-droseddwr yn meddu ar sawl cais, gyda phob dedfryd yn cael ei ystyried fel newid mewn amgylchiadau'.*
- 5.9 Eglurodd yr awdurdod lleol a ddywedodd nad oedd newid, mai'r rheswm am hyn oedd eu bod *'wastad wedi cael nifer o bobl yn dod at y Tîm Atebion Tai yn dweud eu bod yn ddigartref'*.

Biwrocratiaeth

- 5.10 Roedd y fiwrocratiaeth a grëwyd trwy gyflwyno'r Ddeddf - a'i chymhlethdod - weithiau'n llethu defnyddwyr gwasanaethau oedd yn dweud eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu deall nag ymateb i'r wybodaeth a dderbyniwyd ganddynt. Enghraifft i ddangos hyn yw'r defnyddiwr gwasanaeth a ganlyn, dyn heb gyfeiriad sefydlog oedd wedi profi digartrefedd ysbeidiol trwy gydol ei oes. Roedd gan y dyn hwn broblemau iechyd meddwl hefyd a dywedodd ei fod yn teimlo'n ddryslyd ac yn bryderus gan yr ohebiaeth a dderbyniai ynglŷn â'i sefyllfa dai. Roedd yn deall ei fod yn gymwys i gael cymorth gan yr awdurdod lleol ac nad oedd yn cael ei ystyried yn fwriadol ddigartref, ond roedd gwahanol adrannau a dyletswyddau'r Ddeddf yn ei ddrysus ac yn ychwanegu at ei ofid meddyliol:

'Maen nhw wedi bod yn rhoi llythyrau i mi am y camau, ynghylch a ydw i'n ddigartref, felly os ydw i'n gymwys i gael cymorth ai peidio, ac mi ydw i, oherwydd dydw i ddim yn fwriadol ddigartref. ... mae'n amlwg fy mod yn mynd drwyddo fo'i gyd, ond rwy'n meddwl, oherwydd ar un adeg, es i lawr oherwydd nad oeddwn yn gwybod beth oedd yn ei olygu, oherwydd yn y bôn, dywedai dan ba bynnag gyfraith, adran 76, rydych bellach wedi'ch rhyddhau. Wel, wyddoch chi, rydych chi'n meddwl, nid ydyn nhw'n eich cynorthwyo, ond yr oll y maen nhw'n ei olygu nawr ydi'ch bod dan y gwaith hwn, 77. Gallai hynny fod yn dipyn cliriach.'(DG, A2)

- 5.11 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau hefyd yn teimlo bod nifer o gamau'r Ddeddf yn creu profiad negyddol i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn cymorth ar gyfer digartrefedd. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr:

'Weithiau mae'n rhaid i chi fynd drwy'r cyfnodau hynny ac ymddengys hynny i mi i fod ychydig yn artiffisial bob amser yn nhaith rhywun. Mae bron yn teimlo fel bod rhaid i chi fynd drwy'r camau hynny cyn i chi dderbyn y bydd y person hwn ag angen blaenoriaethol, wyddoch chi beth rwy'n ei olygu? Maen nhw'n gofyn i chi fynd trwy'r cam atal ac yna'r ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau ac yna'r ddyletswydd, ac nid wyf yn gweld bod pob un o'r rhai hynny, rhannu'r gwahanol ddyletswyddau hynny, o reidrwydd, yn hynod o ddefnyddiol.' (ALI, A2)

- 5.12 Esboniodd rhai defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn methu deall gohebiaeth yn iawn oherwydd anableddau dysgu:

'Do, mi gefais lythyrau a hynny gan y cyngor, do, ond nid yw o unrhyw gymorth pan fyddwch chi'n ddyslecsig' (DG, A1)

- 5.13 Teimlai darparwyr gwasanaethau eraill nad oedd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n deall cynnwys y dogfennau: 'rydyn ni wedi cael sylwadau gyda chleientiaid yn dweud pam ydych chi'n anfon y llythyrau hyn ataf, dw i'm yn eu deall'. (ALI, A1). Awgrymodd eraill y gellid cael yr iaith a ddefnyddir mewn gohebiaeth yn 'fygythiol' yn enwedig gan nodi sut gall yr iaith a'r dewis geiriau ar adegau ymddangos yn arbennig o ymyrgar:
- 'Dyletswydd' [a] 'rhyddhau'; nid ydyn nhw'n yn llythyrau cyfeillgar i'n cleientiaid. Yn aml, mae'n rhaid iddyn nhw ddod at y staff a rhaid i staff ailwirio'* (TS, A2).
- 5.14 Dim iaith glir ac iaith fwy ffurfiol yn nodi sut roedd tensiwn wrth gynhyrchu dogfennau oedd yn hawdd eu defnyddio, ac yn cydymffurfio â'r Cod Canllawiau, a darparu gwybodaeth gywir oedd yn ymwneud â'r Ddeddf:
- 'Rydych chi'n dechrau dyfynnu pethau fel Adran 66, Adran 68; neu mae gennym ddyletswydd Adran 73 ac maen nhw'n edrych arnoch chi fel petaen nhw'n dweud 'disgwyliwch eiliad, nid wyf yn deall dim o hyn' ond mae'r holl lythyrau'n ffurfiol iawn oherwydd bod rhaid iddyn nhw fod'. (LCC, A6)*
- 5.15 Fodd bynnag, dywedodd defnyddwyr eraill y gwasanaeth fod ganddynt brofiadau mwy cadarnhaol lle eglurwyd manylion yr ohebiaeth a gawsant gan staff yr awdurdod lleol, gan awgrymu bod profiadau pobl yn cael eu dylanwadu'n fawr gan y rhyngweithio â staff rheng flaen:
- 'Maen nhw'n rhoi llawer o wybodaeth i chi a llawer o waith papur i fynd drwyddo, ond os na wnaethoch chi ei ddeall, bydden nhw wedi'ch helpu chi i fynd drwyddo ac wedi esbonio popeth i chi'. (DG, A2)*
- 5.16 Codwyd hyn hefyd gan rai darparwyr gwasanaethau oedd yn teimlo bod staff wedi drysu gyda chymhlethdod y Ddeddf, y gwahanol gamau a'r angen i gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau ym mhob cam:
- 'Gan fod cymaint o wahanol rannau i'r Ddeddf ... Os daw rhywun atoch chi ... un diwrnod ac yna mae gan bob un ohonyn nhw wahanol rannau a gwahanol brosesau a gwahanol gamau iddyn nhw, mae ganddyn nhw oll wahanol fformatau. Felly, mae hi'n braf pan fo un llythyr yn dweud dyma ni, dyma sut mae hyn yn cael effaith arnoch chi, mae'n beth syml iawn, ond na, mae pob llythyr yn wahanol ac mae'n cymryd cryn dipyn o amser i'w ddeall hefyd. Felly, os ydych chi fel gweithwyr proffesiynol yn cael trafferth, dychmygwch yr effaith y mae'n ei chael ar y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau.'* (TS, A2)

Hyblygrwydd

- 5.17 Siaradodd sawl darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol am sut yr oedd eu cefnogaeth i rywun yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod 56 diwrnod fel y gwelir yn yr enghreifftiau a ganlyn:

'Dyn ni ddim yn llym yn ei gylch ... Mae'n rhaid i mi gyfaddef, anaml iawn y byddai'n cau ar 56 diwrnod. Ar ôl a73, mae'n brin iawn, oherwydd, i mi, rwy'n credu bod y gyfraith yn nodi, i'r perwyl, dirwyn y ddyletswydd i ben ar ôl 56, os gellir cynnal pob cam rhesymol. Wel, weithiau, efallai nad ydw i wedi dod o hyd i unrhyw beth o fewn y 56 diwrnod hwnnw, felly dydw i ddim yn cau. Rwy'n teimlo, mewn oddeutu mis arall, maen nhw'n dal i gael eu pwyntiau, maen nhw wedi cael eu cartrefu.' (ALI, A1)

'Ydw, oherwydd rwyf wedi cael tua thri neu bedwar o ddynion sengl, heb fod yn flaenoriaeth, yn ddigartrefedd ac y rhoddwyd a73 iddyn nhw - dylwn i fod yn cau ar ôl y 56 diwrnod. Ei ddal am efallai dau fis arall ac maen nhw wedi cael eiddo, tŷ cymdeithasol ... yn y pen draw mae'n anodd iawn iawn troi a dweud, 'Mae'n ddrwg gennym, rydyn ni wedi cyflawni'r Cynllun Tai Personol ond rydych chi dal yn ddigartref. Hwyl fawr.' Dwi ddim wedi bod yn gwneud hynny a dw i ddim yn bwriadu! Gyda gobaith gallan nhw weld bod ystadegau i ddangos bod pobl yn cael eu cartrefu wrth ei ddal dipyn hirach.' (ALI, A1)

Effaith ar lwyth gwaith

- 5.18 Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau'n cydnabod bod angen bod yn dryloyw a chyfathrebu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau ac archwilio arferion, beirniadwyd yr effaith a gafodd hyn ar eu harferion gwaith a'u llwyth gwaith: *'mae gormod o waith papur'* (TS, A1) ac *'mae yna lawer o fiwrocratiaeth o gwmpas'* (ALI, A2). Fodd bynnag, ystyriwyd bod natur biwrocratiaeth a llwybrau archwilio yn agwedd anochel ar weithredu'r Ddeddf gan roi'r modd i wrthsefyll heriau a wnaed mewn perthynas â chymau gweithredu a phenderfyniadau'r Timau Atebion Tai:

'Mae yna lwybr papur i ni, felly os ydyn nhw'n cysylltu [ag X] ac yn dweud,' Pam nad ydych chi'n gwneud hyn, hyn a hyn '... Gallwn anfon yr holl waith papur atyn nhw, ac yna rydym wedi'n diogelu.' (LCC, A3)

- 5.19 Fodd bynnag, nid oedd rhai darparwyr gwasanaethau'n gweld hyn yn ddefnyddiol, er eu bod yn cydnabod bod angen dilyn y weithdrefn benodol i gipio gweithgarwch yr ymgymeryd ag o:

'Cawsom un achos y diwrnod o'r blaen lle bu i ni anfon y paragraff anghywir mewn llythyr ac roedd [asiantaeth y trydydd sector] ar ein pennau ni a bu'n rhaid inni dynnu'r penderfyniad hwnnw'n ôl a'i wneud eto oherwydd ei fod yn hynod o fiwrocrataidd. Mae yna nifer fawr o lythyrau. Rydym yn gwneud llawer o waith ataliol sydd y tu allan i ddigartrefedd yn benodol ond allwn ni ddim cyfrif y gwaith atal hwnnw oni bai ein bod yn anfon yr holl lythyrau. Felly, rwyf wedi gwneud penderfyniad y byddwn yn anfon yr holl lythyrau er fy mod yn credu ei fod yn wastraff amser rhyfeddol.' (ALI, A2)

- 5.20 Mewn gwrthgyferbyniad â'r pwyntiau a wnaed uchod, roedd yna nifer fach o ddarparwyr gwasanaethau a wnaeth sylwadau cadarnhaol ar y ffordd y rheolwyd y gweithredu yn eu hawdurdod lleol. Cam cadarnhaol a welwyd gan un awdurdod oedd cynhyrchu cyfres o lythyrau safonol oedd ar gael pan gyflwynwyd y Ddeddf gyntaf:

'Felly mae [X] yn dod i mewn ac mae'n mynd dros y ddeddfwriaeth gyda ni, ac mae gennym lawer o becynnau llythyrau defnyddiol sydd wedi bod yn fendith pan fydd gennych chi'r llwyth gwaith sydd gennym ni. Mae'r llythyrau wedi'u gwneud i chi fwy na heb a'r oll y byddwch yn ei wneud yw cynnwys pa bynnag wybodaeth.' (ALI, A3)

- 5.21 Fel y cyfryw, ystyriwyd y 'pecynnau llythyrau' yn rhywbeth oedd yn arbed amser o bosib gan rwystro llwyth gwaith mawr.
- 5.22 Roedd consensws cyffredinol ymhlith darparwyr gwasanaethau, felly, bod y cynnydd mewn biwrocratiaeth o ganlyniad i'r Ddeddf wedi cael effaith sylweddol ar lwythi gwaith. Nododd un darparwr gwasanaethau mewn rôl strategol, sut roedd staff rheng flaen yn *'boddi mewn ffeiliau'* (ALI, A6). Y teimlad oedd fod peth o'r baich yn esblygu o'r amser yr oedd yn ei gymryd i gwblhau'r dogfennau: *'o ran amser, h.y. llythyr ar ôl llythyr ydi hi, a jesd am dic'* (ALI, A1) a bod proses cynhyrchu a dosbarthu llawer o ddogfennau'n ddiystyr gan ei ddisgrifio fel *'ping pong llythyrau'* (ALI, A5).
- 5.23 Roedd nifer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn teimlo bod yr amser yr oedd ei angen ar gyfer cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol yn mynd ag amser i ffwrdd oddi ar waith uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau ac yn creu *'perygl posib o dynnu llygad gweithwyr achos oddi ar y bêl'* (TS, A6). Yn ogystal, gwelwyd bod y galw ar y llwyth gwaith i'w weld wedi atal yr ymgais i ymgorffori'r math o arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion sydd wrth wraidd y Ddeddf:

'Ymddengys mai un o'r beirniadaethau yw bod y rhan bersonol yn cael ei cholli.' (TS, A1)

'Mae'n mynd â'r holl amser i ffwrdd oddi wrth y cleientiaid, mewn gwirionedd. Y gwaith pwysig.' (ALI, A1)

5.24 Fel y cyfryw, y teimlad oedd bod y gwaith papur a gwblhawyd yn ystod gwaith o ddydd i ddydd y swyddogion rheng flaen yn arwain at fwy o lwyth gwaith ac, yn sgil hynny, at dreulio llai o amser ar waith uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau. Y teimlad hefyd oedd bod y cynnydd mewn gwaith papur a'r effaith ddilynol ar lwythi gwaith yn cael ei ddwysáu gan niferoedd cynyddol y bobl sy'n dod i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

5.25 Tynnwyd sylw at ffactorau eraill hefyd o ran ychwanegu at fwy o lwyth gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys llai o staffio, llymder a thoriadau cyllidebol. Ni châi pob llwyth gwaith ei ystyried yn negyddol gan bob darparwr gwasanaethau gan fod rhai yn awgrymu bod gweithio dan y trefniadau newydd yn golygu bod mwy o foddhad yn y swydd:

'Rwyf wedi mynd o fod yn gwneud gwaith Tîm Atebion Tai i ferw rhoi cyngor ar ddigartrefedd ac atal digartrefedd. Byddwn i'n bendant yn dweud bod fy llwyth gwaith wedi cynyddu bedair gwaith ond mae'n llawer mwy diddorol ac rwy'n ymwneud â llawer mwy o asiantaethau ac mewn cyswllt â llawer mwy yn yr [awdurdod] a'r tu allan. Llawer gwell. Llawer mwy o waith ond yn llawer mwy pleserus' (ALI, A3)

5.26 At ei gilydd, gwelai darparwyr gwasanaethau bod y cynnydd yn y bobl sy'n dod i ddweud eu bod yn ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd fel rhywbeth cadarnhaol, ond soniodd llawer am y cynnydd yn llwyth gwaith staff rheng flaen a'i ddisgrifio'n *'heriol'* ac *'anodd'* gan ymhygu ei fod *'yn anodd i gynghorwyr gadw cysylltiad a rhoi'r lefel gyson honno o gefnogaeth dros gyfnod o amser i geisio datrys problem tai rhywun'* (ALI, A3).

5.27 Roedd darparwr gwasanaethau arall yn mesur y cynnydd yn y gwaith *fel 'y mis yma, rydym wedi cael mwy na 80 o achosion ... mae hynny'n llawer. 20, 25, 30, 50 oedd o'n arfer bod'* (ALI, A1). Gwelai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod ehangu cylch gorchwyl pobl a allai dderbyn cyngor a chymorth yn rhywbeth cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn gyfystyr â llwyth gwaith mwy cymhleth yn ogystal â mwy o waith:

'Mwy o waith gydag achosion nad oedden nhw'n flaenoriaeth ac mae hi hefyd yn cymryd mwy o amser i wneud yr asesiad. Lle ar un adeg, wyddoch chi, mater o roi tic mewn blwch oedd hi ... ond erbyn hyn mae'n fwy, rydych chi'n gwybod, cael at wraidd y broblem a cheisio teilwra'r gwasanaeth ar gyfer y cleientiaid ac yna bod yn rhan ohono hefyd.' (ALI, A1)


- 5.28 Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n cwestiynu a oedd y newidiadau i'w harferion gwaith wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn gwirionedd:
- 'Gyda phob lefel o waith papur; y llythyrau; y cynlluniau; yr adolygiadau; cadw ar ben pethau; mae hi'n ddiddiwedd nawr mewn gwirionedd. Nid oedd gennym hynny i gyd o'r blaen, ac mi fydda' i'n meddwl wrthyf fy hun a oes angen hynny i gyd oherwydd mae'r canlyniad terfynol i'r rhan fwyaf o bobl yr un peth ag yr oedd dan yr hen ddeddfwriaeth.'* (ALI, A3)
- 5.29 Roedd sawl awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran rhoi sylw i'r galw am Atebion Tai a'r llwyth gwaith mawr a ddaeth yn sgil hyn trwy gyflwyno system brysbennu:
- 'Felly maen nhw'n cyflwyno'r brysbennu yma fel ffordd o ryddhau rhywfaint o amser i'r swyddogion.'* (TA, A1)
- 5.30 Mewn un awdurdod lleol lle'r oedd system brysbennu wedi'i weithredu, roedd staff Atebion Tai yn credu ei fod yn ddefnyddiol iawn o ran symleiddio gwaith trwy fynd trwy atgyfeiriadau a nodi lle'r oedd angen asesiad pellach fel nad oedd pob ymholiad yn dod trwodd i'r tîm Opsiynau Tai. Roedd cydweithwyr oedd â rôl wahanol o fewn yr un awdurdod lleol yn fwy amheus ac yn nodi diffyg gwybodaeth a sgil y gweithwyr brysbennu, ac effaith broblemus dangosyddion perfformiad:
- 'Nid ymdrin ag ymholiadau bilio ac yn ychwanegu mwy o nwy, yswiriant ydym yma; rydym yn ymdrin â bywydau pobl. Gall fod y peth symlaf. Yn ôl yr hyn sy'n gywir, os yw'n cymryd 45 munud, mae'n cymryd 45 munud ac ni ddylai gael ei yrru gan rifau, ansawdd ddylai fod yn ei yrru. Os yw'r niferoedd yn rhy uchel ac nid ydym yn ateb y galwadau hynny, ni ddylid fod yn dweud 'rydych chi wedi methu, nid ydych chi wedi ateb y galwadau' - a chredaf mai diwylliant fel hyn oedd gennym o'r blaen. Dylid bod yn gofyn 'pam na allwch chi'u hateb? Ydi pawb yn brysur? Ydi pawb yn gweithio hyd ei eithaf? lawn, yn amlwg felly, mater o adnoddau yw hi.'* (ALI, A4)
- 5.31 O ran natur y gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf, cafwyd trafodaeth sylweddol ar sut i unioni rhai beichiau gweinyddu a biwrocratiaeth. Yn y bôn, y teimlad oedd y gellid 'symleiddio a mireinio'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf (ALI, A6). Er enghraifft, 'mae angen symleiddio llythyrau a rhaid defnyddio iaith symlach' (TS, A2). At hynny, tynnodd llawer o gyfranogwyr sylw at hyd llythyrau, nifer y llythyrau a'r ffyrdd nad oedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau'n deall y dogfennau oherwydd eu bod yn rhy

dechnegol. Aeth yr ymatebwyr, oedd o'r farn bod hyn yn anghyfreithlon i ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion, i'r afael â'r pwynt olaf.

Adnoddau


- 5.32 Yn gyffredinol, teimlai deuddeg o ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol na fu cynnydd yn yr adnoddau sydd ar gael yn eu hawdurdod lleol ar gyfer atal a mynd i'r afael â digartrefedd, ac eithrio arian trosiannol Llywodraeth Cymru. Nid oedd pedwar ymatebwr yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd chwech yn gyffredinol yn teimlo y bu cynnydd mewn adnoddau.

Ffigur 22: Cynnydd yn adnoddau'r awdurdodau lleol (N=22)



- 5.33 Pan ofynnwyd iddynt sut roedd eu hawdurdodau lleol wedi bodloni'r galw newidiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ymatebion a gafwyd amlaf oedd Cyllid Trosiannol, perthynas agosach â'r gwasanaethau Cefnogi Pobl, a pherthynas agosach â phartneriaid allanol eraill. Cyfeiriodd y ddau ymateb '*arall*' at staff ychwanegol, gydag un yn datgan nad oedd hyn yn cael ei ariannu trwy Gyllid Trosiannol, a'r llall yn ychwanegu eu bod yn '*dal i weithio ar ddod â mwy i mewn*'.


Ffigur 23: Newidiadau lleol i gwrdd â'r galw (N=22)



Adnoddau ar gyfer atal

- 5.34 Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran newid yn lefel yr adnoddau atal sydd ar gael, fel y dangosir yn y siart isod. Yn gyffredinol, teimlai 12 o ymatebwyr y bu cynnydd sylweddol neu ychydig o gynnydd mewn adnoddau. Fodd bynnag, teimlai tri nad oedd unrhyw newid wedi bod, a theimlai saith y bu gostyngiad sylweddol.

Ffigur 24: Newid yn lefel yr adnoddau atal (N=22)



5.35 Dywedodd naw awdurdod lleol y bu newid yn y flwyddyn ddiwethaf yn y modd yr oeddynt yn dyrannu adnoddau ar gyfer gwasanaethau Atal, a dywedodd 13 na fu unrhyw newid yn ystod yr amser hwn (gweler y ffigur isod). Cyllid trosiannol oedd yr esboniad am newidiadau mewn dyraniad adnoddau er mwyn cynnig gwasanaethau (dau awdurdod lleol), a nododd un ymatebwr o'r awdurdodau lleol y cawsant eu defnyddio i gefnogi taliadau ychwanegol i atal digartrefedd, ond nododd un arall y bu gostyngiad ynddynt. Cyfeiriodd dau awdurdod lleol at gyllid Cefnogi Pobl, a ail-ddyrannwyd a'i ddefnyddio i ailfodelu prosiectau a chyllido swyddi Shelter. Mae un awdurdod lleol wedi cyflogi mwy o staff Atebion Tai, sydd wedi galluogi pob ymgeisydd i gael cyfweiliad. Trafododd dau awdurdod lleol arall yr angen i flaenoriaethu achosion, gydag un o'r rhain yn treialu *'cynllun llety ar y cyd i bobl sengl ag anghenion cymorth'*. Mae un awdurdod lleol wedi cymryd camau i gynnig mwy o gymorth i gleientiaid *'symud i lety sefydlog yn y sector rhentu preifat'*.


5.36 Dywedodd deuddeg o awdurdodau lleol y cawsant broblemau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd adnoddau cyfyngedig. Esboniodd wyth o'r awdurdodau lleol fod hyn oherwydd bod y galw'n drech na'r cyflenwad. Fodd bynnag, roedd amrywiad yn y galw i un ymatebwr:

'Mae galw uwch am wasanaeth i rai grwpiau cleientiaid, mae rhai achosion cymhleth yn ddwys iawn o ran amser ac rydym wedi diwygio'n system ddyletswydd / brysbennu i ymdopi â hyn ... Mae yna adegau brig yn ystod y flwyddyn lle mae'r galw'n uwch'.

5.37 Cyfeiriodd un awdurdod lleol yn benodol at lety dros dro, y teimlodd ei fod wedi *"dod yn broblemus iawn ac mae angen rhagor o adnoddau ar ei gyfer"*. Cyfeiriodd tri o'r wyth ymateb hyn at y diffyg arian a'r anawsterau o weithio gyda'r sector rhentu preifat. Er enghraifft:

'Yn gyfyngedig iawn o ran y cymhellion ariannol y gallwn gynnig i landlordiaid yn y maes sector rhentu preifat ... Mae dod o hyd i lety fforddiadwy i bobl sengl yn dod yn fwyfwy anodd. Mae landlordiaid hefyd yn fwy amharod i weithio gydag awdurdodau lleol nag erioed o'r blaen '.

Ffigur 25: Adnoddau atal (N=22)



- 5.38 Roedd ymatebwr arall yn pryderu am yr hyn fyddai'n digwydd pan gaiff arian trosiannol ei dynnu:

'Gyda chymorth cyllid trosiannol, gallwn ddarparu nifer o gamau rhesymol hyblyg, ond heb hwn, bydd yn anoddach cyflawni dyletswyddau ac arbrofi gyda chefnogaeth i weld beth sy'n gweithio'.

- 5.39 Teimlai un ymatebwr arall fod toriadau ehangach wedi gwneud pethau'n anos gan fod *'Cyllid y trydydd sector wedi'i dorri ac felly mae partneriaid hefyd wedi gorfod torri eu gwasanaethau'.*

- 5.40 Roedd adborth darparwyr gwasanaethau'n adleisio ymatebion i'r arolwg o'r awdurdodau lleol. Teimlai llawer fod y gronfa ar gyfer atal digartrefedd yn ansylweddol, *'mae'r elfen ariannu ar gyfer atal digartrefedd yn eithaf cyfyngedig'* (ALI, A2).

- 5.41 Dywedodd sawl darparwr gwasanaethau y byddai gan waith atal llwyddiannus a chymorth tenantiaeth oblygiadau adnoddau parhaus sylweddol:


'Rwy'n credu po fwyaf y mae'r Llywodraeth am fwrw atalioldeb yn ei flaen, y mwyaf y mae'n rhaid iddynt gyflenwi'r arian er mwyn cael yr asiantaethau ar eu hochor, neu fel arall, ni fydd hi'n ymarferol.' (LCC, A3)

'Hynny yw, mae hi'n rhesymol i ni ddweud,' lawn, mi dalwn ni ôl-ddyledion rhent o £500 ond os oes ganddynt 3,000 o ôl-ddyledion rhent ac rydych chi'n dweud, wel, mae'n ddrwg gennym allwn ni'm talu 3,000 i bawb, byddai'n potiau arian wedi mynd ac maen nhw'n meddwl, wel nid yw'n rhesymol gwneud hynny, wyddoch chi, felly ie, mater o gydbwysu yw hi.' (ALI, A1)

Adnoddau ar gyfer cymorth i sicrhau

- 5.42 Pan ofynnwyd a oedd newid yn y flwyddyn ddiwethaf yn lefel yr adnoddau oedd ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn, dywedodd dau ymatebwr i arolwg yr awdurdod lleol y bu cynnydd sylweddol, dywedodd deg bod cynnydd bychan, dywedodd dau na fu newid, tra bod wyth yn gweld gostyngiad bychan. Eglurwyd hyn gan y ddau awdurdod sy'n adrodd am gynnydd sylweddol fel cyllid trosiannol. Roedd pump o'r ymatebwyr a ddywedodd y bu cynnydd bychan yn priodoli hyn hefyd i gyllid trosiannol, a ddefnyddiwyd i 'ariannu gwaith rhoi Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol ar waith'; 'Cynorthwyo cleientiaid i mewn i lety sefydlog'; ac 'wedi bod yn allweddol i gyflawni rhywfaint o gyngor penodol ychwanegol ar arian a gwaith y sector rhentu preifat.

Ffigur 26: Newidiadau yn adnoddau awdurdodau lleol i gynnig gwasanaethau Cymorth i Sicrhau (N=22)



- 5.43 Roedd dau awdurdod lleol yn gweld cynnydd bychan trwy gyllid Cefnogi Pobl, gydag adnoddau ar gael ar gyfer 'Ailfodelu gwasanaethau Cefnogi Pobl' a 'swyddi a ariennir gan Gefnogi Pobl'. Eglurodd un ymatebwr y newid drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, y dadleuir sy'n 'galluogi mwy o dai fforddiadwy, gan leddfu baich y galw ar y Gofrestr Tai Cyffredin trwy osod mwy'.
- 5.44 Arian trosiannol hefyd oedd y prif esboniad i'r ymatebwyr hynny oedd yn gweld gostyngiad bychan, gyda phedwar yn cyfeirio'n benodol at ostyngiad neu dim ychwanegiad at arian trosiannol. I dri o'r awdurdodau hyn, câi hyn ei gyfuno â phwysau parhaus ar gyllid awdurdodau lleol. Dywedodd un ymatebwr bod ganddynt 'un aelod o staff yn llai' ond nid eglurodd pam.
- 5.45 Nododd tri ar ddeg o awdurdodau lleol broblemau sylweddol oherwydd adnoddau cyfyngedig, tra ni wnaeth naw ohonynt. Y broblem a nodwyd amlaf oedd niferoedd staff annigonol / llwyth gwaith rhy fawr i staff ei gwblhau (pum awdurdod lleol). Er enghraifft:

'Mae cynnydd mewn gwaith / llwyth achosion wedi golygu bod swyddogion yn fwy a mwy dibynnol ar gymorth gweithwyr cymorth i gynorthwyo cwsmeriaid gyda'r camau gweithredu yn eu cynlluniau tai personol. Mae'r diffyg adnoddau wedi gwneud hyn yn anodd ac mae achosion wedi bod yn araf yn symud ymlaen '.

- 5.46 Ychwanegodd un o'r pump fod hyn wedi arwain at 'drosiant staff uchel ac anallu i wneud cynlluniau tymor hirach'.
- 5.47 Cyfeiriodd pedwar awdurdod lleol at y galw cynyddol a / neu'r diffyg llety sydd ar gael i gwrdd â hyn. Er enghraifft, dywedodd un bod *'Llety gwely a brecwast / costau brys wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y galw uwch am wasanaethau'*. Dywedodd dau ymatebwr nad ydynt bob amser yn medru darparu cymorth ariannol oherwydd adnoddau cyfyngedig. O'r awdurdodau lleol hynny nad oedd yn dweud eu bod yn cael anawsterau, dywedodd dau fod digon o adnoddau yn eu lle ar hyn o bryd, gydag un yn nodi bod hyn oherwydd *'dyraniad grant Llywodraeth Cymru'*. Awgrymodd un arall y cafwyd newid oherwydd *'Cyfleoedd yn y sector rhentu preifat yn unig'*.

Seilwaith TG

- 5.48 Roedd y seilwaith yn chwe safle'r astudiaeth achos yn amrywio o ran y systemau presennol ar gyfer casglu, rheoli a rhannu data. Soniodd rhai darparwyr gwasanaethau am y systemau TG a ddefnyddiwyd ar gyfer rheoli data, ac roeddent yn ystyried bod gweithredu'r Ddeddf wedi cyflwyno cyfle a gollwyd i safoni a symleiddio systemau i bob awdurdod ledled Cymru. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau, *'dwi ddim yn gwybod pam na wnaethon nhw fuddsoddi mewn rhywfaint o arian i gael un system i Gymru fel y gallem, chi'n gwybod, ei wneud yn hawdd'* (ALI, A1).
- 5.49 Awgrymwyd gan rai darparwyr gwasanaethau y gallai system genedlaethol fod wedi cynorthwyo awdurdodau i gadw data *'yn yr un ffordd'*, ac felly elwa ar gasglu a dadansoddi data cyfansawdd. Nid yw hyn yn ddidrafferth nac yn hawdd ar hyn o bryd gan fod gan *'y rhan fwyaf o awdurdodau lleol systemau gwahanol'* (ALI, A1). Er bod rhai ymatebwyr yn nodi prinder systemau priodol, *'nid oes system rheoli achosion'* (ALI, A3) ac roedd rhai yn y broses o ddiweddarau systemau.
- 5.50 Dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau bod eu hawdurdod wedi gwneud newidiadau i'r systemau TG presennol wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, gydag un ymatebwr yn nodi sut nad oedd eu *'ffordd o gofnodi data wedi bod y gorau'* (ALI, A3). Roedd manteision systemau newydd yn amrywio ac roedd rhai systemau hŷn yn parhau ar waith wrth i un

ymatebwr nodi sut nad oedd y system bresennol yn *'ffitio'n iawn'* â'r gofynion rheoli data a grëwyd trwy weithredu'r Ddeddf. Nodwyd bod y galw ar amser mewn perthynas â gweithio drwy'r broses gwaith achos oedd wedi'i hintegreiddio ar y systemau TG yn rhwystri i effeithiolrwydd. Dywedodd sawl darparwr gwasanaethau sut maent yn addasu systemau presennol ond yn parhau gyda dulliau eraill o gofnodi:

'Mi addason ni [ein system TG] i'w defnyddio ar gyfer adran 66 ac adran 73 ... ond allwn ni'm cael adroddiadau yn hawdd iawn ohoni felly reddden ni'n dal i gadw'n cofrestr a'n taenlenni ar gyfer cofnodi pethau'. (ALI, A1)

- 5.51 Er gwaethaf systemau oedd yn cydymffurfio â diogelu data a galluogi rhannu data, nodwyd bod gwall dynol yn arwain at broblemau gyda chofnodi a rheoli data. Nododd sawl darparwr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos fod problemau yn hyn o beth:

'Roeddwn i'n gweithio gyda rhywun ers dros 12 mis, ac reddden ni wedi bod i mewn i'r cyngor, alla i ddim dweud wrthyf faint o weithiau gyda gwahanol bethau a cheisio cael cartref iddi, a phob tro yr oeddem ni'n mynd yno, nid oedd yr apwyntiad diwethaf wedi'i gofnodi, mi gollon nhw'r ffurflen dai dair gwaith.' (TS, A6)

- 5.52 Tynnodd rhai darparwyr gwasanaethau sylw at y ffaith y gallai fod yn broblem cael gafael ar wybodaeth. Dywedodd un o'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mai mynediad cyfyngedig oedd ganddo i system a rennir, ac nid oedd yn gallu gweld holl nodiadau achos unigolyn. Mae gwasanaeth landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn disgrifio dibynnu ar Atebion Tai i ddarparu neu gofnodi'r wybodaeth berthnasol ond dangosodd y broblem o anneallusrwydd lle na roddwyd bob amser unrhyw gyd-destun perthnasol i wneud penderfyniadau mewn nodiadau achos:

'Mae gennym fynediad at gronfa ddata'r cartrefi felly mi alla i weld nodiadau a ysgrifennwyd gan y tîm Opsiynau Tai - rhai ohonyn nhw, nid nhw i gyd – ac mi alla i ryw fath o ddilyn achos, ond ie, weithiau gall penderfyniadau gael eu gwneud yn fewnol ac nid yw hi'n glir iawn i ni pam fod rhywun wedi'i symud o un i'r llall efallai'. (LCC, A4)

- 5.53 Ystyriodd darparwyr gwasanaethau a oedd y mater yn *'fater diogelu data y mae angen ei ddatrys'*; ond disgrifiodd sut *'rydym weithiau'n gweithio'n ddall ar achosion'* (ALI, A2). Codwyd y modd y gallai arferion mwy cyfannol a chynhwysfawr o rannu data arwain at well profiad i'r defnyddiwr gwasanaeth o ran mai unwaith yn unig oedd unigolyn yn gorfod

adrodd ei stori, yn hytrach na gorfod ailadrodd manylion ei sefyllfa bob tro'r oedd yn ymwneud â darparwyr gwasanaethau.

- 5.54 Disgrifiodd nifer fach o ddarparwyr gwasanaethau systemau TG cyfredol eu sefydliad fel rhywbeth oedd yn cynnig gwelliant i ofynion gweinyddol eu rôl. Yn ogystal, nododd sawl darparwr gwasanaethau sut roedd systemau cyfrifiadurol newydd yn cael eu datblygu neu eu rhoi ar waith ar adeg y cyfweliad gwaith maes. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol: *'rydym wrthi'n cael cofrestr dai gyfrifiadurol newydd. Mae'n gwneud pob dim'*. (ALI, A3).

Meincnodi, ystadegau a monitro

- 5.55 Mae awdurdodau lleol yn gweld bod nifer yr adolygiadau a'r apeliadau wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y gwnaed mwy o waith gydag aelwydydd yn y camau cynnar wedi iddynt ddod i'r Cyngor yn dweud eu bod yn ddigartref, ond hefyd oherwydd gwaith anffurfiol a wnaed gyda Shelter Cymru. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol hefyd yn credu bod nifer yr adolygiadau llwyddiannus a'r apeliadau wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd iddynt wneud penderfyniadau gwell eu hunain.
- 5.56 Dywedodd llai o awdurdodau lleol y bu newidiadau yn y modd yr oeddynt yn monitro effaith y Ddeddf ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac mae nifer o awdurdodau lleol yn dal i fod yn honni nad oes ganddynt drefniadau ar waith i fesur canlyniadau ar gyfer pobl sy'n cael cymorth dan Ran 2 y Ddeddf. Fodd bynnag, mae dros draean o'r awdurdodau lleol, yn ôl y sôn, wedi newid sut oeddynt yn defnyddio data canlyniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf i lywio gwaith cyflawni gwasanaethau. Mae'n ymddangos bod gwelliant yng ngwaith monitro'r ceisiadau a dynnwyd yn ôl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n awgrymu bod eu gwybodaeth yn y maes hwn yn cynyddu.
- 5.57 Credai sawl darparwr gwasanaethau fod y broses casglu data ystadegol i Lywodraeth Cymru yn feichus. Yn benodol, nodwyd bod adnoddau, o ran staffio ac amser, yn gofyn am ymrwymiad sylweddol gydag un ymatebwr yn nodi bod pob ffurflen chwarterol yn cymryd dau aelod o staff i'w cwblhau dros ddau ddiwrnod. Nododd darparwr gwasanaethau sy'n gweithio i awdurdod lleol y credid bod y system TG oedd ganddynt yn effeithiol wrth *'dynnu allan y wybodaeth gywir'* ond nad yw'r *'WHO12 yn adlewyrchu faint o waith sy'n cael ei wneud'* (ALI, A5) .

- 5.58 Nodwyd bod y galw ar awdurdodau lleol o ran niferoedd cynyddol y bobl oedd yn dweud eu bod yn ddigartref yn cael effaith ar gynhyrchu'r ffurflenni ystadegol chwarterol i Lywodraeth Cymru a'r broses meincnodi. Awgrymodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol nad oedd llawer o amser i gymharu perfformiad ag awdurdodau eraill neu ddysgu arfer gorau oddi wrthynt:

'Dyn ni ddim yn gwneud llawer o feincnodi, nac ydym? Rydyn ni wrthi fel lladd nadroedd yn gwneud y gwaith oherwydd bod pobl yn y bôn yn gweithio hyd eithaf eu gallu, yn tydym? Rydym i gyd yn gweithio hyd eithaf ein gallu.' (ALI, A1)

- 5.59 Fel y nodwyd mewn penodau eraill, teimlai rhai darparwyr gwasanaethau nad oedd y gwaith ataliol a wnaed bob amser yn cael ei gipio'n effeithiol. Nododd eraill faterion parhaus ar draws awdurdodau lleol gydag un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol yn nodi bod '*anghysonderau*' wrth edrych ar ddata ar draws awdurdodau, ac un arall yn cyfeirio at bethau a gaiff eu gadael allan gan nad yw llawer o'r gwaith ataliol a wneir yn cael ei gofnodi yn unrhyw le. Er enghraifft, weithiau gallai data fod ar goll:

'Pe byddai un o'n tenantiaid yn llosgi eu tŷ i lawr heno, yn dechnegol, mae'r person hwnnw'n ddigartref a gallen nhw ddod atom a dweud hynny a byddai angen eu cynorthwyo. Fodd bynnag, oherwydd mai un o'n tenantiaid ydyw, yna bydden ni'n ei gynorthwyo.' (ALI, A3)

- 5.60 Disgrifiodd un darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig faint o'r gwaith cipio gâi ei '*wneud â llaw*' gan fod '*y system TG bresennol mor aneffeithiol*' (LCC, A3). Gan ddefnyddio'r enghraifft o grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig, nododd y cyfranogwr hwn y cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd o safbwynt edrych ar setiau penodol o ddata:

'Yn yr un modd, ceisiadau am adroddiadau, er enghraifft, nodweddion gwarchodedig ... Os byddwn yn edrych i mewn i sicrhau bod ein dyraniadau'n cael eu gwneud yn deg ac nid ydym yn eithrio grwpiau; nid ydym yn gallu codi'r data hwnnw. Gallwn godi'r data pan neilltuir eiddo i rywun ac y daw yn denant; ond os ydych chi'n edrych ar y rhestr aros, neu hyd yn oed y bobl hynny sy'n dweud eu bod yn ddigartrefedd - hyd yn hyn, ni fydddech yn gallu codi hwnnw.' (LCC, A3)

- 5.61 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol o'r farn nad oedd meincnodi yn bosib oherwydd diffyg cysondeb ar draws awdurdodau o ran cofnodi a diffinio gweithgarwch:

'Does dim meincnodi diweddar ac rydym yn gwybod yn iawn allwn ni ddim cymharu. Nid oes unrhyw beth wedi newid yn hynny o beth oherwydd mi wnaethom ei feincnodi atal cynt ac mi dderbyniodd Llywodraeth Cymru na allech chi gymharu oherwydd nad oedd diffiniad digon clir ynghylch beth oedd atal a sut roedd pobl yn ei gofnodi. Does dim byd wedi newid.' (ALI, A2)

- 5.62 Mynegodd eraill bryderon ynghylch effeithiau posib pobl sy'n cwblhau'r ffurflenni ystadegol yn wahanol a'r tensiwn a all ddeillio o wahanol ddehongliadau o'r Ddeddf gan wahanol awdurdodau:

'Rydym wedi cael achos yn ddiweddar gydag awdurdod lleol arall lle roeddynt wedi derbyn a73 ac roeddem ni, fel, wel, byddai'n dal i fod ar a66 gyda ni! Felly, mae yna anghysonderau yn sicr wrth ddehongli'r ddeddf, heb unrhyw amheuaeth.' (ALI, A3)

- 5.63 Esboniodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol y byddai'n anodd iawn cymharu awdurdodau gwledig, trefol ac arfordirol, pob un â'i anghenion amlwg gwahanol a mathau / lefelau gwahanol o stoc tai, a hynny oherwydd daearyddiaeth amrywiol Cymru:

'Gan fod hyd yn oed awdurdod gwledig yr ydych chi'n edrych i feincnodi â nhw, os oes ganddynt eu stoc eu hunain, mae hynny'n rhoi ochr ddeinamig arall arno. Felly, nid yw mor ddefnyddiol â hynny, mewn gwirionedd.' (ALI, A5)

- 5.64 Mater arall a godwyd gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol oedd y gellid cofnodi un unigolyn mewn sawl ffordd; er enghraifft, hyd at dair gwaith *'oherwydd mae'n rhaid i chi gofnodi nifer y dyletswyddau adran 66 rydych chi'n eu codi, nifer yr achosion adran73, nifer yr achosion adran75'* (ALI, A5). Fel y dywedodd un ymatebwr yn syml, ystyriwyd bod y gofynion ar gyfer adrodd yn *'ddryslyd'*:

'Mae llawer o ddarnau ohono'n seiliedig ar y bobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref yn ystod y chwarter hwnnw, ac yna mae disgwyl rhannau eraill ar ganlyniadau, a allai fod o achosion mewn chwarteri eraill. Maen nhw'n ddryslyd i ni ac rydyn ni'n ymdrin â hyn yn ddyddiol' (ALI, A3).

- 5.65 Nododd rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod adrannau penodol o'r data yn Stats Cymru yn ddefnyddiol: *'Rwy'n credu mai nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn ddigartref ydi o, mae'r categorïau oedran yn dda. Mi fydda i'n meddwl canlyniadau llwyddiannus, canlyniadau aflwyddiannus'* (ALI, A6). Cafwyd nodyn â rhybudd yn yr ystyr *'gallai llwyddiannus i ni beidio â golygu llwyddiannus i'r unigolyn'* (ALI, A6). Fodd bynnag, o safbwynt busnes, *'yn amlwg mae angen rhai ystadegau ar strategaethau i gynorthwyo i*

arwain' ac, fel y cyfryw, ystyriwyd bod y canlyniadau ystadegol yn rhoi'r sylfaen ar gyfer strategaeth a gwneud penderfyniadau.

Côd Canllawiau

5.66 Yn yr arolwg, nododd bron pob un o'r awdurdodau lleol eu bod yn hyderus eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Dywedodd deg awdurdod lleol eu bod yn hyderus iawn, dywedodd deg eu bod yn eithaf hyderus, ac nid oedd dau yn teimlo'r naill ffordd na'r llall. Efallai oherwydd yr hyder hwn, dim ond un awdurdod lleol ddywedodd y bu newid yn y flwyddyn ddiwethaf yn y modd y maent yn defnyddio'r Côd Canllawiau. Esboniwyd y daeth y newid o ganlyniad i gyflwyno polisi dyrannu tai cyffredin ym mis Gorffennaf 2016.

5.67 Roedd yr awdurdodau lleol hynny oedd yn hyderus iawn yn priodoli hyn i wybodaeth ac ymroddiad staff a chynghor mewnol a gynigir trwy Shelter, ynghyd â diffyg heriau cyfreithiol. Cyfeiriodd dau awdurdod lleol at yr hyfforddiant sydd ar gael i staff. Er enghraifft:

'Ers cyflwyno'r Ddeddf mae'n gwasanaeth wedi creu pecyn hyfforddi manwl i staff i gynnwys deddfwriaeth a gweithdrefnau. Mae hyn wedi'i addasu gan gymryd i ystyriaeth arweiniad, gwybodaeth a gafwyd o archwiliadau ac apeliadau'.

5.68 Cyfeiriodd yr ymatebwyr hynny i'r arolwg o'r awdurdodau lleol oedd yn eithaf hyderus, unwaith eto, at hyfforddiant (dau awdurdod lleol), gan gynnwys adolygiadau o ffeiliau achos, system TG newydd, a nifer isel o heriau. Nododd dau ymatebwr y Côd Canllawiau. Er enghraifft, *'rydym yn cyfeirio at y côd canllawiau ar achosion ond mae rhai ardaloedd llwyd o hyd'*. Esboniodd un awdurdod lleol eu hateb trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Dewisiadau Tai sydd wedi digwydd *'er mwyn gallu cyflawni'r gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf'*. Serch hynny, awgrymodd tri ymatebwr nad yw eu timau bob amser yn anfon llythyrau pan ddylent. Er enghraifft:

'Oherwydd lefel uchel y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â nifer y llythyrau sydd eu hangen ym mhob cam, nid ydym bob amser yn taro lefel y gydymffurfiaeth sy'n angenrheidiol ... Mae nifer y llythyrau sydd eu hangen mewn rhai achosion wedi bod yn fanwl, yn cymryd llawer o amser ac yn ddiangen o safbwynt y cwsmer'.

5.69 Eglurodd un awdurdod lleol a roes ymateb niwtral eu bod yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nifer y llythyrau sydd eu hangen gyda dim ond *'tîm bach o swyddogion i ymdrin â'r deddfwriaeth newydd'*. Cyfeiriodd yr awdurdod lleol arall at newydd-deb y

ddeddfwriaeth, gan nodi nad yw *'dehongliadau ac ati wedi'u profi i raddau helaeth trwy gyfraith achos'*.

5.70 Rhoes darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos ymatebion cymysg mewn perthynas â defnyddioldeb y Côd Canllawiau gyda'r rhan fwyaf o staff yr awdurdodau lleol yn datgan eu bod yn ei ddefnyddio, a dim ond ychydig o unigolion oedd yn cyfaddef nad oeddent. Gwnaed sylw ar faint y Côd Canllawiau (*'mae'n fawr, rwy'n golygu mae o'n fawr ac mae'n gymhleth!'* (ALI, A6) a hefyd o ran sut y defnyddiodd y swyddogion ef; er enghraifft, dywedodd un ymatebwr *'mae'n rhy fawr i'w ddarllen i gyd, felly rydych chi mond yn pori ynddo'* (ALI, A1).

5.71 Dywedodd sawl darparwr gwasanaethau eu bod wedi cael y Côd Canllawiau'n ddefnyddiol i ddeall bwriad polisi Llywodraeth Cymru pan gyflwynwyd y Ddeddf. Soniodd llawer o ddarparwyr gwasanaethau am sut yr oeddynt yn defnyddio'r Côd Canllawiau ac roeddynt o'r farn ei fod yn ddefnyddiol fel cyfeirnod (sef y bwriad dros ei ddefnyddio) pan fo angen fel *'cydymaith'*, offeryn hanfodol. *'Ydi, mae'n ddefnyddiol ac rydyn ni'n defnyddio llawer arno. Ydyn, mi ydyn ni Fel pwynt cyfeirio, ia.'* (ALI, A3). Yn wir, gwerth y Côd Canllawiau oedd ei fod yn gymorth i roi hyder yn ymarferol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle gallai'r awdurdod lleol gael ei herio.

'Mae'n dda i ni, oherwydd pan fydd llawer ohonon ni'n cael ein herio, byddwn bob amser yn cyfeirio'n ôl at y Côd Canllawiau. Wyddoch chi, i wneud yn siŵr ein bod ni'n ei wneud yn gywir, oherwydd nid wyf yn meddwl ein bod bob amser yn ei wneud yn gywir. Rydym yn mynd yn ôl ato yn eithaf aml, os teimlwn fod penderfyniad na allwn ni ei gyrraedd gyda'n gilydd.' (ALI, A3)

5.72 Eglurodd darparwyr gwasanaethau mewn awdurdodau eraill nad oedd y Côd Canllawiau'n cael ei ddefnyddio cymaint â hynny yn eu hardal nhw bellach, gan fod y tîm yn *'canolbwyntio cymaint ar unigolion'* ac roedd hyn yn dylanwadu ar arferion gweithio bob dydd i'r graddau nad oedd angen yr arweiniad mwyach:

'Yn ôl pob tebyg, nid ydym yn tueddu i'w ddefnyddio cymaint nawr, oherwydd ein bod ni'n canolbwyntio cymaint ar unigolion, felly nid ein bwriad ni yw dod o hyd i fwllch fel y gallwn eu gwneud yn fwriadol ddigartref, neu i faglu rhywun i fyny' O, ie, gallwn gael gwared â'r cleient hwnnw.' (ALI, A1)

5.73 Felly, cynorthwyodd y Côd Canllawiau staff yr awdurdodau lleol i egluro a dilysu eu dehongliad a'u cymhwysiad mewn sefyllfaoedd byd go iawn. Yn ogystal, fe'i gwelwyd fel

pe bai'n gwneud dull gweithredu mwy cyson yn bosib ar draws yr holl awdurdodau: *'Mae'n ddefnyddiol cael cysondeb ar draws Cymru'* (ALI, A5). Soniodd sawl darparwr gwasanaethau am werth y Côt Canllawiau wrth edrych ar fwriadoldeb neu gysylltiad lleol o ran gwirio eu dehongliad a'u cymhwysiad eu hunain mewn achosion penodol. Fe'i disgrifiwyd hefyd fel bod ganddo werth fel cymorth pan fyddir yn cysylltu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar ran defnyddwyr gwasanaethau:

'Mae'n ddefnyddiol, mae'n rhywbeth wrth gefn i chi. Rwyf wedi ei defnyddio yn erbyn landlordiaid cymdeithasol i'w cael i wneud yr hyn y maent i fod i'w wneud' (ALI, A1).

- 5.74 Fel yr awgrymwyd uchod ystyriai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol bod maint a hyd y Côt Canllawiau yn anatyniadol a nodasant y gellid ei wella pe bai crynodebau byrrach ynghlwm wrtho, yn cynnwys unrhyw newidiadau deddfwriaethol a ddaeth yn sgil y Ddeddf :

'Dim ond enghraifft, wyddoch chi, fel gyda chardiau credyd, os byddant yn newid telerau ac amodau, maen nhw'n anfon taflen atoch gyda'r telerau ac amodau newydd, ac yna mae mewnosod arall yn dweud, 'Dyma'r newidiadau rydym wedi eu gwneud'. Doedd dim byd fel yna' (ALI, A3)

- 5.75 Fodd bynnag, teimlai rhai darparwyr gwasanaethau bod rhai materion bellach yn llai clir, er gwaethaf hyd a manylion y Côt Canllawiau:

O gofio bod y Côt Canllawiau'n ychydig gannoedd o dudalennau, mae hi'n ddogfen hir iawn ... Mae cysylltiad lleol bellach wedi mynd yn hollol annelwig ... mae mor wrthrychol. Mae fel, wel, enghraifft nodweddiadol yw cysylltiad lleol oherwydd nid oes canllawiau llym fel yr oedd dan yr hen ddeddfwriaeth. Rydych chi'n ei ddarllen ac yn meddwl, wel, mi fyddai fy nehongliad i'n wahanol i'ch un chi'. (ALI, A3)

- 5.76 Roedd ymatebwyr ar draws yr awdurdodau lleol yn credu bod y mater o ddehongliad gwahanol yn broblemus ac yn arwain at rai awdurdodau'n gweithredu darpariaethau'r Ddeddf mewn modd eithaf 'llac' oherwydd y *'gall pobl roi agwedd negyddol ar rywbeth ac efallai fynd i gyfeiriad gwahanol i'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth mewn gwirionedd yn anelu ato'*(ALI, A5). Nododd eraill fod diffyg cyfraith achosion yn broblemus wrth i un ymatebwr nodi *'Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn oherwydd nad oes gennym gyfraith achosion yng Nghymru'* (ALI, A4).

- 5.77 Gwnaed sylw ar y diffyg cysondeb a safoni o ran sut y dehonglodd a gweithredodd yr awdurdodau lleol y Côt Canllawiau fel *'mae pob awdurdod yn ei ddehongli fymryn yn wahanol'* (Trydydd Sector, A2).

Hyfforddiant ac Addysg

- 5.78 Trafodwyd hyfforddiant mewn perthynas â'i amseriad, ei gynnwys, ei ansawdd a'i ddefnyddioldeb gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos. Roedd gwahaniaethau clir mewn faint o hyfforddiant yr oedd darparwyr gwasanaethau yn ei dderbyn, gan ddibynnu ar p'run ai awdurdod lleol, landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r trydydd sector oeddynt. Pan gyflwynwyd y Ddeddf, roedd hyfforddiant ar gael gan Lywodraeth Cymru, a disgrifiodd darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol sut yr oeddent hwy, ynghyd â chydweithiwr, wedi cwblhau hyfforddiant deuddydd a bod y ddau gydweithiwr wedyn wedi hyfforddi cydweithwyr yn eu sefydliad:

'Yn y bôn roedd i lawr i [X] a minnau, yn doedd, i sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi, wyddoch chi. Fe wnaethon ni'r holl hyfforddiant oherwydd bod Cynulliad Cymru wedi cynnig yr hyfforddiant, cwrs hyfforddi dau ddiwrnod oherwydd bod rhaid rhoi trefn ar yr holl waith papur, wyddoch chi, pa lythrau safonol yr oedd arnom eu hangen? Pwy oedd angen i ni roi gwybod iddyn nhw beth oedd yn digwydd? Rhoi gwybod i'r holl bartneriaid bod y ddeddfwriaeth yn newid, y math yna o beth' (ALI, A1)

- 5.79 Disgrifiwyd y cwrs dau ddiwrnod hwn fel un *'da iawn'* a *'trylwyr'*. Er nad yw'n glir a oedd cyfranogwyr ymchwil eraill yn yr ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau'n sôn am yr un hyfforddiant. Disgrifiwyd sesiynau gan hyfforddwyr yng nghyfnod cynnar y Ddeddf hefyd fel rhai *'anghyflawn'*, *'gwael'* ac yn rhy ddamcaniaethol. Nododd un darparwr gwasanaethau *'[nad oedd] pobl oedd yn cyflwyno'r hyfforddiant yn gallu ateb rhai o'r ymholiadau, rhywbeth oedd yn eithaf gwael, mewn gwirionedd'* (ALI, A3). Yn ogystal, nodwyd bod y Côt Canllawiau ar gael yn yr *'hyfforddiant ola'* yn unig, a gallai hyfforddiant ac addysg fod wedi bod yn well *'yn y dyddiau cynnar'*. Gan gytuno â hyn, nododd darparwr gwasanaethau mewn awdurdod lleol *'Es ar gwrs hyfforddi ym mis Ionawr neu fis Chwefror a daeth y gweithredu ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Felly, daeth ychydig yn hwyr, fel y gwnaeth y canllawiau, hefyd'* (ALI, A4).
- 5.80 Mewn rhai ardaloedd, ystyriwyd y gellid bod wedi darparu mwy o hyfforddiant ac addysg i bartneriaid anstatudol fel y nodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol a'r trydydd sector:

'Mae'n bosib y gellid fod wedi gwneud mwy gyda'r darparwyr cymorth a'r trydydd sector o ran esbonio iddynt y ddeddf newydd a defnyddio llety yn y sector preifat ond mae'n debyg bod hynny'n rhywbeth yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag o nawr.' (ALI, A2)

- 5.81 Mewn un grŵp ffocws o weithwyr rheng flaen y trydydd sector, nodwyd nad oedd unrhyw hyfforddiant wedi'i ddarparu cyn i'r Ddeddf gael ei chyflwyno, *'dim hyfforddiant o gwbl. Yr oll fydddech chi'n ei wneud fyddai darllen, eich hun '*. Roedd y darparwyr gwasanaethau hyn - rheolwyr yn ogystal â gweithwyr cymorth - yn methu credu nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ar yr adeg y daeth y Ddeddf i rym. Felly, ychydig iawn o gysondeb oedd yn y profiadau o hyfforddiant, er canfuwyd bod staff Atebion Tai yn gyffredinol wedi cael hyfforddiant ar adeg y gweithredu. I'r gwrthwyneb i hynny, roedd profiadau dau gynrychiolydd o landlordiaid cymdeithasol rhestredig yn gadarnhaol iawn gan eu bod wedi mynd am hyfforddiant cynnar ar y cyd â'r tîm Atebion Tai lleol.

'Cryfder hyn yw pan gawson ni'r hyfforddiant draw yno, roedden ni gyda'r tîm Opsiynau Tai. Oherwydd ein bod yn gweithio'n agos gyda nhw, roedden ni'n eistedd gyda nhw, reddden ni'n ei drafod. Roedden ni'n mynd trwy'r hyn yr oedden ni'n ei feddwl oedd y manteision a'r anfanteision'. (LCC, A3)

- 5.82 Disgrifiodd un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol sut aethant ati'n fewnol i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant parhaus trwy alluogi gweithiwr allgymorth i ddarparu hyfforddiant ar y prosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf. Yna cafodd hyn ei raeadru i staff eraill sydd â *'chyfarwyddyd a hyfforddiant ar y Ddeddf ei hun'* (ALI, A2). Aeth darparwyr gwasanaethau mewn asiantaethau trydydd sector ati hefyd i gael hyfforddiant parhaus, gydag un yn nodi sut *'yr ydym mewn sefyllfa eithaf da ar hyn o bryd bod gennym hyfforddiant cynhwysfawr iawn'* oedd wedi'i gynllunio gyda pherthnasedd ar gyfer *'pob rôl yn y sefydliad'* (LCC, A2). Mae hyn yn dangos profiadau cyferbyniol o hyfforddiant ar draws awdurdodau lleol yn ogystal ag ar draws sectorau.
- 5.83 Codwyd mater cyllido hyfforddiant gan ddarparwyr gwasanaethau a nododd nifer fod yna anghenion hyfforddiant parhaus, yn arbennig felly gan fod yna lawer o newidiadau deddfwriaethol a pholisi eraill, megis cyflwyno Credyd Cynhwysol a Deddf Gofal Cymdeithasol a Lles, er enghraifft.

Crynodeb

- 5.84 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd 15 awdurdod lleol fod trefniadau ar waith i fesur canlyniadau i bobl sy'n cael cymorth dan Ran 2 y Ddeddf, a dywedodd saith nad oes. Datganodd yr awdurdodau lleol hynny sydd â threfniadau ar waith eu bod yn parhau i gasglu data yn yr un modd â'r hyn a gafwyd dan y ffurflen WHO12 blaenorol (y ffurflen ddata chwarterol oedd yn ei lle cyn y Ddeddf). Cyfeiriodd pedwar ymatebwr at ddata ychwanegol, er bod hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol yn casglu data ychwanegol mewn perthynas â gwely a brecwast yn unig, a dau yn defnyddio data canlyniadau Cefnogi Pobl, ac mewn awdurdod lleol arall *'Mae monitro wythnosol a misol mewnol yn rhan o ofynion data craidd a dangosyddion perfformiad y cyngor'*. Dywedodd tri awdurdod lleol arall eu bod ar hyn o bryd yn ystyried sut i fesur canlyniadau'n well, gan gynnwys *'system TG well i gofrestru, monitro a thracio defnyddwyr gwasanaethau'*.
- 5.85 Mae dros draean o awdurdodau lleol (wyth awdurdod), yn ôl y sôn, wedi newid y modd y defnyddiant ddata canlyniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tra dywedodd 14 nad ydynt. Cyfeiriodd chwech o'r awdurdodau lleol oedd yn adrodd newid at y data a ddefnyddir i lywio gwaith cyflawni gwasanaethau, naill ai trwy adolygu achosion, hyfforddiant, neu waith arloesi, neu hyd yn oed trwy ailfodelu gwasanaethau. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr *'mae wedi ein galluogi i ailfodelu gwasanaethau a rhoi adnoddau lle mae eu hangen fwyaf'*. Yr oll ddatganodd y ddau ymatebwr oedd yn weddill oedd mai mewn *'cronfa ddata newydd'* yr oedd y data nawr a'u bod wedi *'ymgorffori data canlyniadau Cefnogi Pobl fel gwybodaeth ychwanegol ar gyfer canlyniadau dan y Ddeddf newydd'*.
- 5.86 Fodd bynnag, dywedodd llai o awdurdodau lleol y bu newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf yn y modd y maent yn dadansoddi data canlyniadau. Dywedodd pum ymatebwr bod eu hawdurdodau lleol wedi gwneud newidiadau, a dywedodd 17 nad oeddent wedi gwneud hynny. Gwnaeth yr awdurdodau lleol hynny a ddywedodd bod newidiadau, sylw ar sut roedd y data'n fwy cynhwysfawr, yn cael ei gasglu'n fwy rheolaidd, a sut roedd gwaith dadansoddi'n cael ei fwydo i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Er enghraifft: *'Defnyddir data yn ehangach i fonitro tueddiadau a deall effaith y weithred newydd ac i addasu a gwella'r broses cyflawni gwasanaethau'*.
- 5.87 Mae'n ymddangos y bu gwella yng ngwaith monitro'r ceisiadau a dynnwyd yn ôl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fel gyda'r arolwg o'r don gyntaf, dim ond un awdurdod a gytunodd yn gryf gyda'r datganiad bod ganddynt brosesau ar waith i ddilyn ceisiadau a dynnwyd yn

ôl. Fodd bynnag, nododd saith awdurdod eu bod yn cytuno (o gymharu â phedwar yn yr arolwg o'r don gyntaf). Cynigiodd wyth ymateb niwtral, anghytunodd pedwar (o gymharu â naw yn yr arolwg o'r don gyntaf), ac roedd dau yn anghytuno'n gryf. Fel y cyfryw, mae gwybodaeth am y rhai sy'n tynnu'n ôl i'w weld yn cynyddu, ynghyd â gwybodaeth am a oes angen cymorth pellach arnynt a p'run a yw nodweddion cydraddoldeb penodol yn cael eu gorgynrychioli ai peidio.

- 5.88 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n cwestiynu pa mor ddefnyddiol oedd anfon llythyrau ym mhob cam o'r broses, bychan oedd y gwerth i ddefnyddwyr gwasanaethau gan nad oedd y cynnwys bob amser yn hawdd ei ddeall - ond cydnabuwyd nad oedd darparu gohebiaeth o'r fath yn ei gwneud yn bosib i'r Timau Atebion Tai gael eu herio'n gyfreithiol. Y teimlad hefyd oedd bod y cynnydd yn y llwyth gwaith a'r amser a dreuliwyd wrth gynhyrchu gwaith papur o'r fath yn mynd â staff i ffwrdd o weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau.
- 5.89 Mae awdurdodau lleol yn hyderus eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Gwelwyd y Côd Canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol ond anhylaw. Mae darparwyr gwasanaethau'n ei ddefnyddio fel adnodd cyfeiriol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau y dylid nodi unrhyw welliannau'n glir i'w gwneud yn haws ei defnyddio.
- 5.90 Trafodwyd hyfforddiant gan ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â'i amseriad, ei gynnwys, ei ansawdd a'i ddefnyddioldeb. Roedd gwahaniaethau clir mewn faint o hyfforddiant yr oedd darparwyr gwasanaethau'n ei dderbyn, gan ddibynnu lle'r oeddynt yn gweithio (darparwr statudol, landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r trydydd sector) a lefel y sgiliau oedd gan ddarparwyr gwasanaethau. Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae angen i ddarparwyr gwasanaethau bellach fod â sgiliau trafod, cyfweld ysgogol, cyfryngu, ac arfer empathig. Mae modd dadlau bod hyn yn wahanol i'r ddeddfwriaeth flaenorol lle'r oeddid yn canolbwyntio ar asesu. Roedd tystiolaeth bod sgiliau ymhlith staff yn amrywio ar draws awdurdodau lleol a'r tu mewn iddynt a hefyd o fewn timau. Gall staff nad yw'r sgiliau priodol ganddynt gael effaith niweidiol ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau.

6. Gweithio mewn Partneriaeth

Cyflwyniad

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg o'r awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth. Mae Rhan 2 Deddf Tai (2014) yn rhoi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau a gwasanaethau i ddarparu atebion cynaliadwy i ddigartrefedd.
- 6.2 Roedd amrywiad ar draws ac o fewn ardaloedd yr astudiaeth achos o ran maint y newidiadau a achoswyd gan y Ddeddf. Roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n teimlo bod gweithio mewn partneriaeth eisoes yn digwydd, ond bod y Ddeddf yn darparu fframwaith mwy ffurfiol i weithredu:

'A bod yn deg, roedd rhai awdurdodau'n gwneud yn sylfaenol beth mae'r ddeddf wedi'i ddweud cyn i'r ddeddf ddod i rym ... Byddwn i'n dweud ei fod wedi mynd i fyny gêr ers i'r weithred ddod i rym, mae'r math hwn o gydweithio wedi mynd i fyny gêr.' (ALI , A2).

- 6.3 Roedd eraill yn teimlo bod y Ddeddf wedi gwneud newidiadau mwy arwyddocaol, gan hwyluso gwell gweithio mewn partneriaeth o fewn adrannau awdurdodau lleol a rhyngddynt, rhywbeth y'i gwelwyd fel sylfaen angenrheidiol ar gyfer gweithio gydag asiantaethau eraill. Roedd yn amlwg bod rhai heriau yn yr awdurdodau lleol (rhwng gwasanaethau statudol) a hefyd ar draws sectorau / asiantaethau ar gyfer rhai darparwyr gwasanaethau:

'Mae llawer o'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn ceisio gwneud y cyngor yn fwy cydgysylltiedig, heb sôn am ddim byd arall' (LCC, A2)

- 6.4 Mae'r bennod wedi'i strwythuro dan y penawdau a ganlyn: gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol; Gwasanaethau Cymdeithasol; Gwasanaethau Oedolion; Gwasanaethau iechyd; Heddlu; Carchardai / Canolfannau Cadw Ieuenctid; Cefnogi Pobl; Defnyddio Pyrrh; Y trydydd sector; Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; ac effaith agendâu eraill y llywodraeth.

Gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol

- 6.5 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd chwech o ymatebwyr fod cynnydd bychan mewn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill, dywedodd 15 nad oedd dim newid, a dywedodd un bod lleihad bychan. O'r rheiny a ddywedodd bod cynnydd bychan, cyfeiriodd dau at gyfarfodydd Rhwydwaith Digartrefedd, a'r teimlad oedd eu bod

yn eu cynorthwyo i 'ddysgu o brofiad [awdurdodau lleol] ac arfer gorau a rhannu syniadau', a hefyd yn 'cynnwys rhannu hyfforddiant, cynorthwyo gydag achosion cysylltiad lleol'. Cyfeiriodd dau ymatebwr arall at gyfarfodydd rhanbarthol²⁶, sydd 'bellach yn eu lle, yn ffurfio cysylltiadau da'. Cyfeiriodd un ymatebwr arall at 'drefniadau cyfatebol y cytunwyd arnynt ar achosion cymhleth'.

- 6.6 Dim ond dau ymatebwr a ddywedodd nad oedd unrhyw newid a gynigiodd esboniad. Yn y ddau awdurdod lleol, roedd hyn oherwydd bod cysylltiadau da yn eu lle eisoes. Priodolwyd hyn i brinder swyddogion gan yr ymatebwr a nododd ostyngiad bychan:

'Oherwydd materion capasiti, ni fyddwn yn cwrdd am gyfarfodydd rhanbarthol a rhannu arfer gorau neu brofiad gwasanaeth mor rheolaidd ag y bydden ni yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gellir treulio mwy o amser yn ymateb i faterion gydag awdurdodau cyfagos ac mae perthnasoedd yn gadarnhaol iawn. Hoffwn i gydweithio mwy ond nid yw bob amser yn bosib'.

Mewn awdurdodau lleol

- 6.7 Dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod perthnasoedd a gweithio mewn partneriaeth gyda Budd-dal Tai i atal digartrefedd wedi gwella ers y Ddeddf. Rhoddwyd enghraifft gadarnhaol mewn un awdurdod lle'r oedd swyddog cyllidebu'n gweithio'n uniongyrchol gyda staff Atebion Tai:

'Rwy'n credu bod gennym berthynas dda gyda budd-dal tai. Mi wnawn nhw weithio gyda ni i geisio atal digartrefedd cyn belled ag y bo modd' (ALI, A4).

- 6.8 Roedd rhai awdurdodau wedi ceisio creu systemau mwy ffurfiol i hwyluso gweithio mewn partneriaeth, creu fforymau a ddaeth ynghyd ag amrywiol bartneriaid ar draws yr awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar wasanaethau i bobl ifanc, merched a phobl hŷn:

'mae bwrdd y prosiect yn gyffredinol yn fewnol ond maen nhw'n dod o bob rhan o'r cyngor. Mae gofal cymdeithasol yn dod draw, mae rhywun o ieuchyd am ddod, a gwn y dylen ni fod wedi cael hynny o'r blaen oherwydd bod gennych grwpiau cynllunio Cefnogi Pobl, ond nid oedd llawer yno ac aethon nhw i'r gwellt, os mynnwch, yn y dyddiau cynnar' (ALI, A2).

²⁶ Er na chafodd y gyfarfodydd rhanbarthol eu nodi'n benodol

Gwasanaethau Cymdeithasol

- 6.9 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd hanner timau tai'r awdurdodau lleol fod mwy o weithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant (dywedodd tri awdurdod fod cynnydd sylweddol, dywedodd wyth fod cynnydd bychan), gan wneud hwn yn un o'r meysydd gyda'r cynnydd mwyaf mewn gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru. Dywedodd saith awdurdod nad oedd unrhyw newid, dywedodd tri bod gostyngiad bychan, ac un yn dweud bod gostyngiad sylweddol.
- 6.10 Roedd dau o'r awdurdodau lleol a ddywedodd bod cynnydd sylweddol mewn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Plant yn priodoli hyn i fod â swyddog pwrpasol yn gweithio ar draws Dewisiadau Tai a Gwasanaethau Plant. Yn y trydydd awdurdod lleol, bu partneriaid yn gweithio mwy trwy weithdai a'r porth tai cynlluniedig. Roedd gan bedwar o'r awdurdodau lleol a ddywedodd bod cynnydd bychan eisoes fentrau yn eu lle, gan gynnwys Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc, cyfarfodydd Plant Mewn Angen ac asesiadau ar y cyd, ond canolbwyntiwyd mwy ar y rhain neu fe'u hategwyd â mentrau pellach. Er enghraifft:
- 'Mae gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau plant wedi bod yn mynd rhagddo ers cyflwyno porth o ddarpariaeth tai i bobl ifanc ei ddilyn p'run a oes gan y cyngor ddyletswydd ar gyfer gwasanaethau digartref neu wasanaeth plant neu beidio. Cynyddodd hyn fwy'r llynedd gyda chyflwyno hyfforddiant tenantiaeth a symud i mewn i denantiaethau hyfforddi ar gyfer tai cymdeithasol.'*
- 6.11 Roedd ymatebion eraill gan y rhai sy'n adrodd am gynnydd bychan yn amrywio ac yn canolbwyntio'n benodol ar bobl 16-17 oed (un awdurdod lleol); gan ddefnyddio Swyddog Gweithiwr Cymdeithasol / Llety arbenigol (un awdurdod lleol) a chydleoli'r Tîm Digartrefedd leuenctid gyda'r Tîm Gwaith Cymdeithasol sy'n Gadael Gofal. Eglurodd yr awdurdodau hynny a ddywedodd nad oedd newid fod hyn oherwydd bod trefniadau partneriaeth da eisoes yn eu lle.
- 6.12 Cyfeiriodd dau o ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol a ddywedodd am ostyngiad bychan yn benodol at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chanolbwynt y Gwasanaethau Plant ar hyn, oedd yn golygu nad oeddent yn ymgysylltu â thai. Er enghraifft:

'Maen nhw wedi bod yn brysur yn gweithredu'r Ddeddf 'llesiant' felly nid ydyn ni wedi gallu eu cael i ymgysylltu â ni'.

- 6.13 Dywedodd un awdurdod lleol bod ailstrwythuro'r Gwasanaethau Plant a'r gwaith o gael gwared â thîm cyfan wedi ei gwneud hi'n anodd ymwneud â nhw. Fodd bynnag, roedd gan y pedwerydd awdurdod lleol oedd yn dweud bod gostyngiad sylweddol gynlluniau yn eu lle i gynyddu'r ymwneud â Gwasanaethau Plant gan ganolbwyntio ar *'gyfarfodydd diweddarau amlasiantaethol i drafod cynllun i symud ymlaen'*.

Gwasanaethau Oedolion

- 6.14 Dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol nad oedd unrhyw newid mewn gwaith partneriaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (14 awdurdod). Fodd bynnag, dywedodd mwy bod cynnydd (dywedodd un bod cynnydd sylweddol, dywedodd pump bod cynnydd bychan) na lleihad (dywedodd un bod gostyngiad bychan ac un bod lleihad sylweddol). Esboniwyd y cynnydd sylweddol mewn un awdurdod lleol fel cynlluniau i gael cynnwys Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol yn y tîm. Roedd pedwar o'r pum awdurdod lleol a ddywedodd bod cynnydd bychan yn canolbwyntio ar fwy o gydweithio, gan gynnwys *'cynnydd mewn POVA ac asesiadau ar y cyd'*. Roedd y newid yn gadarnhaol i un ymatebwr, gyda *'cydweithio'n well yn ystod y misoedd diwethaf'*. Fodd bynnag, roedd ymatebwr arall yn fwy gofalus:

'Yn ceisio gweithio mwy oherwydd cymhlethdod achosion a'r angen am gefnogaeth. Nid yw bob amser yn gweithio ond rydyn ni'n gofyn y cwestiynau ac yn gwneud pob ymdrech i weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Yn cynnig cynnal cydweithiwr o Ofal Cymdeithasol Oedolion yn ein swyddfeydd ddiwrnod yr wythnos i gryfhau perthnasoedd rheng flaen a rheoli achosion ar y cyd'.

- 6.15 O'r awdurdodau lleol hynny oedd yn cynnig eglurhad am ddim newid, roedd hyn oherwydd *'cysylltiadau da sydd eisoes wedi'u sefydlu'* mewn un awdurdod lleol, tra bod un arall yn dal i *'geisio sefydlu cysylltiadau eraill'*. Eglurodd yr ymatebwr oedd yn nodi ychydig o ostyngiad bod Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn *'canolbwyntio gormod'* ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), tra bod cydnabyddiaeth bod *'angen ffurfio cysylltiadau gyda'r gwasanaeth hwn'* gan yr ymatebwr oedd yn dweud bod gostyngiad sylweddol.
- 6.16 Fodd bynnag, disgrifiodd dau ddarparwr gwasanaethau awdurdodau lleol anawsterau wrth weithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig Gwasanaethau Plant. Ymddengys bod y mater yn canolbwyntio ar ddiffyg dealltwriaeth o gylch gorchwyl darparu gwasanaeth ac amharodrwydd i rannu gwybodaeth.

'Rhaid cael asesiad ar y cyd os ydyw'n berson ifanc. Mae'n dod at ei gilydd. Mae'n anodd weithiau i gael asiantaethau i weithio gyda'i gilydd oherwydd weithiau gall pobl fod yn amddiffynol iawn o'r hyn maen nhw'n ei wneud, yn gallent fel fi, fi, fi, wyddoch chi, dwi ddim yn rhannu.' (ALI, A1).

6.17 Mewn un ardal, nododd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol *'rydym bob amser benben â nhw i'w weld yng nghyswllt rhoi plant mewn llety dros dro'* (A4). Yn benodol, disgrifiwyd y gwahanol ddulliau gweithredu a gymerodd staff yn y gwahanol asiantaethau gyda phlant oedd ar fin troi'n 18 oed, gwrthodai rhai asiantaethau agor achos dan chwe mis cyn i rywun gael ei ben-blwydd yn 18 oed, tra byddai gwasanaethau tai yn trin rhywun fel plentyn tan y noson cyn iddo droi'n 18. Mewn ardal astudiaeth achos arall, achoswyd tensiynau yn fwy oherwydd y diffyg tai. Roedd staff yr awdurdod lleol yn teimlo nad oedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r llysoedd lawer o ddealltwriaeth o'r Ddeddf Tai ei hun nac o'r prinder tai sydd ar gael.

6.18 Cafwyd ymatebion cymysg gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws chwe maes yr astudiaeth achos. Weithiau, gwelwyd bod y berthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn well na'r un â'r Gwasanaethau Iechyd. Roedd gwasanaethau oedd yn canolbwyntio ar blant neu oedolion yn fwy tebygol o fod yn gweithio'n dda gyda thai a digartrefedd:

'Rwy'n teimlo fy mod yn gweithio'n dda iawn gyda'r Gwasanaethau Plant. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth ac yn gwneud asesiadau ar y cyd ac mae cyswllt da yno' (ALI, A3). Fel y dywedodd darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol, 'Rydym yn sicr yn gwneud cymaint â hynny'n fwy nag yr oedden ni ac mae i gyd yn ymwneud â'r agendâu ataliol, mewn gofal cymdeithasol ac mewn tai ... rydyn ni'n gwneud cryn dipyn â'r gwasanaethau plant nawr' (ALI, A2).

6.19 Daeth yn amlwg bod darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn teimlo bod yna ryw faint o wrthdaro rhwng yr agendâu gwahanol. Crybwyllodd nifer y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, a ystyrid yn gam cadarnhaol yn gyffredinol, ond roedd angen mwy o 'gysylltu'. Fel y dywedodd un darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol a chofrestredig, *'Rwy'n credu y dylai tai fod yn bartner cyfartal ac yn aml iawn nid ydyn ni oherwydd, yn y pen draw, awn ni i mewn i'r cartrefi, rydyn ni'n dyrannu'r cartrefi a lle mae llawer o faterion diogelu, mae pobl eraill wedi gweld pethau, ond wyddoch chi, mae angen fframwaith arnoch chi, yn does, ar gyfer*

gweithio ar y cyd' (LCC, A1). Ateggodd darparwr landlordiaid cymdeithasol a chofrestredig y pwynt hwn, *'Ymddengys ein bod ni i gyd yn gweithio'n wahanol, mae'r thema'r un peth, yn tydi, ond rydyn ni i gyd yn gwneud ein peth ein hunain, digartrefedd, gwasanaethau cymdeithasol'* (LCC, A3).

- 6.20 Mewn sawl ardal astudiaeth achos, mynegodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol eu rhwystredigaeth bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn teimlo bod ailgartrefu rhywun yn golygu y gellid cau eu hachos. Fel y soniodd un, nid yw anghenion pobl yn cael eu crynhoi i dai, yn aml mae angen cefnogaeth barhaus i'r denantiaeth fod yn gynaliadwy ac i atal digartrefedd yn y dyfodol:

'Does dim pwynt rhoi to dros ben rhywun os nad yw'n addas neu'n bodloni eu hanghenion. Gall eu cysgodi rhag y glaw a phethau, ond nid yw mewn gwirionedd yn caniatáu iddynt ffynnu a gweithredu, a dw i'n meddwl mai dyna'r broblem a dw i'n meddwl mai cael y ddealltwriaeth honno drosodd, nad oes gennym lawer o le ac y gallen ni fod yn codi gobeithio'n rhywun pan nad oes modd iddynt lwyddo cyn gynted â'u bod allan o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol' (ALI, A6).

- 6.21 I landlordiaid cymdeithasol a chofrestredig, dywedwyd bod lleihau'r gefnogaeth a ddarperir ar ôl i rywun gael ei gartrefi hefyd yn arbennig o rwystredig oherwydd gallai'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth beidio ag ymyrryd digon, beri i rywun gael ei droi allan o'i gartref yn ddiangen.

Mae gennym wasanaethau cefnogi, y teimlad cyffredinol o'n hochr ni yw bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eithaf gwael am ymwneud â ni ac efallai bod gennym denantiaid, er enghraifft, mae'n rhaid i ni gymryd camau cyfreithiol nawr yn erbyn tenant sydd â, wel mae hi'n alcoholig, mae ganddi hefyd oedran meddyliol iau a phroblemau gyda chynnal ei thenantiaeth'. (LCC, A1).

lechydd

- 6.22 O ystyried y materion cynyddol yng nghyswllt iechyd meddwl, yn enwedig pan gaiff ei gymhlethu â chamddefnyddio sylweddau, cododd darparwyr gwasanaethau o bob sector bod yr angen am well ymgysylltiad â Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Meddwl yn fater sylweddol ar draws yr holl awdurdodau. Gwasanaethau Iechyd hefyd oedd y gwasanaeth y dywedodd y gwasanaeth tai statudol oedd yr anoddaf i ymgysylltu â nhw. Y gred oedd bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg adnoddau / staffio oherwydd toriadau yn y gyllideb a natur anhylaw sefydliadau darparwyr:

Rwy'n meddwl eu bod yn anifail mawr ac yn anodd iawn i dreiddio drwyddyn nhw. Rwy'n meddwl bod ganddyn nhw agenda sy'n seiliedig ar iechyd yn unig ... dydyn nhw ddim yn ymgysylltu. Nid oes ganddyn nhw'r staff yr oedd ganddyn nhw ar un adeg 'chwaith, does gan yr un ohonon ni, felly mae'n anodd iawn.' (ALI, A6)

- 6.23 Y gred hefyd oedd bod ffyrdd hanesyddol o weithio nad oeddent yn ymateb i ofynion partneriaeth yn cael effaith negyddol ar weithrediad y gwasanaeth presennol. Teimlai rhai darparwyr gwasanaethau mai ychydig a wyddent am gylch gorchwyl gweithrediad y sefydliad arall, ac fel arall:

'Mae iechyd yn gweld tai fel rhywbeth sy'n wahanol iawn i'r hyn maen nhw'n ei wneud ... rydym mewn seilo ac rydyn ni'n gwneud iechyd, ac rydych chi'n gwneud tai draw yn fanno. Mae yna ddiffyg dealltwriaeth bod yna gysylltiad enfawr mewn gwirionedd.' (TS, A2).

- 6.24 Fodd bynnag, tynnodd rhai darparwyr gwasanaethau sylw at y ffaith bod perthnasoedd unigol (ac ymddygiad) yn chwarae rhan arwyddocaol yng ngallu'r bobl i gael mynediad at wasanaethau, er eu bod yn cydnabod cyfyngiadau strwythurol ehangach.

'Mae'n debyg ei fod fel unrhyw sefydliad, mae rhai unigolion yn well nag unigolion eraill. .. mae'n ymwneud â chael perthynas dda â phobl graidd benodol ac yna os oes angen, defnyddio'r bobl graidd hynny i gael - Mae'n ddrwg gen i, ond dyna'r ffordd mae hi!' (ALI, A5)

Ysbytai

- 6.25 O'r arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd mwy na thraean o'r awdurdodau lleol fod mwy o weithio mewn partneriaeth gydag ysbytai. Yn fwy penodol, nododd tri gynnydd sylweddol mewn gweithio mewn partneriaeth gydag ysbytai, nododd pum gynnydd bychan, nododd 12 dim newid, nododd un lleihad bychan, ac un ostyngiad sylweddol. Mewn dau o'r awdurdodau lleol hynny a ddywedodd bod cynnydd sylweddol mewn gwaith gydag ysbytai, roedd hyn oherwydd bod staff wedi'u lleoli yn yr ysbyty lleol, tra gyda'r 'trydydd' roedd y canolbwyntio ar 'gyfarfodydd rheolaidd o ran rhyddhau o Iechyd Meddwl'. Dywedodd un o'r awdurdodau oedd â staff yn gweithio o'r ysbyty:

'Rydym yn ymgymryd â dewisiadau tai ac ymyriadau digartrefedd yn yr ysbyty er mwyn cefnogi cwsmeriaid i ddychwelyd adref neu i lety amgen mewn ffordd llawer mwy strwythuredig'.

- 6.26 Cyfeiriodd dau o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd bod ychydig o gynnydd hefyd at gael staff mewn ysbytai i gefnogi'r newid. Fodd bynnag, cyfeiriodd pob un o'r pump at weithdrefnau oedd yn eu lle ar gyfer rhyddhau. Er enghraifft:
- 'Gwell protocol yn ei le ar gyfer rhyddhau o ysbytai. Gwell cyfathrebu â gwasanaethau iechyd meddwl a Thimau Therapi Galwedigaethol i gynorthwyo'r broses rhyddhau.'*
- 6.27 Eglurodd tri o'r awdurdodau lleol nad oeddent yn nodi unrhyw newid iddynt roi'r ymatebion hynny oherwydd eu bod eisoes yn meddu ar brotocol neu berthnasau da, er enghraifft ysbytai sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at y tîm tai, ceisiadau ffôn a swyddogion tai sy'n ymweld ag ysbytai. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod nad oedd ganddo *'unrhyw gysylltiadau ag ysbytai'*.
- 6.28 Roedd yr ymatebwyr hynny i'r arolwg o'r awdurdodau lleol a ddywedodd bod yno ostyngiadau sylweddol / bychan yn mynegi pryderon ynghylch arferion gweithio gweithwyr iechyd proffesiynol yn ardaloedd eu hawdurdod lleol. Yn achos yr ymatebwr a nododd ostyngiad bychan, gwelwyd hyn fel gosod pwysau ychwanegol ar y tîm tai:
- 'Mae pryderon ynglŷn â sut mae gweithwyr iechyd proffesiynol o wahanol leoliadau ysbyty'n rhyddhau unigolion gydag ychydig o wybodaeth neu gynllunio ymlaen llaw. Mae hyn yn rhoi baich enfawr ar yr adran ac mewn rhai achosion mae gan unigolion a anfonir aton ni anghenion gofal a chymorth sylweddol sy'n mynd y tu hwnt i gylch gorchwyl tai'.*

Heddlu

- 6.29 Dywedodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod rhywfaint o waith partneriaeth gyda'r heddlu. Roedd gan nifer o awdurdodau lleol berthynas weithio dda ac roeddent yn gweithio i wella eu perthynas â'r gwasanaeth prawf er mwyn cefnogi'n well bobl sy'n gadael y carchar. Roedd staff landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o'r farn fod yr heddlu'n gefnogol hefyd:
- 'Mae yna bartneriaeth weithio dda gyda'r heddlu hefyd, felly os yw rhywun yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol ac mewn perygl o golli ei denantiaeth, mae yna lawer o gamau ymyrryd cynnar y maen nhw'n eu cymryd ar y lefel honno' (LCC, A3)*
- 6.30 I rai, roedd darparwyr gwasanaethau (ar draws sectorau) eisoes yn gweithio gyda'r heddlu trwy gyfarfodydd a gynhaliwyd dan fentrau eraill megis Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yng nghyswllt achosion unigol o drais yn y cartref neu gam-drin. Roedd un ardal wedi cynnal cyfarfod rheolaidd ynghylch materion penodol o

gamddefnyddio sylweddau, ac roedd yr heddlu'n gweithio i gefnogi Atebion Tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a staff hosteli gyda gwybodaeth am achosion risg uchel. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai sefydliadau'r trydydd sector y cyfyng-gyngor moesegol posib sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth o'r fath. Gan fod ofn y gallai'r heddlu ddefnyddio gwybodaeth a roddwyd yn ystod cyfarfodydd yn erbyn defnyddwyr gwasanaethau, roeddent yn gynyddol llai bodlon i fod yn agored yn ystod cyfarfodydd ar y cyd.

Carchardai/Canolfannau Cadw Ieuenctid

- 6.31 O'r arolwg o'r awdurdodau lleol, nododd wyth ymatebwr hefyd fod mwy o weithio mewn partneriaeth â charchardai / canolfannau cadw ieuenctid (dywedodd dau fod cynnydd sylweddol a chwech yn dweud bod cynnydd bychan). Dywedodd hanner yr awdurdodau lleol nad oedd unrhyw newid yn yr ardal hon, a dau yn dweud bod gostyngiad sylweddol. Roedd y ddau ymatebwr oedd yn dweud bod cynnydd sylweddol yn priodoli hyn i *'berthynas waith well gyda'r gwasanaeth prawf a gwasanaethau CEM'*, a chael *'Swyddog Adsefydlu Carchardai Rhanbarthol nawr yn y swydd'*. Cyfeiriodd pedwar o'r awdurdodau a ddywedai bod cynnydd bychan at well gwaith ar y cyd a / neu gyfathrebu â gwasanaethau prawf a charchardai. Er enghraifft:

'Mae gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a charchardai a chanolfannau cadw yn parhau ac mae wedi gwneud rhai gwelliannau bach eleni'.


- 6.32 Priodolodd un ymatebwr arall i'r arolwg y cynnydd bach i fod â *'Swyddog Adsefydlu Carchardai'*. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd o reidrwydd mor gadarnhaol ym marn ymatebwr arall, oherwydd nad oedd y *'Carchardai a / neu'r Gwasanaeth Prawf yn glynu wrth y Llwybr Carcharorion bob amser'*.
- 6.33 Eglurodd pump o'r awdurdodau lleol nad oeddent yn nodi unrhyw newid mai'r rheswm am hyn oedd bod systemau eisoes yn eu lle, gan gynnwys gweithiwr y rhaglen 'PREP', llwybrau carcharorion, a swydd Swyddog Carchar Rhanbarthol. Fodd bynnag, ym marn un ymatebwr, *'[nid yw'r] llwybrau carcharorion yn cael eu defnyddio bob tro'*. Roedd y ddau ymatebwr a nodai ostyngiad sylweddol hefyd yn teimlo bod yna broblemau gyda'r llwybr. Er enghraifft:

'Dyw'r Llwybr Carcharorion ddim yn gweithio! Dyn ni ddim yn derbyn ceisiadau am gymorth tai gan droseddwyr sy'n gadael y carchar yn brydlon, os o gwbl. Pan fyddwn ni, yn aml nid oes asesiad risg wedi'i ddarparu na digon o wybodaeth'.

Cefnogi Pobl

- 6.34 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, gofynnwyd i dimau tai sut mae eu perthynas weithio gyda gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ffyrdd y mae'r agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl, targedu adnoddau Cefnogi Pobl i gefnogi atal digartrefedd, a chyflwyno prosesau pyrth / atgyfeirio ffurfiol.
- 6.35 At ei gilydd, dywedodd ugain awdurdod lleol bod yr agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl, a dywedodd dau nad yw. Mae hyn yn gynydd o ddau awdurdod lleol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwy penodol, cynhaliodd un ar bymtheg o awdurdodau lleol fforymau ar y cyd i lywio penderfyniadau, dywedodd pedwar ar ddeg fod yr agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau ar y cyd, a gostyngodd dri wariant mewn ardaloedd Cefnogi Pobl eraill.
- 6.36 Nododd tri ymatebwr i'r arolwg hefyd ffyrdd eraill y mae'r agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl, gan gynnwys '*cynllunio ar y cyd lety newydd a gwasanaethau cymorth*' mewn un awdurdod lleol, ynghyd â '*Gweithio i gomisiynu llety brys ar y cyd*' a mynd i '*Fforymau i lywio gwaith comisiynu a chyflawni gwasanaethau*' mewn un arall. Mewn trydydd awdurdod lleol mae hyn yn cynnwys nodi'r angen am weithiwr cymorth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth, gwasanaeth galw heibio i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a gwasanaeth cyngori ar ddyledion.

Ffigur 27: Y ffyrdd y mae'r rhaglen ddigartrefedd yn llywio gwaith comisiynu Gwasanaethu Cefnogi Pobl (N=20)



- 6.37 Pan ofynnwyd iddynt '*Sut mae adnoddau Cefnogi Pobl wedi'u targedu i gefnogi atal digartrefedd?*', rhoddwyd cefnogaeth fel y bo'r angen fel yr ymateb mwyaf cyffredin, ac yna wasanaeth cymorth generig, a chydleoli gwasanaethau digartrefedd / Cefnogi Pobl

(gweler y ffigur isod). Dim ond lleiafrif o ymatebwyr a ddywedodd fod gan eu hawdurdod lleol wasanaeth cwbl integredig.

- 6.38 Ymhlith yr awdurdodau lleol oedd yn datgan bod eu gwasanaethau digartrefedd a Chefnogi Pobl wedi'u cydleoli, yn ymarferol, mae hyn yn digwydd mewn amrywiol ffyrdd. Dywedodd pedwar ymatebwr fod Cefnogi Pobl wedi'i leoli o fewn opsiynau tai. Er enghraifft:


Mae'r tîm Cefnogi Pobl yn y ganolfan opsiynau tai, gyda gwasanaethau digartref, a gwasanaethau hostel ac ailgysylltu. Mae pennaeth y gwasanaeth yn gyfrifol am Gefnogi Pobl. Mae timau Digartrefedd a Chefnogi Pobl yn cydweithio'n agos i sicrhau y cyflawnir y gwasanaeth yn ymarferol ac yn strategol'.

- 6.39 Ychwanegodd un o'r ymatebwyr hyn ei fod yn 'gwella gweithio cydgysylltiedig'. Dywedodd ymatebwr arall mai dim ond Cymorth Tenantiaeth oedd yn gweithio o swyddfeydd Opsiynau Tai. Cyfeiriodd tri arall mai'r un rheolwr sy'n gyfrifol am y ddau wasanaeth, a'r teimlad oedd ei fod yn eu cynorthwyo i gydweithio. Er enghraifft:

'Fel y Rheolwr, rwy'n gyfrifol am Gefnogi Pobl ac Opsiynau Tai. Mae'r timau'n cydweithio'n agos iawn ac maent wedi'u cydleoli'.

- 6.40 Cyfeiriodd tri ymatebwr at swyddi a ariennir gan Gefnogi Pobl oedd yn eu timau. Mewn un awdurdod lleol, roedd hon yn swydd Cefnogi Pobl arbrofol 'sydd yn ein tîm ac yn gweithio'n dda'. O'r awdurdodau lleol hynny nad yw digartrefedd a gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi'u cydleoli, esboniodd un eu bod 'bob amser wedi gweithio'n agos gyda Chefnogi Pobl', tra dywedodd un arall nad yw cydleoli yn bosib ar hyn o bryd yn eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, gwelodd trydydd bod hyn yn 'faes allweddol i'w ddatblygu.

Ffigur 28: Targedau Adnoddau Cefnogi Pobl i Gefnogi Atal Digartrefedd (N=22*)



Noder: * Un

- 6.41 Nid ymatebodd un awdurdod lleol i dair rhan o'r cwestiwn.
- 6.42 O'r awdurdodau lleol hynny sy'n defnyddio adnoddau Cefnogi Pobl ar gyfer llwybrau uniongyrchol i'r digartref, cyfeiriodd ddau at byrth sy'n caniatáu i aelwydydd digartref 'gael mynediad at ystod o gefnogaeth a llety trwy'r Llwybr Cefnogi Pobl'. Mae trydydd awdurdod wedi cyflwyno system brysbenno, Swyddog Dyletswydd, a system TG newydd fel y gellir cysylltu'n syth â'r rhai sy'n dod yn ddigartref. Eglurodd dau ymatebwr bod hyn yn dal i fynd rhagddo. Esboniodd un awdurdod lleol nad oedd gan lwybr uniongyrchol 'Fe wnaethon ni ymchwilio i'r manteision a'r anfoneision, ond nid oedd yn cynnig gwerth am arian'.
- 6.43 Yn ymatebion i'r arolwg, dywedodd bron pob awdurdod lleol eu bod yn targedu adnoddau Cefnogi Pobl ar gyfer cymorth fel bo'r angen, gydag un yn unig yn dweud nad ydynt yn gwneud hynny. Fodd bynnag, rhoddwyd ystod eang o wybodaeth ychwanegol. Cyfeiriodd tri awdurdod lleol at ddefnyddio ystod o ddarparwyr yn dibynnu ar angen penodol, a'u bod yn cael gafael ar ddarparwyr trwy'r llwybr Cefnogi Pobl. Cyfeiriodd un awdurdod lleol at wasanaeth mewnol penodol. Dywedodd un arall eu bod yn targedu eu hadnoddau Cefnogi Pobl i gefnogaeth fel y bo'r angen gan ei fod yn 'profi'n llawer mwy effeithiol o ran darparu cymorth a'r defnydd a wneir o arian', ond dywedodd un arall eu bod yn gweld hyn fel 'maes allweddol i'w ddatblygu er bod gennym gefnogaeth fel y bo'r angen. Ni

chynigiwyd esboniad pellach gan yr awdurdod lleol nad yw'n targedu adnoddau Cefnogi Pobl ar gyfer cefnogaeth fel y bo'r angen.

- 6.44 O'r lleiafrif o awdurdodau lleol sy'n targedu adnoddau Cefnogi Pobl i mewn i wasanaeth cwbl integredig i gefnogi atal digartrefedd, eglurodd pedwar bod hyn yn digwydd wrth i Gefnogi Pobl gomisiynu 'llety digartrefedd dros dro a ddarperir gan Opsiynau Tai', rhannu'r un rheolwr, 'Cyfarfodydd chwarterol a gynhelir rhwng Tai a Chefnogi Pobl a darparwyr cymorth', a 'Chynllun Porth Cefnogi Pobl / Digartrefedd'. O'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn targedu eu hadnoddau fel hyn, dywedodd dau fod newidiadau yn cael eu cynllunio, gan gynnwys ailstrwythuro gwasanaethau. Dywedodd un awdurdod lleol arall, bod y timau digartrefedd a chymorth yn gweithio'n dda er eu bod ar wahân, gyda 'phroses atgyfeirio gyflym a hawdd'.
- 6.45 Yn ôl y sôn, roedd adnoddau Cefnogi Pobl yn cael eu targedu i wasanaeth cymorth generig mewn mwyafrif clir o awdurdodau lleol, gyda thri yn unig yn datgan nad ydynt yn defnyddio eu hadnoddau fel hyn. Mae ystod o wasanaethau cymorth ar gael trwy lwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl. Mewn tri awdurdod lleol mae hyn yn cynnwys defnyddio sefydliadau allanol. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod eu bod â 'swyddogion generig a byddant yn atgyfeirio at arbenigwyr allanol, megis Gofal, Caer Las'. Dywedodd un awdurdod arall eu bod yn awyddus i ailfodelu'r gwasanaethau gan eu bod 'angen ymyrraeth gyflym ymatebol lefel isel'. Fodd bynnag, mae ganddynt 'bryderon am ddyfodol y prosiect hwn a ariennir'. Mewn un awdurdod lleol arall, dywedwyd bod 'gwasanaethau generig presennol yn cael eu hadolygu i lywio datblygiad yn y dyfodol a sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu'. Yr unig esboniad gan awdurdod nad oedd yn targedu adnoddau Cefnogi Pobl mewn cymorth generig oedd bod 'yr holl atgyfeiriadau'n cael eu gwneud drwy'r cynllun Porth'.
- 6.46 Dim ond dau awdurdod lleol ddywedodd eu bod yn targedu adnoddau Cefnogi Pobl mewn ffyrdd eraill i atal digartrefedd. Dywedodd y ddau eu bod yn defnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer cefnogaeth arbenigol. Mae un yn bwriadu cyflwyno swydd ar wahân i 'gefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl a chymhleth yn ystod y flwyddyn ariannol hon', tra bod y llall wedi 'cychwyn cyfleuster rhannu desg i ddarparwyr gwasanaethau fel bod modd cydleoli darparwyr cymorth arbenigol o fewn y Tîm Opsiynau Tai'. Mae'r cyntaf o'r awdurdodau hyn hefyd yn defnyddio adnoddau Cefnogi Pobl i ariannu hosteli'r awdurdod lleol a'r trydydd sector, ac mae'r trydydd sector yn darparu lloches a thai â chymorth, yn ogystal â swydd cyswllt landlordiaid sector preifat am flwyddyn er mwyn 'cynyddu'r llety preifat sydd

ar gael a chefnogaeth i denantiaid a landlordiaid '. Mae cefnogaeth ar gael yn yr awdurdod olaf hwn ac i'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl arbenigol neu sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, tra bod yr awdurdod yn parhau i 'hyrwyddo'r cyfleuster gyda darparwyr gwasanaethau eraill'.

6.47 Dangosodd yr ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau fod y mwyafrif a ddaw o Gefnogi Pobl yn teimlo mai mewn gweithio mewn partneriaeth oedd eu cryfder erioed ac, am y rheswm hwnnw, nid oedd y Ddeddf wedi cael cymaint o effaith. Roeddynt yn parhau i weithio gyda phartneriaid statudol ynghylch contractau anabledd ar y cyd, gweithio gyda thimau Cefnogi Pobl eraill a hefyd weithio'n agos gyda rheolwyr tai i wella gwaith darparu hosteli a chymorth i denantiaid. Fel hyn, gallent gynorthwyo i gysylltu gwahanol sefydliadau neu awgrymu arferion gorau.

6.48 Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau bod y Ddeddf wedi cael effaith ar Gefnogi Pobl, yn bennaf o ran caniatáu mwy o hyblygrwydd ynghylch sut i ymgymryd â gwaith atal:

'Rwy'n meddwl ein bod ni bellach yn gweithio'n llawer agosach gydag Opsiynau Tai oherwydd bod yr agenda atal digartrefedd wedi dod yn llawer amlycach yn y gwasanaeth Cefnogi Pobl hefyd, felly rwy'n meddwl pan fyddwn ni'n edrych ar gomisiynu a gwasanaethau cynllunio rydyn ni'n derbyn yr Opsiynau Tai ac atal digartrefedd llawer mwy' (ALI, A6)

6.49 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd darparwyr gwasanaethau'n cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau Cefnogi Pobl yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mater a nodwyd ar gyfer Cefnogi Pobl oedd amrywiaeth y gwasanaethau yr oedd gofyn iddynt eu cefnogi a'r sefydliadau yr oeddynt yn gweithio â nhw. Gyda gweithredu Deddfau gwahanol, roedd rhai staff lleol Cefnogi Pobl yn ei chael hi'n anodd gwybod beth i'w flaenoriaethu.'

'Mae'n eithaf anodd gan fod yno yrwyr gwahanol ar wahanol adegau, ac rydym yn ei chael hi'n anodd ar Gefnogi Pobl oherwydd ein bod yn cael ein sianeli i gyfeiriadau penodol' (ALI, A4)

6.50 Fel gyda phob sefydliad, roedd darparwyr Cefnogi Pobl wedi cael y gostyngiadau mewn cyllid yn anodd ac wedi gorfod gostwng eu gwasanaethau'n unol â hynny. Roedd hyn yn cael nifer o sgil-ffeithiau, y cyntaf oedd cynnydd mewn amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau. Fel yr esboniodd un darparwr gwasanaethau'r awdurdodau lleol:

'Mae'r baich ar y defnyddiwr gwasanaeth i wneud ychydig mwy iddyn nhw eu hunain, ond yn amlwg, rydyn ni'n cael llawer iawn o bobl sydd ag anghenion cymorth ac er ein bod yn datblygu perthynas wych gyda'n tîm Cefnogi Pobl ac y gallwn ni gyflwyno'r atgyfeiriadau angenrheidiol, nid yw'r cymorth hwnnw bob amser ar gael yn syth oherwydd eu capasiti' (ALI, A3).

- 6.51 Mater arall a godwyd oedd y broses o symud pobl allan o dai dros dro neu dai â chymorth ac i mewn i'w tenantiaeth eu hunain. Mewn un ardal astudiaeth achos, roedd Cefnogi Pobl wedi ad-drefnu eu harian er mwyn arfer mwy o reolaeth dros ddarparwyr llety dros dro a chymorth fel y bo'r angen - 'fe gymeron ni reolaeth o hynny, cyflwynon ni system newydd, roedd yn rhaid i bob atgyfeiriad ddod trwyddon ni, fe wnaethon ni osod terfyn amser fel y gallent eu cefnogi, ac yna mae'n rhaid iddynt ofyn i ni os oeddynt eisiau ymestyn y gefnogaeth honno'(ALI, A2). Roedd hyn hefyd yn gostwng y gyllideb ofynnol trwy symud i ffwrdd o gymorth arbenigol i gymorth cyffredinol. Fodd bynnag, tynnodd rhai sefydliadau'r trydydd sector sylw at y gostyngiad posib mewn hyblygrwydd ac arbenigedd yr oeddynt yn ystyried oedd yn hanfodol er mwyn symud rhywun ag anghenion cymhleth yn llwyddiannus i denantiaeth gynaliadwy.

'Torri'r nifer, torri'r cyfyngiad, torri'r math o gefnogaeth ... ydi hyn yn hyrwyddo mwy o gostau ar draws ystod gyfan o doriadau yn y gyllideb yn ddiweddarach, ac yn parhau cylch y drws cylchdroi? ... Mae'n anodd. Mae gen i lawer o gydymdeimlad' (TS, A2).


- 6.52 Fel y nodwyd yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, roedd gwasanaethau Cefnogi Pobl wedi'u lleoli mewn gwahanol gyfarwyddiaethau ar draws awdurdodau, a theimlai rhai darparwyr gwasanaethau eu bod wedi cael effaith ar eu blaenoriaethau:'Mae Cefnogi Pobl yn gweithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid wyf erioed wedi gweithio mewn awdurdod lle maen nhw wedi bod yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac rwy'n meddwl, fel y cyfryw, beth sy'n digwydd yw nad ydyn nhw'n ymwybodol iawn o'r hyn sy'n digwydd yma [yn tai]' (LA, A5).

Pyrth

- 6.53 O'r arolwg o'r awdurdodau lleol, fel y gwelir yn y ffigur isod, roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi cyflwyno cynllun porth ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl a phroses atgyfeirio ffurfiol ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl. Fodd bynnag, tri yn unig oedd wedi cyflwyno'u cynllun porth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd pump wedi cyflwyno proses atgyfeirio ffurfiol dros yr un cyfnod.

6.54 O'r ymatebwyr hynny i'r arolwg a gyflwynodd gynllun porth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd dau fod hyn yn hwyluso mynediad at gymorth fel y bo'r angen a ariennir gan Gefnogi Pobl. Fodd bynnag, mewn un o'r awdurdodau lleol hyn mae *'cynllun porth ar wahân ar gyfer tai â chymorth sefydlog'*. Nododd un awdurdod lleol yr oedd y cynllun porth hwn eisoes yn ei le ganddynt, fod hwn yn un o nifer o lwybrau sy'n bodoli, tra bod un arall yn nodi bod *'Pob cyfeiriad am lety â chymorth a chymorth sy'n gysylltiedig â thenantiaeth yn cael eu gwneud drwy'r cynllun porth'*. Dim ond un awdurdod lleol nad oes ganddynt gynllun porth na chynllun i gyflwyno un a ymhelaethodd ar ei ymateb, gan nodi *fe wnaethon ni ymchwilio ond nid yw'n gost effeithiol'*. Roedd gan yr holl awdurdodau lleol hynny oedd yn bwriadu cyflwyno cynllun porth gynlluniau cadarn yn eu lle, gydag un wedi penodi Swyddog Prosiect Pyrth yn ddiweddar, roedd dau ar fin cyflwyno cynllun erbyn Ionawr 2018, ac roedd un wedi uwchraddio'r system TG i gynnwys y modiwl Cefnogi Pobl.

Ffigur 29: Prosesau pyrth/atgyfeirio ar gyfer y Gwasanaethau Cefnogi Pobl (N=22*)



Nodyn: * Nid ymatebodd un awdurdod lleol i un rhan o'r cwestiwn.

6.55 Ymhlith yr awdurdodau lleol sydd wedi cyflwyno proses atgyfeirio ffurfiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd un ohonynt eu bod wedi cyflwyno llwybr cyfeirio sengl, tra bod gan ddau arall brosesau atgyfeirio eraill ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl. Dywedodd un awdurdod arall am eu cynllun i agor y porth i wasanaethau Cefnogi Pobl eraill:

'Yn y tymor hir y bwriad yw cyflwyno'r gwasanaeth Porth i'r holl wasanaethau a ariennir gan Gefnogi Pobl a bydd yn disodli'r trefniadau niferus sy'n bodoli ar hyn o bryd'.

6.56 O'r awdurdodau lleol hynny oedd yn datgan bod ganddynt eisoes broses atgyfeirio ffurfiol ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl yn eu lle, mewn dau gwneir yr atgyfeiriadau trwy'r cynllun porth, gyda thraean yn ychwanegu eu bod yn cael eu gwneud i *'bwynt canolog i'w hasesu ac yna'n cael eu trosglwyddo i'r darparwr mwyaf addas'*. Mewn pedwerydd awdurdod lleol, mae'r broses yn wahanol gan ddibynnu ar y gwasanaeth, ond mae *'mwyafrif yr atgyfeiriadau'n dod trwy atebion tai'*. O'r rheiny sy'n bwriadu cyflwyno proses atgyfeirio ffurfiol, mae'r tri ohonynt yn y camau datblygu. Er enghraifft:

'Rydyn ni wedi cynnal arbrawf ac ar ôl gwerthuso rydyn ni wrthi'n datblygu ffurflen atgyfeirio safonol ar gyfer darparwyr tai â chymorth tymor byr'.

6.57 Mae awdurdodau lleol wedi'u hannog i gyflwyno cynlluniau porth ar gyfer materion penodol neu grwpiau o bobl, megis pobl sengl, cam-drin domestig, ac iechyd meddwl. Datgelodd ymgynghoriad â darparwyr gwasanaethau fod cynlluniau porth wedi'u cyflwyno mewn sawl maes astudiaeth achos, a'r gred oedd eu bod yn cynnig manteision penodol, gan eu bod yn sianelu pob atgyfeiriad trwy un pwynt cyswllt - *'roedd pob cyfeiriad i fod i fynd drwy'r un pwynt. Dyna'r prif ethos y tu ôl i gael y cynllun porth'* (ALI, A6). Maent hefyd yn gwasanaethu i gasglu a rhannu gwybodaeth am bobl oedd wedi cael mynediad at wasanaethau pyrth, a chreu prosesau atgyfeirio newydd i rannu argymhellion i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i symud ymlaen.

6.58 Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod pyrth wedi newid partneriaethau yn sylweddol yn enwedig felly o ran faint o reolaeth yr oedd awdurdodau lleol yn ei gael dros rai gwasanaethau a llety a ariennir. Fel y dywedodd un darparwr trydydd sector: *'Erbyn hyn mae gennym borth y mae'n rhaid i bobl ddod trwyddo ... ac ni sy'n penderfynu pwy sy'n mynd i mewn i ba gynllun.'* (A2). Fodd bynnag, ymhlith darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos, roedd y farn yn gymharol gymysg pa mor ddefnyddiol oedd y pyrth hyn.

6.59 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau o'r farn bod defnyddio pyrth yn golygu bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael mwy o gefnogaeth:

'Roedd yn ymddangos y byddai'n cynyddu faint o waith ymyrryd a gâi ei wneud cyn gynted ag y cyflwyna person ei hun i'r awdurdod lleol' (ALI, A6)

6.60 Fodd bynnag, nododd eraill y tybir bod cyflwyno pyrth wedi symud awdurdodau oddi wrth ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion gan ei fod yn golygu bod rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau ymgysylltu â phroses gymhleth sy'n cynnwys lluo o asiantaethau. Roedd y

pryder yn y man hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y cynlluniau hyn yn ei gwneud hi'n anos mewn gwirionedd i rai pobl gael mynediad at wasanaethau. Roedd rhai darparwyr gwasanaethau hefyd yn teimlo ei fod yn rhoi cyfrifoldeb mawr ar un person, a allai o bosib *'wneud penderfyniad yn sydyn yn seiliedig ar wybodaeth, a hynny o gyfarfodydd, nad yw'r person hwnnw mor agored i newid ag y mae hi'n ei feddwl'* (TS, A6).

- 6.61 Mater arall a godwyd oedd ei bod hi'n anodd gwneud atgyfeiriadau pan nad oedd pobl yn ffitio'n hawdd i unrhyw borth. Yn aml, teimlai rhai darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector mewn awdurdodau lle nad oedd pyrth wedi'u sefydlu eto, y gallent gael gwared ag annibyniaeth, ac yn hytrach byddai'n well ganddynt:

'Gadw mynediad uniongyrchol yn ogystal, byddai llawer o gynghorau'n hoffi cymryd rheolaeth, rydym yn hoffi mynediad uniongyrchol oherwydd gallwch chi ddod yma ar unrhyw adeg, byddwn yn cymryd atgyfeiriad oddi arnoch' (TS, A3)

- 6.62 Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig:

'Pan gyflwynwyd y system porth ac fe gollon ni, i bob pwrpas, ein hawl i ddewis ein tenantiaid ein hunain ... roedd yn ysgytwad diwylliannol ond bu'n newid cadarnhaol at ei gilydd... y cytundeb yw bod y cyngor yn gyfrifol am lenwi'r tai gwag hynny. Felly, os na fyddan nhw'n gallu llenwi ein tai gwag mewn rhai achlysuron, nid yw'r cyfrifoldeb ariannol ar ein hysgwyddau ni' (LCC, A2)

- 6.63 I staff eraill y trydydd sector, y gred oedd bod y broses hon wedi cyflwyno 'dyn canol ar gyfer yr hyn a wnawn a beth yw'r fantais ohono. Yn bersonol alla i ddim gweld beth ydi o, ac os ydyn ni'n atgyfeirio at [sefydliadau] ... rydyn ni'n eu hadnabod yn dda iawn, gallwn ni lenwi'r cais, trafod, eu cymryd drosodd, tra bod y pwynt cyswllt hwn, wel mae'n mynd ar goll, nid ydyn ni'n adnabod y person neu'r unigolyn, dw i'm yn gweld y pwrpas iddo' (TS, A6).

- 6.64 Y teimlad hefyd oedd bod hyn yn cynyddu yn y gwaith papur yr oedd gofyn ei wneud, gan fod gofyn iddynt lenwi ffurflen y porth yn ogystal â ffurflenni asesu a ddatblygwyd gan sefydliadau eraill yn hytrach nag yn eu lle.

- 6.65 Dim ond tri defnyddiwr gwasanaethau a gyfeiriodd at fynediad at byrth yn nau gyfnod y gwaith maes a bu iddynt fynegi bod eu dealltwriaeth o'u rôl yn gymysg. Gwelodd un ymatebwr nhw fel darparwr gwasanaethau ar wahân.

'Rwyf yno ers 9 Tachwedd felly ddim ers cyfnod hir iawn, ond dw i angen cael gwneud rhywbeth iddo, oherwydd nid yw'r landlord yn gwneud dim byd, felly rydw i wedi dod i'r

tîm atal heddiw. Rydw i'n gweithio'n agos gydag Opsiynau Tai ers y tri mis diwethaf, yn fwy gyda phorth nag unrhyw un, i'm helpu i ddod o hyd i le.' (DG, A2)

- 6.66 Ategodd defnyddiwr gwasanaeth arall hyn, gan ddweud sut y gwnaeth y cam ychwanegol bethau'n fwy cymhleth iddynt gael mynediad at gefnogaeth a llety:

'Rwy'n credu, lle mae pob un o'r tai, pob hosteli, tai â chymorth, rhaid i bopeth fynd trwy broses ganolog y cyngor, ac rwy'n meddwl ei fod yn gweithio'n well pan nad oedd hyn yn digwydd, oherwydd rwyf gydag [elusen], ac mae ganddyn nhw ystafell yn mynd yn un o'u tai, a byddai wedi bod, ychydig flynyddoedd yn ôl, y gallen nhw fod wedi delio â hyn eu hunain a fy rhoi i yno, ond nawr, pan 'wnes ei ffonio, oherwydd i mi ganfod fod yna ystafell yn mynd yno, meddai,' O, mae'n rhaid i bopeth fynd drwy'r cyngor. ' Rydw i yn ôl yn y dechrau eto, chi'n gwybod?' (DG, A2)

- 6.67 Mynegodd y defnyddwyr gwasanaethau rwystredigaeth bod y broses yn troi mewn cylchoedd ac yn cymryd llawer o amser. I un person, roedd yn golygu mynd yn ôl ac ymlaen rhwng y canolfannau a'r sefydliadau gwasanaeth.

'Ond yna mi ddywedais,' Pa help alla i ei gael i gael lle newydd? ' ... yr oll ddywedon nhw oedd y byddwn ni'n mynd i'r ganolfan yn y dref ac yna mae'r ganolfan yn dweud wrthyh chi i ddod yma, ac mae'r fan yma yn dweud wrthyh chi am fynd i'r ganolfan .. ' (DG, A2)

- 6.68 I ddefnyddiwr gwasanaethau arall, amseroedd aros hir, ynghyd â'r gofyn i fynd trwy'r cynllun porth i gael mynediad at unrhyw wasanaethau, a achosodd anawsterau wrth dderbyn cymorth pan oedd ganddynt gyfrifoldebau a phwysau eraill.

'Mi ddywedodd,' Cymerwch docyn. ' Disgwyliais am ddwy awr, ac yna cefais fy ngalw ac fe ddywedon nhw, 'Mae angen i chi fynd i weld y person nesaf nawr ac rydych chi'n bedwerydd yn y ciw, mae pedwar o bobl o'ch blaen chi, mae'n ddrwg gennym, ac ar gyfartaledd maen nhw'n cymryd awr yr un', a dywedais,' Alla i ddim aros pedair awr arall, mae'n rhaid i mi gael at y plant', ac nid wyf wedi bod yn ôl eto. Dim ond i weld oedd yna unrhyw asiantaethau oedd hynny.' (DG, A2)

- 6.69 Dywedodd darparwyr gwasanaethau hefyd eu bod yn drysu'n lân pan oedd nifer o lwybrau yn eu lle mewn ardal, ac roedd hefyd yn cymryd llawer o amser iddyn nhw ganfod pa un oedd yr un cywir i'w ddilyn:

'A bod yn onest, fe gewch eich drysu gyda'r holl lwybrau hefyd oherwydd bod y blaenoriaethau i bob grŵp cleientiaid ychydig yn wahanol hefyd, ac nid ydych chi'n siŵr

o gwbl. Beth os oes gennych chi berson 17 mlwydd oed, sydd newydd ddod allan o'r carchar, pa lwybr? Rhaid iddo fod yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol a'r hyn y maent yn ei gyflwyno i chi, fel eu prif fater. A oedd yn ymwneud â bod yn y carchar neu a oedd o ganlyniad i'w hoedran? Mae'n golygu eistedd i lawr a siarad efo nhw, felly mae'n hanfodol cael yr asesiad hwnnw'n iawn.' (TS, A2)

- 6.70 Mae'n amlwg yn y dyfyniad hwn, hyd yn oed lle mae llwybrau a phyrth yn bodoli, bod pwysigrwydd asesiad holistig, sy'n canolbwyntio ar unigolion, yn hollbwysig. Mae'r enghraifft hon hefyd yn dangos gwybodaeth wael y darparwr gwasanaethau am y llwybrau gan fod y Llwybr Carcharorion a'r Llwybr Pobl Ifanc yn gwneud pethau gwahanol iawn.

Gweithio mewn partneriaeth â/ymhlith y Trydydd Sector

- 6.71 Roedd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol datblygu partneriaethau gwell gyda'r trydydd sector. Yn yr un modd, roedd staff y trydydd sector yn cydnabod bod ymdrechion awdurdodau lleol i gydweithio mwy wedi gwella.
- 6.72 I ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol, gwelwyd partneriaethau'r trydydd sector yn ddull allweddol o reoli rhai o'r heriau ynghylch cymhlethdod y materion a gyflwynir gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Ystyriwyd bod asesu, er enghraifft, yn un maes lle gallai staff hosteli'r trydydd sector a lletyau dros dro gefnogi Atebion Tai:

'Mae gennym berthynas lawer agosach â'n holl ddarparwyr llety nawr, ac maent yn rhoi llawer mwy o wybodaeth i ni, gan nad yw'n dod yn amlwg. Maen nhw'n byw gyda'r cleientiaid, yn tydyn? Ac yna maent yn dweud wrthym ni lawer mwy am yr hyn sy'n digwydd, felly rydych chi'n adolygu'r cam rhesymol hwnnw' (ALI, A2)

- 6.73 Fodd bynnag, roedd amryw o ffynonellau tensiwn yn y partneriaethau hyn, yn aml o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Roedd consensws ymhlith darparwyr gwasanaethau bod y cyfryw berthynas waith yn amrywio'n fawr, gydag enghreifftiau cadarnhaol a negyddol yn cael eu rhoi.

'Mae rhai y mae'n ymddangos ein bod yn gweithio'n well gyda nhw. Mae rhai, er gwaethaf hyfforddiant a cheisio gwithio hyfforddiant allan, bron yn ymddangos yn gweithio yn ein herbyn ar brydiau, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud ... Weithiau mae cyfathrebu'n broblem, cael adborth ganddyn nhw, ynghylch yr hyn maen nhw wedi'i wneud gyda'r cleient. Mae'n ymddangos ein bod ni'n rhedeg ar eu holau drwy'r amser, sydd o ddim defnydd i neb mewn gwirionedd' (ALI, A5)

- 6.74 Roedd darparwyr gwasanaethau, at ei gilydd, yn teimlo fod y Ddeddf wedi arwain atyn nhw ac awdurdodau lleol yn gweithio'n well mewn partneriaeth. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfathrebu gwell, a pharodwydd cynyddol i gynorthwyo i gynnal tenantiaethau, ynghyd ag adnoddau ychwanegol i wneud hynny'n bosib. Trafododd un grŵp ffocws o weithwyr hostel rheng flaen welliannau mewn rhannu gwybodaeth:

'Rwy'n credu ei fod wedi gwella. Rwy'n credu ei bod hi, fwy na thebyg, oherwydd bod mwy o orfodaeth arnon ni i'w wneud nawr oherwydd y Ddeddf ac nid oes neb yn gwrthwynebu gwneud hynny beth bynnag. Mae'n beth cynhyrchiol i'w wneud' (TS, A2)

- 6.75 Roedd rhai enghreifftiau o arfer da a pherthynas weithio gadarnhaol rhwng darparwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, nododd y trydydd sector mewn rhai awdurdodau rai profiadau da o weithio mewn partneriaeth, yn enwedig lle'r oedd wedi canolbwyntio ar anghenion grwpiau penodol. Roedd tystiolaeth sylweddol bod trefniadau o'r fath yn llwyddiannus oherwydd ymrwymiad aelodau staff unigol yn hytrach nag o ganlyniad i gynllunio strategol:

'Mae gennym berthynas dda iawn, yn enwedig i lawr y ffordd gyda'r tîm gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, y tîm cyffuriau ac alcohol [sirol], mae'r rhan fwyaf o'n cleientiaid yn gweithio gyda nhw, rydym yn gweithio'n dda iawn gyda nhw. Does dim byd ffurfiol wedi'i sefydlu ... rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda'r IOM, y tîm Rheoli Troseddwy'r Integredig, felly mae dau neu dri swyddog heddlu sy'n gweithio'n bennaf gyda bron iawn bawb sy'n gweithio yn ein prosiect yma. Mae yna lawer iawn o waith partneriaeth sy'n mynd ymlaen yma.' (TS, A5)

- 6.76 Dywedodd darparwr gwasanaethau arall y trydydd sector I mai gyda sefydliadau eraill y trydydd sector oedd eu partneriaethau mwyaf cadarnhaol:

'Rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda rhai fel x, oherwydd ein bod yn ymdrin â theuluoedd. Mae gennym berthynas wych yno. Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau, o w, y. Hoffem ymwneud mwy â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond rydyn ni'n gwneud llawer o waith staff rheng flaen' (TS, A2)

- 6.77 Tynnwyd sylw at rai heriau wrth weithio mewn partneriaeth, er enghraifft, perthynas wael, yn hanesyddol, rhwng sectorau:

'Mae'n werth sôn hefyd bod hanes ein perthynas â'r tîm digartref wedi bod i fyny ac i lawr' (TS, A6)

- 6.78 Tynnodd darparwyr eraill hefyd sylw at y ffaith y gallai gwahaniaethau mewn agendâu greu heriau wrth i sectorau weithio mewn partneriaeth, er enghraifft, gwahanol ddangosyddion perfformiad allweddol. Roedd angen i rai asiantaethau ailgartrefu pobl er mwyn eu symud o'r llwythi achos a dangos eu bod yn cwblhau eu dyletswyddau'n llwyddiannus, tra byddai angen i eraill ddangos bod eu tenantiaethau'n gynaliadwy:

'Felly byddan nhw'n cartrefu rhywun sydd mor anhrefnus nad oes unrhyw obaith, rydych yn creu gobaith pan nad oes modd llwyddo ond, iddyn nhw, maen nhw wedi ticio'r bocs ar gyfer eu dangosydd perfformiad allweddol oherwydd eu bod wedi rhoi cartref i rywun' (TS, A2)

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

- 6.79 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, mewn cymhariaeth â'r Sector rhentu preifat, dywedodd llai o awdurdodau lleol fod cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Dywedodd dau fod cynnydd sylweddol, gwelodd pum gynnydd bychan, a dywedodd 15 nad oedd newid. Ni roes y rhai a nododd gynnydd sylweddol unrhyw esboniad y tu hwnt i fod â pherthynas weithio dda iawn gyda'r landlordiaid hyn. Gwnaeth pob ymatebwr a welodd ychydig o gynnydd sylwadau ar sut oedd y berthynas gadarnhaol â landlordiaid yn parhau i wella. Er enghraifft:

'Mae gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eisoes yn dda ac mae hyn wedi gwella'r wythnos hon gyda hyfforddiant yn cael ei roi ar [y Ddeddf] a chymorth gyda hyfforddiant tenantiaethau i bobl ifanc'.

- 6.80 Dywedodd y chwe awdurdod a nododd nad oedd newid, mai'r rheswm dros hyn oedd bod arferion gweith da eisoes yn bodoli a'r strwythurau angenrheidiol yn eu lle, megis cyfarfodydd rheolaidd, Cofrestr Tai Cyffredin, Gosodiadau Dewisol a Pholisïau Dyrannu Cyffredin. Fodd bynnag, roedd awdurdod arall wedi nodi nad oedd newid, oherwydd mai *'ychydig o letyau a ddaw ar gael'*.
- 6.81 Nododd llawer o landlordiaid a ddarparai wasanaethau bod perthynas well rhyngddyn nhw a thimau tai mewn awdurdodau lleol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Roedd cytundeb eang bod gwaith partneriaeth wedi gwella, er ei bod *'wedi cymryd dipyn o amser i droi pethau o gwmpas o ran gorfodi, gan newid i atal'* (LCC, A1).
- 6.82 Mewn ardal astudiaeth achos arall, roedd yr awdurdod lleol yn edrych ar y mathau o ofynion y gallent eu rhoi ar y Landlordiaid hyn pan ofynnwyd am ddatblygiadau newydd - adeiladu mwy o fflatiau un ystafell wely, er enghraifft.

- 6.83 Roedd rhai o'r landlordiaid hyn wedi recriwtio staff cymorth tenantiaid a swyddogion atal. Roedd llawer o awdurdodau wedi bod yn gweithio tuag at ddatblygu Cofrestr Gyffredin, ac roedd newidiadau'n cael eu gwneud i symleiddio polisïau dyrannu, rhannu data, a datblygu cytundebau cydymffurfio a phrotocolau ar y cyd o ran atal. Roedd y rhain yn cynnwys sut y dylai atgyfeiriadau weithio mewn achosion posib o droi pobl allan o'u cartrefu, ond hefyd o ran grantiau eraill:

'Mae gennym hefyd brotocol gweithio ar y cyd gyda'r holl bobl hyn sy'n derbyn grant adran 180 [Grant Atal Digartrefedd] oherwydd bod yr arian i fod i gynorthwyo awdurdodau lleol ond nid oeddynt' (LCC, A1)

- 6.84 Teimlai rhai landlordiaid oedd yn darparu gwasanaethau eu bod eisoes wedi cofleidio'r agenda atal: *'Mae mwy o gysondeb yn y gwaith nawr. Rydym i gyd yn gwneud yr un peth yn union'* (LCC, A3). Nododd landlordiaid oedd yn darparu gwasanaethau fod Atebion Tai yn gwneud mwy o waith cyfryngu, atgyfeirio a chefnogi tenantiaethau. Fel hyn, roeddent wedi symud y tu hwnt i ddod o hyd i do dros ben rhywun, ac roeddent bellach yn *'edrych ar y darlun mwy'* (LCC, A3).

- 6.85 Fodd bynnag, nid oedd pob partneriaeth yn gweithio. Mewn un ardal astudiaeth achos, cafodd Atebion Tai a staff cymorth tenantiaeth anawsterau sylweddol gyda landlord penodol:

'Dydyn nhw ddim eisiau unrhyw denantiaid sydd ar fudd-daliadau, sydd wedi bod yn ddigartref, sy'n broblemus. Maent yn ceisio ei droi'n fusnes ac mae'n eithaf trist' (ALI, A1)

- 6.86 Adleisiwyd y farn hon i raddau llai ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos:

'Nid yw rhai cymdeithasau tai'n fodlon derbyn pob atgyfeiriad yr ydym yn ei anfon ... sy'n broblem wirioneddol i ni. Felly, mae gan unrhyw un sydd â phroblemau efo'i ffordd o fyw neu unrhyw broblemau y maent yn ymwybodol ohonynt, efallai eu bod wedi bod yn eu heiddo cynt ac wedi gadael gydag ôl-ddyledion, dydyn nhw eisiau gwneud dim â nhw' (ALI, A5)

- 6.87 Y teimlad oedd bod hyn yn broblem arbennig mewn ardaloedd lle nad oedd yr awdurdod lleol wedi cadw stoc tai. *'Efallai pe bai gennym ein stoc tai ein hunain, byddem wedi delio ag o'n wahanol iawn'* (ALI, A5).

Cymorth Tenantiaeth

6.88 O'r arolwg o'r awdurdodau lleol, Cymorth Tenantiaeth yw'r maes yr adroddir mwyaf arno o ran timau tai awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth. At ei gilydd, nododd un ar bymtheg o awdurdodau lleol gynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth â Chymorth Tenantiaeth (wyth yn nodi cynnydd sylweddol; wyth yn nodi ychydig o gynnydd), a gwelodd chwech ddim newid. Mewn pump o'r wyth awdurdod lleol a nododd gynnydd sylweddol, cefnogwyd hyn gan newidiadau mewn ffyrdd o weithio, gan gynnwys hyfforddiant penodol mewn cymorth gyda thenantiaeth, ail-leoli gwasanaethau Cefnogi Pobl yn yr adran dai, defnyddio cymorth fel bo'r angen a thaliadau i landlordiaid. Er enghraifft:

'Er mwyn ceisio achub tenantiaethau a chynorthwyo cwsmeriaid, rydyn ni'n defnyddio arian trosiannol i gefnogi trwy gymhellion i landlordiaid, clirio ôl-ddyledion rhent ac ati'

6.89 Priodolodd tri thîm tai awdurdodau lleol y cynnydd sylweddol i lefel y galw / y gwasanaeth a roddir, heb esbonio ffactorau sylfaenol. Er enghraifft, *'mae'r rhan fwyaf o achosion yn gofyn am wasanaeth cefnogi'* mewn un achos, ac *'Mae pob ymgeisydd mewn llety dros dro yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig i gael cymorth tenantiaeth'* mewn un arall.

6.90 O'r wyth awdurdod lleol a nododd gynnydd bychan ac a gynigiodd esboniadau, cyfeiriodd pedwar at gyflwyno staff a all gynnig cymorth tenantiaeth yn y tîm Atebion Tai. Roedd hyn yn amrywio rhwng swyddogion lles, tîm cymorth tenantiaeth a threfniadau gweithiwr allweddol. Dywedodd un awdurdod lleol arall fod cymorth tenantiaeth wedi *'uno â Chefnogi Pobl'*, ac roedd un awdurdod lleol bellach yn gweithio'n agos gydag Argyfwng i roi *'cymorth cyn-denantiaeth yn ogystal â chymorth wrth symud ymlaen'*.


6.91 Dim ond un ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol oedd yn adrodd dim newid a gynigiodd esboniad. Fodd bynnag, yn yr awdurdod hwn, roedd newid ar y gweill oherwydd ailstrwythuro diweddar ac *'mae cymorth tenantiaeth bellach yn uno gyda'r rhan hon o dai'*.

Gwaith partneriaeth ag agendâu'r llywodraeth

6.92 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a oedd *'Y Ddeddf wedi arwain at bwyslais cryfach ar gydweithredu rhwng amrywiol wasanaethau awdurdod lleol a gwaith amlasiantaethol'*. Fel y gwelir yn y ffigur isod, cytunodd mwyafrif clir o awdurdodau lleol â'r datganiad hwn, a dim ond pedwar oedd yn anghytuno. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ddeunaw awdurdod lleol gytuno yn yr arolwg o'r don gyntaf, a chytunodd dau arall yn gryf. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw

newidiadau wedi bod mewn gwaith partneriaeth, nodwyd newidiadau ar draws nifer o awdurdodau lleol, er bod maint y newidiadau hyn yn wahanol yn ôl y partner, fel y trafodir isod.

Ffigur 30: Cydweithredu a gweithio'n rhyngasiantaethol yn sgil y Ddeddf



Partneriaid eraill

- 6.93 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd dros hanner yr awdurdodau lleol nad oedd unrhyw newid o ran gweithio mewn partneriaeth ag lechyd yr Amgylchedd (12 awdurdod). Fodd bynnag, dywedodd un y bu cynnydd sylweddol, nododd wyth gynnydd bychan a dim ond un nododd ostyngiad bychan. Esboniodd yr ymatebwr a nododd gynnydd sylweddol fel a ganlyn:

'Oherwydd gweithredu Rhentu Doeth Cymru rydyn ni wedi gweithio gydag lechyd yr Amgylchedd i drefnu gwaith gwirio'r System Mesur lechyd a Diogelwch ar gyfer Tai ar eiddo rhent preifat y nodir eu bod yn addas i ymgeisydd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Wedi cysylltu hefyd i weld a ydi'r landlord wedi'i drwyddedu / gofrestru ac ati ar gyfer eiddo yr ydyn ni'n eu defnyddio i gyflawni dyletswyddau hefyd pan roddir rhybudd adran 21 i sicrhau ei fod yn ddilys'.

- 6.94 Roedd gofynion y Côd Canllawiau ynghylch addasrwydd eiddo'n ffactor ysgogol i bump o'r awdurdodau lleol a nododd gynnydd bychan wrth weithio gydag lechyd yr Amgylchedd. I dri o'r awdurdodau lleol, mae hyn yn golygu mwy o atgyfeiriadau i lechyd yr Amgylchedd. Fodd bynnag, dywedodd un awdurdod lleol sut y buont yn dysgu oddi wrth lechyd yr Amgylchedd i wneud mwy o waith eu hunain:

'Mae staff [lechyd yr Amgylchedd] wedi darparu hyfforddiant i staff opsiynau tai iddynt allu nodi materion gyda llety yn y sector rhentu preifat cyn cynnig eiddo i gleientiaid digartref. Cafwyd hyfforddiant allanol hefyd gyda chymorth staff yn lechyd yr Amgylchedd'.

- 6.95 O'r 12 awdurdod lleol oedd yn cofnodi dim newid, dywedodd pump am sut maent eisoes yn mwynhau perthynas weithio dda, gydag un yn datgan bod lechyd yr Amgylchedd yn gweithio yn yr un rhan o'r adran dai. Ni chynigiodd yr ymatebwr a roes wybod am ostyngiad bychan unrhyw esboniad pellach y tu hwnt i *'gysylltiadau â'r adran hon yn cael eu ffurfio'*.

Crynodeb

- 6.96 Bu gostyngiad bychan ers yr arolwg o'r don gyntaf yn nifer yr awdurdodau lleol sy'n cytuno bod y Ddeddf wedi arwain at bwyslais cryfach ar gydweithredu rhwng amrywiol wasanaethau awdurdodau lleol a gwaith aml-asiantaethol.
- 6.97 Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthgyferbynnu canfyddiadau manylach yr arolwg o'r ail don, lle mae 16 awdurdod lleol yn nodi cynnydd sylweddol neu fychan mewn gweithio mewn partneriaeth â Chymorth Tenantiaeth, ac mae hanner yr awdurdodau lleol yn dweud y bu cynnydd sylweddol neu fychan o ran gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant . Mae lleiafrif sylweddol o awdurdodau hefyd wedi dweud y bu cynnydd o ran gweithio mewn partneriaeth ag lechyd yr Amgylchedd a Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion.
- 6.98 Roedd yr ymatebwyr hynny a ddywedodd y bu cynnydd o'r fath o ran gweithio mewn partneriaeth yn eu hawdurdodau lleol yn priodoli hyn yn bennaf i swyddi staff newydd, cydleoli gwasanaethau, a chyfarfodydd ar y cyd ymhlith mentrau eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod yr ymatebwyr a esboniodd na fu unrhyw newid yn eu hawdurdodau lleol yn dweud mai'r rheswm am hyn oedd bod ganddynt eisoes arferion gweithio da yn eu lle. Y prif reswm a gynigiwyd am lai o weithio mewn partneriaeth o fewn awdurdodau lleol oedd bod Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn canolbwyntio ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- 6.99 Dangosodd yr arolwg o'r awdurdodau lleol fod cynnydd bychan o 18 i 20 o awdurdodau lleol yn datgan bod yr agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Y brif ffordd y dywedodd yr ymatebwyr fod hyn yn digwydd oedd trwy gyd-fforymau a gynhelir i lywio penderfyniadau (16 awdurdod lleol), a cheir gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd mewn 14 awdurdod lleol. Defnyddio cefnogaeth fel y bo'r angen oedd y brif ffordd o dargedu adnoddau Cefnogi Pobl i gefnogi atal digartrefedd, ac yna wasanaeth cymorth generig, a chydleoli gwasanaethau digartrefedd / Cefnogi Pobl. Dim ond chwech o ymatebwyr a ddywedodd fod gan eu hawdurdod lleol wasanaeth cwbl integredig. Roedd modd gweld y berthynas ychydig agosach oedd â gwasanaethau

Cefnogi Pobl wrth gyflwyno prosesau pyrth / atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl mewn lleiafrif o awdurdodau lleol ers yr arolwg o'r don gyntaf.

- 6.100 At ei gilydd, dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol nad oedd unrhyw newid mewn gwaith partneriaeth gyda phartneriaid allanol. Fodd bynnag, roedd hanner yr awdurdodau lleol yn dweud y bu cynnydd mewn gweithio gyda'r sector rhentu preifat. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn tua thraean o awdurdodau lleol o ran gwaith gydag ysbytai, carchardai / canolfannau cadw ieuencid, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Cyfeiriodd chwech o ymatebwyr at fwy o waith gydag awdurdodau lleol eraill.
- 6.101 Roedd yr ymatebwyr hynny i arolwg yr awdurdod lleol a ddywedodd bod cynnydd o ran gweithio mewn partneriaeth yn priodoli hyn i swyddi staff newydd, a phrotocolau newydd neu well. Unwaith eto, dywedodd yr ymatebwyr a ddywedodd na fu unrhyw newid bod arferion da yn eu lle ganddynt. Ymhlith lleiafrif yr awdurdodau lleol a ddywedodd y bu gostyngiad o ran gweithio mewn partneriaeth, y rhesymau a roddwyd oedd mai ychydig o wybodaeth oedd i'w weld a gweithwyr ieuchyd proffesiynol a swyddogion carchardai yn cynllunio ymlaen llaw, fforddiadwyedd eiddo yn y sector rhentu preifat, a chapasiti awdurdodau lleol eu hunain.
- 6.102 Mae tystiolaeth bod ethos gweithio mewn partneriaeth wedi'i groesawu'n strategol gan awdurdodau lleol a bod mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws awdurdodau lleol, rhwng adrannau awdurdodau lleol, gyda landlordiaid rhestredig cofrestredig a darparwyr y trydydd sector a bod y cydweithio hwnnw'n well. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau a'r tu mewn iddynt.
- 6.103 Roedd ymatebwyr yr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau'n glir bod y Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, a bod hyn yn gadarnhaol. Dywed hanner yr awdurdodau lleol bod gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu. Ceir enghreifftiau hefyd lle mae blaenoriaethau ac agendâu sy'n gwrthdaro yn erbyn ei gilydd (ac weithiau ymddygiad unigol) yn rhwystro gweithio mewn partneriaeth lwyddiannus. Fodd bynnag, mae diffyg dealltwriaeth o gylch gwaith cyflenwi gwasanaethau sefydliadau hefyd yn cael effaith negyddol ar weithio mewn partneriaeth. Noda darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol a'r trydydd sector bod angen mwy o gefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws awdurdodau.

- 6.104 Cododd darparwyr gwasanaethau bryderon ynghylch gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau lechyd ac lechyd Meddwl. Y teimlad oedd y gallai hwn fod yn faes lle gellid gwneud gwelliannau sylweddol. Lle mae partneriaethau llwyddiannus yn gweithredu, gwelwyd bod hyn yn dibynnu ar berthynas (weithredol) unigol yn hytrach na phartneriaethau strategol.
- 6.105 Roedd tystiolaeth o weithio da gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ond hefyd o feysydd lle gellid gwella hyn. Unwaith eto, mae perthynas unigol yn berthnasol. Ymddengys y gallai agendâu sy'n cystadlu neu'n gwrthdaro yn erbyn ei gilydd hefyd fod yn broblem mewn sefyllfa lle'r oedd gweithio mewn partneriaeth yn llai llwyddiannus. Ar atal ac osgoi troi pobl allan o'u cartrefu y mae timau Atebion Tai'n canolbwyntio, tra bod raid i'r landlordiaid hyn hefyd ystyried pryderon cymunedau / cymdogaethau ehangach a chynaliadwy.
- 6.106 Yn gyffredinol, gwelwyd bod sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ond eto, yn aml, roedd perthynas unigol yn hwyluso hyn. Roedd rhai enghreifftiau o'r meddylfryd 'ni' a 'nhw' yn nodweddu perthynas rhwng awdurdodau lleol a darparwyr y trydydd sector; weithiau roedd hyn o ganlyniad i berthynas wael yn hanesyddol rhwng unigolion / timau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gwelwyd bod ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi cysoni'r hyn yr oedd awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn canolbwyntio arno.
- 6.107 Ymddengys bod gwaith partneriaeth yn gryfder i wasanaethau Cefnogi Pobl, felly efallai bod y Ddeddf wedi cael llai o effaith yn y maes hwn, er y rhoddwyd croeso i waith darparu fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda Chefnogi Pobl. Fodd bynnag, mae amrywiaeth mewn faint o'r gwasanaethau Cefnogi Pobl sydd ar gael ledled Cymru.
- 6.108 Er bod awdurdodau lleol yn gweld cynlluniau porth yn darparu llwybr clir i gael at wasanaethau, mae darparwyr gwasanaethau'n tynnu sylw at y ffaith bod yna ganlyniadau negyddol posib o ran ychwanegu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a heriau pellach i ddefnyddwyr gwasanaethau weithio'u ffordd trwyddynt. Mae hyn weithiau'n anos pan fo nifer o gynlluniau porth mewn un ardal awdurdod lleol. Dywedodd rhai darparwyr y trydydd sector weithiau bod diffyg rheolaeth dros atgyfeiriadau lle ceir cynlluniau Porth.
- 6.109 Nodwyd bod gostyngiadau mewn cyllid yn y dyfodol hefyd yn her i weithio mewn partneriaeth lwyddiannus.

7. Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion


Cyflwyniad

- 7.1 Mae ymgorffori arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i mewn i ddarpariaeth ar gyfer digartrefedd yn ethos allweddol o'r Ddeddf. Mae hyn yn ymwneud â phwyslais ar gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ddod o hyd i atebion tai a chydweithio â darparwyr.
- 7.2 Roedd ymatebion i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn cytuno'n gyffredinol (19 awdurdod) bod y Ddeddf wedi ei gwneud yn bosib canolbwyntio mwy ar unigolion gyda llwybrau clir ar gyfer cymorth tai. Yn fwy penodol, cytunodd pum awdurdod lleol yn gryf bod y Ddeddf wedi ei gwneud yn bosib newid diwylliant i ganolbwyntio mwy ar unigolion; cytunodd 14, nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd un yn anghytuno'n gryf. Cytunodd pedwar ymatebwr yn gryf bod yna lwybrau clir yn eu hawdurdod lleol i bobl ddigartref sydd ag anghenion o ran cymorth tai i gael at y cymorth hwn. Cytunai pedwar ar ddeg, nid oedd dau yn cytuno nac yn anghytuno, roedd un yn anghytuno ac roedd un yn anghytuno'n gryf.
- 7.3 Ymatebodd saith awdurdod lleol gan ddweud y bu newidiadau ers yr arolwg diwethaf. Eglurodd dau o'r rhai sydd wedi gwneud newidiadau bod pawb sy'n dod i'r Cyngor a dweud eu bod yn ddigartref yn awr yn cael eu hasesu *'i ddeall eu hanghenion ac i allu datblygu eu cynlluniau tai a chymorth'*,


Cyngor a chymorth

- 7.4 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, cafwyd barn yr ymatebwyr ar y graddau y credant fod y Ddeddf wedi dylanwadu ar eu hawdurdod lleol i gynnig gwell gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch digartrefedd. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phedwar awdurdod lleol yn nodi eu bod yn cytuno'n gryf fod y Ddeddf wedi arwain at well gwybodaeth, cyngor a chymorth. Cytunodd pymtheg awdurdod lleol, nid oedd dau ohonynt yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd un yn cytuno'n gryf.

Ffigur 31: Barn awdurdodau lleol am y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a gynigir (Nifer=22)



Ffigur 32: Barn awdurdodau lleol am newid mewn diwylliant i gefnogaeth sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion (Nifer=22)



Barn darparwyr gwasanaethau am ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

- 7.5 Gan gyferbynnu'r model sy'n canolbwyntio ar unigolion ag ethos y ddeddfwriaeth flaenorol, dywedodd nifer o ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol y bu newid cadarnhaol, sylweddol mewn diwylliant yn ogystal ag mewn agweddau staff:

'Mae'n ddiwylliant sy'n newid yn llwyr' mewn gwirionedd' (ALI, A3)

'Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn canolbwyntio'n llwyr ar unigolion; nid oedd o'r blaen ... dyna'u cynllun; nid fy nghynllun ydi o, nid fy angen i am dŷ ydi o, eu hangen nhw am dŷ ydi o ... Mae'n ffordd eithaf modern ... Dwi wedi cael y moethusrwydd o beidio â gweithio dan yr [hen] ddeddfwriaeth ac wedi bod yn ffres iawn, a dw i'n credu yn y ddeddfwriaeth newydd hon, yn bendant.' (ALI, A1)

- 7.6 Nododd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol bod ymarfer wedi'i yrru gan weithdrefnau'n flaenorol, yn cael ei arwain yn aml gan argyfwng a'i fod *'eithaf ar wahân'* i ddefnyddiwr y gwasanaeth. Roedd y dull newydd o weithio *'yn fwy manteisiol i'r cleient'*. Fodd bynnag, dywedwyd bod rhai staff sy'n gweithio yn y tîm Atebion Tai yn cael trafferth addasu i ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion:

Nid yw '[Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion] yn ffitio'n dda gyda rhai aelodau o staff yn ein gwasanaeth ni, pobl sydd wedi bod yma ac wedi gweithio dan yr hen ddeddfwriaeth'. (ALI, A1)

- 7.7 Gan gyferbynnu'r model sy'n canolbwyntio ar unigolion â'r ffordd flaenorol o weithio, dywedodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod newid cadarnhaol o ran staff a defnyddwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn ymwneud â'i gilydd. Nododd sawl darparwr gwasanaethau newid agwedd o blaid defnyddwyr gwasanaethau:

'Rwy'n meddwl fod agweddau wedi newid hefyd, oherwydd efallai o'r blaen y byddwn wedi dweud,' Mae ganddyn nhw ddyled efo ni, maen nhw wedi achosi problemau, dydyn ni ddim am eu cael ddim mwy. Rŵan rydyn ni'n edrych ar ba sefyllfa maen nhw ynddi. Beth maen nhw wedi'i wneud i wella pethau eu hunain? Ydyn nhw wedi mynd at yr asiantaethau cywir? Ran cymryd cyffuriau, er enghraifft, ydyn nhw'n ceisio gwella hynny? Ydyn nhw wedi talu eu dyledion?' (LCC, A3)

- 7.8 Yn ogystal, y gred oedd bod y newid mewn diwylliant wedi esblygu o rôl newidiol i staff Atebion Tai gyda mwy o ddisgwyliadau'n cael eu rhoi arnynt:

'Daeth yn swydd wahanol i'r hyn yr oedd yn ôl dan yr hen ddeddfwriaeth, heb unrhyw amheuaeth. Rwy'n meddwl bod disgwyl i staff wneud llawer mwy yn y rôl honno na'r hyn yr oeddyn nhw'n ei wneud yn flaenorol. Dod yn rhyw fath o weithwyr cymorth yn anfwriadol mewn gwirionedd, a chredaf mai yn sgil y Ddeddf y daeth hynny mewn gwirionedd.' (ALI, A3)

- 7.9 Felly, roedd yn ymddangos, lle'r oedd gwahaniaethau i'w gweld mewn timau, yn aml roedd yn cydberthyn â hyd yr amser yr oeddid yn gweithio yn y maes digartrefedd. Cafwyd amrywiadau rhwng staff a fu'n gweithio ers amser maith yn y maes, a'r rhai oedd yn fwy newydd i'w rôl. Gwelwyd y ffyrdd yr oedd rhai staff yn gwrthsefyll y newid mewn diwylliant fel gwasanaethau cyfyngu mynediad a rhwystro mynediad at gefnogaeth:

'I mi, nid yw byth yn troi o amgylch profi eu bwriad, ac yn y pen draw maen nhw dal yn ddigartref ... maen nhw bob amser yn ceisio dadbrofi popeth ... Nid dyna'r man

cychwyn; y man cychwyn yw'r hyn maen nhw'n ei ddweud wrthyhych chi eu bod nhw'n ddigartref. Dydyhych chi ddim yn mynd yn ôl ac yn meddwl, iawn, sut ydw i'n mynd i brofi nad ydyn nhw? ... Fy agwedd i yw sut byddwn ni'n datrys y broblem?' (ALI, A1)

- 7.10 Roedd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn cydnabod fod ystod y gweithgarwch wedi cynyddu'n ddramatig dan y Ddeddf newydd. Ystyriwyd bod hyn yn gryfder gan ei fod yn ei gwneud yn bosib cael dull mwy unigol o gefnogi defnyddwyr gwasanaethau a phwysleisiwyd rôl cymorth tenantiaeth.

'Siarad â landlordiaid, ymbil ar landlordiaid, cysylltu, rhoi pethau ar waith, cynlluniau talu, os oes ôl-ddyledion, os oes ymddygiad gwrthgymdeithasol - darparwch gymorth tenantiaeth i geisio cael hynny i lawr' (ALI, A1).

- 7.11 Dywedodd sawl darparwr gwasanaethau bod y diwylliant lle canolbwyntir ar yr unigolion wedi arwain at dreulio mwy o amser gydag unigolion i asesu eu hanghenion:

'Gweithio'n dda? Rydyn ni'n rhoi'r amser i'r cleient, fel y byddwn ni'n dod i ryw fath o'u hadnabod, heb fod yn feirniadol, p'un a yw'n gyflwr yr eiddo, neu unrhyw beth tebyg i hynny, a pheidio â chadw'n ôl, am a wyddwn i. Peidio â dweud, 'lawn 'ta, dyma nhw'ch opsiynau' (ALI, A1)

- 7.12 Yn ychwanegol, y gred oedd bod canolbwyntio ar unigolion yn mynd yn groes i arfer safonol a fformiwlâig trwy ei gwneud yn bosib cael mwy o ymatebion creadigol:

'Wel, mae gennych fwy o le i fod yn ddychmygus a lle i droi fel petai, chi'n gwybod, ac mae'n eithaf braf y gallwch wneud hynny a pheidio â bod mor llym o fewn ... Mae o fewn rheswm, yn tydi, chi'n gwybod, synnwyr cyffredin.' (ALI, A1)

'Ystyried pethau y tu allan i'r bocs a mynd y filltir ychwanegol honno' (ALI, A1)

- 7.13 Roedd yna bobl yn gweithio yn y sector statudol oedd o'r farn bod y diwylliant sy'n canolbwyntio ar unigolion eisoes yn bodoli:

'Mae'r dull sy'n canolbwyntio ar unigolion wedi bod yma ers sawl blwyddyn. Nid yw wedi cael effaith ar y ddeddfwriaeth newydd mewn gwirionedd, mae wedi bod yn [awdurdod lleol] erioed'. (ALI, A1)

- 7.14 Fodd bynnag, disgrifiodd rhai darparwyr gwasanaethau waith gweithredu'r dull atal fel gwaith sydd wrthi'n mynd rhagddo:

'Dydw i ddim yn dweud ein bod ni 100 y cant yno, rwy'n meddwl bod gennym ffordd i fynd ond mi ydyn ni'n ystyried anghenion pobl' (ALI, A2)

- 7.15 Roedd darparwyr gwasanaethau, fodd bynnag, yn teimlo bod pellter rhwng ethos y Ddeddf a'r arfer statudol o hyd a dangoswyd hyn ganddynt trwy gymharu'r tîm Atebion Tai gyda Chefnogi Pobl:
- 'Mae Cefnogi Pobl yn canolbwyntio mwy ar bobl ac ar angen, tra nad yw [Opsiyau Tai] ... nid yw'r mwyafrif, maen nhw'n cael eu gyrru gan brosesau, felly nid pobl ydyn nhw, rhifau ydyn nhw.'* (TS, A6)
- 7.16 Yn ychwanegol, awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau nad yw'r arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ond cystal â'r person oedd yn cyflwyno'r gwasanaeth, gan nodi'r cyfyngiadau ar ei werth pan oedd personoliaethau ac ymddygiad pobl yn cael eu ffactorio i mewn i ganlyniadau:
- 'Mae rhywfaint ohono i'w briodoli i bethau gwirioneddol hen ffasiwn fel pobl a phersonoliaethau yn y swydd. Mae [x] wedi gweithio yn y maes digartrefedd yn [awdurdod gwledig] ers blynyddoedd lawer ac mae o dal yn bwysig iddi ac nid oes ots gen i os yw'n swnio'n feddal a fflwfflyd. Mae yna bobl mewn awdurdodau lleol cyfagos eraill sydd wedi gweithio yn eu maes ers sawl blwyddyn, ond nid oes ganddyn nhw... yr un angerdd ac nid oes ganddyn nhw'r un foeseg a moesau cryf sylfaenol.'* (TS, A1)
- 7.17 Codwyd gallu a sgiliau swyddog unigol fel ffactor a allai gyfyngu ar lwyddiant dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion, a thargedwyd sgiliau rhyngpersonol, yn arbennig:
- 'Mae rhyw gymaint, o bosib, yn ymwneud â phersonoliaeth hefyd ... Nid yw pawb yn berson cyfweld da, wyddoch chi, mae sgil, yn does, mewn gwrando a gadael i bobl ddweud beth sydd raid iddynt ei ddweud a chymryd yr amser a dyna sut dw i'n ei wneud, beth bynnag.'* (ALI, A1)
- 7.18 Codwyd y mater ynghylch cynnydd yn y llwyth gwaith hefyd fel rhywbeth sy'n her i ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion gan fod canlyniadau llwyth gwaith uchel yn golygu nad oedd digon o amser i staff rheng flaen ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion:
- 'Byddwn i'n dweud y byddai awdurdodau lleol yn hoffi meddwl ei fod (yn canolbwyntio ar unigolion), dw i'n meddwl y byddai'r cleientiaid yn anghytuno. Dw i'n meddwl mai'r prif reswm dros hynny yw oherwydd nifer fawr y bobl y maen nhw'n delio â nhw ... Pan fyddwch yn gweld mwy na 60 o deuluoedd y dydd, mae yna derfynau i faint y gallwch chi drin rhywun fel unigolyn cyflawn a pherson, a'i deilwra'n llwyr iddyn nhw. Ychydig o*

amser sydd gennych chi hefyd efo'r person hwnnw i ddarganfod beth yw'r ateb iawn iddo fo o ran tŷ.' (TS, A2)

- 7.19 Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau nad yw'r defnyddwyr gwasanaethau'n dymuno cael ymateb sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn oherwydd


'mae llawer o bobl yn dod yma, maen nhw'n wylidwrs, oherwydd eu bod eisiau set o allweddi ac nid ydyn nhw eisiau dweud hanes eu bywyd wrthym' (ALI, A3)

- 7.20 Yn ogystal â hyn, roedd yna gwestiynau ynghylch pa mor dda yr oedd y newidiadau yn y Ddeddf wedi'u cyfleu i'r cyhoedd, mewn cysylltiad ag ymgysylltu ac arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion, , fel y dywedodd yr ymatebwr hwn:

'Rwy'n meddwl yn siŵr fod rhai o'n cleientiaid drws cylchdroi wedi'u drysu ac, mewn gwirionedd, mae rhai ohonyn nhw wedi dweud wrthym, 'Dwi ddim yn eich credu chi', wyddoch chi pan fyddwn ni'n esbonio iddyn nhw beth yw'r ddeddfwriaeth newydd a beth y mae disgwyl i ni ei wneud a sut yr ydym am geisio gwneud hynny a sut mae angen iddyn nhw geisio cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb a phopeth arall. Mae rhai o'r cleientiaid hynny wedi mynd i ffwrdd, a does neb wedi'u gweld ers hynny.' (ALI, A5)

- 7.21 Roedd canfyddiadau ar draws yr ail don o gyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau'n parhau'n debyg iawn i'r don gyntaf o ran pa mor dda yr oedd pobl yn teimlo y cânt eu cefnogi, fel y gwelwyd yn Ffigur 33.

Ffigur 33: Canfyddiadau defnyddwyr gwasanaethau o gefnogaeth



7.22 Fel y nodwyd yn yr adroddiad interim, nid oedd defnyddwyr gwasanaethau, at ei gilydd, yn deall y cysyniad ‘*canolbwyntio ar unigolion*’ ond fe wnaethant siarad am y graddau y teimlant y cânt eu cefnogi gan ddarparwyr gwasanaethau. Roedd amrywiad ar draws ardaloedd astudiaeth achos awdurdodau lleol o ran profiadau pobl o gefnogaeth. Nododd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau ar draws y chwe ardal awdurdod lleol (29) eu bod wedi teimlo eu bod yn cael cefnogaeth eu hawdurdod lleol, saith yn dweud y cânt gefnogaeth eu hosteli a dywedodd chwech eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth - ac yn cael gwasanaeth oedd yn canolbwyntio ar unigolion - ond nad oeddent wedi cael cymorth ymarferol. Fodd bynnag, nododd lleiafrif sylweddol, (15 o bobl), nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael cymorth o gwbl. Er bod defnyddwyr gwasanaethau’n cydnabod bod prinder tai cymdeithasol a fforddiadwy ledled Cymru, roedd anfodlonrwydd ynglŷn â gwaith gwirio ac agweddau rhai staff y tîm Atebion Tai. Yn ardaloedd un a phump, at ei gilydd, dywedodd defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Yn ardal un, dywedodd pob un o’r 11 o ddefnyddwyr gwasanaethau eu bod wedi cael cymorth gan yr awdurdod lleol, er bod tri yn nodi nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth ymarferol. Roedd gan ardal dau ymateb mwy cymysg rhwng y rheiny oedd yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol, y rheiny oedd yn teimlo mai hosteli oedd y brif gefnogaeth a’r rheiny nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth o gwbl. Yn ardal tri roedd cyfran uchel o bobl a ddywedodd eu bod yn teimlo fod hosteli yn eu cefnogi (pedwar person). Yn yr ardal hon, ni ddywedodd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaethau ei fod yn cael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol. Yn ardal pedwar, dywedodd chwech o bobl eu bod wedi’u cefnogi tra bod tri o bobl yn teimlo nad oeddent wedi’u cefnogi o gwbl. Yn ardal pump, nododd naw o bobl eu bod wedi cael cefnogaeth yr awdurdod lleol, ac roedd dau wedi cael cefnogaeth (cyngor) ond nid cymorth ymarferol. Yn ardal chwech, dim ond dau berson oedd yn teimlo fod yr awdurdod lleol yn eu cefnogi.

7.23 Mae’r isod ymhlith rhai enghreifftiau cadarnhaol:

‘Roedd hi wedi bod yn gymaint o help, ac wedi rhoi fy mhryderon a meddwl beth oedd am ddigwydd - ac roedd hi’n help garw, ac roedd yn weithgar iawn a ddim yn ei adael am wythnosau ar eu hyd. Felly, mi ddywedais i ei bod wedi bod yn eithriadol o gymwynasgar, a fy mod yn meddwl y dylen nhw gael gwybod, a dweud y gwir’. (DG, A5)

- 7.24 Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar unigolion pan oedd staff yn cymryd amser i'w sicrhau, eu trin â pharch ac empathi a chysylltu â nhw trwy gydol datblygiad ei hachos.

'Maen nhw wedi bod yn wych, a dweud y gwir'. Fel dw i'n dweud, tydyn nhw byth yn anghwrtais. Os ydych chi'n gofyn cwestiynau, maen nhw'n eu hateb. Nid ydyn nhw'n rhyw fath o osgoi unrhyw beth'. (DG, A5)

- 7.25 Roedd p'run a oedd defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, yn teimlo eu bod wedi cael gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion neu wedi cael profiadau cadarnhaol yn ymddangos i fod yn dibynnu i raddau aruthrol ar y ffordd yr oeddynt yn gweithio â staff unigol. Felly, ymddengys bod parhau i gyfathrebu'n allweddol er mwyn canolbwyntio ar yr unigolyn. Siaradodd rhai defnyddwyr gwasanaethau am yr ymdrechion a wnaed gan staff y tîm Atebion Tai i'w cynorthwyo, rhywbeth oedd weithiau'n cynnwys ymweld â phobl lle roeddent yn byw.

'A bod yn hollol onest efo chi, doedd y wraig yn y cyngor na'r gymdeithas dai yn gallu gwneud digon i mi, nid oedd y ddau swyddog y gwnes i siarad efo nhw'n medru gwneud digon i mi. Yn y bôn, roeddwn i wedi cyrraedd pen fy nhennyn, roeddwn i'n byw yn ystafell wely fy chwaer, roeddwn bron â marw eisiau llety ac roedd gen i'r broblem ieched. Mae'n rhaid i mi fod yn onest, bu – wel, mi oeddyn nhw wedi gweld - dros y ffôn ac mi ddaethon nhw i'r tŷ.' (DG, A4)

- 7.26 Dywedodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau eu bod wedi teimlo eu bod yn cael cefnogaeth staff y tîm Atebion Tai ond, yn y pen draw, oherwydd bod prinder tai yn eu hardal, dim ond i ryw raddau yr oedd modd iddynt gael cymorth mewn gwirionedd:

'Rwy'n meddwl eu bod yn gyfyng arnyn nhw, y broblem oedd eu bod yn gyfyng arnyn nhw oherwydd nad oedd ganddyn nhw ddigon o letyau. Mae hyn yn fater yr oeddyn nhw'n canolbwyntio llawer arno ar hyn o bryd, beth bynnag. Yr unig lety'r oeddyn nhw'n medru'i ddarparu i mi oedd un dros dro drwy'r cyngor'. (DG, A4)

'Nid oes ganddyn nhw ddigon o dai i fynd o gwmpas. Ddywedwn ni fel yna. Mae hynny'n amlwg. Does neb yn medru gwneud dim am hynny. Wel, iawn, mi fedrai'r llywodraeth wneud llawer ynglŷn ag o. Beth am wneud yr hyn a wnaethon nhw yn y 60au / 70au a dechrau adeiladu?' (DG, A4)

7.27 Dynion sengl ifanc nad oeddent yn cael eu hystyried fel rhai ag angen blaenoriaethol oedd yn teimlo hyn fwyaf. Amlyga'r darn o'r cyfweiliad a ganlyn sut gall diffyg llety greu cylch dieflig o ansefydlogrwydd pan fo bywyd rhywun eisoes yn ansicr. Teimlai'r defnyddiwr gwasanaethau hwn fod y system bresennol yn llai defnyddiol na'r ddeddfwriaeth flaenorol pan fyddai'r rhai oedd yn gadael y carchar wedi cael blaenoriaeth i gael eu hailgartrefu:

'Mae hi wedi bod yn iawn. Mae'r holl reolau yma nawr. Mae'n anodd iawn i fachgen sengl gael unrhyw fath o, neu fedra i hyd yn oed ddim cael gwynt ar le cyngor neu unrhyw beth fel fflat un ystafell neu rywbeth. ... diffyg cyllid ydi o, dw i'n meddwl, oherwydd roedd hi'n arfer bod yn llawer gwell, ond y dyddiau yma dydych ddim yn ymddangos eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch chi. O ran llety, hefyd, maen nhw'n gadael i chi fynd yn angof, yn enwedig pobl sengl, â blaenoriaeth isel, 'lly, dylen nhw wneud mwy i ni hefyd oherwydd eich bod yn dechrau mynd i mewn ac allan o'r carchar a throseddu a phethau fel hynny. Yn y pen draw, dw i mewn un cylch mawr ar hyn o bryd, 'lly'. (DG, A6)

7.28 Mynegodd dros draean o ddefnyddwyr gwasanaethau eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg tai cymdeithasol sydd ar gael a'r rhwystrau rhag mynd i mewn i'r sector rhentu preifat. Arweiniodd hyn atynt yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis, er eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd er gwaethaf y ffaith nad oedd eu sefyllfa wedi'i datrys. Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n cydnabod fod staff Atebion Tai yn awyddus i'w cynorthwyo, yn eu trin â pharch ac yn rhoi gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion. Fodd bynnag, yn y pen draw, roeddent hefyd yn cael eu cyfyngu gan nad oedd llawer o letyau ar gael ac felly nid oeddent yn gallu rhoi cymorth ymarferol.

'[Ydyn maen nhw] yn gyfeillgar, ond nid yw'n ymddangos eu bod yn medru gwneud llawer i chi ... dim agwedd wael, dim ond na fedran nhw wneud llawer i mi ar hyn o bryd 'lly'. (DG, A6)

7.29 Diffyg parch ac empathi a ddangosir gan staff yr awdurdod lleol oedd y prif reswm a roes defnyddwyr gwasanaethau am beidio â theimlo eu bod yn cael cefnogaeth neu gael gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion.

7.30 I bedwar ymatebwr, y prif fater a godwyd oedd cael eu harwain i gredu yn y lle cyntaf y gallai'r awdurdod lleol eu cynorthwyo, pan mai prin iawn oedd yr opsiynau oedd ar gael iddynt yn y pen draw. Yng ngeiriau un person oedd wedi derbyn hysbysiad Adran 21:

'Fe ddywedodd e,' Peidiwch â phoeni, peidiwch â phanicio, fe fydd hi'n iawn. Fe fyddwn yn eich ailgartrefu chi. Os na allwn ni'ch ailgartrefu chi, cewch eich bond a'ch rhent ymlaen llaw yn ôl. Fyddwch chi ddim yn ddigartref. Fe fydd hi'n iawn ', a rhoddodd obaith i ni ac o edrych yn ôl, roedd hynny'n beth creulon iawn i'w wneud os nad oes gennych chi unrhyw fwriad cynorthwyo rhywun. Y nosweithiau digwsg yr wyf wedi'u cael a'r pryder. Rwyf wedi bod mor bryderus'. (DG, A2)

- 7.31 Adleisiwyd hyn gan ail ddefnyddiwr gwasanaethau oedd yn yr un amgylchiadau ag yn nhon gyntaf y gwaith maes. Roedd ganddi blentyn bach ac roedd yn ceisio symud o lety gorlawn yr oedd yn ei rannu gyda'r teulu:

'Rwy'n meddwl eu bod wedi 'nghroesi oddi ar y rhestr nawr. Pan oeddwn i yno, fel y dywedais, roeddwn i'n wirioneddol optimistaidd yn ei gylch, ac roeddwn i'n credu fy mod yn mynd i gael cymorth yma, ac y byddaf yn gallu symud allan. Mae wedi bod yn siomedig iawn. ... Fe ddywedon nhw y byddent yn chwilio i mi, ac os bydden nhw'n gweld unrhyw beth o gwbl, bydden nhw'n yn cysylltu â mi, ond yn amlwg mae ganddyn nhw filoedd o bobl y mae'n rhaid iddyn nhw ddelio â nhw, felly nid wyf yn credu fod hynny'n rhywbeth y maen nhw'n ei wneud.' (DG, A2)

- 7.32 Nodwyd diffyg empathi, cynhesrwydd a thosturi gan ddefnyddwyr gwasanaethau fel pethau oedd yn creu profiad di-fudd a diraddiol, ac mae hyn yn mynd yn groes i ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion. Dywedodd nifer o bobl fod gan staff agweddau negyddol a gwahaniaethol. Dywedodd deg o'r 63 o ddefnyddwyr gwasanaethau a holwyd eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn amharchus a chael eu gwneud i deimlo'n israddol. *'Gwneud i bobl deimlo'n waeth na diwerth.'* (DG, A4) Roeddynt yn ymestyn ar draws pedair o'r ardaloedd, ond roedd hanner ohonynt yn ardal dau. Roedd rhai pobl yn gweld hyn yn y modd y cyfleuwyd eu dewisiadau tai:

'Roedd yn dweud dro ar ôl tro,' Fe fyddwch chi mewn hostel. Fe fydd yn ofnadwy, fe fydd yn ofnadwy, bydd yn rhaid i chi gloi eich drysau ... Maent i gyd yn ofnadwy. Fe geisia i'ch rhoi yn yr un sydd leiaf ofnadwy.' (DG, A2)

- 7.33 Disgrifiodd defnyddwyr gwasanaethau eraill ar draws tri o'r ardaloedd (dau, pedwar a chwech) bobl oedd o ddim cymorth ac â dim empathi, gan amlygu'r ffaith eu bod yn deall y câi staff yr awdurdod lleol eu rheoli gan reolau a gweithdrefnau ac nid oeddent yn disgwyl iddynt fod yn rhan ormodol o achosion unigol. Fodd bynnag, roedd agwedd anofalgar gan staff rheng flaen yn gwneud sefyllfa anodd hyd yn oed yn waeth iddynt. Mynegodd rhai defnyddwyr gwasanaethau rwystredigaeth a siom eu bod wedi cael eu

barnu'n negyddol gan ddarparwyr gwasanaethau, pan oeddent wedi bod yn gwneud ymdrechion i fynd i'r afael â chytundebau a bennwyd yn y Cynlluniau Tai Personol:

'Rwy'n meddwl yn y math hwnnw o swydd, mae gofyn i chi fod â rhyw fath o gynhesrwydd yn eich cylch, ac roedd hi'n oer iawn. Dw i'm yn meddwl os oes gennych y math hwnnw o..... Rwy'n deall bod rhaid iddynt ddilyn rheolau, ac mae'n rhaid iddynt fod yn llym, a pheidio â chysylltu'n emosiynol â phobl, chi'n gwybod, problemau pobl, a phethau felly, ond nid yw'n braf iawn pan fyddwch chi'n eistedd efo rhywun ac maent yn, chi'n gwybod? Rydych chi'n teimlo fel nad ydyn nhw'n poeni amdanoch o gwbl, ydych chi'n gwybod beth dw i'n ei olygu? Dyna beth oeddwn i'n ei deimlo'. (DG, A2)

'Fel y dywedais i, rydych chi'n ceisio'ch gorau i ddod o hyd i rywle, maen nhw'n gwneud i chi deimlo fel petaech chi ddim yn trafferthu. Os ydych chi mewn sefyllfa fel hynny, yn enwedig yr amser hwnnw o'r flwyddyn, mae hyd yn oed yn fwy dychrynlyd, oherwydd mae yna - nid oes unman ar agor a, dywedodd, fwy neu lai 'Os allwch chi ddim dod o hyd i unrhyw le, nid ein problem ni.' ... Nid yw pobl yn y sefyllfa yma oherwydd eu bod eisiau bod ynddo. Mae gofyn iddyn nhw fod ychydig yn fwy meidrol ... ' (DG, A6)

7.34 Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo bod gan staff agwedd negyddol oherwydd eu hanabledd, ethnigrwydd neu oherwydd eu bod yn ddigartref ac felly â dim awdurdod.

7.35 Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau a ddefnyddiai gadair olwyn fod gan staff awdurdodau lleol agwedd negyddol. Yn yr un ardal awdurdod lleol, teimlai un arall mai eu hethnigrwydd oedd yn peri i'r staff ei drin yn anffafriol.

'Ia, dw i'n meddwl, ia, oherwydd pan fyddwch chi'n mynd i'r dderbynfa honno weithiau nid ydyn nhw, efallai oherwydd fy nghroen, Yn union fel nad ydyn nhw'n poeni, nid ydyn nhw'n parchu'. (DG, A6)

7.36 Disgrifiodd dau ddefnyddiwr gwasanaethau eu bod yn teimlo fel pe na bai ganddynt unrhyw awdurdod oherwydd eu bod yn ddigartref a bod hyn yn creu perthynas anghyfartal rhyngddynt a staff Atebion Tai:

'Mae wedi bod mor – dw i'n deall eu bod yn cael pobl yno bob dydd yn gwylltio, a dw i'n deall eu bod yn brysur efo'r holl waith ond mae bron fel ... Mae bron fel mai eu hagwedd yw eu bod yn ymdrin â phobl na wnaiff ymladd yn ôl oherwydd eu bod wedi ymladd cymaint ag y gallen nhw ac yn methu rhoi dim mwy, felly fe allan wneud yr hyn y mynnon nhw'. (DG, A2) 'Maen nhw'n disgwyl i ni sefyll yno a'i gymryd, ei dderbyn

oherwydd dw i'n meddwl eu bod nhw'n meddwl mai pobl ar y cyrion ydyn ni, neu beth bynnag' (DG, A2)

- 7.37 Fel yr ymdriniwyd yn helaeth ag o yn yr adroddiad interim, roedd cyfathrebu'n rheolaidd a pharchus yn parhau i fod yn elfen allweddol o p'run a oedd defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo bod y gwasanaeth a gawsant yn canolbwyntio ar unigolion ai peidio. I rai pobl roedd y ffaith fod y rhan fwyaf o'r cyfathrebu, neu'r cyfan ohono, yn digwydd dros y ffôn mewn rhai ardaloedd gwledig yn dal i fod yn broblemus. Yng ngeiriau un defnyddiwr gwasanaeth:

'Yr unig beth y leciwn i ei ddweud yw weithiau pan fydd pobl yn cysylltu â ni i ddechrau ac yn ceisio esbonio pethau, mae'n anodd iawn, iawn ei esbonio dros y ffôn. Mae'n llawer gwell cael cyswllt wyneb yn wyneb oherwydd mi allwch chi fod yn torri'ch calon dros y ffôn ac allan nhw ddim gweld y boen ac allan nhw ddim ddeall'. (DG, A4)

- 7.38 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau hefyd yn teimlo nad oedd cael gwasanaethau dros y ffôn yn cyd-fynd â'r weithred sy'n canolbwyntio ar unigolion wrth ddarparu gwasanaethau:

'Un peth, mewn gwirionedd, sydd wedi codi'i ben yw gwneud yr asesiadau [cychwynnol] ... ac mae rhai pobl yn eu cael dros y ffôn, ac maen nhw'n meddwl nad ydyn nhw'n cael at galon y mater pan fyddan nhw'n yn eu gwneud dros y ffôn ac yna efallai y bydden nhw'n derbyn eu cynllun drwy'r post.' (TS, A1)

Dewis a rheolaeth

- 7.39 Nododd saith o ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws y chwe maes astudiaeth achos nad oedd ganddynt fawr ddim dewis na rheolaeth dros y broses, na'r canlyniad o fynd at y tîm Atebion Tai a dweud eu bod yn ddigartref. Soniodd un person am gyflwr a lleoliad anaddas yr eiddo y cawsant eu cynnig, tra bod rhywun arall yn dweud ei fod, yn y pen draw, wedi derbyn y byddai'n derbyn unrhyw beth:

'Mi ddangoson nhw un fflat i mi oedd ar yr islawr heb unrhyw ffenestri ac roedd baw cŵn ym mhobman y tu allan ac roeddynt yn trio dweud wrthyf pa mor lwcus oeddwn i'w gael ac roeddwn i fel, chi'n gwybod be, dydw i ddim yn credu hyn. ... y ffaith nad oeddwn i'n hoffi rhywun nad oedd yn fy neall, yn trio dweud wrthyf i y dylwn i fyw mewn stad cyngor llawn cyffuriau'. (DG, A3)

'Mae'n rhaid i mi dderbyn unrhyw beth. ... Mae'n rhaid i mi dderbyn yr hyn maen nhw'n ei gynnig i mi, yn y bôn'. (DG, A2)

- 7.40 Yng ngeiriau defnyddiwr gwasanaethau arall yr oedd ei wraig yn anabl ac yn defnyddio cadair olwyn:

'Wel, dyn ni ddim yn hapus lle'r ydyn ni. Mae gennym do dros ein pen, rown ni e fel yna, ac mae'n iawn. Cyn belled â'r cyngor yna, fe wnaethon nhw fy ffonio, faint oedd hi, chwe wythnos ar ôl i ni symud i mewn a dweud, 'Beth yw eich sefyllfa dai felly ...?' a dywedais i, 'Mae'n ddrwg gen i.' 'Wel, ydych chi ar y stryd ynteu lle ydych chi?' Dywedais i, 'Na, wel, mae [CD] wedi rhoi tŷ i mi.' 'O, 'na ni, felly. Fe wnawn ni'ch tynnu chi oddi ar y rhestr.' O'm rhan i, ac fe ddyweda i hyn, rwy'n credu bod y Cyngor, Dewisiadau Tai, mor ddefnyddiol â thebot siocled, a gallwch chi fy nyfynnu i ar hwnnw hefyd '. (DG, A4)

Cynlluniau Tai Personol

- 7.41 Dengys canfyddiadau'r arolwg o'r awdurdodau lleol, pan ofynnwyd i awdurdodau lleol a fu newid yn y ffordd y maent yn defnyddio Cynlluniau Tai Personol, ymatebodd 16 trwy ddweud 'na', a chwech yn dweud 'bu'. I bedwar o'r rhai oedd yn cyflwyno newidiadau, roedd hyn yn golygu datblygu cynlluniau mwy pwrpasol oedd yn mynd i'r afael ag amgylchiadau unigol defnyddwyr gwasanaethau'n well. I ddau arall, yr eglurhad am y newid oedd meincnodi arfer gorau.
- 7.42 Roedd llawer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd awdurdodau lleol yn pwysleisio natur y Cynlluniau Tai Personol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Nododd un mai swyddogaeth y cynllun yw 'bod gennych syniad clir o bwy sy'n gwneud beth'. Awgrymodd sawl darparwr gwasanaethau mai cyd-gynhyrchu oedd natur y cynllun:

'Dyma'ch [Cynlluniau Tai Personol] ... yr hyn allwn ni ei wneud i chi, a'r hyn y gallwch chi ei wneud drosoch chi'ch hun. Os ydych chi'n gwneud popeth iddyn nhw ... does dim pwynt bod â chynllun ... Os ydych chi'n ceisio dal eu llaw a mynd â nhw trwy'r cyfan eich hun, ddim cynllun yw hynny, nage?' (ALI, A4)

- 7.43 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y gofyn i gofnodi gweithredoedd (hynny yw, camau rhesymol) mewn Cynllun Tai Personol yn un cadarnhaol o ran y neges yr oedd yn ei roi i ddefnyddwyr gwasanaethau a sut roedd yn hwyluso'r cyfrifoldeb a rennir:

'Mae pobl yn teimlo eich bod chi'n eu cymryd yn fwy o ddifrif, mae'r contract gennych, rydych chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw, rydych chi'n dweud,' iawn, heddiw rydyn ni'n mynd i adolygu'r cynllun, lle ydym ni ?' Mae cadw mewn cysylltiad â phobl, rwy'n

meddwl, yn bwysig a pheidio gadael iddynt syrthio wrth ymyl y ffordd fel eu bod yn teimlo eu bod wedi mynd yn angof. Felly mae hynny'n bwysig.' (ALI, A1)

- 7.44 Disgrifiwyd Cynlluniau Tai Personol gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fel gwreiddio arfer y person, ond gan rybuddio bod angen rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau:

'Y Cynllun Tai Personol, dyna yw eu cynllun, hynny yw cynllun y person; allwch chi ddim canolbwyntio mwy ar yr unigolyn na hynny. Dyna beth maen nhw'n ei ddymuno - weithiau nid oes modd diwallu eu dymuniadau, rhaid i ni fod yn onest, dyn ni ddim yn mynd i wneud i bethau edrych yn well na'r hyn ydyn nhw, ond eu cynllun nhw yw e.' (ALI, A1)

- 7.45 Ystyriai darparwyr gwasanaethau eraill mai un o fanteision Cynlluniau Tai Personol yw'r modd yr oedd yn ei gwneud yn bosib i waith gyda defnyddwyr gwasanaethau fod yn fwy disgybledig a chlir, tra bod eraill yn ystyried y Cynllun Tai Personol yn ffordd o wneud defnyddwyr gwasanaethau'n atebol:

'Rydym yn gwneud Cynlluniau Tai Personol, mae hynny'n dda iawn ... mae'n rhoi cyfle i ni, os nad yw cleient wedi gwneud yr hyn yr ydym wedi'i ofyn er mwyn ei atal, yna gallwn ddweud,' Edrychwch, mae'n rhaid i chi fynd, dewch yn ôl pan fydd wedi'i wneud, oherwydd allwn ni wneud dim', felly mae hynny'n dda' (ALI, A3)

- 7.46 Roedd y darparwr gwasanaethau hwn hefyd o'r farn bod cwblhau Cynlluniau Tai Personol yn eu hannog i fyfrio a holi eu harfer eu hunain: *'Pan fyddaf yn gwneud fy [Nghynlluniau Tai Personol] gyda nhw, ydw i'n gofyn unrhyw beth afresymol? Peidiwch â mynd i ffwrdd a dweud wrtha i eich bod yn mynd i'w wneud ac yna peidio â'i wneud.'* Fel y cyfryw, y gred oedd bod y weithred a'r broses o gwblhau Cynlluniau Tai Personol yn adlewyrchu ethos y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn mynd yn groes i'r diwylliant blaenorol o ddyletswydd lle'r oedd penderfyniadau ynglŷn â beth oedd gan ddefnyddwyr hawl iddo'n cael eu cyfleu'n ffurfiol yn aml:

Cyfngiadau Cynlluniau Tai Personol

- 7.47 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn teimlo bod Cynlluniau Tai Personol yn fformiwlâig a thechnegol, *'mater o dicio bocsys ydi hi i ddweud ein bod ni wedi'i wneud'*, yn hytrach na chanolbwyntio ar unigolion, *'maen nhw fwy neu lai'r un fath'*. Disgrifiodd darparwyr gwasanaethau eraill nhw fel rhai 'generig' a phethau cyffredin yn cael eu cynnwys:

'Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau tai yr ydym yn eu gweld yn eithaf generig, yn hytrach na chael eu teilwra i'r person.' (TS, A2)

'Rwy'n credu pan fyddwch yn edrych ar lawer o'r cynlluniau, bydd gan lawer ohonynt frawddegau sydd wedi'u tynnu o bosib o fanc brawddegau, a byddant yn dweud pethau fel' Chwiliwch am lety yn y sector preifat' heb yn wirioneddol ... lawer o dystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth i amgylchiadau penodol y person hwnnw.' (TS, A1)

- 7.48 Awgrymwyd bod diffyg cysondeb yn broblem ac y byddai ansawdd Cynllun Tai Personol yn dibynnu ar yr unigolyn sy'n gyfrifol am ei gwblhau, oherwydd yr ystyrir bod swyddogion unigol yn dylanwadu'n sylweddol ar y broses:

'Mae'n dibynnu ar y gweithiwr sy'n ei lenwi. Os ydynt yn frwd dros yr unigolyn hwnnw, am yr hyn y gall yr unigolyn ei wneud, sut gallwn ni ei gefnogi, sut gallwn ni rymuso'r unigolyn hwnnw, bydd yn dod ar draws mewn Cynllun Tai Personol. Rwyf wedi gweld Cynlluniau Tai Personol yn cynnwys dau air! Sut mae hynny'n effeithiol?' (TS, A1)

- 7.49 Yn ogystal â phroblem bod yn generig, yn hytrach na phersonoli, roedd rhai darparwyr gwasanaethau o'r farn bod cyflwyno Cynlluniau Tai Personol wedi creu haen arall o fiwrocratiaeth nad oedd yn fuddiol gan ei fod yn cyfeirio amser i ffwrdd o waith mwy uniongyrchol:

'Mae'n creu mwy o waith papur, ac mae'n mynd â'n hamser i ffwrdd o fod yn gwneud y gwaith go iawn, gan ein bod wedi gwneud hynny erioed. Dyma ydym wedi'i wneud erioed yn ymarferol, ond nawr, mae'n cymryd llwyth o amser a phapur i'w nodi'n ysgrifenedig, gwaith nad oes neb hyd yn oed yn ei wirio.' (ALI, A1)

- 7.50 Dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau fod llwyddiant Cynlluniau Tai Personol yn dibynnu ar y grŵp defnyddwyr gwasanaethau'n nodi, *'Mae'n dibynnu'n fawr ar y grŵp cleient yr ydych yn delio ag ef ac oedran a pha mor anhrefnus yw eu ffordd o fyw a pha mor dda y mae'r Cynllun Tai Personol mewn gwirionedd yn gweithio i bobl'* (ALI, A2). Mynegodd un arall hyn yng nghyd-destun gweithio gyda grwpiau agored i newid a materion gallu:

'Ceisio gwneud cynlluniau tai gyda phobl sydd yn gwbl unigol i'w hanghenion a hefyd i'w, nid wyf eisiau swnio'n nawddoglyd, ond efallai i'w gallu hefyd oherwydd rydym i gyd yn gwybod bod rhai o'n cleientiaid yn llawer mwy galluog nag eraill. Mae natur digartrefedd yn golygu eich bod yn tueddu i ddelio llawer â phobl sy'n agored i niwed mewn llawer o achosion.' (ALI, A5)

- 7.51 Roedd sawl darparwr gwasanaethau o'r farn nad oedd defnyddwyr gwasanaethau bob amser yn gweld gwerth cofnod ysgrifenedig ac yn meddwl y byddai'n well ganddynt gael mwy o gysylltiad wyneb-yn-wyneb a gwaith uniongyrchol:

'Mae gan y bobl hyn gymaint o anghenion cymhleth, nid ydynt eisiau Cynllun Tai Personol dwy dudalen. Nid ydynt yn ei ddarllen. Y wyneb-yn-wyneb yw hi, ac os na fyddant yn ei ddeall o siarad efo chi'r tro cyntaf, yna yn y sgwrs nesaf caiff ei ailadrodd. 'Pa mor dda wnaethoch chi efo'r dasg honno a roeson ni'r wythnos ddiwethaf?' 'Peidiwch â phoeni, wnawn ni geisio canolbwyntio ar hwnnw'r wythnos yma, felly'. (ALI, A1)

- 7.52 Codwyd pryderon hefyd ynghylch Cynlluniau Tai Personol nad ydynt bob amser yn cael eu rhannu'n amserol:

'Hanner yr amser, nid yw rhai cyngorau bob amser yn eu hanfon ymlaen i ddweud wrthyh beth yw eu - ac rwyf wedi gorfod cysylltu â [awdurdod lleol] i ddweud, 'Alla i gael y Cynllun Tai Personol, os gwelwch yn dda?' (TS, A1)


- 7.53 Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr gwasanaethau - yn enwedig o sefydliadau trydydd sector - yn disgrifio creu Cynllun Tai Personol fel ymarfer ticio blychau sy'n tynnu unrhyw gyfrifoldeb oddi ar yr awdurdod lleol:

'Yr hyn sy'n fy mhoeni am y Cynllun Tai Personol yw eich bod yn ei weld, fel y dywedwch, yn rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, fel pe bai hynny'n ymwneud â'u diffyg fel unigolyn, pam nad ydyn nhw mewn llety diogel ac yn anwybyddu'r materion adnoddau yng nghyswllt darpariaeth.' (TS, A1)

'Rwy'n credu ei fod yn dda eu bod wedi'u cofnodi ond ... Rwy'n poeni ychydig pe bai awdurdod lleol yn dweud, 'Wel, nid ydych chi wedi gwneud U, W ac Y felly rydym ni'n eich cael yn fwriadol ddigartref', dyna fy mhryder mawr. Os nad ydyn nhw wedi dilyn y cynllun tai personol, byddir yn ei ddefnyddio fel ffon i guro rhywun â hi.' (TS, A4)

- 7.54 Ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaethau, roedd amrywiaeth eang ymhlith y gwahanol feysydd yn y modd yr oedd awdurdodau lleol yn defnyddio Cynlluniau Tai Personol, a sut roeddent yn eu deall. Mae niferoedd y defnyddwyr gwasanaethau a ddywedodd eu bod yn derbyn Cynllun Tai Personol, y rhai a ddywedodd eu bod byth yn derbyn un a'r rhai oedd yn ansicr, i'w gweld yn Ffigur 34 isod.

Ffigur 34: Y defnydd a wneir o'r Cynllun Tai Lleol yn ôl defnyddwyr gwasanaethau



- 7.55 Mae'n bwysig nodi nad oedd yr un o'r 17 o ddefnyddwyr gwasanaethau oedd yn meddwl eu bod wedi derbyn Cynllun Tai Personol, yn dweud ei fod yn ddefnyddiol. Roedd rhai pobl yn teimlo ei fod yn gofyn iddynt wneud yr hyn yr oeddent eisoes yn ei wneud. Dywedodd nifer o bobl eu bod yn teimlo bod Cynllun Tai Personol wedi'i wrthod arnynt, yn enwedig yn ardal dau, fel y noda'r darn cyfweiliad a ganlyn:

'C: Oeddech chi'n rhan o waith datblygu'r cynllun hwnnw ynteu a ddywedwyd wrthyfych chi am ei wneud?

A: Dywedwyd wrthyf am ei wneud.

C: Oedd o'n ddefnyddiol i chi mewn unrhyw ffordd?

DG: Nag oedd' (DG, A2)

- 7.56 Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo'u bod wedi'u llethu ar adeg o straen a phryder mawr ac nad oeddent yn gallu cofio manylion Cynlluniau Tai Personol.

'A bod yn onest, gallaf gofio cael cyfweiliad ac fe roesant rai pethau i mi. Efallai fy mod wedi llofnodi un neu ddau o bethau ond nid wyf yn meddwl bod yna unrhyw strwythur enfawr. Alla i ddim cofio. A bod yn onest, dyna'r lleiaf o'm mhroblemau ar y pwynt hwnnw, felly ni fyddwn wedi blaenoriaethu unrhyw beth, ydych chi'n gwybod beth rwy'n ei feddwl?' (DG, A2)

7.57 Yng ngeiriau defnyddiwr gwasanaeth arall:

'Pan fyddant yn rhoi llwyth o ddogfennau, eu hunion natur yw hynny, onid e, dych chi ddim yn ei wneud, chi'n gwybod? Yn union fel y ffurflenni rydych chi'n eu rhoi i mi yma, a dim amarch, ond mae'n debyg y byddaf yn mynd drwyddynt yn sydyn ond wnaif fi ddim eu darllen, chi'n gwybod beth rwy'n ei feddwl? R'ych chi'n tueddu i beidio, onid ydych?' (DG, A2)

7.58 Dywedodd rhai defnyddwyr gwasanaethau bod yr iaith yn y Cynlluniau Tai Personol yn ddigon i godi ofn arnoch a'u bod yn teimlo nad oedd y disgwiliadau a roddwyd arnynt gan yr awdurdod lleol yn gweithio'r ddwy ffordd. Fel hyn, felly, nid oedd gan ddefnyddwyr gwasanaethau unman i droi iddo os nad oedd darparwyr gwasanaethau'n gweithredu fel y cytunwyd:

'Ro ni'n meddwl fod yr iaith yn ddigon i godi ofn arna i. 'Dyma'ch dyletswydd. Dyma beth y mae'n rhaid i chi ei wneud.' Dyna sut oedd hi. Rwy'n gwybod beth sydd raid i mi ei wneud. Rhaid i mi beidio â bod yn ddigartref. Ac yna dywedwyd, 'Os na fyddwch chi'n cyflawni eich rhan chi ohoni', ac nid oedden nhw'n cyflawni eu rhan nhw beth bynnag, felly'. (DG, A2)

7.59 Yn yr ardal hon, roedd Atebion Tai wedi dechrau gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau brofi eu bod yn chwilio am lety yn y sector preifat. Eglurodd un defnyddiwr gwasanaethau ei bod yn aml yn anodd iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu tystiolaeth o'r fath:

C: Beth sydd angen i chi ei wneud yn benodol fel rhan o'r cynllun hwnnw, a yw'n debyg i nifer penodol o eiddo y mae'n rhaid i chi wneud cais amdanynt?

A: Rwy'n credu mai deg yw e. Ddim hynny yw e mewn gwirionedd, byddwch chi'n cael taflenni ac mae'n rhaid i chi eu llenwi a phump ar bob taflen sydd yno, a dwi'n gwneud deg, felly dwi'n gwneud dwy daflen pan fyddaf yn ei gweld hi, efallai pedair, mae'n dibynnu, oherwydd nawr mae'n bythefnos.

C: Felly, deg bob pythefnos ynteu bob mis?

A: Na, dwi'n gwneud deg yr wythnos, mae'n ddrwg gen i. Rwy'n gwneud dwy daflen, deg yr wythnos, felly pan fyddaf yn ei gweld hi nawr, rwy'n rhoi pedair taflen o eiddo iddi, ond nawr maen nhw eisiau iddo gael ei lofnodi gan werthwyr tai, ac fel y dywedais, maen nhw'n mynd yn rhyfedd, dydyn nhw ddim eisiau ei harwyddo hi.' (DG, A2)

- 7.60 Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn teimlo bod y Cynllun Tai Personol yn caniatáu i awdurdodau lleol ryddhau eu hunain o gyfrifoldeb.

'Fe wnaethon nhw i mi arwyddo eu hymwadiad a ddywedai mai fy nghyfrifoldeb i oedd mynd ati i edrych am leoedd, a bydd angen i mi brofi fy mod yn mynd ati i chwilio am rywle i fyw fy hun. Felly, mi wnes i, doedd gen i ddim dewis, roedd yn rhaid i mi ... Roeddwn yn edrych am rywle beth bynnag, roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i rywle i mi fy hun a fy nwy ferch.' (DG, A5)

Adolygiadau ac apeliadau

- 7.61 Dengys canfyddiadau'r arolwg o'r awdurdodau lleol yr adroddwyd ar 328 o adolygiadau at ei gilydd yn y flwyddyn ddiwethaf - sef cyfartaledd o 14.9 fesul awdurdod lleol. Ar yr olwg gyntaf, mae hyn yn ostyngiad o'r arolwg o'r don gyntaf (o 391 o adolygiadau, sef 18.6 ar gyfartaledd fesul awdurdod lleol). Fodd bynnag, ni chynghorir cymharu'n uniongyrchol yma gan fod y cyfnod amser ar gyfer adolygiadau ac apeliadau yn anghyson rhwng y ddau arolwg²⁷. Un awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fwy na hanner cyfanswm yr adolygiadau (177). Mae hyn yn gyfran lai nag yn yr arolwg o'r don gyntaf, pan un awdurdod oedd yn gyfrifol am bron i ddwy ran o dair o adolygiadau. O'r adolygiadau hyn, roedd mwy na hanner (103 o adolygiadau; 58%) yn llwyddiannus, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdodau lleol (45%). Mae cyfran gyffredinol yr adolygiadau llwyddiannus wedi gostwng o 49% yn yr arolwg o'r don gyntaf. Fodd bynnag, mae nifer gyffredinol yr apeliadau yn uwch. Cofnodwyd 17 o apeliadau, a deuddeg ohonynt yn llwyddiannus. Roedd yr apeliadau dros bum awdurdod, sy'n gynydd ar y pedair apêl gan ddau awdurdod yn yr arolwg o'r don gyntaf.
- 7.62 Pan ofynnwyd a oedd nifer y ceisiadau i adolygu penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol / apelio yn eu herbyn wedi cynyddu neu ostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd saith awdurdod lleol y bu cynnydd, a dywedodd 15 eu bod wedi gostwng. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu gostyngiad canfyddedig o un flwyddyn i'r llall, yn enwedig gan fod 16 awdurdod lleol hefyd wedi nodi gostyngiad yn yr arolwg o'r don gyntaf.

²⁷ Mae'r cyfnod o tua 15-16 mis o ddechrau'r ddeddfwriaeth newydd ym mis Ebrill 2015 i'r arolwg o'r don gyntaf ym mis Gorffennaf-Awst 2016. Cynhaliwyd yr arolwg o'r ail don ym mis Awst-Hydref 2017, tua 12-15 mis ar ôl y don gyntaf.

7.63 Ymhlith yr awdurdodau lleol hynny sy'n profi cynnydd, roedd tri o'r ymatebwyr yn priodoli hyn i bartïon yn bod yn fwy gwybodus, boed yn ymgeiswyr, Shelter neu asiantaethau allanol eraill, sy'n golygu eu bod yn fwy hyderus i 'herio penderfyniadau'. Fodd bynnag, roedd un o'r ymatebwyr sy'n hawlio y bu cynnydd yn cynnig darlun oedd fymryn yn wahanol:

'Mae adolygiadau o addasrwydd cynigion o lety - tai cymdeithasol - wedi cynyddu fymryn bach. Ond mae adolygiadau o benderfyniadau eraill wedi gostwng yn sylweddol'.

7.64 Eglurodd pedwar o'r 15 o ymatebwyr yr awdurdodau lleol a ddywedodd y bu gostyngiad mai'r rheswm dros hyn oedd y bu mwy o ymgysylltu ag aelwydydd yn ystod y camau cynnar. Teimlai un awdurdod lleol fod nifer y ceisiadau wedi gostwng i'w lefel arferol o fod wedi codi dros dro yn dilyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, gan ei fod yn bosib 'ailgyflwyno apêl a wrthodwyd dan yr hen Ddeddf'. Mewn tri awdurdod lleol, eglurwyd mai'r rheswm dros y gostyngiad oedd gweithio gyda Shelter Cymru. Er enghraifft:

'Mwy o bwyslais gan rai fel Shelter Cymru i drafod achosion yn anffurfiol er mwyn ceisio datrys cyn y cyflwynir ceisiadau am adolygiadau ffurfiol'.

7.65 Mae'n ymddangos hefyd fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn credu y bu gostyngiad yn nifer yr adolygiadau a'r apeliadau llwyddiannus yng nghyswllt penderfyniadau eu timau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd chwech o ymatebwyr y bu cynnydd a dywedodd 16 y bu gostyngiad. Yn yr awdurdodau lleol a ddywedodd y bu cynnydd, awgrymodd tri ymatebwr mai dim ond ychydig oedd hyn. Unwaith eto, priodolwyd hyn gan un o'r ymatebwyr i asiantaethau allanol mwy gwybodus, y maent yn credu sy'n 'fwy hyderus wrth annog defnyddwyr gwasanaethau i herio penderfyniadau'.

7.66 Roedd pedwar o'r ymatebwyr a nododd ostyngiad yn teimlo bod hyn o ganlyniad i well penderfyniadau. Yn fwy penodol, roedd dau o'r rhain yn ymwneud â gwneud cynigion mwy addas. Er enghraifft:

'Mae'r penderfyniad cyffredinol wedi gwella ac mae llai o achosion wedi'u gwrthod yn yr adolygiad. Nid oes yr un achos wedi mynd i apêl hyd yma'.

7.67 Priodolwyd y gostyngiad, gan un ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol, i swyddog adolygu rhanbarthol 'sy'n cynnal pob adolygiad i'r Awdurdod'. Ni roes y 12 ymatebwr arall resymau, er bod un wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr holl geisiadau wedi'u caniatáu, er y bu llai o geisiadau am apeliadau. Roedd un awdurdod lleol yn awyddus i nodi mai

amcangyfrifon oedd eu ffigurau, sy'n awgrymu y gellir parhau i wneud gwelliannau i waith cadw cofnodion ar adolygiadau ac apeliadau.

Crynodeb

- 7.68 Dangosodd yr arolwg o'r awdurdodau lleol fod bron pob awdurdod lleol o'r farn bod y Ddeddf wedi ei gwneud yn bosib newid diwylliant i un sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion (gweler hefyd Fitzpatrick, Pawson, Bramley, Wilcox, Watts & Wood (2017), a chredant fod ganddynt brosesau clir ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion cymorth i gael cymorth tai.
- 7.69 Dim ond chwe awdurdod lleol sydd wedi gwneud newidiadau yn y modd y maent yn defnyddio Cynlluniau Tai Personol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y newidiadau mwyaf cyffredin yw defnyddio cynlluniau pwrpasol a meincnodi arfer gorau.
- 7.70 Roedd anghysondeb ymhlith ymatebion yr awdurdod lleol i arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Mae tystiolaeth bod newid mewn diwylliant i ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ledled Cymru yn waith sy'n mynd rhagddo (gweler hefyd Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Nododd 19 o awdurdodau lleol fod y Ddeddf wedi ei gwneud yn bosib canolbwyntio mwy ar unigolion ac roedd darparwyr gwasanaethau'n hynod gefnogol i ethos y Ddeddf a'r ffyrdd newydd o weithio a ddaeth yn sgil hyn. Ymddengys mai staff newydd a'r rhai nad oeddent wedi gweithio dan y ddeddfwriaeth flaenorol oedd yn teimlo hyn gryfach. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod rhai oedd wedi gweithio dan y trefniadau blaenorol yn gyndyn o newid.
- 7.71 Awgryma tystiolaeth bod enghreifftiau o arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cael eu hymgorffori ledled Cymru. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau hefyd o ddiffyg ymatebolrwydd a thystiolaeth o ethos yr hen system lle mae'r canolbwyntio ar reoli ac asesu mewn perthynas ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb (gweler hefyd Shelter 2016b; Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Golyga hyn bod defnyddwyr gwasanaethau'n profi deilliannau gwahanol mewn perthynas â'r gwasanaeth a gânt gan ddibynnu ar le maent yn mynd i ddweud eu bod yn ddigartref / dan fygythiad digartrefedd.
- 7.72 O ymgynghori â darparwyr gwasanaethau, awgrymir bod tystiolaeth gref bod rhai staff yr awdurdod lleol wedi ymgorffori'r newid diwylliant i arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion a'u bod yn ymgysylltu'n llawn ag ethos y Ddeddf. Fodd bynnag, mae yna amrywiadau ar draws awdurdodau a rhyngddynt, a hefyd mewn timau. Fel y nodwyd uchod, mae'n

ofynnol bellach i staff Atebion Tai fod â sgiliau newydd ac mae ymyriadau cefnogol ac empathig, yn enwedig ar y pwynt cyswllt cyntaf, yn hanfodol ar gyfer profiadau cadarnhaol defnyddwyr gwasanaethau.


- 7.73 Mae'n amlwg bod darparwyr gwasanaethau unigol yn cael effaith sylweddol ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a rhoi arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar waith. At ei gilydd, dywedodd defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi a'u trin â pharch, ond nad oedd lleiafrif sylweddol yn teimlo hyn (15 o bobl 154). Gellir deall bod rhyngweithiadau negyddol o'r fath â staff digartrefedd yn mynd yn erbyn ethos y Ddeddf.
- 7.74 Ymddengys felly, bod 'newid diwylliant arfer, er y gellir ei gyflawni, yn orchwyl arafach ac anos na datblygu'r ddeddfwriaeth' (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 2017: 18). Mae'n amlwg bod angen gwaith pellach i ymgorffori newid diwylliant yn gynhwysfawr ledled Cymru.
- 7.75 Mae defnyddio Cynlluniau Tai Personol yn gyffredinol gadarnhaol i ddarparwyr gwasanaethau. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cynorthwyo i ddarparu cefnogaeth a chymorth mewn modd sy'n canolbwyntio ar unigolion. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau, er enghraifft maent yn cynnwys mwy o fiwrocratiaeth a gwaith papur. Mae pryderon sylweddol ynglŷn â sut maent yn gweithio i ddefnyddwyr gwasanaethau nad yw Cynlluniau Tai Personol yn ddefnyddiol iddynt. Nododd defnyddwyr gwasanaethau fod yr iaith yn ddigon i godi ofn arnynt a theimlant y gellid gweld y baich sydd arnynt i weithredu yn ffordd o ryddhau'r awdurdod o gyfrifoldeb gan nad oes gan ddefnyddwyr gwasanaethau unrhyw le i droi pe byddent yn teimlo nad yw'r awdurdod lleol wedi cymryd camau priodol a sefydlwyd yn y Cynlluniau Tai Personol.

8. Grwpiau sy'n agored i newid

Cyflwyniad

- 8.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau mewn perthynas â 'grwpiau sy'n agored i newid', pobl â nodweddion gwarchodedig a charfannau eraill nad ydynt yn hanesyddol wedi cael llawer o wasanaethau atal a lleddfu digartrefedd.
- 8.2 Roedd canolbwynt cwestiynau'r arolwg o'r awdurdodau lleol yng nghyswllt grwpiau sy'n agored i newid ychydig yn wahanol i'r cwestiynau a gafwyd yn y cyfweiliad gyda darparwyr gwasanaethau gan eu bod yn canolbwyntio ar iechyd meddwl; pobl sengl; pobl ifanc sy'n gadael gofal; pobl sy'n gadael carchar neu lety gofal ieuencid; pobl sy'n gadael y lluoedd; pobl sy'n cysgu allan; a phobl â nodweddion gwarchodedig eraill. Mae hefyd yn bwysig nodi mai cwestiynau ynghylch gwybodaeth a chynghor yn unig a anelwyd at bobl ifanc sy'n gadael gofal; pobl sy'n gadael carchar neu lety gofal ieuencid (e.e. ni ofynnwyd cwestiynau ynghylch sicrhau llety i'r grwpiau hyn).

Ffigur 35: Awdurdodau lleol sydd wedi gwneud newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor/sicrhau llety (yn ôl grŵp demograffig; Nifer=22)



* Er gwybodaeth a chynghor, mae hwn yn cyfeirio at bobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned. Nododd chwe awdurdod lleol iddynt wneud newidiadau i'r gwasanaethau gwybodaeth a chynghor i bobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl fel claf mewnol.

Pobl Sengl

- 8.3 Ailgyfwelwyd cyfanswm o 32 o bobl sengl yn ail don yr ymchwil, llai na hanner y 75 o bobl sengl a gafodd eu cyfweld yn y don gyntaf.
- 8.4 Mae ymatebion o'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn nodi, yn gyffredinol, mai pobl sydd wedi gweld y newidiadau amlaf ar draws awdurdodau lleol. Mae'r wyth awdurdod lleol sy'n gwneud newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i bobl sengl yn esbonio'r rhain gan ddweud mai newidiadau i lefel a math y cyngor oeddent yn bennaf (pum awdurdod lleol), gan gynnwys cyngor ar 'rannu tŷ ... i bobl dan 35 oed', *'Cynllun Tai Personol sy'n edrych ar eu hanghenion'* a gwefan well. Nododd un awdurdod lleol iddo gynyddu nifer y staff *'fel bod modd i'w cleientiaid gael eu gweld yn gynt'*. Dywedodd dau ymatebwr eu bod yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid. Er enghraifft:

'Rydym wedi cysylltu â grwpiau gwirfoddol / eglwysi lleol sy'n darparu prydau bwyd / dillad ac ati i'r digartref, i ddarparu mwy o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael fel y gallan nhw gyfeirio'.

- 8.5 Ni wnaeth mwyafrif y rhai a ddywedodd 'na' ymhelaethu. Fodd bynnag, cynigiodd tri awdurdod lleol eglurhad llawnach. Roedd gan un awdurdod lleol eisoes brosiect gweithiwr allweddol yn ei le i gynorthwyo pobl a ddeuai i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd. Ychwanegodd awdurdod lleol arall eu bod wedi ymdrechu i *'ehangu'r defnydd a wneir o'r sector rhentu preifat er mwyn canfod atebion parhaol, cynaliadwy a fforddiadwy'*. Eglurodd un ymatebwr eu bod yn edrych ar newid er mwyn *'gwella llety person sengl ac effaith credyd cynhwysol'*.

- 8.6 Pobl sengl sydd wedi gweld y rhan fwyaf o achosion o newid yn y maes sicrhau llety dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd pymtheg awdurdod lleol y bu newid yn eu profiadau o sicrhau llety i bobl sengl. Yn fwy penodol, dywedodd 13 o ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol ei fod yn mynd yn anos i'w sicrhau, tra rhoes un darlun mwy cymysg, ac nid ymhelaethodd un. Yn fwy penodol, cyfeiriodd 10 ymateb at fforddiadwyedd / diffyg llety addas. Er enghraifft, dywedodd un:

'Mae galw mawr iawn am lety person sengl ledled y Fwrdeistref ond nid oes llawer ohonyn nhw. Mae ymgeiswyr yn gorfod edrych ar dai amlfeddiannaeth oherwydd y prinder'.

- 8.7 Ymhlith y darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ym mhob un o'r chwe maes astudiaeth achos cytunwyd bod sefyllfaoedd y bobl sy'n dod i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref yn llawer mwy cymhleth er bod eu nifer wedi cynyddu'n ddramatig hefyd. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n fwy heriol darparu cefnogaeth briodol gan bod angen nifer o fathau a lefelau ar gyfer unrhyw un unigolyn.

'Ers i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno, mae'n ymddangos mai achosion [adran] 73, sef pobl sengl, yw'r rhan fwyaf o fy achosion i... Mae pob un ohonyn nhw'n ymddangos yn fwy cymhleth gydag iechydd meddwl, cyffuriau, alcohol, dyledion. Rwy'n meddwl bod gen i achos un ddynes ar hyn o bryd ac rwy'n meddwl ei bod wedi ticio pob bocs o ran materion iechydd meddwl, cyffuriau, alcohol, dyled, trais yn y cartref ...'(ALI, A3)

- 8.8 Ym mis Rhagfyr 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi addewid i ddod â digartrefedd ymhlith ieuenctid i ben erbyn 2027 a bydd yn buddsoddi £10 miliwn i fynd i'r afael â hyn²⁸. Dywedodd darparwyr gwasanaethau fod yna rywfaint o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd ym mhob un o'r chwe maes astudiaeth achos, yn bennaf hosteli a phrosiectau sy'n cyfyngu ar oedran ac a gynlluniwyd i ddarparu cefnogaeth i mewn i denantiaethau parhaol a chyflogaeth. Cytunodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos fod pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed yn gategori o ddefnyddwyr gwasanaethau a gafodd driniaeth ratach ac y bu dealltwriaeth gadarn erioed o bwysigrwydd gweithio gyda phobl ifanc a'u cefnogi i osgoi digartrefedd ac ansicrwydd yn y dyfodol:

'Mae'r holl awdurdodau lleol yr ydyn ni wedi gweithio gyda nhw erioed, wedi bod yn gryf eu barn erioed y byddan nhw'n gweithio eto gyda'r bobl ifanc, sy'n dod i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref, ymhen dwy flynedd neu mewn chwe mis os na fyddant yn gweithio'n dda efo nhw. Os nad ydyn nhw'n gweithio'n dda efo nhw pan fyddan nhw'n ifanc, bydd hyn am weddill eu bywyd, byddan nhw'n dod i mewn ac allan trwy'r drysau yna.'(TS, A3)

- 8.9 Cafodd chwech o ddefnyddwyr gwasanaethau dan 25 oed eu cyfweld yn ail don y gwaith maes. O'r rhain, roedd pedwar wedi cael cefnogaeth i mewn i lety parhaol, rhoddwyd tri ohonynt mewn eiddo landlordiaid cymdeithasol rhestredig ac roedd cwpl ifanc arall â phlentyn wedi symud i lety sector preifat. Roedd dwy arall, dwy ferch sengl â phlant

²⁸ Gweler <https://inews.co.uk/news/uk/wales-pledges-stop-youth-homelessness/>

dibynnol, yn byw mewn hosteli teuluol. Nid oeddent wedi gallu dod o hyd i dai sector preifat a fyddai'n derbyn taliadau budd-dal, a'u gobaith oedd cael tŷ cymdeithasol.

- 8.10 Dywedodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau mai'r newid mwyaf ar draws y chwe maes oedd y cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc oedd yn mynd at wasanaethau'n gynyddol iau. Dywedodd un hostel iddo dderbyn 180 o atgyfeiriadau dros y deuddeg mis blaenorol a gallu derbyn 18 yn unig o'r rhain. Roedd angen cefnogaeth ar gyfer materion iechyd meddwl ar un ar bymtheg o'r bobl ifanc hyn hefyd.

'Oddeutu 42 oedd yr oedran cymedrig yn yr hostel yma chwe blynedd yn ôl, a chamddefnyddio sylweddau oedd yr angen blaenllaw. 22 yw'r oedran cymedrig ar gyfartaledd nawr ac iechyd meddwl a phobl ifanc wedi'u cyfuno yw'r angen blaenllaw.'
(TS, A1)

'Mae'n frawychus. Doedden ni erioed yn arfer delio ag iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc. Mae dau o'r hostel yma wedi mynd i ysbyty meddwl.' (LCC, A1)

- 8.11 Felly, nid yn unig oedd oedran cyfartalog defnyddwyr gwasanaethau'n gostwng, ond roedd darparwyr gwasanaethau o'r farn bod y materion sy'n ymwneud â phob person ifanc yn dod yn fwyfwy cymhleth. Y gred oedd bod ffactorau strwythurol, gan gynnwys diffyg cyfleoedd cyflogaeth, effeithiau'r polisi a anelir at gyfyngu adnoddau, a diffyg tai fforddiadwy priodol yn dwysáu'r anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc:

'Mae gennym bobl ifanc yn dod i mewn gydag anghenion cymhleth, anhwylderau personoliaeth. Allwn ni ddim bod wedi'n synnu gan hynny, dwi ddim yn meddwl. Mewn sawl ffordd, lle rydym yn economaidd ac yn wleidyddol, rydyn ni'n mynd i gael mwy o bobl ifanc, ac eto system foel iawn sydd gennym ar eu cyfer lle nad oes llawer o arian na llawer o dai, mae eu cyfleoedd yn gyfyng ac yna rydyn ni'n meddwl tybed pam mae gennym gymaint o bobl ifanc sy'n syrffio o gwmpas o ddifrif.' (ALI, A5)

- 8.12 Credai rhai darparwyr gwasanaethau fod diwygio lles yn arbennig, a'r effeithiau yn sgil hynny ar incwm aelwydydd, wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n dod yn ddigartref:

'Rydyn ni wedi gweld llawer mwy o bobl iau yn dod trwodd ... lle bu teuluoedd yn chwalu neu deuluoedd yn gofyn iddynt adael oherwydd treth yr ystafell wely neu ostyngiad mewn budd-daliadau a phob math o bethau felly.' (TS, A2)

- 8.13 Fodd bynnag, awgrymodd rhai darparwyr y trydydd sector y gallai'r flaenoriaeth a roddir i bobl ifanc 16-17 oed annog pobl ifanc dan 18 oed i adael cartref yn gynt tra oeddynt yn dal i fod yn gymwys i gael cymorth. Fel y cyfryw, y teimlad oedd bod hyn yn ganlyniad anfwriadol i ddarpariaethau'r Ddeddf:

'Rydych chi'n mynd o bobl ifanc 17 oed, sydd, fwy na heb, yn cael angen blaenoriaethol am dŷ. Un munud rydych chi'n 18 oed ac yn sydyn allwch chi fod mewn sefyllfa lle nad ydych chi'n cael eich ystyried yn flaenoriaeth, ac mae hynny'n adlewyrchu'n arw ar y Ddeddf Tai a'u hagwedd.' (TS, A4)

- 8.14 Dywedodd darparwyr gwasanaethau mai'r hyn yr oeddynt yn dewis canolbwyntio arno yn y lle cyntaf oedd defnyddio cyfryngu i gynorthwyo pobl ifanc i ddychwelyd i'w teuluoedd, *'bydden ni'n ceisio symud y person ifanc yn ôl gartref, at unrhyw deulu neu ffrindiau, ac oes oedden ni'n methu gwneud hynny, mae yna gynllun tai â chymorth'*. (TS, A4)

- 8.15 Fodd bynnag, tynnodd rhai darparwyr y trydydd sector sylw at agwedd o gyfryngu a allai fod yn broblemus - canlyniad anfwriadol arall i'r Ddeddf - lle gall pobl ifanc gael eu hannog i ddychwelyd i sefyllfaoedd o gam-drin neu beryglus.

- 8.16 Tynnodd darparwyr gwasanaethau eraill hefyd sylw at y ffaith fod newidiadau i'r system fudd-daliadau'n cyfyngu ymhellach ar yr opsiynau tai i bobl ifanc oherwydd gostyngiadau mewn taliadau budd-dal tai i bobl dan 35 oed. Mewn rhai achosion, awgrymwyd unwaith eto y gallai pobl ifanc gael eu gorfodi i aros mewn sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus:

'A ydych chi'n gorfod aros mewn cartref teuluol lle ceir camdriniaeth 'ta ...? Chewch chi ddim budd-daliadau os ydych chi dan 35 oed, i fod yn eithaf onest efo chi. Dim ond cyfradd ystafell a rennir i chi. Does gennych ddim hawl i gael taliad llawn am fflat un ystafell wely nes eich bod yn 35 oed, felly ydyn ni nawr yn dweud bod rhaid i chi aros gartref hyd nes y byddwch chi'n 35? Ond beth sy'n digwydd os ydych chi mewn sefyllfa o gam-drin?' (TS, A1)

- 8.17 Fodd bynnag, er mai llety a rennir oedd yr unig opsiwn ar gyfer pobl ifanc sengl yn aml, roedd nifer o ddarparwyr gwasanaethau'n mynegi amheuon sylweddol bod hyn yn briodol i bobl ifanc sy'n agored i newid:

'Mae disgwyl i'r bobl iau rannu. Mae ganddyn nhw anghenion lluosog, problemau lluosog, materion iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol, camddefnyddio sylweddau. Rhowch ddau neu dri ohonynt i rannu, nid yw'n ateb hawdd, yw e?' (TS, A4)

- 8.18 Yn ôl darparwyr gwasanaethau roedd asesiad a chymorth amserol yn allweddol i ymyriadau atal llwyddiannus gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw at y ffaith fod heriau wrth gyflawni hyn. Lle'r oedd y broses atgyfeirio wedi'i symleiddio a'i rheoleiddio'n fwy trwy gynllun porth, tynnodd rhai darparwyr gwasanaethau trydydd sector sylw at ganlyniadau andwyol anfwriadol gan nad oeddent bellach yn gallu atgyfeirio ymhlith eu hunain os oedd anghenion rhywun yn profi'n rhy gymhleth i'r lleoliad cychwynnol.
- 8.19 Yn ogystal, cododd darparwyr y trydydd sector fater oedd yn bwysig iddyn nhw, sef yr ychydig amser cyfyngedig sydd ar gael i dimau Atebion Tai asesu pobl ifanc yn briodol:
- 'Y peth am Ddewisiadau Tai, efallai mai ychydig o amser sydd ganddynt i asesu'r person ifanc hwn. Sut ydych chi'n asesu merch ifanc 16 oed i ganfod pa mor agored i niwed ydi hi ar wahân i'r ffaith ei bod hi'n 16?'* (TS, A4)
- 8.20 Tynnwyd sylw at y ffaith fod cyfyngiad amser ar gyfer aros yn yr hostel yn broblem. Y gred oedd bod hyn yn adlewyrchu pwysau mewnol ynghyd â'r cyfnodau amser newydd a bennwyd dan y Ddeddf, ond atgyfnerthodd y darparwyr gwasanaethau'r angen am hyblygrwydd gyda therfynau amser o ystyried yr anawsterau a geir i roi pobl ifanc mewn tai priodol. Roedd perygl y gellid gweld effaith 'drws cylchdroi' yn sgil hyn:
- 'Maen nhw'n aml wedi digalonni erbyn y diwedd, onid ydynt, oherwydd eu bod yn gwybod pan fydd y tri mis hynny'n dod i ben yma, ac nid ydynt wedi dod o hyd i rywbeth draw yno, achos o byddaf yn mynd yn ôl ar y stryd eto yw hi, felly, yn ffodus i ni, gallwn ni roi estyniad iddynt am dri mis arall, ond eto mae dal yr un peth. Mae'r 56 diwrnod ar ben, fyddwn ni ddim yn gweithio gyda nhw bryd hynny, yn y pen draw..... os byddan nhw'n dod yn ddigartref yma ar ôl y chwe mis, rydym yn eu cynghori i fynd i'r adran dai a dweud eu bod yn ddigartref eto, a bydd y 56 diwrnod yn dechrau eto.'* (TS, A3)
- 8.21 Nodwyd nifer o heriau gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol wrth gefnogi pobl ifanc i mewn i lety sefydlog. Y themâu cyffredin ar draws y chwe maes oedd yr angen am gefnogaeth cyn y denantiaeth ac yn ystod y denantiaeth, a materion yng nghyswllt y cyfyngiadau a osodir gan y cap budd-dal a'r diffyg tai yn y sector rhentu preifat:
- 'All pobl ifanc 17 oed ddim byw gartref, felly rhowch fflat iddo, ond does ganddo ddim sgiliau bywyd. Sicrhau bod ganddyn nhw'r blociau adeiladu yw hi, felly rydyn ni'n dechrau edrych nawr ar y pethau cyn-denantiaeth hefyd '* (ALI, A4)

- 8.22 Gwelwyd bod symud o lety dros dro i'r sector rhentu preifat yn arbennig o anodd i bobl ifanc. Fel yr esboniodd un darparwr gwasanaethau, hyd yn oed pan oedd llety priodol ar gael, roedd rhwystrau eraill yn parhau oherwydd bod landlordiaid preifat yn aml yn amharod i ailgartrefu pobl ifanc:

'Fydd rhentu preifat ddim yn cyffwrdd ynddyn nhw oherwydd nad oes bond yno, nid ydyn nhw'n ddigon hen i gymryd bond nag unrhyw beth arall, felly maen nhw'n siŵr o fethu o'r cychwyn cyntaf, oni bai eu bod yn rhyngweithio ac yn wir, yn mynd ymlaen a chael cymorth o'r tu allan, gan eu rhieni neu unrhyw beth, gyda'r bond a phopeth arall. A dweud y gwir, prinder a diffyg tai a fflatiau yw hi'. (ALI, A3)

Iechyd Meddwl

- 8.23 Fel y nodir uchod, roedd cynydd yn amlygrwydd salwch meddwl yn ffactor arwyddocaol sy'n cael effaith ar gapasiti a gallu defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau a'r gallu i ddarparu cefnogaeth briodol. Fel y'i sefydlwyd yn y don gyntaf o gyfweiliadau, cafodd materion iechyd meddwl effaith ar bob defnyddiwr gwasanaethau, waeth beth fo'u hoedran. Roedd 59 o'r 153 o bobl a gafodd eu cyfweld wedi nodi mai'r brif broblem oedd iechyd meddwl gwael a dywedodd pob defnyddiwr gwasanaethau y bu ganddynt rywfaint o bryder, iselder neu y gwelwyd dirywiad yn eu hiechyd meddwl o ganlyniad i'w sefyllfa ansicr o ran tai. Yn ail gam y gwaith maes, siaradodd pump ar hugain o ymatebwyr ar draws chwe ardal awdurdod lleol am effaith sefyllfaoedd ansefydlog tai ar y cyflyrau iechyd meddwl a ddiagnoswyd arnynt (neu ar rai o'u teulu agos).

- 8.24 Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos a nododd mai iechyd meddwl oedd y mater mwyaf arwyddocaol iddynt fel darparwyr. Roedd hyn yn wir ar draws pob sector ac ardal awdurdod lleol, a'r gred oedd ei fod yn treiddio trwy bob agwedd ar gyflwyno gwasanaethau ac agendâu eraill:

'Mae'n amlwg bod yno elfen o iechyd meddwl yn rhywle ym mhob grŵp yr ydych chi'n mynd iddo ac ymweld ag o ac yn y rhan fwyaf o'r prosiectau.... Mae'n broblem ac mae'n cael effaith ar draws yr holl wasanaethau. Mae'n cael effaith ar droseddu, iechyd, addysg, digartrefedd, tai '. (ALI, A1)

- 8.25 Roedd cael eu rhoi mewn llety mwy diogel wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl rhai defnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaethau, oedd wedi goroesi trais yn y cartref:

'Y seiciatrydd, tua mis yn ôl oherwydd iddo ddweud,' Alla i ddim credu'r gwahaniaeth ers i chi symud, mae popeth yn ymddangos yn... a syrthiodd popeth i'w le. Fel yna. '
(DG, A3)

- 8.26 Fodd bynnag, ni chyfeiriodd eraill at ganlyniadau cadarnhaol o'r fath. Disgrifiodd un defnyddiwr gwasanaethau sut roedd ei iechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod rhwng ton gyntaf ac ail don y gwaith maes: y defnyddiwr gwasanaethau hwn oedd yr unig berson a atgyfeiriwyd at wasanaethau Cefnogi Pobl:

'Rhwng y tro diwethaf i mi siarad â chi, rwyf wedi gwaethygu dipyn, nid wyf wedi bod mor dda. Mae'r meddyg wedi fy nghynorthwyo i gael rhywfaint o gymorth gyda hynny Rydw i i fod i gael y gefnogaeth gan Gefnogi Pobl ... felly'r gobaith yw y byddaf yn cael cymorth gyda hynny. Rwyf wedi derbyn gwaith papur i ddweud fy mod i mewn yno, ond does neb wedi cysylltu â mi eto. Felly, gobeithio y bydd hynny'n cynorthwyo gyda rhai o'r pethau ymarferol. (DG, A5)

- 8.27 Nododd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau fod diffyg gwasanaethau cefnogi i bobl â phroblemau iechyd meddwl yn fwch mawr yn y ddarpariaeth. Nodwyd diffyg tai priodol ar draws pob maes hefyd, yn enwedig tai â chymorth. Roedd materion yn ymwneud ag iechyd meddwl yn creu angen cynyddol am waith cyn-denantiaeth yn ogystal â chefnogaeth i gynnal tenantiaethau, tra roedd hefyd yn cael effaith ar allu unigolion i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau i ddod o hyd i'w tŷ eu hunain. Angen cydnabyddedig am hyfforddiant oedd yr hyn a fynegodd darparwyr gwasanaethau ym mhob maes, o ran cymorth cyntaf iechyd meddwl, asesu ac empathi i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Dro ar ôl tro, cododd darparwyr gwasanaethau'r angen am well gweithio mewn partneriaeth hefyd (trafodir hyn hefyd yn y bennod Gweithio mewn Partneriaeth).
- 8.28 Nodwyd bod rhwystr sylweddol ar lefel gofal iechyd sylfaenol i bobl allu cael mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl. Mae meddygon teulu'n aml yn rheoli'r llwybr i bobl gael mynediad at ofal iechyd meddwl arbenigol. Gall llwybrau eraill i wasanaethau iechyd meddwl gael eu hatgyfeirio gan yr ysbyty, ond oni bai bod pobl yn derbyn gwasanaethau o'r fath, ni ystyrir eu bod yn bodloni trothwy i gael mynediad at gymorth. Roedd hyn yn wir yn achos pobl ag anghenion iechyd meddwl lefel isel nad oeddent yn gallu cael cymorth a hefyd i bobl â chyflyrau mwy difrifol lle mae cefnogaeth yn gyfyngedig.
- 8.29 Nododd llawer o ddarparwyr gwasanaethau hefyd y gwelir bod terfynau i'r hyn y mae meddygon teulu yn ei ddeall am anghenion pobl ddigartref, yn enwedig y rhai sy'n cysgu allan:

'Maen nhw'n adweithiol iawn ... er enghraifft, o ran hunanladdiad, mae llawer o feddygon teulu sy'n gweld rhywun sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod eisiau lladd eu hunain yn cynnig meddyginiaeth gwrth-iselder iddyn nhw ac yn rhoi apwyntiad ymhen pythefnos iddyn nhw, nid wyf yn teimlo bod hynny'n ddigonol ... ond yna oherwydd bod cymaint o alw ar atgyfeiriadau at y gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, mae'r rhestr aros yn hir '. (TS, A2)

- 8.30 At hyn, cododd llawer o ddarparwyr gwasanaethau bryderon ynghylch pobl ddigartref nad oeddent yn cael at feddygon teulu yn y lle cyntaf, ac mae hyn, i bob pwrpas, yn eu hatal rhag cael cefnogaeth iechyd meddwl. Cododd nifer o ddarparwyr gwasanaethau fater y rhai â phroblemau iechyd meddwl lefel isel, lefel oedd yn dueddol o beidio â chael ei diagnosio, ac un nad oedd yn ddigon i ganiatáu iddynt gael eu categoreiddio fel rhai oedd yn agored i newid ac, felly, câi hyn effaith negyddol ar y gefnogaeth yr oeddent yn gymwys iddi. Pan oedd rhai defnyddwyr gwasanaethau'n cael anhawster i hyd yn oed gael at feddyg teulu, roedd hyn yn rhwystr i gael diagnosis a chymorth llawn, rhywbeth oedd yn achosi cymhlethdodau ychwanegol o ran sut câi anghenion pobl eu categoreiddio:

'Os ydyn ni eisiau cael gwasanaethau iechyd meddwl ... mae'n rhaid i chi fynd trwy'r feddygfa. ... Oes, ond sut mae hynny'n gweithio os nad ydych chi'n gwybod i ba feddygfa y mae rhywun yn mynd? Sut mae hynny'n gweithio os nad ydyn nhw'n ymgysylltu â ni? ... beth sy'n digwydd os ydyn nhw mewn gwirionedd wedi dewis peidio â bod gyda'u meddygfa leol neu, oherwydd eu hiechyd meddwl, eu bod wedi'u heithrio mewn gwirionedd o'u meddygfa i fynd i feddygfa arall? Felly mae mynediad ac iechyd meddwl yn broblem fawr i ni, yn gynyddol felly. ' (ALI, A5)

- 8.31 Roedd darparwyr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd yn nodi heriau o ganlyniad i amlygrwydd cynyddol problemau iechyd meddwl. Roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedd ganddynt y gallu i roi sylw effeithiol i anghenion o'r fath a chydbwysu cynaliadwyedd cymuned a chymdogaeth ag anghenion unigolion.

'Nid oes digon o gefnogaeth, na. Yna, rydym i fynd yn erbyn targedau yn ogystal, ac yn amlwg ddyraniadau tenantiaethau cynhaliol, chi'n gwybod, a chadw'r ôl-ddyledion rhent i lawr. Felly mae'n anodd iawn a dweud y gwir' (LCC, A1).

- 8.32 Mynegodd rhai darparwyr gwasanaethau bryderon hefyd y gallen nhw a phreswylwyr hostel eraill fod yn cael eu peryglu o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Roedd hyn yn brofiad arbennig o ddwys i weithwyr hostel, oedd, yn y bôn, yn byw gyda'r rhai oedd yn aros yn eu llety.

'Bydd yn rhaid i mi ddod â'r llety i ben oherwydd bydd yn ormod o risg a bydd yn rhoi diogelwch fy mhreswylwyr eraill mewn perygl ac er lles nifer fawr y staff sydd gennyf, rhaid iddo fynd.' (TS, A6)

- 8.33 Ceir heriau pellach pan fo problemau iechyd meddwl yn cael eu gwaethygu wrth gamddefnyddio sylweddau. Dywedwyd bod yna faterion gyda thimau iechyd meddwl ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos yn methu neu'n gwrthod gwneud dim â defnyddwyr gwasanaethau oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

'Dwi'n golygu, ni wnaiff iechyd meddwl edrych ar neb os yw'n defnyddio sylweddau' (ALI, A4)

- 8.34 Mae camdriniaeth sylweddau yn broblem a brofir yn gyffredinol ochr yn ochr â materion lluosog eraill, boed hynny yn iechyd meddwl, anabledau dysgu, hanes o drais a chamdrin domestig neu gysgu ar y stryd. Trafododd deuddeg o ddefnyddwyr gwasanaethau gamddefnyddio sylweddau, ynghyd â phrofi problemau iechyd meddwl. I un o'r rhain, roedd yr awdurdod lleol wedi bod yn rhan allweddol o'i broses adfer, gan ei gynorthwyo i ddod o hyd i lety rhent preifat wedi cyfnod mewn uned adsefydlu a thrwy roi blaendal. Roedd wedi rhoi'r gorau i gymryd sylweddau dros gyfnod y ddau gyfweiliad, ac roedd yn edrych ymlaen at symud yn ôl i'r gwaith ar ôl y flwyddyn o adfer a ragnodwyd gan ei feddyg. Roedd hyn wedi cael effaith ar naw o'r deuddeg o bobl a ddefnyddiai sylweddau.

- 8.35 At hyn, deuid ar draws achosion o gamddefnyddio sylweddau'n rheolaidd yn yr hosteli ym mhob un o'r chwe maes astudiaeth achos. Tynnodd rhai darparwyr gwasanaethau sylw at y ffaith fod canlyniadau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i drigolion roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau yn aml yn arwain at gysgu ar y stryd. Nododd darparwyr gwasanaethau dueddiadau yn y mathau o sylweddau a ddefnyddid; mewn rhai ardaloedd, y *'cyffuriau cyfreithiol penfeddwol'* bondigrybwyll a elwir yn gyffredin fel 'mamba' neu 'sbeis' oedd y brif broblem. Mynegodd darparwyr gwasanaethau bryder hefyd nad oedd parafeddygon a gweithredwyr gwasanaeth brys bob amser yn gyfarwydd ag arwyddion o'r cyffuriau hyn.

- 8.36 Tynnodd nifer o ddarparwyr gwasanaethau sylw at yr angen am dai lle gellid goddef rhai ymddygiadau.

'Mae'r math o agweddau sydd wedi'u hen sefydlu, cyffuriau ac alcohol a digartrefedd yn mynd law yn llaw ryw ffordd ac nid oes dim adnoddau ar gael yno, nac unrhyw le na llety a fydd yn caniatáu'r ymddygiadau y maen nhw'n eu hamlygu o ran eu holl anghenion cymhleth yn gyfan gwbl. ... Maen nhw'r tu hwnt i anghenion o ran tai cymdeithasol neu dai cyffredinol' (ALI, A6)

- 8.37 Esboniodd darparwr gwasanaethau iechyd Meddwl sut câi'r arfer hwn ei weithredu, gan amlygu'r gwahaniaeth rhwng y bobl hynny â phroblemau iechyd meddwl lefel isel a lefel uwch, yn enwedig felly mewn perthynas â'r diffyg cymorth sydd ar gael i'r rhai nad ydynt wedi cael at ofal sylfaenol neu sydd wedi cael gwasanaethau gofal eilaidd:

'Mae yna ddau fath eithaf gwahanol o bobl o ran iechyd meddwl a'r dull o roi sylw i dai. Rwy'n sicr yn meddwl mai gwasanaethau eilaidd yw'r bobl yr ydym ni'n tueddu i weithio gyda nhw... pobl sydd eisoes yn ymwneud â'r gwasanaethau hynny. Yna, mae'n debyg bod carfan hyd yn oed yn fwy o bobl â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, fel iselder ysbryd a phryder, a ffobiâu cymdeithasol sydd, fwy na thebyg, ddim yn ffitio mor dda yn y gwasanaethau iechyd meddwl, ond mewn gwirionedd mae ei hangen yn fawr iawn o ran y gymuned dai ... Nid oes ganddyn nhw gydlynnydd gofal, nid oes ganddyn nhw seiciatrydd sy'n eu cefnogi. Mewn sawl ffordd, os oes gennych wasanaethau eilaidd, mae'n llawer iawn haws i chi ymgysylltu oherwydd pan nad ydych chi'n ymgysylltu ac nid ydych chi'n hyd yn oed cyrraedd trothwy gwasanaethau gofal sylfaenol, mae'n wirioneddol anodd cael gwasanaeth.'

- 8.38 Hefyd, roedd darparwyr gwasanaethau ar draws pob awdurdod yn cydnabod bod y bobl hynny oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn aml yn amharod i droi at asiantaethau a roddai gefnogaeth â chamddefnyddio sylweddau er eu bod yn ymwneud â'r gwasanaethau tai.

- 8.39 Nododd darparwyr gwasanaethau ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos amryfal anghenion hyfforddi. Yn benodol felly, nododd staff y trydydd sector stigma parhaol o gwmpas iechyd meddwl, a diffyg empathi tuag at ddefnyddwyr gwasanaethau:

'Rwyf wedi bod yn ceisio ers mis Tachwedd i un o'm cleientiaid. ... Mae ganddo broblemau iechyd meddwl difrifol. Unwaith eto, mae ganddo hanes troseddol, bu'n cymryd cyffuriau yn y gorffennol, mae wedi'i droi allan o nifer o eiddo. Mae'r broblem sydd gennym ni'n ymwneud yn rhannol gyda'r tîm iechyd meddwl; nid ydyn nhw'n barod i wneud asesiadau arno. ... reddden ni wedi cael yr heddlu i fynd ag o yno i gael ei asesu un diwrnod, ond oherwydd ei fod dan ddylanwad mi wrthodon nhw wneud

dim. Maen nhw'n dweud nad oes ganddo broblemau iechyd meddwl. Mae'n cael meddyginiaeth ar gyfer ei iechyd meddwl. Ond ni fydd unrhyw landlord yn ei gymryd oherwydd yr hanes. Ond mae'r dyn ifanc hwn yn ddigartref ac ar y stryd, mae ganddo broblemau iechyd meddwl difrifol, a does dim y gallwn ei wneud iddo.' (ALI, A3).

- 8.40 Nododd darparwyr gwasanaethau gyfyngiadau pellach pan oedd defnyddwyr gwasanaethau yn hynod o agored i niwed. Rhoes un ohonynt enghraifft o ddefnyddiwr gwasanaethau - oedd yn ddigartref dro ar ôl tro, roedd ganddo iechyd meddwl gwael, anableddau dysgu ac anableddau corfforol gwael, problemau camddefnyddio sylweddau, ac roedd hefyd yn aildroseddwr – er mwyn esbonio'r pwynt hwn:

'Es ond, wrth gwrs, [dywedodd] un o weithwyr y cyngor yno 'na, dim dyletswydd gofal iddo', hyd yn oed gyda'i [broblemau iechyd meddwl difrifol ac anabledd dysgu]. Mynd yn ôl ar y stryd oedd ei hanes, mi ddwynodd o Tesco, mi gafodd ei arestio a'i anfon i garchar. Mi ddaeth yn ôl allan eto ar ôl chwe wythnos, mi gymerais yr achos eto, es i ag o i'r Cyngor eto, [dywedodd] yr un person, 'pam ddylem ni ofalu amdano' ... dair gwaith, aeth yn ôl i'r carchar i gael to dros ei ben oherwydd nad oedd gan y cyngor ddyletswydd gofal iddo. Roedd gan [sefydliad y Trydydd Sector] fodd bynnag, yn digwydd bod, y prawf y dylai fod wedi, roedd ganddyn nhw ddyletswydd gofal iddo.' (TS, A3)

- 8.41 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol, dywedodd chwe ymatebwr iddynt wneud newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor yn y flwyddyn ddiwethaf *'i bobl sy'n gadael yr ysbyty fel claf mewnol ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddwl'*. Roedd y rhesymau a roddwyd yn canolbwyntio ar fwy o weithio mewn partneriaeth gydag ysbytai ac amryw asiantaethau eraill. Roedd un awdurdod lleol yn 'ceisio ymwneud ag asiantaethau cyn rhyddhau er mwyn atal argyfwng', i un arall roedd yn cynnwys hyfforddiant ychwanegol i staff oedd yn gweithio gyda darparwyr iechyd i gynorthwyo cleientiaid i wneud cais digartref cyn eu rhyddhau. Mae gan ddau awdurdod lleol swyddog tai yn yr ysbyty lleol i reoli anghenion o ran tai ac achosion digartref a all arwain at oedi cyn rhyddhau. I un, roedd hyn yn golygu gweithio gyda Gofal Cymru:

'Mae'r broses atgyfeirio o'r ysbyty i'r Adran Dai wedi gwella. Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â Gofal sydd â gweithiwr cymorth rhyddhau yn yr ysbyty, yn ogystal ag yn y Tîm Atebion Tai'.

8.42 Eglurodd yr awdurdodau hynny nad oeddynt wedi gwneud newidiadau unwaith eto mai'r rheswm dros hyn yw bod ganddynt eisoes weithdrefnau yn eu lle, gan gynnwys bod ag un pwynt a gweithwyr achos priodol a Swyddog pwrpasol gyda Gofal Cymru, yn gweithio yn yr un lle â'r Tîm Tai ond yn gweithio'n agos gyda'r Uned Iechyd Meddwl. Roedd dau awdurdod lleol yn cydnabod y gwaith ychwanegol, fodd bynnag, fel y dyweddodd un:

'Mae galw ar ein gwasanaeth wedi cynyddu ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn. Mae'r effaith ar gyllidebau'r GIG yn golygu eu bod eisiau rhyddhau pobl yn gyflym ac mae trothwy uwch iddyn nhw gael at eu gwasanaethau'.

8.43 Esboniodd y pum awdurdod lleol oedd yn gwneud newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i bobl oedd yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned mai'r rheswm dros y newidiadau o'r fath, yn bennaf, oedd bod ganddynt berthynas weithio agosach gydag asiantaethau (pedwar awdurdod lleol), gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol (un awdurdod lleol), a chynnal cydweithwyr iechyd meddwl (un awdurdod lleol). Fodd bynnag, nododd un ymatebwr i'r arolwg ei fod yn gweithio gyda rhai partneriaid yn fwy nag eraill. Yn fwy penodol, mae'n gweithio gyda'r *'Uned seiciatryddol, ond nid o reidrwydd ofal sylfaenol neu'r Tîm Iechyd Meddwl yn y Gymuned'*. Esboniodd un ymatebwr arall mai'r rheswm am y newid oedd sicrhau y canolbwyntir y gefnogaeth oedd ar gael yn y lle'r oedd yr angen mwyaf amdani:

'Yn hanesyddol mae darparwyr gwasanaethau ... wedi cefnogi cleient am dair i bedair awr yr wythnos p'run a oedd angen cymorth cysylltiedig â thai bryd hynny ai peidio. Mae'r model newydd yn fodd i ddefnyddio'r tair / pedair awr yn y lle y mae angen y gefnogaeth fwyaf yr wythnos honno ... Yn ogystal â chreu arbedion mae hyn hefyd yn gwneud i ffwrdd â chanlyniad nad oedd modd ei ragweld o ddefnyddwyr gwasanaethau yn dod i ddibynnu ar eu gweithiwr cymorth a dibynnu ar eu hymweliadau wythnosol'.

8.44 Nid ymhelaethodd mwyafrif y rhai a ymatebodd 'na'. Fodd bynnag, cynigiodd tri awdurdod lleol eglurhad llawnach. Ymhlith y rhain roedd bod pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned *'yn cael eu gweld trwy gysylltiad cyntaf'* a bod trefniadau yn eu lle cyn y Ddeddf newydd, gan gynnwys dau weithiwr pwrpasol Cyngor ar Dai Gofal Cymru oedd yn gweithio yn yr un lle â'r Tîm Tai a *'Gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai sy'n ddeiliadaeth niwtral i unigolion ag anghenion iechyd meddwl yn y gymuned'*, a ddarperir trwy gyllid Cefnogi Pobl.

- 8.45 Nodwyd newidiadau mawr i bobl â phroblemau iechyd meddwl mewn perthynas â sicrhau llety. At ei gilydd, ymddengys bod hanner yr awdurdodau lleol wedi gwneud newidiadau yn y maes hwn. Wrth egluro'r newidiadau hyn, cyfeiriodd pum awdurdod lleol at yr anawsterau o ran sicrhau llety, yn enwedig oherwydd fforddiadwyedd llety arbenigol. Er enghraifft:

'Mae yna ddiffyg sylweddol mewn llety un person fforddiadwy. Mae gan lawer hefyd anghenion cymhleth, lluosog nad oes modd eu diwallu'n aml yn y llety sydd ar gael'.

- 8.46 Cyfeiriodd pedwar ymatebwr at gynnydd yn nifer y bobl a ddeuai i'r Cyngor yn dweud eu bod yn ddigartref ac oedd â phroblemau iechyd meddwl, rhywbeth a all fod yn broblem oherwydd y *'rhestrau aros hir ar gyfer asesiadau'* a phobl *'ddim yn troi at wasanaethau'*. Cyfeiriodd dau at yr anawsterau o gynnal tenantiaethau i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Er enghraifft:

'Parhau mae'r anhawster wrth sicrhau cefnogaeth drefnedig a / neu'r cleient yn troi ei gefn ar y gefnogaeth ac yna'n gadael y denantiaeth mewn perygl'.

- 8.47 Ychydig iawn o ymhelaethu a gafwyd gan y rhai na nododd newidiadau i sicrhau llety i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, dywedodd dau fod newid yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Er enghraifft:

'Mae hwn yn faes allweddol lle byddem yn hoffi datblygu llety arbenigol wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn'.

Pobl sy'n cysgu allan

- 8.48 Mae nifer y cysgwyr allan wedi bod yn tyfu'n raddol ledled Cymru a Lloegr (Fitzpatrick et al (2017), a chodwyd hyn fel pryder sylweddol gan ddarparwyr gwasanaethau. Roedd barn gyffredinol nad oedd y Ddeddf wedi cael effaith ar y grŵp hwn, gan eu bod eisoes y tu hwnt i bwynt lle'r oedd atal yn bosib a bod gofyn am fathau eraill o ymyriadau dwys.

'[Os ydych chi eisoes yn meddu ar dŷ ond bod y tŷ hwnnw mewn perygl, mae'r Ddeddf yn gweithio'n dda i chi, ond nid ydyw os ydych chi yn y grŵp hwnnw o bobl nad oes ganddynt dŷ'. (TS, A2)

- 8.49 Fodd bynnag, profiad gwahanol iawn oedd cysgu allan yn ardaloedd yr astudiaeth achos. Mewn awdurdodau mwy gwledig, fe' gwelwyd fel:

'ffordd o fyw, rwy'n meddwl. Rydym wedi gweithio gyda llawer o bobl sy'n cysgu allan dros y blynnyddoedd sydd wedi ymgartrefu mewn fflat a gallai rhai ddim ei oddef a ...

jesd cael allan a chael yn ôl ... '(TS, A1). Collwyd llawer o'r rhain gan gyfrifau swyddogol: *'maen nhw fwy yn y goedwig, wedi'u cuddio mewn ysguboriau ...'* (ALI, A1).

8.50 Fel y dywedodd darparwr gwasanaethau arall awdurdodau lleol:

'Mae digon o dystiolaeth bod pobl yn cysgu allan. Rydyn ni'n gwybod hynny gan y gwasanaethau cefnogi, rydyn ni'n gwybod hynny gan bobl. Mae pobl yn dod i mewn ac maen nhw'n edrych yn flêr ac ... rydych chi'n gwybod eu bod wedi treulio'r noson allan ar y stryd.' (ALI, A4)

8.51 Mewn trefi a dinasoedd llai, roedd y trydydd sector a staff yr awdurdod lleol, yn gyffredinol, yn gwybod am bobl oedd yn cysgu allan. Fel yr esboniodd un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol:

'Does gennym ddim nifer fawr o bobl sy'n cysgu allan oherwydd ein bod ni'n eu hadnabod i gyd. Pe baech chi'n ein rhoi i gyd at ei gilydd, mi allen ni eu henwi, fwy na thebyg. Ar hyn o bryd, fel yr ydyn ni'n siarad, efallai fod chwech i wyth gennym ni yn yr ardal hon ' (ALI, A3).

8.52 Mewn dinasoedd fodd bynnag, dywedwyd bod y broblem yn llawer mwy.

8.53 Ar draws y chwe maes, roedd pobl oedd yn cysgu allan yn tueddu i arddangos amrywiaeth gymhleth o anghenion, gan gynnwys salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau:

'Nid digartrefedd yw eu problem wirioneddol yn yr ystyr y gallem, yn ôl pob tebyg, ddatrys eu problem digartrefedd yn weddol hawdd. Mae ganddyn nhw broblemau sylfaenol, gan fod pob un o'r bobl ddigartref yn dueddol o fod â ... mae gennych broblemau alcoholiaeth; bod yn gaeth i gyffuriau; ymddygiad gwrthgymdeithasol.' (ALI, A6).

8.54 Dywedodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol fod gweithio gyda chleientiaid o'r fath yn heriau anferth. I rai, y rheswm oedd bod yr achosion cymhleth hyn yn ychwanegu at y *'gorlwytho yr ydym yn ymdrin ag o ... ac nid oes gennym ateb ar eu cyfer oherwydd nad oes digon o letyau â chymorth iddynt symud i mewn iddynt'* (ALI, A6). Roedd hyn wedi achosi i rai awdurdodau lleol weithredu'r gofyn am gysylltiad lleol yn eithaf llym, gan droi pobl i ffwrdd o gefnogaeth er eu bod yn dweud bod hawliidiad yn ei le fel bod ganddynt ryw faint o hyblygrwydd. Dywedodd staff awdurdodau lleol eraill eu bod yn teimlo y cânt eu herio fwy gan y ffaith nad oedd y drefn arferol o roi apwyntiadau a'i gwneud yn

ofynnol i ddefnyddwyr gwasanaethau gymryd camau tuag at eu hadferiad eu hunain yn aml yn llwyddiannus.

8.55 Awgrymodd darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector fod angen gweithredu'n wahanol, lle'r âi staff i ymweld â defnyddwyr gwasanaethau lle'r oeddent yn cysgu yn hytrach na'u gorfodi i ddod i gyfarfodydd yn swyddfeydd yr awdurdodau lleol. Disgrifiodd darparwyr gwasanaethau trydydd sector mewn un ardal astudiaeth achos sut gallai staff gynnal asesiadau fel hyn, gan gydnabod y byddai pobl oedd yn gaeth neu oedd â materion iechyd meddwl yn ei chael yn anodd aros am asesiadau mewn swyddfeydd awdurdod lleol am sawl awr. Roedd sefydliad arall yn y trydydd sector yn defnyddio cymorth dyngarol i gyrraedd pobl oedd yn gysgwyr allan ar draws Cymru, gyda'r nod o'u cynorthwyo i droi at awdurdodau lleol unwaith eto. Bu iddynt ganfod bod y mwyafrif eisoes wedi cael profiadau negyddol o gael at wasanaethau: *'Dyma'r bobl sy'n ddigartref ers cyfnod maith, eu ffordd o fyw ar y stryd wedi'i hen sefydlu, rheiny yw'r anoddaf i'w cael i fynd i'r cyngor' (TS, A2).*

8.56 Roedd rhai sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio'n galed i geisio gwneud i ffwrdd â'r diffyg ymddiriedaeth ynddynt a amlygai'r rhai oedd yn fwyaf agored i newid ac sy'n cysgu allan, a hynny drwy gartrefu pobl yn syth fel rhan o'r broses o gynorthwyo unigolion i symud ymlaen â'u bywydau.

'y peth allweddol i ni yw ceisio cael y person hwnnw i mewn i lety, boed yn llety brys, i hostel ... a byddwn yn gwneud y gefnogaeth gofleidiol... yna rydym yn dod â nhw i mewn i gyflwyno'u hunain yn llawn a phriodol, ond ceisio eu cael i mewn i rywle diogel lle gallwn ni roi rhai gwasanaethau cofleidiol yn eu lle er mwyn asesu'n llawn beth yw eu rhwystrau rhag cael llety ... ' (TS, A2)

8.57 Nid oedd y math hwn o gymorth bob amser yn bosib, fodd bynnag, yn enwedig lle nad oedd digon o letyau neu hosteli dros dro. Esboniodd darparwr gwasanaethau arall y trydydd sector yr hyn a ddigwyddai dan yr amgylchiadau hyn:

'Y cyfan y gallwn ei wneud, mae gennym gasgliad helaeth o 'duvets' yn yr atig, a byddwn yn rhoi 'duvet' iddyn nhw i gadw'n gynnes yn y nos, a dyna'n llythrennol yw'r oll y gallwn ei wneud iddyn nhw. Mae hynny'n ofnadwy. Ers y toriadau mae hyn ... ' (TS, A5).

- 8.58 Sefydliadau trydydd sector yn bennaf oedd yn dweud bod angen hyfforddiant i oresgyn y diffyg ymddiriedaeth a'r rhagfarn rhwng y rhai oedd yn cysgu allan a staff yr awdurdodau lleol.
- 8.59 Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol mai'r rhai oedd yn cysgu allan oedd y grŵp y gwnaed y rhan fwyaf o newid yn y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymhlith esboniadau penodol am newidiadau yn y deg awdurdod lleol mae mwy o gydlyniant rhwng gwasanaethau (dau awdurdod lleol). Er enghraifft, heddlu lleol yn dosbarthu Cerdyn Cyswllt Gwasanaeth Atebion Tai i '*unrhyw un sy'n cysgu allan neu unrhyw ddinesydd sydd â phryderon ynghylch y rhai sy'n cysgu allan*'. Ychwanegodd un o'r rhain fod '*ein hymateb yn cael ei fonitro'n well*' bellach, ac roedd ymatebwr arall yr awdurdodau lleol bellach yn casglu mwy o wybodaeth am natur bod yn agored i niwed. Dywedodd un ymatebwr bod gwely mynediad uniongyrchol wedi'i gyflwyno gan ddarparwr llety â chymorth ac sydd ar gael pan nad oes angen y gwely ar rywun sydd ag angen blaenoriaethol.
- 8.60 Ymhlith y rhai a ymatebodd '*na*', roedd un awdurdod lleol eisoes wedi bod yn gweithredu partneriaeth *Doeth ar y Stryd*. Nododd dau awdurdod lleol bod nifer y bobl sydd ganddynt yn cysgu allan yn isel. Mae un yn ystyried newidiadau, fodd bynnag, sef cynllun tywydd garw '*i gynorthwyo pobl sy'n cysgu allan yn y sir*'.
- 8.61 Dywedodd deg awdurdod lleol hefyd fod newidiadau mewn perthynas â sicrhau llety i bobl sy'n cysgu allan. Esboniodd pedwar mai'r rheswm am hyn oedd bod llai o letyau ar gael, fel gyda phobl sengl, ond ei bod yn anos oherwydd anghenion cymhleth. Roedd dau yn edrych ar Tai yn Gyntaf. Priodolai un awdurdod lleol hyn i gynnydd yn y bobl oedd yn cysgu allan. Cyfeiriodd un awdurdod lleol arall at gynnydd mewn pobl oedd yn cysgu allan ond bod llety dros dro yn aml yn methu oherwydd '*lefel uchel yr achosion o gamddefnyddio sylweddau*'. Dywedodd un ymatebwr y bu cynnydd yn nifer y bobl oedd yn cysgu allan ond nid oedd wedi gallu dangos tystiolaeth o hyn. Mae dau arall bellach yn cynnig mwy o gymorth a chefnogaeth:
- 'Mae cymorth ychwanegol i gleientiaid sy'n cysgu allan wedi cynyddu, ac mae dull newydd sy'n canolbwyntio ar y cleient wedi'i fabwysiadu, gyda hyfforddiant ychwanegol i'r tîm allgymorth i'w cynorthwyo i gymryd ceisiadau digartref, gyda chleientiaid yn methu ymgysylltu.'*

- 8.62 Nid ymhelaethodd mwyafrif ymatebwyr yr awdurdodau lleol hynny a ddywedodd na fu newid. Fodd bynnag, dywedodd tri bod cefnogaeth eisoes yn ei lle. Roedd dau arall yn cyfiawnhau eu sefyllfa trwy nodi diffyg niferoedd a dweud nad oedd cysgu allan yn *'broblem sylweddol'* a bod *'ychydig o achosion o gysgu ar y stryd'*.

Anableddau

- 8.63 Roedd y defnyddwyr gwasanaethau hynny oedd ag anableddau, yn enwedig y rheiny a ddefnyddiai gadeiriau olwyn neu fod eu hoedran yn ei gwneud yn anodd iddynt ddringo grisiau, yn dweud bod heriau sylweddol wrth gael tai priodol. Roedd un person wedi methu dod o hyd i dai hygyrch yn y sector rhentu preifat.

'Fe ddywedwyd wrthym am barhau i chwilio am lety preifat, wedi'i rentu, ond gydag amgylchiadau hyn dros ein pennau gyda'r landlord preifat eto, pan ydych chi'n anabl, nid yw hynny'n dda iawn oherwydd allwch chi ddim gwneud unrhyw gynlluniau. Aethom i weld un wraig, galwodd fi i weld eiddo ger fy merch, lle'r oeddwn wir eisiau bod. Yna, gwrthododd o ni oherwydd allen nhw ddim rhoi lifft grisiau i mi yn hwyrach ymlaen. Pan ddes i yn ôl a siarad â'r wraig wreiddiol, sef fy swyddog tai, dywedodd wrthyf fod y wraig wedi dileu fy nghynnig oherwydd fy mod wedi'i wrthod - ond doeddwn i ddim - dywedodd, 'Nid oes raid i ni gynnig unrhyw le arall i chi. Rydym wedi cynnig un eiddo i chi. 'Mi daflodd hynny fi go iawn' (DG, A4)

Anableddau Dysgu

- 8.64 Roedd cefnogaeth sefydledig ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol i'r sawl oedd â diagnosis o anableddau dysgu:

'Os ydych chi'n edrych ar bobl ag anableddau dysgu mewn llety byw â chymorth, nid atal yw hynny, oherwydd fyddan nhw byth yn ddigartref oherwydd bod dyletswydd statudol o ofal i ofalu amdanynt. Mae gennym wasanaeth eithaf mawr ' (ALI, A2)

- 8.65 I'r grŵp penodol hwn, roedd heriau'n canolbwyntio ar allu cynorthwyo unigolion i symud o un lefel o dai â chymorth i un arall, pe byddai eu hamgylchiadau'n newid. Fodd bynnag, dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau nad oedd yr holl bobl hynny ag anableddau dysgu lefel isel wedi'u diagnosio ag anableddau dysgu lefel isel, oedd yn golygu na chawsant unrhyw gymorth.

Pobl ifanc sy'n gadael gofal

- 8.66 Dywedodd wyth awdurdod lleol eu bod wedi gwneud newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc sy'n gadael gofal, gan eu gwneud yn un o'r grwpiau y gwnaed y rhan fwyaf o newidiadau mewn perthynas â nhw. Ymhlith y rhesymau dros y newidiadau mae cyflogi swyddogion newydd sy'n ymroddedig i weithio gyda phobl ifanc 16-25 oed mewn dwy ardal awdurdod, ynghyd â Gweithiwr Cymdeithasol / Swyddog Llety cymwys mewn un arall *'yn benodol i ddelio â phobl ifanc 16-17 oed a phobl ifanc sy'n gadael gofal'*. Nododd tri ymatebwr i'r arolwg fod perthynas weithio well gyda'r Gwasanaethau Plant. Er enghraifft:

'Mae gennym gysylltiadau gwell â'n cydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant ac yn cael gwybod yn gynt am bobl ifanc sydd mewn perygl, sy'n gymorth yn a60'.

- 8.67 Cyfeiriodd un awdurdod lleol at hyfforddiant tenantiaeth i bobl ifanc, a thynnodd un arall sylw at ddarparu gweithdai anffurfiol i asiantaethau sy'n bartneriaid:

'Rydym wedi darparu nifer o weithdai anffurfiol ar gyfer asiantaethau mewnol ac allanol sy'n bartneriaid i ddarparu gwell dealltwriaeth o'n gwasanaeth a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i unigolion ac aelwydydd dan y Ddeddf ac i hyrwyddo pwysigrwydd ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd'.

- 8.68 Cynigiodd saith o'r awdurdodau lleol a ymatebodd drwy ddweud *'na'* esboniadau pellach. Mae'r rhain yn cyfeirio at gael darpariaethau yn eu lle am fwy na blwyddyn cyn yr arolwg o'r ail don, gan gynnwys cael eu *'gweld yn y man cyswllt cyntaf'* a'r *'Panel Porth yn dal i reoli'r grŵp cleient hwn yn effeithiol'*.

- 8.69 Roedd pump o ddefnyddwyr gwasanaethau a gafodd eu cyfweld yn ail don y gwaith maes wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol yn wreiddiol. Roedd un o'r rhain bellach yn 25 mlwydd oed ac wedi bod yn cysgu allan adeg y cyfweliad cyntaf. Yn y chwe mis rhwng y ddau gyfweliad, rhoddwyd iddynt lety mewn hostel am hyd at ddwy flynedd, ond yna cawsant eu troi allan am dorri'r rheolau ac roeddent yn cysgu allan unwaith eto. Roedd y pedwar person arall rhwng pedwar deg pump a phedwar deg saith mlwydd oed. Roedd un arall o'r rhain yn cysgu allan adeg yr ail gyfweliad, wedi iddo gael ei wahardd o'r llochesi nos am ysmygu *'cyffuriau cyfreithiol penfeddwol'*. Nid oedd un person yn defnyddio sylweddau mwyach ac roedd yn byw mewn llety dros dro ar ôl hanes hir o ddigartrefedd ailadroddus. Roedd y ddau arall wedi'u rhoi mewn tai cymdeithasol parhaol.

- 8.70 Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu hystyried ar draws ardaloedd eu hawdurdodau lleol, ac adlewyrchwyd hyn yn amrywiaeth y rhaglenni sydd ar gael. Mewn un ardal, rhoddwyd cefnogaeth gan landlord cymdeithasol cofrestredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i dŷ penodol a neilltuwyd ar gyfer *'pobl ifanc sy'n gadael gofal, sydd ar fin bod yn barod i fyw'n lled-annibynnol. Maen nhw naill ai mewn cyflogaeth neu addysg ac mae'r tri sydd gennym ac sy'n defnyddio'r tŷ ar hyn o bryd i gyd yn y brifysgol'* (LCC, A1).

Mudwyr/Grwpiau o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

- 8.71 Themâu cyffredin a nodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws y chwe maes astudiaeth oedd anawsterau gyda chyfraith mewnffudo, rhwystrau iaith, heriau â budd-daliadau, anawsterau wrth ddod o hyd i dai i deuluoedd mawr a phroblemau wrth osod teuluoedd yn y sector rhentu preifat.
- 8.72 I wladolion yr Undeb Ewropeaidd, mae yna gyfundrefn gynyddol gymhleth sy'n rheoleiddio hawliau i weithio ac i hawlio budd-dal tai. Fodd bynnag, mewn un awdurdod trefol yn unig y codwyd hyn fel problem.
- 8.73 Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau bod rhwystrau iaith yn her. Roedd un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol yn cydnabod y fiwrocratiaeth anefnyddiol a allai fod yn gysylltiedig â'u prosesau eu hunain, oherwydd *'maent i gyd yn cael yr un llythyrau mewn gwirionedd yn Saesneg gyda nifer lawer o baragraffau ynddo i ddiogelu'n hunain mewn ystyr cyfreithiol'* (ALI, A2).
- 8.74 Nododd darparwyr gwasanaethau hefyd y gallai maint mawr teuluoedd ymhlith rhai grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fod yn rhwystr i sicrhau tai, gan y gall landlordiaid eu gweld yn broblem bosib:
- 'Felly eto, os ydych chi'n rhyddhau i'r sector preifat, rydych chi'n dweud wrth landlord, 'Cymerwch y teulu hwn o wyth'. Does neb eisiau hynny, mi ddywedant 'Na,' oherwydd eich bod chi'n meddwl Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eich pen yn barod, yn tydych? Ydych, felly maen nhw'n eithaf heriol.'* (TS, A2)
- 8.75 Dywedodd darparwyr eraill y trydydd sector fod anawsterau wrth roi pobl yn y sector rhentu preifat (gweler hefyd y bennod ar y sector rhentu preifat), yn enwedig pan mai'r teimlad yw bod rhai landlordiaid preifat yn anfodlon derbyn pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

'Parêd adnabod ydyw, onid e? Maen nhw'n cael eu harddangos o flaen y landlord. Mae'r landlord yn dewis - roedd gen i gleient oedd yn ffoadur, heb fod yn Brydeinig, du. Fe'i rhoddwyd o flaen tri eiddo. Nawr ar bapur, does dim rheswm pam na ddylai'r person hwnnw fod wedi cael eiddo. Dair gwaith gafodd hi ei gwrthod. Roedd yr hyn a wnaeth hynny i'w hunan-barch a'i hunanwerth yn gwbl ofnadwy ac, yn fy marn i, roedd yn hiliol ond nid oedd y tîm opsiynau tai am fynd i'r afael â hynny gyda'r landlord. ' (TS, A2)

Trais a Chamdriniaeth Ddomestig

- 8.76 Roedd cyfweiliadau dilynol gyda defnyddwyr gwasanaethau'n cynnwys tri o'r un ar ddeg o bobl oedd yn ffoi rhag trais a chamdriniaeth ddomestig yn ystod ton gyntaf y gwaith maes. O'r rhain, teimlai dau eu bod wedi'u cefnogi'n ddigonol, ac roeddynt wedi canfod llety parhaol yn y sector rhentu preifat, er bod un hefyd wedi mynd i fwy na £1000 mewn dyled yn ystod ei chyfnod yn y lloches. Nid oedd y trydydd person yn teimlo bod pobl yn deall ei amgylchiadau na'u bod wedi'u cydnabod yn iawn gan staff Atebion Tai:

'Iddyn nhw doedd y gamdriniaeth yr oeddwn i'n mynd drwyddi'n ddim, ond eto mae rhywun yn sgrechian arnoch yn eich wyneb, yn gweiddi, bygwth a phopeth, ac rydych yn ei ddioddef am flynyddoedd. Yn ôl nhw, nid camdriniaeth oedd hynny go iawn... .. Fe wnaeth wirioneddol fy nigelonni roedd yn ddiystyriol iawn, diystyriol iawn.' (SU, A4)

- 8.77 Ni chafodd y defnyddiwr gwasanaeth hwn unrhyw gefnogaeth gan yr awdurdod lleol tan i sefydliad trydydd sector ymyrryd. Gyda'u hymyriad fe'i rhoddwyd mewn tŷ cymdeithasol ac mae ei hamgylchiadau wedi gwella.
- 8.78 Dywedodd darparwyr gwasanaethau fod cefnogaeth ar gael yn ardaloedd eu hawdurdod lleol i bobl sy'n ffoi rhag trais a chamdriniaeth ddomestig ond bod heriau, er hynny, yn parhau wrth gynorthwyo pobl i gael llety. Roedd y rhain yn adlewyrchu nifer o'r heriau ehangach sydd eisoes wedi'u trafod, megis cymhlethdod cynyddol amgylchiadau pobl lle mai un o lu o faterion yn unig yw camdriniaeth ddomestig.
- 8.79 Roedd nifer fach o ddarparwyr gwasanaethau o'r farn ei bod hi'n haws darparu cefnogaeth dan y Ddeddf newydd gan fod: *'y trothwy rheswm-i-gredu yn eithaf isel'*, ond roedd cytundeb eang nad oedd hyn yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, roedd darparwyr gwasanaethau eraill yn gwrthod hyn a dywedodd fod nifer helaeth y dystiolaeth oedd ei hangen arnynt i wirio trais neu gamdriniaeth wedi digwydd. Penderfyniadau cychwynnol ar

hyn at ei gilydd a bennai lwybr dynes drwy'r system - rhoddwyd bandiau uwch ar gyfer tai cymdeithasol i'r rhai a roddwyd mewn lloches yn syth, rhywbeth oedd yn eu cynorthwyo i symud i denantiaeth yn gyflymach. Roedd y mater ynghylch prawf yn allweddol, fel y dywedodd un aelod o staff yr hostel: *'Mae'n debyg nad yw pobl sy'n ffoi o drais domestig yn mynd â'u holl adroddiadau tyst a phethau fel hynna efo nhw'*. (TS, A2) Roeddent hefyd yn teimlo bod diffyg sensitifrwydd yn y modd y câi merched eu trin:

'Mae'n ddigon anodd i'r bobl hyn ddod ymlaen a dweud wrth bobl beth sy'n digwydd heb ofyn allan nhw aros un noson arall, pan fo ofn arnynt.' (TS, A6)

- 8.80 Cyfeiriwyd hefyd at fasnachu fel mater mewn tair o'r ardaloedd . Roedd yr achosion hyn yn codi heriau penodol i'r trydydd sector, gan nad oeddent yn gallu cael cymorth neu fudd-dal tai i dalu costau lloches ar gyfer dioddefwyr masnachu.

Cyn-droseddwy

- 8.81 Datgelodd yr arolwg o'r awdurdodau lleol bod newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i bobl sy'n gadael carchar²⁹ neu lety cadw ieuencid hefyd yn weddol gyffredin (wyth awdurdod lleol). Ymhlith y rhesymau mae cyflwyno / gwella llwybr carchar, gweithwyr PREP a phaneli ailsefydlu. Er enghraifft:

'Rydym wedi ariannu gweithiwr PREP ar y cyd, gan ddefnyddio cyllid trosiannol ... Caiff pawb sy'n gadael y carchar eu hatgyfeirio at y gweithiwr PREP'.

- 8.82 Roedd dau awdurdod lleol yn canolbwyntio ar bobl ifanc, gydag un wedi 'sefydlu llwybr cadarnhaol pobl ifanc', ac un arall wedi cyflogi Gweithiwr Cymdeithasol / Swyddog Llety cymwys fel yr amlinellwyd uchod. Teimlai tri awdurdod lleol bod angen gwneud newidiadau pellach o hyd. Mynegodd un o'r rhain bryderon ynghylch 'Dal i gael gwybod yn hwyr iawn am bob sy'n gadael y carchar a / neu ddiffyg asesiadau risg / atgyfeiriadau manwl'. Dywedodd un arall:

'Ydi, mae'r llwybr yno ond mae'n achosi problemau ac mae pobl sy'n gadael y carchar yn dal i lithro drwy'r rhwyd ac mae yna ddryswch [ynghylch] cefnogaeth Cyfiawnder Cymru'.

- 8.83 Wrth esbonio pam nad oeddent wedi gwneud newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor i bobl sy'n gadael carchar neu garcharorion ifanc, cyfeiriodd wyth awdurdod lleol at y ffaith bod ganddynt systemau oedd wedi'u sefydlu cyn i'r Ddeddf ddod i mewn neu yn

²⁹ Mae'n bwysig nodi fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Gwerthusiad o Wasanaethau Digartrefedd yn yr Ystad Ddiogeled (Cymru) a chynhaliwyd y prosiect hwn yr un pryd â'r astudiaeth hon.

syth ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Yn fwy penodol, swyddog Ailsefydlu Carcharorion oedd y rhain. Dywedodd un awdurdod lleol bod eu protocol *'yn cael ei adolygu ar hyn o bryd'*, a dywedodd un awdurdod lleol arall bod y system yn ddiffygiol yn eu barn nhw:

'Rydym yn parhau i ddilyn y Llwybr Carchardai ar gyfer Troseddwyr Digartref yn Gadael yr Ystad Ddiogeled, er ein bod o'r farn bod hwn yn ddiffygiol mewn sawl agwedd. Mae gohebiaeth gan y carchardai a'r gwasanaethau cysylltiedig yn wael'.

8.84 O'r un ar bymtheg o ymatebwyr yn ail don yr ymchwil oedd wedi bod yn y carchar yn flaenorol, roedd wyth wedi bod yn y carchar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni ddywedodd yr un ohonynt fod hyn yn rhwystr rhag dod i mewn i'r system dai na chael cefnogaeth, ond dywedodd dau berson ei fod yn gwneud dod o hyd i waith yn anos.

8.85 Mae'r Ddeddf yn newid mawr o'r ddeddfwriaeth flaenorol wrth ddileu angen blaenoriaethol awtomatig i'r rhai sy'n gadael y carchar. Ar yr un pryd, mae'r Llwybr yn argymhell bod carcharor yn gwneud cais am dŷ hyd at chwe deg chwe diwrnod cyn ei ryddhau. Felly mae un awdurdod lleol, er enghraifft, wedi *'ymgorffori hynny yn y polisi dyraniadau fel bod staff dyrannu'n ymwybodol bod unrhyw beth sy'n dod o opsiynau tai, o leiaf 66 diwrnod cyn eu rhyddhau, yn mynd ymlaen i'r rhestr ac y cânt eu trin fel unrhyw gais arall am dŷ a cânt eu bandio'n unol â hynny ... Felly pan ddaw'r person hwnnw allan, hyd yn oed os bydd angen iddo fynd i lety dros dro, mae wedi cronni dau fis fel amser aros mewn band ar y rhestr'* (ALI, A6).

8.86 Fodd bynnag, nid oedd darparwyr gwasanaethau'n teimlo bod y Llwybr Carcharorion Cenedlaethol yn gweithio fel y'i bwriadwyd. Câi cyfathrebu ei ystyried yn aml yn annigonol neu'n ddiffygiol:

'Y rhai y byddwn yn eu cael fyddwn ni byth yn eu gweld, a'r rhai sy'n troi i fyny heb unrhyw rybudd, mae'r rhai sydd wedi cwblhau'r gwaith papur yn y carchar yn rhwystredig nad oes unrhyw beth yn dod ohono beth bynnag, felly maen nhw'n troi i fyny gydag ychydig o agwedd, yn niffyg gair arall. 'Pam ydw i'n ôl yma, 'ta, cariad? Rydych chi wedi cael yr holl wybodaeth yma'n barod.' (ALI, A3)

8.87 Felly, nid oedd unrhyw ddarparwyr gwasanaethau'n teimlo bod eu hawdurdod wedi llwyddo i sicrhau trosglwyddiad esmwyth o'r carchar i lety parhaol. Roedd hyn er gwaethaf cydnabyddiaeth ei bod yn angenrheidiol rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n gadael carchar, gan fod llawer ohonynt ag angen blaenoriaethol am resymau eraill.

- 8.88 Datganodd rhai darparwyr gwasanaethau fod gwneud i ffwrdd ag angen blaenoriaethol i garcharorion wedi bod yn gamgymeriad.

'Rwy'n meddwl nad yw peidio â chartrefu carcharor o fudd i ni fel awdurdod lleol mewn mannau eraill ... mae'n cael effaith ar eich gwasanaethau iechyd a'ch gwasanaeth cyfiawnder a phopeth arall o ganlyniad i'r person hwnnw adael y carchar, ddim ag angen blaenoriaethol, a'r tebygolrwydd o aildroseddu, mae'n eithaf gwrthgynhyrchiol mewn ffordd ... ' (ALI, A4)

- 8.89 Dywedodd darparwyr gwasanaethau hefyd fod oedran defnyddwyr gwasanaethau mewn rhaglenni troseddwyd ifanc wedi gostwng, gan godi pryderon eraill ynghylch diogelu. Dywedodd darparwyr gwasanaethau fod y sefyllfa o ran y cyswllt carchardai³⁰ yn hanfodol o gofio'r anhawster wrth gefnogi'r rhai a adawodd y carchar a'r tebygolrwydd y byddant yn cysgu allan, ac y dylid parhau i ariannu. Rhoddwyd pwyslais ar draws pob ardal ar weithio mewn partneriaeth yn unol ag ysbryd Rhan 2 y Ddeddf Tai:

'Rydyn ni'n eithaf ffodus, gyda'r swydd [swyddog cyswllt carchardai], ar hyn o bryd y gallwn fynd i mewn i garchardai oherwydd ein cyswllt, a ... rydych chi'n creu'r berthynas honno, felly byddwch chi'n gwybod pa rai sy'n agored i niwed. Mae'n her enfawr, gan eu bod mor anhrefnus, yn y carchar ac oddi allan. Mae cynnal tenantiaeth yn anodd iawn, felly, ydw, rwy'n meddwl bod rhywbeth ar goll iddynt' (TS, A1)

- 8.90 Felly, ar draws y chwe ardal, roedd dod o hyd i lety addas i gyn-droseddwyd yn her sylweddol. Un rheswm dros hyn oedd diffyg eiddo un ystafell wely.

'Unwaith eto maen nhw'n tueddu i fod yn bobl sengl, onid ydynt? Dyna pam eu bod yn anodd eu cartrefi ac allwch chi ddim defnyddio llety a rennir, ac ychydig iawn o lety i bobl sengl sydd gennym, ac yna mae yna broblem o ble y gellir eu lleoli' (ALI, A6)

- 8.91 Her arall oedd sicrhau llety rhent preifat. Roedd rhesymau logistaidd am hyn, amseriad cychwyn tenantiaeth a'r gallu i dalu rhent i'w sicrhau:

'Ond mewn gwirionedd, mae cael landlord i dderbyn rhywun sydd ar hyn o bryd yn y carchar bron yn amhosib, ac wedyn eu cael i aros tan y dyddiad rhyddhau o'r carchar, nid oes gennym arian i dalu cymaint o rent â hynny, felly pan fydd eiddo'n dod ar gael, mae'r landlord eisiau ei lenwi heddiw.' (TS, A2)

³⁰ Ariennir swyddi Swyddog Adsefydlu Carchardai trwy arian trosiannol Llywodraeth Cymru

- 8.92 Yn ogystal, dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau fod cael llety landlord cymdeithasol cofrestredig yn broblemus:

'Mae angen i mi orfodi'r gymdeithas dai - nawr nad oes gennym stoc - i fynd â'r cleient hwn, ac os yw'r ... cymdeithasau tai yn dweud na, mae'r cymdeithasau tai yn dweud na.' (ALI, A3)

- 8.93 Dywedodd awdurdodau lleol nad oedd y rhai oedd yn gadael y carchar na'r swyddogion prawf oedd yn gweithio gyda nhw'n deall yr anawsterau hyn yn dda:

'Wel, rwy'n credu bod y gwasanaeth prawf yn credu y gallwn ni roi tŷ i unrhyw un yn unrhyw le, unrhyw bryd' (ALI, A2).

- 8.94 Roedd dod o hyd i dai yn arbennig o anodd i'r rhai sy'n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

'Mae gennych MAPPA 3s / 2s / 1s sydd i fod i gael eu monitro'n agos ac maen nhw'n byw mewn siediau, maent yn syrffio soffas. Mae'n broblem enfawr, enfawr. ... Cysylltodd cydlynnydd MAPPA â ni ... mae'n tynnu gwallt ei ben. Mae'n dweud, 'Mae gennym eiddo cymeradwy, ond yna nid oes unrhyw le i'w symud o'r eiddo cymeradwy hynny.' (TS, A4).

Pobl â nodweddion gwarchodedig

- 8.95 Yn yr arolwg o'r awdurdodau lleol dywedwyd y bu lawer llai o newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn y tri awdurdod lleol sy'n gwneud newidiadau, mae esboniadau'n cynnwys hyfforddiant uwch mewn un awdurdod lleol ar anghenion penodol y grŵp cleientiaid hwn, a chreu swydd newydd swyddog cyswllt iechyd meddwl mewn un arall.
- 8.96 Dywedodd dau awdurdod lleol nad oeddent wedi gwneud newidiadau oherwydd bod ganddynt eisoes weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn *'gallu cael at bob gwasanaeth'* a pharhau i *'gynnig ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal mewn modd mor amrywiol ag y bo'n briodol i'r anghenion unigol'*. I un awdurdod lleol, er na fu newid i'r gwasanaeth fel y cyfryw, roedd yna synnwyr bod yna bellach *'fwy o ymwybyddiaeth i staff ystyried y rhain'*.
- 8.97 Dim ond pum awdurdod lleol a ddywedodd y bu newidiadau i sicrhau llety i bobl â *'nodweddion gwarchodedig'* eraill. Cyfeiriodd tri o'r rhain at ddiffyg llety o ran *'llety â chymorth'*, *'eiddo mynediad gwastad'*, a bod *'y sector rhentu preifat yn dod yn llai*

fforddiadwy - oherwydd Diwygio Lles'. Dywedodd un awdurdod lleol bod llwybr rhywedd benodol wedi'i ddatblygu i sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael 'cefnogaeth gofleidiol lawn'. Ni chynigiwyd unrhyw esboniad gan y rhai nad ydynt wedi gwneud newidiadau.

Cyn-swyddogion milwrol

- 8.98 Yn 2017, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn-swyddogion Milwrol. Dywedodd pedwar awdurdod lleol iddynt wneud newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i bobl sy'n gadael lluoedd arfog parhaol y Goron. Ymhlith yr esboniadau mae hyfforddiant ar gyfer swyddogion tai *'i amlygu anghenion penodol y grŵp cleient penodol hwn'*, gan dynnu sylw at y ffaith bod y grŵp hwn yn *'flaenoriaeth ar gyfer cymorth'*. Mae un awdurdod lleol yn bwriadu cynnal ymarfer cwmpasu i nodi anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn. Y bwriad yw y bydd yr adolygiad *'yn cynnwys holl wasanaethau'r awdurdod lleol, gyda Thai yn brif faes gwasanaeth'*. Dywedodd un ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol eu bod yn gweithio'n agosach â'r trydydd sector a bod ganddynt hyrwyddwr Lluoedd Arfog yn eu tîm:

'Rydym yn gweithio'n agosach â'r trydydd sector lleol a grwpiau gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar gyn-filwyr ac mae gennym gysylltiadau â gweithwyr sy'n cefnogi gwaith cyflwyno ac adolygu Cyfamod y Lluoedd Arfog ... Mae gennym swyddog pwrpasol sy'n Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ac rydym wedi gweithio gyda'n Hyb Cyn-filwyr lleol i greu Taflen Ffeithiau'r Lluoedd Arfog'.

- 8.99 Y rhesymau pennaf dros beidio â gwneud newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor i bobl sy'n gadael y lluoedd arfog oedd bod ganddynt brosesau yn eu lle (pum awdurdod lleol), gan gynnwys statws blaenoriaeth ar gofrestrau tai ac ymuno â'r Cyfamod. Fodd bynnag, dywedodd un o'r rhain bod cynllun i *'ymestyn ymrwymiad i gefnogwyr lluoedd arfog a'u teuluoedd'*. Cyfeiriodd dau ymatebwr arall mai ychydig sydd wedi dod atynt yn dweud eu bod yn ddigartref.


Monitro Cydraddoldeb

- 8.100 Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod monitro cydraddoldeb ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn wael (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). Dim ond lleiafrif o ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol oedd yn nodi bod eu hawdurdod lleol yn monitro mwy ar gydraddoldeb ers cyflwyno'r Ddeddf, bod y monitro cydraddoldeb yn fwy effeithiol, neu fod

y gwaith monitro cydraddoldeb yn llywio'u gweithgarwch dan Ran 2 y Ddeddf. Fodd bynnag, mae hyn yn rhywfaint o gynnydd mewn monitro cydraddoldeb a'i effeithiolrwydd canfyddedig ers yr arolwg o'r don gyntaf pan oedd saith ymatebwr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod eu hawdurdod lleol yn monitro mwy ar gydraddoldeb ac roedd chwech yn anghytuno / yn anghytuno'n gryf ei fod yn fwy effeithiol. Mae'n llai eglur a fu cynnydd yn nifer yr awdurdodau lleol oedd yn defnyddio gwaith monitro cydraddoldeb i lywio'u gweithgarwch: bu i wyth awdurdod lleol gytuno neu gytuno'n gryf yn yr arolwg o'r don gyntaf, tra bo chwech yn anghytuno.

8.101 Ychydig o newidiadau y soniwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y modd y mae awdurdodau lleol yn monitro effaith y Ddeddf ar ddefnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys pobl sengl, pobl sy'n cysgu allan, pobl â 'nodweddion gwarchodedig', a phobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol). Dywedodd tri ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol y bu newidiadau yn ystod yr amser hwn, a dywedodd 19 nad oedd. Eglurodd y rhai sy'n gwneud newidiadau mai'r rhesymau am hyn oedd 'casglu data gwell', cyflwyno Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl i gynnal asesiadau iechyd meddwl a lles, a system TG integredig newydd.

Ffigur 36: Barn am fonitro cydraddoldeb (N=22)



8.102 Gellir gweld hyn hefyd yn ymatebion dau awdurdod lleol a ddywedodd y bu newid yn y modd y bu eu hawdurdod yn defnyddio data monitro cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod ugain yn nodi na fu newid. Eglurodd yr unig ymatebwr i gynnig eglurhad pellach am y newid hwn fod eu Swyddog Cyswllt Iechyd Meddwl bellach yn cynnal asesiad iechyd meddwl a lles.

Crynodeb

- 8.103 Ar draws yr awdurdodau lleol, roedd nifer fwyaf y newidiadau yn y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â phobl sy'n cysgu allan, ac yna bobl sengl, pobl ifanc sy'n gadael gofal, a phobl sy'n gadael carchar neu lety ieuenctid. Mwy o gydlynw gwasanaethau yw'r prif newid wrth i awdurdodau lleol geisio ymateb i anghenion y grwpiau hyn.
- 8.104 Roedd ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn nodi mai ar gyfer pobl sengl oedd nifer fwyaf y newidiadau i sicrhau llety yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yna ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, a phobl sy'n cysgu allan. Y teimlad oedd bod llety'n mynd yn anos i'w sicrhau i bob un o'r grwpiau hyn, gan olygu bod rhai awdurdodau lleol yn dechrau ymchwilio i strategaethau megis Tai Amlfeddiannaeth a Thai yn Gyntaf.
- 8.105 Bu ychydig o gynnydd mewn monitro cydraddoldeb a'i effeithiolrwydd canfyddedig, er ei bod yn llai clir i ba raddau y mae hyn yn golygu mwy o weithgarwch mwy gwybodus yn yr awdurdod lleol.³¹ Fodd bynnag, ar draws awdurdodau, nid yw'r gwaith monitro cydraddoldeb yn gadarn.
- 8.106 Dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol na fu unrhyw newid yn y flwyddyn ddiwethaf i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor i'r grwpiau penodol dan adran 60 (4). Y newidiadau yr adroddir amlaf yn eu cylch yw'r rhai ar gyfer pobl sy'n gadael carchar neu lety ieuenctid, a phobl ifanc sy'n gadael gofal. O ran yr awdurdodau lleol na wnaethant newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf, y prif reswm oedd bod ganddynt eisoes systemau yn eu lle.
- 8.107 Dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol hefyd na fu unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghor ar gyfer grwpiau eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y newidiadau yr adroddwyd arnynt amlaf yn ymwneud â phobl oedd yn cysgu allan a phobl sengl. Prif resymau'r rhai nad ydynt wedi gwneud newidiadau yn y flwyddyn ddiwethaf yw bod ganddynt eisoes systemau yn eu lle neu nid oeddynt yn eu hystyried yn angenrheidiol.
- 8.108 Er nad yw pobl sengl yn *'grŵp sy'n agored i newid'* fel y cyfryw, nid oeddynt yn gyffredinol yn cael canlyniadau cadarnhaol dan yr hen ddeddfwriaeth (yn bennaf oherwydd nad oeddent yn cael eu hystyried ag angen blaenoriaethol). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod pobl sengl yn gwneud dim gwell ers cyflwyno'r Ddeddf newydd, a chadarnheir hyn gan dystiolaeth arall sy'n dangos mai defnyddwyr unigol (a rhai *nad ydynt*

³¹ Mae casgliad o gydraddoldebau'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

yn flaenoriaeth) at ei gilydd sy'n aros heb ateb ar ôl tri cham ymyrraeth statudol (Fitzpatrick et al, 2017). Ymhellach, dywedodd 13 awdurdod lleol ei bod yn mynd yn anos sicrhau llety i bobl sengl. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg mewn cyflenwad a materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd. Mae'r problemau hyn hefyd yn cael eu cymhlethu gan gymhlethdod cynyddol anghenion pobl.

- 8.109 Nododd darparwyr gwasanaethau fod nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r Cyngor yn dweud eu bod yn ddigartref / dan fygythiad digartrefedd yn cynyddu, ac unwaith eto, mae ganddynt lu o anghenion o ran cymorth, yn cynnwys materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r cymorth bychan sydd i bobl dan 35 oed hefyd yn cael ei weld yn broblemus gan fod heriau wrth leoli pobl sy'n agored i niwed ag anghenion cymhleth a lluosog mewn llety a rennir.
- 8.110 I ddarparwyr gwasanaethau, sicrhau llety i bobl â phroblemau iechyd meddwl oedd y mater mwyaf heriol. Yn ogystal â hyn, dywedodd nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaethau fod ganddynt iechyd meddwl gwael ac roedd bod mewn amgylchiadau tai anghyffredin yn gwaethygu hyn.
- 8.111 O ran iechyd meddwl, problem sylweddol yw nad yw pobl heb ddiagnosis, neu sydd heb gael gwasanaethau eilaidd, yn cael cefnogaeth briodol. Mae yna heriau hefyd i bobl nad ydynt yn cwrdd â 'throthwy', ac nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymwys i gael cymorth gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl mwy difrifol hefyd yn wynebu problemau pan nad oes cefnogaeth briodol. Gwaethygir problemau iechyd meddwl yn aml gan gamddefnyddio sylweddau, sydd eto'n her i'r darparwyr gwasanaethau. Mae yna hefyd broblemau rhwng gwasanaethau tai a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl wrth weithio mewn partneriaeth.
- 8.112 Nid oedd y rhai sy'n gadael gofal yn y sampl wedi gadael y system gofal yn ddiweddar. Fodd bynnag, ymddengys bod profiadau blaenorol o fod yn y system gofal yn cael effaith tymor hir ar eu sefydlogrwydd tai. Mae'n anodd dweud a yw ansefydlogrwydd o'r fath yn ganlyniad uniongyrchol i hyn ond ymddengys fod profiadau o fod yn agored i niwed yn flaenorol yn parhau.
- 8.113 Mae'r ddarpariaeth i bobl sy'n dioddef trais a chamdriniaeth ddomestig yn parhau'n heriol, yn enwedig oherwydd cymhlethdod cynyddol amgylchiadau unigol. Mewn rhai achosion, mynegodd defnyddwyr gwasanaethau bryderon a oedd '*pobl yn eu credu*' yn y man cyswllt cyntaf, ac ynghylch y dystiolaeth y gofynnwyd iddynt ei darparu. Ymddengys bod hyn yn cael effaith sylweddol ar y canlyniad.

- 8.114 Nid oedd darparwyr gwasanaethau'n teimlo bod y Llwybr Carcharorion Cenedlaethol yn gweithredu fel y dylai. Nodwyd enghreifftiau cadarnhaol lle'r oedd Swyddog Ailsefydlu Carchardai yn ei le. Roedd adroddiadau bod landlordiaid preifat yn gwrthod ailgartrefu cyn-droseddwy'r ac anawsterau gyda phrinder cyffredinol o letyau (person sengl yn bennaf).
- 8.115 Mae cysgu allan wedi cynyddu ledled Cymru. Yn ôl cyfrif³² Llywodraeth Cynulliad Cymru amcangyfrifir y bu 345 o bobl yn cysgu allan ar draws Cymru gyfan yn ystod y ddwy wythnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017. Mae hyn yn gynnydd o 10 y cant (32 o bobl) o'i gymharu â'r ymarferiad a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Dywedodd awdurdodau lleol bod 188 o unigolion wedi'u gweld yn cysgu allan ar draws Cymru rhwng 10pm ar y 9fed a 5am ar y 10fed o Dachwedd 2017. Roedd hwn yn gynnydd o draean (47 o bobl) ar y flwyddyn flaenorol³³.
- 8.116 Nododd darparwyr gwasanaethau bod anawsterau wrth gynorthwyo pobl oedd yn cysgu allan, gan ei fod eisoes yn rhy hwyr eu hatal rhag bod yn ddigartref ac yn aml roedd gan bobl broblemau oedd wedi'u hen sefydlu, er enghraifft materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Dywedodd awdurdodau lleol bod 233 o leoedd gwely brys ar draws Cymru. O'r rhain, roedd 42 (18 y cant) yn wag ac ar gael ar noson y cyfrif ciplun. Mewn deg awdurdod lleol a ddywedodd bod pobl yn cysgu allan noson y cyfrif, nid oedd unrhyw lefydd gwag brys ar gael. Nododd darparwyr gwasanaethau bod prinder llety dros dro / hostel yn broblem, a bod bwlch mewn llety dros dro sy'n goddef camddefnyddio alcohol a sylweddau.

³² gov.wales/statistics-and-research/national-rough-sleeping-count/?lang

³³ gov.wales/statistics-and-research/national-rough-sleeping-count/?lang

9. Y Sector Rhentu Preifat

Cyflwyniad

- 9.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno data o'r arolwg o'r awdurdodau lleol, a chanfyddiadau o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau ar draws y chwe maes astudiaeth achos mewn perthynas â'r sector rhentu preifat. Cyflwynir y bennod dan y penawdau a ganlyn: canfyddiadau o'r arolwg o'r awdurdodau lleol; cyfleoedd a heriau wrth ddefnyddio'r sector rhentu preifat; diffyg darpariaeth fforddiadwy; amodau eiddo; diogelwch daliadaeth; credyd, atgyfeiriadau, bondiau a gwarantwyr; Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol a Lwfans Tai Lleol; Rhentu Doeth Cymru a rheoleiddio; asiantaethau gosod; ac asiantaethau gosod tai cymdeithasol.

Canfyddiadau'r arolwg o'r awdurdodau lleol

- 9.2 Dangosodd yr arolwg fod hanner yr awdurdodau lleol wedi nodi bod mwy o weithio mewn partneriaeth â'r sector rhentu preifat (nododd pedwar bod cynnydd sylweddol a saith bod cynnydd bychan), gan wneud hwn yn un o'r meysydd â'r cynnydd mwyaf o ran gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru. Dywedodd deg awdurdod lleol na fu unrhyw newid a dywedodd un y bu gostyngiad sylweddol. O'r awdurdodau lleol hynny a ddywedodd y bu cynnydd sylweddol, dywedodd un bod hyn er mwyn *'sicrhau ein bod yn gallu atal achosion o golli llety yn y sector rhentu preifat cyn troi rhywun allan'*. Roedd dau ymatebwr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol yn priodoli'r cynnydd sylweddol i fod ag asiantaeth gosod tai cymdeithasol, gydag un yn ychwanegu y câi hyn ei gefnogi gan gyllid trosiannol, a'r llall yn datgan bod *'adnoddau sylweddol yn cael eu defnyddio'*.
- 9.3 Cyfeiriodd pedwar o'r awdurdodau lleol a nododd gynnydd bychan at gynlluniau penodol, gan gynnwys asiantaethau gosod tai cymdeithasol a gwasanaeth canfod tenantiaid. Roedd un awdurdod lleol arall wedi cynyddu'r gwaith yr oeddynt yn ei wneud mewn partneriaeth trwy ddefnyddio pwynt cyswllt sengl gyda'r sector rhentu preifat oedd yn eu galluogi i gael:
- 'Gwell cysylltiadau gan y swyddog llety ... mae gan landlordiaid un pwynt cyswllt sengl nawr sy'n gwella'r berthynas rhwng y sector rhentu preifat a'r cyngor'*.
- 9.4 Roedd dau o'r ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd nad oedd unrhyw newid yn priodoli hyn i waith parhaus, gan gynnwys bod â 'swyddog landlord preifat' yn ei le. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebwr arall o'r awdurdodau lleol nad oeddent wedi gallu cynyddu gwaith partneriaeth oherwydd 'diffyg llety fforddiadwy'. Nodwyd hefyd fforddiadwyedd hefyd gan

ymatebwr i'r arolwg oedd yn nodi gostyngiad sylweddol mewn defnyddio'r sector rhentu preifat:

'Mae llai o landlordiaid yn mynegi diddordeb mewn gweithio gyda'r awdurdod lleol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rhenti'n anfforddiadwy i'r rhai sydd ar fudd-daliadau. Mae cyfraddau awdurdodau tai lleol yn eithriadol o isel yn yr ardal hon ac nid ydynt yn adlewyrchiad cywir o renti yn yr ardal hon'.

Cyfleoedd a heriau wrth ddefnyddio'r sector rhentu preifat

- 9.5 Nododd y darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau gyfleoedd a heriau mewn perthynas â defnyddio'r sector rhentu preifat. Fel yr oedd yn amlwg yn y rownd gychwynnol o gyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaethau, roedd y mwyafrif yn nodi bod yn well ganddynt dai cymdeithasol, ac roedd nifer sylweddol yn wynebu digartrefedd oherwydd bod tenantiaethau yn dod i ben neu eu bod wedi cael anawsterau yn y sector rhentu preifat. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio rhyw gymaint yn ôl ardal gan ddibynnu ar faint o letyau fforddiadwy oedd ar gael. Yn fwy penodol, mewn dwy ardal astudiaeth achos, dywedodd mwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau ei bod yn anodd iawn cael llety rhent preifat, er eu bod wedi cael gwybod gan Atebion Tai mai dyma oedd eu hunig opsiwn a rhoddwyd i rai cwtotâu asiantiaid neu eiddo i ymweld â nhw. Dywedodd un defnyddiwr gwasanaethau:

'O, mae'n amhosibl, mae hi. Dw i ddim yn gwybod sut mae pobl yn llwyddo i wneud hyn. Rwy'n meddwl oni bai eich bod chi'n 'nabod landlord, neu os yw eich rhieni'n 'nabod rhywun, dw i ddim yn meddwl ei fod yn bosib, dydw i ddim. Mi fyddai'n rhaid i chi fod yn lwcus iawn.' (DG, A2)

- 9.6 Disgrifiodd defnyddiwr gwasanaethau arall fod y broses o chwilio am lety sector rhentu preifat fel cystadleuaeth ag eraill am adnodd prin, gan arwain at ganlyniadau torcalonnus pan nad oeddent yn llwyddiannus:

'Fe wnaethon nhw ddangos fflat i mi i lawr yn [y dref] a'r hyn nad wyf yn ei hoffi yw eu bod wedi dangos y fflat i bump o bobl, efallai, cyn chi, ac efallai na fydddech yn ei gael, felly gwastraff amser ac arian yw mynd i lawr yno i'w weld.' (DG, A1)

- 9.7 Teimlai rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol nad oedd y sector rhentu preifat yn ateb tymor hir delfrydol i ddatrys digartrefedd gan ei fod yn anfforddiadwy i lawer o bobl. Roeddent hefyd yn teimlo bod defnyddwyr gwasanaethau'n amharod i fynd i'r sector rhentu preifat am ystod o resymau, yn cynnwys: profiadau gwael blaenorol; lleoliadau

eiddo yn annymunol neu anghyfleus; ansawdd gwael y llety; rhenti uchel; natur tymor byr tenantiaethau; ac ansicrwydd a disgwyl cael eu troi allan, fel y dangosir gan y dyfyniadau a ganlyn:

'Mae pobl wedi bod yn gyndyn iawn yn y gorffennol i gymryd llety preifat, oherwydd eu bod wedi cael profiadau gwael gyda landlordiaid ac maen nhw fel,' Dydw i ddim eisiau symud mewn chwe mis.' (ALI, A1)

'Tymor byr yw'r sector rhentu preifat, iddyn nhw dydych chi ddim yn cael yr ansawdd, dydych chi ddim yn cael yr hawliau y gallech chi eu cael yn eich tai cymdeithasol' (ALI, A2).

- 9.8 Fodd bynnag, dywedodd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol eraill bod rhai landlordiaid yn amharod derbyn tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau lles, sydd ag anghenion cymhleth, neu a oedd wedi bod yn ddigartref o'r blaen hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle'r oedd defnyddwyr gwasanaethau'n fodlon cael eu hailgartrefu yn y sector rhentu preifat. Cyfeiriwyd at heriau mwy arwyddocaol o ran ailgartrefu cyn-droseddwyr:

'Mae ceisio troi landlordiaid i gymryd cleientiaid sy'n derbyn budd-daliadau neu gleientiaid sydd ar y gofrestr ddigartref yn ddigon anodd, ac rydym yn ymwybodol, os ydym yn cael landlord sydd â chasgliad o eiddo, rydym eisiau ei gadw ar ein hochr ni, felly mae gennym fwy na digon o gleientiaid i geisio mynd i mewn i'r sector rhentu preifat a chadw landlordiaid yn hapus, heb ychwanegu carcharorion i'r gymysgedd.' (ALI, A2)

- 9.9 Mae'r enghraifft hon gan ddarparwr gwasanaethau awdurdodau lleol yn pwysleisio ei bod hi'n bwysig cynnal perthynas dda gyda landlordiaid preifat gan eu bod yn dibynnu ar lety'r sector rhentu preifat i ailgartrefu pobl. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlygu tensiwn, lle gall landlordiaid preifat edrych yn negyddol ar rai defnyddwyr, yn enwedig y rhai hynny sydd â bywydau anhrefnus neu anghenion mwy cymhleth. Fodd bynnag, nid oedd holl ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn rhannu'r farn hon, na darparwyr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r trydydd sector, gan fod rhai yn dweud fod ganddynt berthynas dda gyda landlordiaid preifat oedd yn fodlon cefnogi defnyddwyr gwasanaethau mewn tenantiaethau tymor hir.

- 9.10 Roedd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn gwahaniaethu rhwng arferion landlordiaid bychain gydag un neu ddau eiddo, yn aml *'landlordiaid damweiniol'* a allai fod wedi etifeddu'r eiddo, a'r rhai sydd ag eiddo mawr.

Awgrymwyd y gallai mwy o gymhellion gan Lywodraeth Cymru gynorthwyo landlordiaid llai i aros yn agored i dderbyn atgyfeiriadau gan Atebion Tai gan fod rhywfaint o wrthwynebiad i dderbyn pobl sy'n derbyn budd-daliadau lles: *'os edrychwch ar yr hysbysebion, prin yw'r rhai sy'n dweud yn glir y byddant yn derbyn pobl ar fudd-daliadau'* (TS, A1).

- 9.11 Dywedodd deuddeg o ddefnyddwyr gwasanaethau, ar draws dau faes, na fyddai'r rhan fwyaf o landlordiaid ac asiantiaid yn derbyn pobl oedd yn derbyn budd-daliadau: *'Byddwn i'n dweud na fydd 90 y cant yn cymryd pobl ar Fudd-daliadau Tai. Dyma'r gwahaniaethu derbyniol newydd ac wnawn nhw ddim ei gymryd.'* (DG, A2).
- 9.12 Cymharwyd y syniad bod angen cymhellion i landlordiaid preifat iddynt ailgartrefu pobl â'r ffyrdd yr oedd awdurdodau lleol wedi derbyn cymorth ariannol trwy gyllid trosiannol. Awgrymodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos y gallai cymhellion fynd yn groes i rai o arferion landlordiaid oedd yn eithrio pobl oedd wedi bod yn ddigartref.
- 9.13 Roedd darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector yn arbennig yn gweld mai ychydig o gyfleoedd oedd yna i bobl sy'n derbyn budd-daliadau lles. Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau bod rhai landlordiaid preifat yn teimlo nad oedd pobl sy'n derbyn budd-daliadau lles yn 'denantiaid da', neu y gallai fod yna broblemau ynghylch peidio â thalu rhent.
- 9.14 Tynnodd darparwyr gwasanaethau eraill sylw at y ffyrdd y gallai landlordiaid preifat reoli pwy yr oeddent yn gosod eiddo iddo, a'u bod weithiau'n barnu'n ddi-sail wrth ddewis rhwng gwahanol bobl sy'n chwilio am gartref. Er enghraifft, mewn un ardal astudiaeth achos awgrymwyd gan ddarparwr gwasanaethau trydydd sector bod gan brosiect digartrefedd enw gwael a byddai rhai landlordiaid yn rhagfarnu unigolion oedd yn cael eu cartrefu yno dros dro, gan wrthod ystyried eu cais am eiddo:

'Mae'r tîm sector rhentu preifat wedi'ch codi chi ac mi ddywedan nhw, wel, rydych chi'n addas ar gyfer yr eiddo hwnnw, mi fyddwch chi a phedwar o bobl eraill, yn cael eich atgyfeirio ar gyfer yr eiddo hwnnw. Rydych chi'n mynd i weld y tŷ ac yna dywed y landlord, 'O na, dyn ni ddim eisiau rhywun o [Hostel] oherwydd bod gan [Hostel] enw o fod o bosib ag anhrefn llwyr yn perthyn iddo, yn cartrefu pobl mewn argyfwng, pobl anodd, tra bod gan brosiectau eraill enw ychydig gwell ac felly byddant yn naturiol yn eu dewis nhw.' (TS, A2)

- 9.15 Roedd y darparwr gwasanaethau hwn o'r farn y byddai blaenoriaethau busnes rhai landlordiaid preifat bob amser yn cael blaenoriaeth dros unrhyw bryderon eraill. Awgrymodd darparwyr gwasanaethau eraill ar draws sectorau hefyd fod amharodrwydd landlordiaid preifat i dderbyn pobl oedd wedi bod yn ddigartref yn seiliedig ar ragdybiaethau negyddol ynghylch ymddygiad pobl: *'problemau alcohol, maen nhw'n camddefnyddio cyffuriau; mae ganddynt gefndir troseddol helaeth'* (ALI, A3).
- 9.16 Disgrifiodd un defnyddiwr gwasanaethau ei brofiad o geisio llety rhent preifat trwy asiant gosod a dywedodd wrtho, oherwydd ei fod yn *'gweithio gydag Opsiynau Tai'*, na fyddai landlord penodol yn awyddus i'w ystyried oherwydd profiadau blaenorol o dderbyn tenantiaid trwy'r llwybr hwn. Yn yr achos hwn gwrthodwyd y defnyddiwr gwasanaethau rhag cael yr eiddo yr oedd yn gwneud cais amdano.
- 'Mae gennym y rhestr o landlordiaid ar gyfer y cyngor. Rydym yn eu ffonio neu'n mynd i mewn, neu mae'r preswylwyr yn mynd i mewn, a dywedir wrthyn nhw, 'Na, dyn ni ddim yn derbyn pobl sy'n derbyn budd-daliadau, dyn ni ddim yn derbyn plant,' ac mae hynny'n cael effaith ... ar y preswilydd. Rydyn ni wedi cael trigolion sydd wedi mynd i mewn a chlywed hynny wyneb yn wyneb, ac maen nhw'n dod yn ôl yn teimlo'n gwbl ddi-werth, yn hollol ddigalon, oherwydd eu bod newydd gael eu sgubo o'r neilltu.'* (TS, A2)
- 9.17 Fodd bynnag, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ffactorau unigol neu bersonol, awgrymodd llawer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod heriau strwythurol, megis Diwygio Lles a chap y Lwfans Tai Lleol yn dylanwadu ar amharodrwydd landlordiaid preifat i gymryd defnyddwyr gwasanaethau. Unwaith eto, gwelwyd bod materion busnes landlordiaid yn cael blaenoriaeth:
- 'Mae yna amharodrwydd i landlordiaid weithio gyda mwyafrif ein grŵp cleientiaid oherwydd y diwygiadau lles, y capiau budd-dal, ac yn bwysicach na hynny, y cap ar y cyfraddau lwfans tai lleol. Gall landlordiaid gael bargaen well yn y farchnad gyffredinol.'* (ALI, A6)
- 9.18 Mae profiadau rhai defnyddwyr gwasanaethau sy'n ceisio cael llety rhent preifat trwy asiantaethau gosod yn dangos hyn ymhellach:
- 'Bob tro rwy'n ffonio asiant gosod tai, byddent yn fy ngwrthod yn syth. Byddwn yn dweud, 'Ydych chi'n derbyn budd-dal tai?' Nid oedd unrhyw bwynt i mi gario 'mlaen efo nhw, ac yna maent yn troi ac yn dweud, 'Fel mae'n digwydd, allwch chi ddim cael yr*

eiddo hwn oherwydd byddwch chi ar fudd-dal tai.' Rwy'n gweithio hefyd, rwy'n gweithio'n rhan-amser, felly rhywbeth i ychwanegu ato fydd o. Mi fyddai'n esbonio hynny wrth yr asiantiaid gosod tai, ond doeddwn i ddim yn cael i nunlle efo hynny.'
(SU, A2)

'Ni fyddai unrhyw un o'r asiantaethau hyn yn cymryd unrhyw un â fy amgylchiadau i. Rwy'n meddwl mai budd-dal tai yw'r meini prawf cyntaf. Yna, yn amlwg, allwch chi ddim mynd heibio hwnnw, beth bynnag, oherwydd maen nhw'n dweud na fydd y landlordiaid yn ymgymryd â phobl ar fudd-daliadau tai neu beth bynnag, fel maen nhw'n ei alw o.'
(DG, A2)

Pan fyddwch chi'n mynd yno, maent yn edrych arnoch chi 'lly ... Ddim yn neis iawn! Pan fyddan nhw'n gwybod nad ydych chi'n gweithio, dydyn nhw ddim yn rhyw barod eu cymwynas ac nid ydyn nhw eisiau llofnodi'r daflen, neu bethau tebyg, felly mae'n ddigalon iawn. Byddai'n well gen i edrych ar y rhyngrwyd a ffonio na mynd yn bersonol'
(SU, A2)

- 9.19 Ystyriwyd bod y prosesau dethol sy'n gysylltiedig â chael at lety rhent preifat yn broblemus, gyda landlordiaid yn cadw rheolaeth yn y pen draw ac yn gallu dewis peidio ag ailgartrefu pobl oedd wedi bod yn ddigartref. Disgrifiodd darparwr gwasanaethau'r trydydd sector ddigwyddiad yr oedd yn ei ystyried yn wahaniaethol. Roedd yn siarad am deulu a gyflwynwyd ar gyfer eiddo rhent preifat, ond ni chawsant *'eu dewis, yn bennaf oherwydd, rwy'n meddwl, oherwydd mai du oedan nhw'* (TS, A2). Rhoddwyd enghreifftiau mwy eithafol wrth i ddarparwr gwasanaethau arall awdurdodau lleol ddisgrifio sut roedd un landlord wedi dweud yn benodol nad oedd yn dymuno cael tenant ag *'AIDS'* [sic].

Diffyg darpariaeth fforddiadwy briodol

- 9.20 Tynnwyd sylw at ddiffyg llety addas a fforddiadwy yn y sector rhentu preifat ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos. Fel y dywedodd un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol *'Mae'n anodd dod ar draws llety rhent preifat'*. Yn ogystal, fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, thema gyffredin ar draws yr awdurdodau oedd diffyg eiddo un ystafell wely yn y sector rhentu preifat yn ogystal ag mewn tai cymdeithasol.
- 9.21 Disgrifiodd darparwr gwasanaethau arall yn y trydydd sector sut y sefydlwyd tîm sector rhentu preifat yn ardal ei awdurdod lleol yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf. Fodd bynnag, ers ei sefydlu, dau berson yn unig oedd y tîm hwn wedi hwyluso eu symud i lety rhent preifat:

'Rydym wedi cael dau. Rydym wedi cael dau mewn dwy flynedd, dau o bobl o'r hostel ... yn symud i lety rhent preifat. Mi gymerodd amser anhygoel i'w cael i'r eiddo hynny, rhywbeth fel chwe wythnos.' (TS, A2)

- 9.22 Felly, er bod consensws cyffredinol bod agor y sector rhentu preifat i ddarparu atebion tai yn rhywbeth cadarnhaol, roedd y nifer oedd ar gael a mynediad atynt yn heriau parhaus. Roedd pob awdurdod yn wynebu problemau o eiddo oedd ar gael ac roedd hyn yn amlycach mewn ardaloedd lle'r oedd y galw am dai'n fawr. Roedd y prinder hwn yno cyn y Ddeddf ac nid oedd wedi newid wedi hynny. Daeth darparwyr gwasanaethau i'r casgliad ei bod hi'n rhy gynnar penderfynu a oedd y Ddeddf wedi cael effaith sylweddol ar ddigartrefedd er bod manteision clir i'r awdurdodau hynny gydag asiantaethau gosod cymdeithasol (a drafodir isod).

Cyflwr eiddo

- 9.23 Mae cyflwr yr eiddo yn y sector rhentu preifat yn amrywio ac mae adborth darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn awgrymu bod nifer o anheddau rhent preifat mewn cyflwr gwael. Mynegodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau bryder ynghylch safonau tai rhent preifat a'r effeithiau andwyol posib a allai hyn eu cael ar eu hiechyd meddwl:

'Yn y bôn, roedd y cynigion yn seiliedig ar yr ardaloedd tlotaf yn [dref], lle mai fflatiau un ystafell wely a fflatiau islawr, un ystafell wely oedd popeth, llefydd gwirioneddol ddigalon, a fyddai wedi fy llyffetheirio i, dw i'n meddwl.' (DG, A2)

- 9.24 Roedd rhai darparwyr gwasanaethau (y trydydd sector yn bennaf) yn nodi bod profiadau o gyflwr eiddo gwael yn y sector rhentu preifat yn aml yn ffactor oedd yn peri i bobl ddod atynt am gymorth:

'Yn gyffredinol, mae llawer o'r bobl sy'n dod i'r feddygfa am gyngor yn dod oherwydd bod amodau gwael ganddynt yn y sector preifat. Weithiau ychydig o damprwydd isel sydd yno neu gyflwr gwael gyffredinol, ac yna maen nhw'n ei chael hi'n anodd, mae pawb yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i rywbeth fforddiadwy ac addas i symud i mewn iddo, ac mae hynny i bawb.' (TS, A1)

- 9.25 Ymddengys bod y fforddiadwyedd, addasrwydd ac amodau annedd gwael yn bryderon parhaus mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol. Roedd pryderon hefyd oedd yn canolbwyntio ar effeithiau niweidiol posib a gâi byw mewn llety anaddas neu annigonol ar rywun.

Sicrwydd deiliadaeth

- 9.26 Mynegodd defnyddwyr gwasanaethau oedd wedi symud i lety rhent preifat rywfaint o ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd eu llety. Er enghraifft, dywedodd un person ei fod yn teimlo'n bryderus am natur tymor byr ei denantiaeth a'r posibilrwydd o orfod mynd yn ôl i'r Cyngor i ddweud ei fod yn ddigartref pe bai'r landlord yn dewis rhoi rhybudd.

'Rwy'n dal i boeni nad oes gennyf y sicrwydd lle ydwyf. Yn amlwg, bydd yn contract treigl misol yn awr. Ar unrhyw adeg gallan nhw roi rhybudd mis i mi, ac mae'n fy mrawychu i, y ffaith y gallwn gael fy nhaflu i hyn i gyd eto.' (DG, A5)

- 9.27 Roedd un defnyddiwr gwasanaethau wedi cael Hysbysiad Ceisio Meddiant Adran 2134 pan gafodd ei gyfweld, ac er nad oedd y landlord wedi gweithredu ar yr Hysbysiad eto, dywedon nhw eu bod yn poeni nad oeddynt wedi dod o hyd i eiddo arall eto:

'Wel, fel y dywedais, yr Adran 21. Fe ddywedon nhw,' Peidiwch â phoeni, rhywbeth gweinyddol yw hwn', ac nid oes dim wedi digwydd. Dw i ddim wedi cael fy nghicio allan. ... Ond mae tri o'r bobl eraill yn y tŷ, felly dwi dal ddim yn teimlo'n gwbl ddiogel.' (DG, A2)

- 9.28 Esboniodd darparwr gwasanaethau trydydd sector sut nad oedd yr opsiynau ar gyfer pobl mewn amgylchiadau o'r fath bob amser yn syml:

'Mae llawer o'n gwaith achos yn golygu bod pobl yn dod i ddiwedd eu rhybudd Adran 21 ac yn panicio. Allan nhw ddim dod o hyd i rywle arall i fyw. Allan nhw ddim fforddio llety preifat safonol ac nid ydynt eisiau cost achosion llys ac maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cadw hyd braich ac mae'r awdurdodau'n dweud, wel, dowch yn ôl atan ni pan fyddwch chi wedi cael hyd i rywle.' (TS, A1)

Credyd, geirdaon, bondiau a gwarantwyr

- 9.29 Dywedodd pedwar defnyddiwr gwasanaethau fod y gofyn am wiriadau cefndir yn broblemus; boed iddynt fod yn wiriadau credyd, geirda gwaith neu eirda gan fy landlord blaenorol fel y mae'r ddwy enghraifft a ganlyn yn ei ddangos:

'Roeddwn i'n meddwl bod [atebion tai] yn bod yn gymwynasgar iawn, fel mae'n digwydd, o ran cynnig bond, ond ddaeth dim o hynny o gwbl ... Mi anfonodd hi mi i un eiddo ac oherwydd na allwn gael geirda gan fy landlodes flaenorol ... syrthiodd hwnnw drwodd' (DG, A2)

³⁴ Cyflwynir Hysbysiad Ceisio Meddiant Adran 21 i ddirwyn Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr i ben os yw tymor sefydlog y denantiaeth wedi dod i ben neu yn ystod tenantiaeth gyfnodol

'Fe roeson nhw restr i mi o asiantaethau yn bennaf, ond mae asiantaethau eisiau geirdaon, geirdaon gwaith ... Dywedodd y rhai y gwnes i eu ffonio, dywedon nhw nad oedd ganddyn nhw bron byth landlordiaid sy'n cymryd pobl ar fudd-daliadau tai, felly mae'r peth i gyd yn, chi'n gwybod beth rwy'n ei feddwl, a le maen nhw'n meddwl ein bod yn cael yr amser siarad i wneud yr holl alwadau hyn. Os nad oes gennych chi swydd, chi'n gwybod beth rwy'n ei olygu? Dyw hynny ddim yn hawdd.' (DG, A2)

9.30 Mae'n amlwg felly, bod atgyfeiriadau a gwiriadau cefndir yn aml yn gweithredu fel rhwystrau i rai defnyddwyr gwasanaethau rhag cael llety rhent preifat.

9.31 Roedd mater bondiau yn broblem mewn dwy o ardaloedd yr astudiaeth achos. Dywedodd defnyddwyr gwasanaethau bod landlordiaid y sector preifat yn gwrthod derbyn bond gan yr awdurdod lleol er gwaethaf y ffaith ei fod yn diogelu'r blaendal a rhent y mis cyntaf.

'Fe oeddem yn edrych, ond roedd llawer ohonyn nhw'n dweud, ni fyddwn yn cymryd y cynllun bond hyd yn oed os yw'r cyngor yn eich ariannu, ac asiantiaid gwerthu tai yw'r rhain, landlordiaid preifat yw'r rhain' (DG, A4)

'Wel, y peth ydi, mae fy mam wedi dweud wrthyf nawr, os byddaf yn dod o hyd i le, y byddai hi'n talu am y bond, y rhent ymlaen llaw a ffioedd yr asiantaeth. ... Ond rwy'n cael trafferth dod o hyd i rywle a fydd yn dal i gymryd budd-dal tai ar ddiwedd hyn.' (DG, A2)

'Pan wnes i droi atynt a dweud,' lawn, rydw i wedi dod o hyd i rywle ... mi ddywedwyd wrthyf, 'Mae'n ddrwg gennym, does gennym ni ddim byd bellach' (DG, A5).

9.32 Roedd rhai defnyddwyr gwasanaethau wedi troi at deulu am gymorth gyda bond, ond roeddent yn dal i fethu dod o hyd i landlordiaid preifat a fyddai'n derbyn taliadau budd-dal:

9.33 Dywedodd defnyddiwr gwasanaethau arall ei fod wedi cael gwybod y gallai'r awdurdod lleol gynorthwyo, ond y dywedwyd wrtho wedyn bod yr arian wedi dod i ben:

9.34 Dywedodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod y prosesau ariannol sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yn heriau parhaus. Er enghraifft, lle mae landlordiaid yn barod i dderbyn unigolion sy'n cael budd-dal tai, maent hefyd yn aml yn gofyn am warrantwr, ac mae'r disgwyliadau'n uchel o ran gallu'r gwarantwr i ddangos sefydlogrwydd a gallu ariannol:

'Mae angen i'r gwarantwr sy'n berchen ar ei dŷ fod yn ennill ... Roedd gennym un yr wythnos arall oedd eisiau i'r gwarantwr hwn ennill tair gwaith swm y rhent' (ALI, A2)

Lefelau rhent ac (an)fforddiadwyedd

- 9.35 Ar draws holl ardaloedd yr awdurdodau lleol, crybwyllwyd lefel uchel y ffioedd rhent gan ddarparwyr gwasanaethau bob un o'r tair sector: *'mae'r rhenti'n rhy uchel, nid ydynt yn hawdd eu rheoli'* (ALI, A1). Yn ogystal, nododd defnyddwyr gwasanaethau o'r chwe maes astudiaeth achos hefyd renti uchel, a osodwyd yn aml yn llawer uwch na chyfraddau budd-dal tai:

'Gwelais ddau eiddo, os ydych chi'n gwybod beth rwy'n ei olygu, ond maen nhw i gyd yn gofyn gormod o arian am dŷ dwy ystafell wely, maen nhw'n gofyn mwy na £90 yr wythnos. Nid yw'n ymarferol.' (DG, A3)

- 9.36 I bobl gyflogedig ac yr oedd eu hincwm yn uwch na'r trothwy cymhwyster ar gyfer Budd-dal Tai, roedd hi'n ymddangos hyd yn oed yn anos cynnal tenantiaeth yn ariannol ochr yn ochr â chostau byw eraill fel y mae'r ddwy enghraifft a ganlyn yn ei ddangos:

'Rydw i'n ei chael hi'n anodd lle ydw i, nid yw'n syml, mae'n fater o gydbwyso, ceisio jyglo pethau er mwyn gallu eu fforddio. Does gennyf fyth arian wedi'i roi o'r neilltu ar gyfer yr anochel. Rwyf wedi cael problem gyda'r car, clec o £400, felly mae'n rhaid i chi jyglo pethau a meddwl, beth sy'n bwysig y mis yma? Mae'n anodd iawn. Byddwn i'n dweud fy nghostau byw ... Bwyd. Dillad, anghofiwch nhw! Mae fy 'sgidiau yn fy ngadael i, yn llythrennol. Does gennyf ddim incwm sbâr o gwbl. ... Byddai'n haws o lawer pe bai yma dai fforddiadwy, ond mae'r rhenti'n chwerthinllyd o uchel.' (DG, A5)

'Felly ers hynny, rydw i wedi bod yn ei chael hi'n anodd. Rydw i mewn fflat un ystafell wely. Fflat cyngor ydi hi, hen fflat y cyngor, sydd bellach yn cael ei rhentu'n breifat. Oddeutu £350 y mis ydi'r gyfradd gyfredol ar gyfer y fflatiau hynny. Rydw i'n talu £500 y mis. Oddeutu £75 y mis oedd fy nhreth cyngor, yna bu'n rhaid i mi dalu fy nwy, fy nhrydan, a bu'n rhaid i mi gael pobl i geisio symud i mewn. A bod yn onest, mae'n teimlo fel pe bawn i'n sgwatio yn y fflat yma, a bod yn onest. Rwyf wrthi'n dragwyddol ymladd brwydrau fy ngorddrafft oherwydd alla i ddim fforddio ei dalu'n ôl, ac maen nhw'n dal i ychwanegu llog ato bob mis. Felly, a dweud y gwir, rwy'n gweithio goramser ac o leiaf 20 awr ychwanegol y mis, dim ond i fyw bywyd arferol, a bod yn onest. Mae gen i dŷ ond yn ariannol nid wyf mewn lle da.' (DG, A2)

- 9.37 Mae natur ansicr amgylchiadau'r bobl hyn yn amlwg, ac yn dangos yn glir y caledi a'r ansefydlogrwydd ariannol sy'n bodoli wrth ennill incwm isel a thalu cyfran uchel o hyn ar gostau tai.

- 9.38 Tynnodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau hefyd sylw at y ffaith fod effeithiau dyled yn para'n hir, yn enwedig o ran croniad blaenorol ôl-ddyledion rhent sydd fel rhwystrau rhag cael tenantiaethau:

'Mae ganddi ôl-ddyledion rhent yn ei llety dros dro. Felly, gwn, cyn gynted ag y bydd y geirda hwnnw'n mynd trwodd, bydd yn methu. Felly, mi fyddaf yn syth ar y ffôn yna, i'r asiant gosod tai'n dweud, gwrandewch, bydd hi'n methu. Dim ei bai hi yw hynny. Mae'r llety, wedi'i brydlesu, mor ddrud fel ei bod hi'n gweithio, allith hi ddim ei fforddio a dyna'r rheswm pam fod ganddi ôl-ddyledion rhent.' (ALI, A2)

- 9.39 Nid oedd y sefyllfa hon yn anghyffredin ac mae'n dangos bod rhenti uchel i'w cael mewn llety dros dro yn ogystal ag mewn tenantiaethau tymor hwy. Yn ogystal, roedd y ffaith bod rhenti'n codi yn her ychwanegol o ran defnyddio'r sector rhentu preifat oherwydd na chafodd cyfraddau lwfans tai lleol eu haddasu'n unol â hynny:

'Dim ond o tua 0.5 y cant y maen nhw wedi codi, a hynny i bawb, ond maent yn mynd i fyny ac yn amlwg nid yw'n cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn mynd i adlewyrchu hynny, felly yn amlwg mae'r anghysondeb rhwng y cyfraddau Lwfans Tai Lleol a'r cyfraddau marchnad yn cynyddu.' (ALI, A3)

- 9.40 At ei gilydd, ymddengys fod nifer o broblemau mewn perthynas â'r trefniadau ariannol sy'n gysylltiedig â sicrhau llety yn y sector rhentu preifat, o renti uchel sy'n codi i ddarparu bondiau, gwarantwyr a ffioedd.

- 9.41 Roedd un defnyddiwr gwasanaeth yn teimlo bod rhai landlordiaid oedd yn derbyn pobl sydd ar fudd-daliadau fel tenantiaid weithiau'n ddiegwyddor:

'Dw i'n meddwl, pan fyddwch chi'n cael y landlordiaid sy'n cymryd pobl sydd ar fudd-daliadau, maen nhw fel arfer yn amheus, ac nid ydyn nhw eisiau unrhyw archwiliadau, felly mae'n sefyllfa amhosib.' (A2)

Rhentu Doeth Cymru a'r rheoliadau

- 9.42 Mae Rhentu Doeth Cymru'n prosesu cofrestriadau landlordiaid a thrwyddedau grant i landlordiaid ac asiantiaid y mae angen iddynt gydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. Mynegwyd mantais Rhentu Doeth Cymru gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau (ond yn bennaf gan ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol) sef eu bod yn gallu dal landlordiaid preifat i gyfrif ynglŷn ag ansawdd llety.
- 9.43 Roedd un darparwr awdurdod lleol o'r farn fod Rhentu Doeth Cymru wedi cael effaith gadarnhaol o ran ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gynnig eiddo rhent o safon benodol:

'Rydw i wedi siarad am Rhentu Doeth Cymru yma hefyd sydd wedi galluogi landlordiaid ... Mae'n fenter sy'n sicrhau bod y llety y mae pobl yn ei gael, yn ogystal, yn cyrraedd y safon... ond i ni, mae'n cynnig sicrwydd pan fydd rhywun yn mynd i mewn i lety, ei fod o safon benodol ac mae'n cynorthwyo pobl, rydych chi'n gwybod nad ydyn nhw mewn rhywle sydd ddim yn gwneud iddynt deimlo eu bod eisiau eu lle eu hunain, ei gadw'n dwt ac yn lân, yn daclus, neu ba bynnag ffordd y maen nhw'n dymuno byw . Lle diogel, glân i fyw ynddo ydyw.' (ALI, A1)

9.44 Siaradodd y darparwr gwasanaethau hwn yn gadarnhaol am Rentu Doeth Cymru o ran y goblygiadau i landlordiaid wella a chynnal safonau. Yn yr ystyr hwn, gwelwyd bod Rhentu Doeth Cymru yn cynnig sicrwydd y byddai'n rhaid i landlordiaid gydymffurfio.

9.45 Fodd bynnag, er bod rhai darparwyr gwasanaethau o'r farn bod cyflwyno Rhentu Doeth Cymru yn gadarnhaol, roedd eraill yn ei weld fel creu heriau newydd:

'Mae wedi'i gyflwyno ar gyfer landlordiaid rhent preifat ac nid yw, yn fy meddwl i, yn addas i'r pwrpas. Yn y bôn, beth y mae wedi'i wneud yw ei fod yn golygu bod rhaid i bob landlord preifat sy'n rhentu eiddo yng Nghymru gofrestru eu hunain fel rhai sy'n addas ac yn briodol, ond nid oes unrhyw adlewyrchiad o gwbl ar yr eiddo.' (TS, A4)

9.46 Cododd y darparwr gwasanaethau hwn bwynt hollbwysig yn yr ystyr er y gall cofrestru ynddo'i hun fod yn broses ddefnyddiol, os nad oes safon o ansawdd o ran yr eiddo', yna fel proses reoleiddio mae'n agored i'w hecsbloetio, neu'n hytrach mae'n gadael tenantiaid yn agored i gael eu hecsbloetio i fyw mewn amodau gwael.

9.47 Teimlai rhai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol mai canlyniad anfwriadol i Rentu Doeth Cymru yw bod landlordiaid llai yn gwerthu eu heiddo ac yn gadael y sector rhentu preifat yn gyfan gwbl, gan arwain at denantiaid yn cael gorchmynion troi allan oherwydd 'nad yw landlordiaid eisiau cofrestru neu nid ydynt eisiau rheoli'r tenantiaethau' (ALI, A4).

9.48 Dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau nad oeddent yn gallu cynorthwyo pobl i gael cartref lle nad oedd landlordiaid wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru:

'Mae gennym gleientiaid yn dod i mewn ac yn dweud,'rydym wedi dod o hyd i lety 'ond allwn ni ddim eu cynorthwyo gyda hynny oherwydd nad Rhentu Doeth Cymru yw'r landlord, felly allwn ni ddim rhoi cymorth gyda bond a thalu rhent ymlaen llaw. Felly, maen nhw yna'n teimlo'n ddigalon gan y ffaith eu bod yn trio, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw roi cynnig arni, ac yna rydyn ni'n dweud, mae'n ddrwg gennym ni, allwn ni ddim

eich cynorthwyo. Mae hynny'n eithaf anodd. Allwn ni wneud dim i stopio hynny.' (ALI, A2)

- 9.49 Felly, er bod yr angen am reoleiddio, ar y cyfan, yn agwedd bositif o'r Ddeddf, mae bylchau a gwelwyd bod agwedd gorfodi a rheoleiddiol y strwythur yn ddiffygiol.

Gweithio gyda landlordiaid preifat

- 9.50 Roedd un awdurdod lleol wedi ailstrwythuro Atebion Tai i greu tîm sy'n ymroddedig i weithio gyda landlordiaid preifat. Mewn awdurdodau eraill, roedd Swyddogion y sector rhentu preifat oedd yn gyfrifol am gysylltu â landlordiaid preifat ac asiantiaid gosod tai. Roedd hyn i'w weld yn gweithio'n dda iawn:

'Mae gennym swyddog prydlesu sector preifat, felly mae'n ymwneud yn bennaf â mwyafrif y landlordiaid rhentu preifat ... mae'r asiantiaid yn eithaf da. Mae gennym berthynas eithaf da gydag un] ... Fe wnawn nhw'n ffonio ni a dweud, 'Mae gen i'r tenant yma, yn bwriadu ei droi allan oherwydd hyn, allwch chi roi unrhyw gymorth i ni?' Rydym yn anfon llythyrau at y tenantiaid, a dyna hi, dyna'n gwaith atal ni wedi'i wneud fwy na heb, anfon llythyr. Mae'n gwneud iddynt gysylltu â'r landlord, ac mae wedi'i ddatrys.' (ALI, A3)

- 9.51 Yn wir, fe wnaeth nifer o ddarparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol sylwadau ar y cyflymder y gallai timau tai awdurdodau lleol ymateb i'r sefyllfa. Mynegwyd hyn o ran gwell perthynas rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid preifat yn ogystal â'r gallu i ymyrryd yn fwy effeithiol i atal troi pobl allan o'u cartrefi. Soniodd un darparwr gwasanaethau am sefyllfa pan oeddent yn gallu ymateb i ymholiad landlord ac, i bob pwrpas, arbed tenantiaeth:

'Yr wythnos ddiwethaf, cawsom alwad ffôn gan landlord, a ddywedodd, 'Mae yna lawer o heddlu ac ambiwlansys y tu allan i'm heiddo, ffitiwr carped sy'n dweud hyn wrtha i. Ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd?' Felly, aethon ni allan a chanfod fod un ohonynt wedi cael ei anfon i ysbyty meddwl. Y diwrnod canlynol, roedd y gefnogaeth yno, roedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl o'r ochr ddigartref yno, gan geisio gweithio allan yn union beth oedd y problemau a'r hyn y gallen ni ei wneud i'w cynorthwyo ac mae'n dal i fod yno.' (ALI, A6)

- 9.52 Yn amlwg mewn rhai awdurdodau, roedd y newid yn y berthynas rhwng landlordiaid preifat ac Atebion Tai yn gadarnhaol gyda mwy o rannu gwybodaeth, rhoi cyngor ac arferion da o ran trafodaethau a chyfryngu mwy effeithiol. Yn y pen draw, roedd y rhain yn

arwain at gynyddu'r cyfleoedd i denantiaethau fod yn gynaliadwy. Gwelwyd hyn fel rhan o'r newid diwylliant sy'n deillio o'r Ddeddf.

- 9.53 Mewn un awdurdod, awgrymodd darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol y byddai'n ddefnyddiol i'r awdurdod lleol ffurfio perthynas â'r landlord hwnnw er mwyn cefnogi'r ddau barti pan fyddai defnyddiwr gwasanaethau'n cael ei symud i lety preifat. Dechreuodd y math hwn o weithredu, ymarfer sy'n fwy seiliedig ar berthynas lle'r oedd partneriaeth yn ganolog, ar y pwynt lle cyflwynwyd unigolyn ar gyfer eiddo. Felly, er enghraifft, os oedd gan y defnyddiwr gwasanaethau hanes o gronni ôl-ddyledion rhent a / neu beidio â thalu biliau, gallai'r tîm Atebion Tai sicrhau bod y landlord yn ymwybodol (gyda chaniatâd y tenant) er mwyn bod yn effro i arwyddion rhybuddio. Gallai hyn ysgogi cefnogaeth amserol i landlordiaid a thenantiaid ac annog landlordiaid preifat i ymgysylltu â nhw.
- 9.54 Roedd rôl cyfryngu'n glir ond roedd mwy o straeon negyddol gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau na rhai cadarnhaol oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl oedd yn byw bywydau anhrefnus a / neu oedd ag anghenion lluosog a chymhleth, yn aml yn ei adael yn rhy hwyr cyn cysylltu â gwasanaethau am gymorth. Ymddengys bod mantais cyfryngu wedi'i chyfyngu gan allu'r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn am gymorth neu, yn yr achos lle nad yw defnyddwyr gwasanaethau yn cael cyswllt rheolaidd â gwasanaethau, oherwydd nad yw darparwyr gwasanaethau wedi eu hadnabod. Fel gydag agweddau eraill ar dai a chymorth, mae llawer o newidynnau yn aml sy'n dylanwadu ar lwyddiant ymyrraeth benodol.
- 9.55 Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo pobl i reoli a chynnal eu tenantiaethau yn y sector rhentu preifat, roedd llawer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws y tair sector o'r farn bod darparu cefnogaeth fel y bo'r angen yn hanfodol:

'Rwy'n credu os ydych yn mynd i fod yn rhoi pobl ar systemau sector rhentu preifat, yna bydd angen i chi gael gweithwyr cymorth tenantiaeth, oherwydd eich bod chi'n rhoi rhywun mewn fflat ac yna rydych chi'n eu gadael yno. Nid yw'r landlord yno. Nid yw'r landlord yn byw yno, felly nid oes neb yn rheoli'r person hwnnw. Cyn belled ag y gallwn ni ei wneud ein pen ni a'u cynorthwyo nhw a - gall y Ddeddf weithio'n dda iawn i rai pobl ond mae'n dibynnu ar yr unigolyn. Rhoi rhywun i mewn i fflat, rhoi allwedd iddynt, nid yw'n golygu unrhyw beth o gwbl' (TS, A2)

- 9.56 At ei gilydd, roedd llawer o wahanol safbwyntiau ar werth cefnogaeth fel bo'r angen i bobl sy'n cael eu lletya yn y sector rhentu preifat (ynghylch sut a phryd y dylid ei ddarparu ac i bwy). Fodd bynnag, roedd cytundeb clir ei bod yn hanfodol ar gyfer cefnogi a galluogi tenantiaethau cynaliadwy.

Asiantaethau Gosod

- 9.57 Yn ysbryd y Ddeddf, gweithred a ystyrir yn gam rhesymol yw cysylltu ag asiantaethau gosod tai. Fodd bynnag, mewn achosion lle cafwyd landlord preifat trwy asiant gosod, telir ffioedd³⁵. Fel yr esboniodd un darparwr gwasanaethau landlord cymdeithasol cofrestredig, gallai hyn fod yn rhwystr sylweddol i ddefnyddwyr gwasanaethau oherwydd bod: 'Ffioedd asiant tai yn golygu giro wythnos'. (LCC, A1)

- 9.58 Cododd dau ddefnyddiwr gwasanaethau fater ffioedd asiantaethau fel rhwystr pellach rhag cael llety yn y sector rhentu preifat:

'Dim ond un asiant tai a fyddai'n fy ystyried ond roedd yn £250 i ystyried yn unig ... £250 jesd i wneud cais i gael tŷ! ... Mae'n rhaid i chi dalu ffioedd yr asiantaeth ymlaen llaw ac nid ydyn nhw'n ad-dalu. Os byddwch chi'n methu'r raddfa gredyd neu os nad yw'r eiddo yn addas i chi neu rywbeth tebyg, yna fyddwch chi ddim yn ei gael yn ôl!'
(DG, A4)

- 9.59 Nodwyd arferion o'r fath hefyd gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau: 'asiantaethau gosod diegwyddor yn troi i fyny dros y lle yn dweud, 'rydym eisiau'ch ffi canfyddwr o £500' (TS, A2). Wrth gefnogi honiadau'r defnyddwyr gwasanaethau, nododd y darparwr gwasanaethau hwn nad yw'r unigolyn weithiau'n 'cael y llety ac mae'n colli'r ffi canfyddwr'.

- 9.60 Tynnodd darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector yn benodol sylw at sut roedd gweithio gydag asiantaethau gosod tai a landlordiaid preifat yn broblemus am nifer o resymau oherwydd nid yn unig y gallai bod ffioedd asiantaeth ond, fel arfer, mae geirdaon a rhent hefyd yn ofynnol ymlaen llaw.

- 9.61 Fodd bynnag, nodwyd un enghraifft gadarnhaol o asiantaeth gosod.

'Rydym newydd ddod i gyfarfod y bore yma gyda [Asiantaeth Gosod] ... Nid ydynt yn barnu neb, maen nhw'n eithaf da. Byddant yn dweud, " Byddai'n well gennyf ei gadw'n agosach atom ni, fel y gallwn gadw llygad arno. ' Maen nhw'n dda iawn fel hynny.

³⁵ Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ddiddymu ffioedd asiantaeth gosod tai
<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/feeschargedtotenantsprivatesector/?lang=cy>

Rydym yn gweithio'n dda gyda nhw ... maen nhw wedi cymryd 80 y cant o'n cleientiaid.'
(ALI, A1)

Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol

- 9.62 Mewn un awdurdod lleol, sefydlwyd cynllun gosod tai cymdeithasol, ar wahân i'r awdurdod lleol, yn yr ardal gan ddarparwr trydydd sector:

'Rydym yn eithaf ffodus yma hefyd, oherwydd mae gennym gynllun gosod [] ... dyna'r asiantaeth osod gymdeithasol, ac mae hynny'n eithaf da, gan ei fod yn golygu pe bai rhywun yn cael ei wneud yn fwriadol ddigartref, neu'r penderfyniad yw eu bod yn fwriadol, rydym yn eu troi allan am ba bynnag reswm, mae gennym rwydwaith arall yno i'w archwilio am lety iddyn nhw, rhywbeth a all fod o gymorth.' (TS, A2)

- 9.63 Mewn awdurdodau lleol eraill, roedd mwy o fuddsoddiad mewnol mewn asiantaethau gosod tai cymdeithasol a gwelwyd bod y rhain yn cael eu hystyried i hwyluso'n rhannol ateb i ddigartrefedd. Yr hyn sy'n arbennig o galonogol yn yr enghraifft hon yw natur newidiol y berthynas rhwng yr awdurdod lleol a landlordiaid preifat dros gyfnod o amser:

'Felly, yr ongl arall i ni yw ein hawdurdod gosod tai cymdeithasol ... rydyn ni'n ceisio ehangu hynny a chynnig pecyn i landlordiaid ... Chi'n gwybod, 20 mlynedd yn ôl ... Roeddem yn erlyn landlordiaid. Nawr heddiw, rydym yn gweithio gyda nhw, rheoli eu heiddo, eu haddysgu.' (ALI, A4)

- 9.64 Fel y cyfryw, roedd natur y berthynas rhwng yr awdurdod lleol hwn a landlordiaid preifat wedi newid yn sylweddol, ac roedd yn parhau i wneud hynny. Yn yr ardal hon, roedd yr asiantaeth gosod tai cymdeithasol wedi tyfu'n sylweddol *'o gymryd dau neu dri eiddo i sefyllfa nawr lle rydym yn rheoli tua 150 o eiddo rhent preifat'* (ALI, A4). Roedd y tîm sy'n rheoli'r gwasanaeth hwn o'r farn ei fod yn llwyddiannus ac arloesol, wrth gynnal ethos moesegol.

- 9.65 At ei gilydd, gwelwyd asiantaethau gosod tai cymdeithasol yn strwythur cadarnhaol. Ar ben hynny, lle'r oeddent yn bodoli, disgrifiwyd arferion da mewn cysylltiad â pherthynas â darparwyr gwasanaethau eraill yn ogystal â thelerau prosiectau cydweithredol â landlordiaid preifat (megis prosiectau llety a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed) ac o ran safonau. Roedd y ddarpariaeth bresennol, well hon a chefnogaeth fel y bo'r angen neu gymorth wedi'i dargedu yn fodd i gael cymorth rhagweithiol pan oedd tenantiaid yn wynebu anawsterau.

Crynodeb

- 9.66 Mae'r sector rhentu preifat wedi dyblu yn ei faint dros y degawd diwethaf yng Nghymru (i 15% o'r holl anheddau), (Fitzpatrick et al, 2017). Roedd ymatebwyr awdurdodau lleol a chyfranogwyr darparwyr gwasanaethau'n cydnabod yr angen i ddefnyddio'r sector rhentu preifat i atal a lleddfu digartrefedd. Fodd bynnag, codwyd pryderon sylweddol ynglŷn â sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Roedd pryderon yn troi o amgylch y ffaith nad oedd llety ar gael neu fod prinder o letyau, yn enwedig eiddo un ystafell wely; y gost (methu ei fforddio); ansicrwydd deiliadaeth; cyflwr gwael rhai eiddo ac anfodlonrwydd landlordiaid y sector preifat i dderbyn pobl oedd yn derbyn budd-daliadau lles.
- 9.67 Yn ogystal, mae rhwystrau i bobl gael at y sector rhentu preifat: er enghraifft, gallu darparu geirdaon / gwiriadau credyd; ffioedd asiantaethau gosod tai ac asiantaethau a landlordiaid diegwyddor; ofnau ynghylch effaith Credyd Cynhwysol.
- 9.68 Yn ychwanegol, roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n pryderu am ddiffyg profiad landlordiaid preifat wrth reoli tenantiaethau pobl sy'n agored i niwed, gan fod landlordiaid preifat yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar yr elfen fusnes / adnodd rheoli tai ac nid ar angen lles tenantiaid.
- 9.69 Roedd pryderon hefyd ynghylch cynaliadwyedd tenantiaethau rhent preifat i bobl sy'n derbyn budd-daliadau lles ac ar incwm isel: eto roedd hyn yn gysylltiedig â lefelau fforddiadwyedd a rhent. Cafwyd rhai enghreifftiau o galedi difrifol ymysg defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn incwm isel ac sy'n byw yn y sector rhentu preifat.
- 9.70 Yn ogystal, roedd terfynau i lwfans tai lleol a thaliadau budd-dal i bobl dan 35 oed yn creu anawsterau pellach wrth roi pobl yn y sector rhentu preifat.
- 9.71 Lle'r oedd yna asiantaethau gosod tai cymdeithasol, gwelwyd bod hyn yn bositif ac yn ddefnyddiol i ddatblygu gwaith mewn partneriaeth lwyddiannus gyda landlordiaid preifat.
- 9.72 Roedd barn am Rentu Doeth Cymru'n gymysg. Gwelwyd ei fod wedi creu fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector preifat, ond hefyd wedi creu rhai heriau. Mae heriau'n troi o amgylch amharodrwydd landlordiaid llai i gofrestru (felly tynnu eu heiddo o'r farchnad), a'r ffaith nad yw wedi gweithredu safon ansawdd ofynnol.

10. Diwygio Lles a heriau strwythurol eraill

Cyflwyniad

- 10.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd strwythurol sy'n cael effaith ar weithredu'r Ddeddf. Yn benodol, edrychir ar lymder a Diwygio Lles mewn perthynas â heriau parhaus (er enghraifft, toriadau yn y gyllideb a'r Dreth Ystafell Wely) a'r effeithiau a ragwelir fydd yn deillio o weithredu Credyd Cynhwysol yn eang. Yn gyffredinol, edrychir ar brinder y ddarpariaeth tai yn ogystal ag ystyriaethau grwpiau penodol sydd ag angen o ran tai (megis y grŵp oedran dan 35 oed) ac mewn perthynas â lleoliad a daearyddiaeth Cymru. Cyflwynir y bennod dan y penawdau a ganlyn: Diwygio Lles, llymder a thoriadau cyllidebol; Credyd Cynhwysol; Oedi yn y system Credyd Cynhwysol; Newidiadau i Fudd-dal Tai; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016; Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; Treth yr Ystafell Wely; Lwfans Tai Lleol; Toriadau Llymder a chyllidebol; Heriau'r Gweithlu; Adnoddau sydd ar gael: cyllid a stoc tai; Diffyg darpariaeth ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed a phobl ag anghenion cymhleth; Llety a rennir a'r rhai dan 35 oed; Problemau gyda llety a rennir; Atebion amgen ar gyfer y rhai dan 35 oed: tai cynwysyddion; Lleoliad a darparu gwasanaeth; Cefnogi Pobl: symud oddi wrth arbenigeddau; a Diffyg Darpariaeth Tai Cymdeithasol.

Diwygio Lles, llymder a thoriadau cyllidebol

Diwygio Lles

- 10.2 Roedd pwnc Diwygio Lles yn ogystal ag effeithiau llymder wedi arwain at drafodaeth sylweddol ymhlith darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos. Roedd barn gyffredin fod y Ddeddf Diwygio Lles, cyflwyno Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Personol er enghraifft yn mynd i greu anawsterau i bobl ac, o ganlyniad, byddai'n cael effaith ar ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd:

'Ddylen ni ddim anghofio bod y Ddeddf Diwygio Lles wedi taflu bwcedaid mawr o ddŵr oer, budr arno, gyda phobl yn cael eu cosbi a phob math o bethau gwahanol, a'u gorfodi i mewn i argyfwng. Mae wedi gwneud pethau'n llawer gwaeth, yn tydi? ' (LCC, A3)

- 10.3 Roedd bod yn destun amodau lles a'r hinsawdd o gosbau, yn benodol mewn perthynas â phobl sy'n ddigartref neu mewn perygl digartrefedd, wedi arwain at gynyddu'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu. Roedd rhai darparwyr gwasanaethau - ar draws sectorau - yn teimlo mai'r cymhellion gwleidyddol y tu ôl i weithredu systemau, fel bod yn destun amodau lles ac ysgogiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yw gwneud arbedion ariannol trwy ostyngiadau ariannol parhaus:

'Nid oes yr un anogaeth nawr. Teimlais fod ymgyrch wleidyddol gan y Llywodraeth ei hun, i ddelio â phroblemau cyn hynny. Rydyn ni nawr yn delio â thoriadau, a dyna'r ymgyrch wleidyddol. Talu llai, yn hytrach na gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr hyn y mae ganddyn nhw hawl iddo, felly nid oes yr ymgyrch wleidyddol o Lundain, yn hynny o beth, felly dydyn ni ddim yn ymateb yn gorfforaethol i hynny yn yr un modd ag yr oeddem o'r blaen.' (ALI, A1)

Credyd Cynhwysol

- 10.4 Trafodwyd credyd cynhwysol gan lawer o ddarparwyr gwasanaethau ac fe'i gwelwyd fel rhan o Ddiwygio Lles nad oedd neb yn gwybod beth fyddai ei ganlyniadau gan mai dyddiau cynnar oedd hi ran gweithredu. Roedd pryderon am y dyfodol wrth i fwy o bobl ddod i dderbyn credyd cynhwysol. Disgrifiodd un darparwr gwasanaethau'r trydydd sector yn blwmp ac yn blaen ei brofiad o weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn credyd cynhwysol:

'Rydym wedi cael tri o bobl hyd yn hyn. Mae pob un ohonyn nhw wedi gwneud stomp o bethau. Dim ond 152 o bunnau maen nhw'n ei gael y mis neu dyna'r oeddynt yn ei gael. Mae wedi mynd. Mae diwedd y mis hwnnw yn bell iawn i ffwrdd ' (TS, A1)

- 10.5 Roedd y farn y byddai defnyddwyr gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd rheoli budd-daliadau lles a dderbyniwyd trwy gredyd cynhwysol yn farn gyffredin ymhlith darparwyr gwasanaethau. Rhagwelwyd hefyd y byddai hyn yn arwain at ddefnyddwyr gwasanaethau'n cronni dyledion rhent, ffactor cyffredin sy'n arwain at ddigartrefedd. Er bod ewyllys da ac arferion empathig i gefnogi tenantiaid sy'n derbyn credyd cynhwysol nad oeddent yn ddeheuig wrth reoli eu harian, ystyriwyd fod y pethau y gallai darparwyr gwasanaethau eu gwneud yn gyfyngedig ac wedi'u clymu gan amser. Eglurodd un darparwr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mai sefyllfa ei sefydliad oedd ceisio cynorthwyo'r rhai sy'n derbyn credyd cynhwysol ac oedd wedi cronni ôl-ddyledion rhent, ond roedd pryderon ynglŷn â'u gallu i gynorthwyo nifer gynyddol o bobl

sy'n derbyn credyd cynhwysol: *'pan ddaw mwy a mwy i hawlio credyd cynhwysol, allwch chi ddim bod mor glên efo nhw a cheisio dal eu llaw drwyddo.'* (LCC, A4)

- 10.6 Felly, er bod polisi sefydliadol yn bodoli i gynorthwyo tenantiaid oedd yn cronni ôl-ddyledion rhent, byddai goblygiadau ymestyn credyd cynhwysol yn amlwg yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer a rhagwelwyd y byddai cyfyngiadau pellach. Mae'n ymddangos nad yw goblygiadau o'r fath yn gyfyngedig i asiantaethau penodol, ond byddant yn cael effaith ar bob darparwr gwasanaethau mewn digartrefedd lle mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei dderbyn.

Oedi yn y system Credyd Cynhwysol

- 10.7 Gweinyddir y system Credid Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac fe'i beirniadwyd gan rai darparwyr gwasanaethau:

'Mae'r holl asiantaethau, rydych chi'n gweithio gyda Shelter a phobl fel yna, maen nhw'n gwneud llawer o waith ac yn ceisio dweud wrth bobl am Gredyd Cynhwysol, ond yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yw, mae'r wybodaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gamarweiniol, oherwydd nad ydyn nhw'n gwneud yr hyn maen nhw'n ei ddweud y byddan nhw'n ei wneud. Nid yw pethau'n digwydd pan fyddan nhw'n dweud eu bod yn mynd i ddigwydd. ' (ALI, A1)

- 10.8 Disgrifiodd darparwyr gwasanaethau eraill anawsterau o'r fath yn fwy penodol o ran taliadau oedi a fyddai'n cymryd rhwng chwech ac wyth wythnos o'r hawliad cychwynnol. O'r herwydd, roedd yr oedi yn yr amser cyn talu'n broblem o ran lliniaru digartrefedd gan mai'r teimlad oedd y byddai mwyafrif y landlordiaid preifat yn methu neu'n anfodlon gwneud lle i hyn. Felly, gellir deall bod effeithiau credid cynhwysol ac oedi mewn gweinyddiaeth yn anghyson ag amcanion y Ddeddf, yn benodol felly ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Newidiadau i Fudd-dal Tai

- 10.9 Yn gyffredinol, câi'r system gyfredol o weinyddu budd-daliadau tai i bob awdurdod lleol ei hystyried yn ddefnyddiol gan ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chyllid a budd-daliadau lles. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch bwriad yn y dyfodol i drosglwyddo'r swyddogaeth hon i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyda chanolfannau gwaith lleol i gael y dasg o weinyddu budd-daliadau. Mynegwyd y pryderon hyn yng nghyswllt posibilrwydd colli rheolaeth a'r gallu cynyddol i ddatrys materion wrth iddynt godi:

'Bydd y gwaith yn cael ei symud i Lywodraeth [y Deyrnas Unedig] i wneud y taliadau ... yn gweithio trwy ... y Ganolfan Gwaith Lleol, ac nid ydynt yn barod ar ei gyfer i ddechrau efo hi. Cael mynediad, y gwasanaeth sifil ydyn nhw; yn anodd iawn, iawn i gael mynediad ... ar hyn o bryd i mi gysylltu â nhw, oherwydd efallai y bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn Nottingham, ac mae'r person yn byw yn [pentref Cymraeg], lle bynnag, chi'n gwybod? Dyna, i mi, fyddai'r her fwyaf rhagweladwy.' (ALI, A1)

- 10.10 Nododd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau hefyd y gallai'r nod o ganoli budd-daliadau fel newid strwythurol arall gael effaith negyddol ar y taliadau sy'n cael eu gwneud yn brydlon. Nododd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod oedi neu anawsterau wrth drafod materion yn ymwneud â budd-daliadau tai yn her i'r dyfodol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 10.11 Nodwyd bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi arwain at newid polisi pwysig. Fodd bynnag, fe feirniadwyd y ffordd y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth gan ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas ag amseriad eu cyflwyniad a diffyg cydamseru. Roedd rhai darparwyr gwasanaethau'n teimlo bod hyn yn peryglu gweithrediad y Ddeddf:

'Agenda ataliol y Ddeddf Tai, ac yna'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith ar ei gilydd, ac rwy'n meddwl bod rhai o'r gweithredoedd yn cael eu hystyried ar eu pennau eu hunain, ond efallai y dylid eu hystyried a'u cyflwyno gyda'i gilydd.' (TS, A4)

- 10.12 Roedd consensws eang ymhlith darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos y gellid bod wedi gweithredu'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd a chymdeithasol mewn ffordd fwy cydlynol, gan nodi'r gorgyffwrdd a'r agendâu a rennir.
- 10.13 Ystyriwyd hefyd bod Credyd Cynhwysol a Lwfans Tai Lleol yn broblemus mewn perthynas â'r sector rhentu preifat. Roedd problemau gyda phobl nad oeddent wedi arfer efo cyllidebu'n gwario taliadau Credyd Cynhwysol cyn talu rhent, gan arwain at ôl-ddyledion rhent. Codwyd hyn hefyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau (yn ogystal â darparwyr gwasanaethau ar draws y tri sector). Ystyriwyd bod talu Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i hawlwyd yn rhwystr pellach i landlordiaid preifat sy'n derbyn pobl sydd ar fudd-daliadau:

'Wel, maen nhw wedi newid y system nawr, yn tydyn? Maent yn talu i'r person, oherwydd dwi'n gwybod llawer o bobl sydd wedi gwario, hyd yn oed ar gyfer eu heiddo cymdeithas dai, mae'r rhent yn dod iddyn nhw ac maen nhw wedi ei wario, felly nid yw landlordiaid yn arbennig ... Dyn nhw jesd ddim eisiau pobl sydd ar fudd-daliadau tai.'
(DG, A2)

- 10.14 Disgrifiwyd gweithrediad eang Credyd Cynhwysol fel un fyddai'n debygol o 'wneud cam â llawer o bobl'. Yn arwyddocaol, roedd nifer o ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos yn teimlo y byddai Credyd Cynhwysol yn arwain at gynnydd mewn digartrefedd:

'Mae mwyafrif y bobl y tu allan i'r gwasanaethau hyn, maent yn mynd i gael trafferth. Yna maent yn dod yn ddigartref oherwydd dyledion rhent ac mae hyn am gael effaith arnom ni oherwydd nad oes ystafelloedd hostel mwyach. Lle mae digartrefedd yn cynyddu, mae'n gyson yn beth mawr.' (TS, A2).

- 10.15 Nododd mwyafrif y darparwyr gwasanaethau nad oedd Lwfans Tai Lleol yn aml yn cynnwys lefelau rhent:

'Tua £60 yw'r Lwfans Tai Lleol am ystafell a rennir, byddech chi'n ffodus i gael ystafell a rennir yn [Y] am £75- £80. Cyfradd un gwely yw £90, mae'n debyg mai £450- £ 500 yw'r rhent isaf ar gyfer fflat un gwely yn [Y], rydych chi'n edrych ar £650 neu fwy ... dyna'r brif broblem yr ydym ni wedi'i gael erioed.' (TS, A5)

Deddf Rhentu Cartrefu (Cymru) 2016

- 10.16 Yn ychwanegol at y ddeddfwriaeth newydd ynghylch tai a gofal cymdeithasol, tynnodd darparwyr gwasanaethau sylw at Ddeddf Cartrefi Rhentu (Cymru) 2016. Yn ei hanfod, pan gaiff ei gweithredu, bydd y Ddeddf hon yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl sy'n rhentu eu cartref yng Nghymru trwy newid y mathau o denantiaethau y gall landlordiaid, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (neu 'landlordiaid cymunedol' fel y byddant yn cael eu galw dan y Ddeddf), eu cynnig. Felly, rhagwelodd rhai darparwyr gwasanaethau y byddai yna newidiadau ychwanegol a fyddai'n cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau:

'Bydd yn rhaid i ni adolygu'n holl aseiniadau, polisïau ar y cyd i rai unigol, popeth yn ymwneud â'n tenantiaethau ... Bydd yn well i'r tenantiaid neu ddeiliaid y contract, fel y byddant yn cael eu galw oherwydd, er enghraifft, gyda chyd-denantiaid i denant unigol,

os yw un tenant yn rhoi rhybudd nawr mae'n dod â'r denantiaeth gyfan i ben. Bydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ... felly bydd yn atal digartrefedd.' (LCC, A1)

- 10.17 Nododd y darparwr gwasanaethau hwn nad oedd cysylltiad uniongyrchol â Deddf Tai (Cymru) 2014 er bod cymalau yn y ddeddfwriaeth oedd ar ddod oedd yn gorgyffwrdd â rhai'r Ddeddf:

'Rydw i hefyd yn synnu bod yna adran tai gwarchod yn y Ddeddf a chi'n gwybod gwaharddiadau dros dro o hosteli ac yn y blaen, byddant yn caniatáu ar gyfer y rheiny ond roeddwn i'n synnu nad oedd cysylltiad ... i Ddeddf Tai Cymru ac atal digartrefedd ... Meddyliais, wel, mae yna eisoes system a dyletswydd yn ei le, yn does ... Roeddwn wedi synnu braidd oherwydd dyna oedd y polisi, chi'n gwybod, yn amlwg, adran bolisi Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y deddfau ond, yn amlwg, nid oeddynt hyd yn oed wedi ystyried y ffaith fod rhai dyletswyddau eisoes yn eu lle ' (LCC, A1)

- 10.18 Fel y cyfryw, ystyriwyd bod gwaith seilo wedi arwain at ddiffyg cysylltiad uniongyrchol rhwng pob darn o ddeddfwriaeth; canfyddiad tebyg i'r drafodaeth flaenorol ynghylch gwaith seilo sy'n gweithio ar draws sectorau statudol tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

- 10.19 Dywedodd rhai darparwyr gwasanaethau fod y newidiadau i'r system les, yn benodol cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol i gymryd lle Lwfans Byw i'r Anabl, yn ogystal â'r heriau sy'n deillio o weinyddu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, wedi cael effaith ar waith digartrefedd gan nad oedd amgylchiadau pobl yn 'syml' ond yn fwy cymhleth nag erioed. Y teimlad oedd bod y newidiadau i'r budd-daliadau penodol hyn yn ychwanegu at yr heriau sy'n gysylltiedig â Diwygio Lles:

'Rwy'n meddwl bod yr holl newidiadau sy'n digwydd yn niweidiol o ran rhoi gwasanaeth i'r cleientiaid. Budd-daliadau eraill sy'n newid, Lwfans Byw i'r Anabl, newid i'r Taliad Annibyniaeth Personol hwn. Mae pethau'n dod yn fwyfwy anodd'. (ALI, A1)

- 10.20 Gwelwyd bod materion penodol, megis iechyd meddwl, sy'n dod yn gynyddol gyffredin, yn ychwanegu at gymhlethdod gwaith darparu cefnogaeth pan oedd strwythurau eraill sy'n cael effaith ar fywydau pobl yn heriol. Y brif enghraifft yw sut oedd pobl oedd wedi bod yn derbyn budd-daliadau anabledd nawr yn derbyn y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth oedd a disgwyliadau o ran chwilio am swydd. Nid oedd modd i bobl â phroblemau iechyd meddwl a chorfforol gynnal y disgwyliadau hyn ym marn rhai darparwyr gwasanaethau.

- 10.21 Daw'r problemau sy'n gysylltiedig â gweinyddu lles, o bosib, yn sgil llymder a thorri cyllidebau o ran gwasanaethau cymorth sy'n crebachu (yn yr achos hwn, gwasanaethau iechyd meddwl) ac y nododd rhai darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau sy'n 'her benodol yr ydym yn ei hwynebu' (TS, A1).
- 10.22 Siaradwyd am y sancsiynau sy'n deillio o'r system fudd-daliadau gyfredol yn gyffredinol o ran natur broblemus ac, yn aml, anhrefnus bywydau pobl a ddeuai i'r Cyngor yn aml a dweud eu bod yn ddigartref. Cynigiwyd y darlun a ganlyn fel enghraifft o sut mae'r system hon yn gwneud cam â defnyddwyr gwasanaethau, gan osod hyn yng nghyd-destun Cymru, ei daearyddiaeth a'i seilwaith:
- 'Dim ond am lwfans chwilio gwaith y gall wneud cais ar-lein. Mae'n rhaid iddi wneud y gwaith chwilio am waith am 25 awr yr wythnos. Nid oes ganddi gyfrifiadur. Mae hi'n byw yn [X], sy'n 13 milltir o'r llyfrgell agosaf sydd â chyfrifiadur, felly byddai'n rhaid iddi fynd naill ai i'r ganolfan waith yn [Y] neu i'r llyfrgell yn [X] i'w wneud.'* (ALI, A1)
- 10.23 Yn bwysicach fyth, i rywun sydd â ffordd o fyw sydd eisoes yn anhrefnus, y teimlad yw nad oes modd cyflawni'r mathau hyn o alwadau. Dywedodd darparwyr gwasanaethau eraill sut roedd pobl yn cael trafferth gyda'r system gyfredol, gan nodi cyfraddau isel Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth fel mater penodol:
- 'Mae teuluoedd yn cael trafferth, mae'r gofalwyr yn cael trafferth. Teuluoedd gyda phlant bach, rydw i wedi gweld mwy a mwy sy'n gorfod mynd i'r banciau bwyd a hynny trwy asesiad gofalwyr o'r angen nid ydynt yn cael eu talu i ofalu amdanynt, ac yn ariannol maent wedi'u blingo pan fyddant yn gorfod dod mor bell â [tref U] efallai.'* (TS, A6)
- 10.24 Wedi'u cyfuno, roedd materion seilwaith rhanbarthol (gan gynnwys costau teithio ac anhygyrchedd), system bresennol y budd-daliadau lles (yn benodol, cyfraddau isel y taliadau budd-dal) a ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â digartrefedd yn amlygu problem y 'drws cylchdroi' i gyfran sylweddol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

Y Dreth Ystafell Wely

- 10.25 Er bod rhai o'r trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau'n canolbwyntio ar doriadau yn y gyllideb a'r system budd-daliadau lles, dywedwyd yn aml fod cyflwyno'r Dreth Ystafell Wely yn broblemus ar draws safleoedd yr astudiaeth achos. Cydnabuwyd y gwahaniaeth mai polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn hytrach nag un Llywodraeth Cymru yw'r Dreth Ystafell Wely:

'Rwy'n meddwl mai'r her sydd gennym yng Nghymru yw bod pethau fel toriadau budd-dal, treth ystafell wely, yn bethau sy'n dod o San Steffan a bod Llywodraeth Cymru, yn sicr, nid oes gan awdurdodau Cymru gymaint o reolaeth drostynt'. (TS, A1)

- 10.26 Problem arwyddocaol ym mhob un ond un o'r chwe ardal astudiaeth achos oedd bod y ffaith bod llety priodol ar gael i bobl sengl yn dwysáu effeithiau'r Dreth Ystafell Wely:

'Mynd yn ôl at y Dreth Ystafell Wely, oedd ynddi'i hun yn broblem oherwydd nad oedd gennych chi ... y stoc i'w gynnig yn y lleoliad y mae ei angen ar bobl. Eiddo tair ystafell wely, yw mwyafrif helaeth ein stoc yn enwedig yn y pentrefi ac os oedd pobl eisiau aros lle'r oedd ganddynt eu rhwydwaith cymorth a'u teuluoedd a'u gwasanaethau, yna yn amlwg nid ydyn nhw am fod eisiau symud.' (LCC, A1)

'Fe welwn ni hyn bob dydd. Mae pobl yn dod i mewn, yn awyddus i symud i le llai, oherwydd eu bod yn tanfeddiannu dan y Dreth Ystafell Wely, ac er ein bod yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddyn nhw ar y gofrestr dai, nid oes unman iddyn nhw fynd.' (ALI, A3)

- 10.27 Mae goblygiadau clir i ailgartrefu pobl i ffwrdd o rwydweithiau cefnogi sefydledig. Ystyriwyd bod hyn yn broblem arbennig i bobl ifanc neu bobl ag anghenion ychwanegol a chymhleth.

- 10.28 Cyn y Dreth Ystafell Wely, câi eiddo mwy mewn ardaloedd galw isel eu defnyddio'n aml i ailgartrefu pobl sengl. Fodd bynnag, dywedodd darparwyr gwasanaethau nad yw hyn yn digwydd mwyach oherwydd byddai gwiriadau fforddiadwyedd yn atal hyn. Disgrifiodd darparwr gwasanaethau'r trydydd sector sefyllfa rhywun a leolwyd mewn llety dwy ystafell wely ar ôl bod yn ddigartref ar y stryd, a hynny cyn cyflwyno'r Dreth Ystafell Wely:

'Mae yna â'r bonheddig, rwy'n adnabod y dyn yma ers 20 mlynedd, 20 mlynedd rydw i wedi adnabod y dyn yma. Mae mewn fflat. Mae ganddo fflat dwy ystafell wely ond mae'n dal i fegera ar strydoedd [X-dref] oherwydd eu bod wedi tynnu cost un o'r ystafelloedd gwely oddi arno, er bod y cyngor wedi'i leoli o yno ar ôl bod yn ddigartref ar y stryd ond mae'n mynd ac yn begera i gael yr arian i wneud i fyny am yr hyn a gollodd '. (TS, A1)

- 10.29 Roedd y darparwr gwasanaethau hwn o'r farn bod yr arfer hwn yn 'codi gobeithio'n pobl mewn sefyllfa lle nad oes modd iddynt lwyddo. Portreadwyd y Dreth Ystafell Wely fel diffyg strwythurol a arweiniodd at bolisi ac arferion oedd yn ychwanegu at broblem digartrefedd.

Lwfans Tai Lleol

- 10.30 I rai ardaloedd, roedd y Lwfans Tai Lleol wedi creu rhwystrau rhag cael mynediad at lety fforddiadwy hyd yn oed i bobl sy'n derbyn budd-daliadau lles. Y rheswm dros hyn oedd bod taliad y Lwfans Tai hwn yn is na'r rhenti cyfartalog ac felly roedd bwlch o ran angen lleol a stoc tai fforddiadwy:

'Rwy'n meddwl mai fforddiadwyedd yw un o'r prif heriau i ni fel marchnad gymdeithasol ar hyn o bryd oherwydd nid wyf yn gwybod a ydych chi'n ymwybodol, ond mae'r cap lwfans tai lleol yn yr ardal hon yn isel iawn. ... Felly, mewn rhai o'n hardaloedd ... mae'r eiddo dwy ystafell wely allan o gyrraedd rhai pobl ar y gofrestr tai, hyd yn oed gyda budd-daliadau oherwydd bod y cap, y cap budd-daliadau dan y rhent wythnosol'. (LCC, A1)

- 10.31 Ystyriwyd bod cyflwyno'r Lwfans Tai hwn wedi cael effaith fwy negyddol ar rai grwpiau o bobl nag eraill. Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar deuluoedd, yn arbennig:

'Fe fyddech chi'n setlo teulu i mewn i lety rhent preifat ac yna daeth y cap budd-daliadau a phethau gwahanol, allan nhw ddim cwrdd â'r rhent hwnnw dim mwy ... rydych chi'n meddwl - o, y teulu, rydych chi ar fin gorffen eu cefnogi, yna, yn sydyn, mae yna newid mor fawr i'w hincwm, maen nhw mewn pair am gyfnod eithaf hir, gan aros am wahanol benderfyniadau ar bethau gwahanol (er enghraifft, Credyd Cynhwysol) sy'n cael effaith ar dai.' (TS, A6)

- 10.32 Fodd bynnag, dywedodd darparwyr gwasanaethau eraill y byddai hwn yn cael effaith negyddol ar bobl sengl hefyd ac y byddent yn methu fforddio tai:

'Rydych chi'n edrych ar ryw £40 o wahaniaeth rhwng yr hyn y byddant yn ei gael mewn budd-dal tai a beth fydd y rhent. Cymerwch berson sengl sy'n cael £72 yr wythnos ar Lwfans Chwilio Gwaith yna bydd dros 50 y cant o'i incwm yn mynd ar gwrdd â'r bwlch yn y budd-dal tai.' (ALI, A6)

- 10.33 Ystyriwyd bod y Lwfans Tai hwn ag oblygiadau negyddol sylweddol i ystod o ddefnyddwyr gwasanaethau wrth naill ai greu dyled, ôl-ddyledion rhent neu ddwysáu tlodi. Fe'i portreadwyd fel pe bai wedi creu rhwystr rhag fforddiadwyedd ac i rai, yn amlwg, roedd yn sefyllfa amhosib.

- 10.34 Cafodd y rhai dan 35 oed eu nodi fel grŵp a fyddai, yn anad neb, yn waeth allan o ganlyniad i ostyngiadau i lefelau Lwfans Tai Lleol. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau'r trydydd sector:

'Y broblem arall sydd gennym nawr yw torri budd-daliadau i bobl ifanc 18 i 21 oed. Nid wyf, go iawn, yn deall beth maen nhw'n ei feddwl fydd yn digwydd heblaw am weld cynnydd mewn troseddau a chynnydd mewn digartrefedd.' (TS, A1)

- 10.35 Mae'r dyfyniad hwn yn cyfeirio at y problemau lluosog allai arwain at doriadau i fudd-daliadau lles. Yn ystod grŵp ffocws gyda darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector, ystyriwyd bod angen ymateb ar unwaith gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'r diffyg mynediad at gefnogaeth ariannol a nifer leiaf posib yr opsiynau i bobl ifanc:

'Yn amlwg, mae llywodraeth [y Deyrnas Unedig] wedi gweld y cynnydd ar ddigartrefedd o oedrannau [iau], ac nid ydynt byth wedi gweithredu arno, maen nhw wedi mynd i'r cyfeiriad arall a'i wneud yn anoddach trwy ddweud na allwch chi gael neb dan 21, allwch chi ddim gwneud popeth arall, dim ond ar gyfer budd-dal tai y gallwch chi gael hyn a phopeth arall, maen nhw'n ei gwneud yn anoddach iddynt. Wrth gwrs, nid ydyn nhw'n mynd i mewn i brentisiaethau mwyach, nid ydyn nhw'n mynd i mewn i'r fyddin, nid ydyn nhw'n mynd i'r gwaith o reidrwydd, oherwydd y diweithdra uwch, felly mae'n rhaid i'r llywodraeth feddwl am rywbeth.' (TS, A3)

- 10.36 Fodd bynnag, gan fod gweithredoedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar y system les a'r seilwaith tai, nodwyd bod 'ansicrwydd' yn deillio o 'ddwy agenda wahanol a dwy lywodraeth wahanol' (ALI, A6). Felly, daethpwyd i'r casgliad bod darlun dryslyd ac ansicr yn wynebu pobl ifanc a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.

Llymder a thoriadau i'r gyllideb

- 10.37 Nododd darparwyr gwasanaethau bod diffygion a thoriadau cyllidebol parhaus yn bryderon sylweddol. Dywedwyd bod effaith toriadau yn y gyllideb yn eang gan na chafodd unrhyw sector ei heithrio. Yn benodol, dywedodd darparwyr gwasanaethau bod nifer o enghreifftiau o wasanaethau cymorth y trydydd sector wedi cau. Heb eithriad, y canfyddiad oedd bod y rhain wedi'u cau o ganlyniad i fesurau llymder. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau'r trydydd sector:

'Mae toriadau i gefnogaeth yn dod o bob cyfeiriad. Rydym yn sicr wedi sylwi ar ostyngiad mewn cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n wirioneddol heriol'. (TS, A2)

10.38 Roedd darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol yn ymwybodol iawn o'r toriadau mewn cyllidebau'r trydydd sector (oedd yn cyfyngu ar eu gallu i ddarparu cefnogaeth), a phroblem cyllid tymor byr yn arwain at wirio gwasanaethau i reoli'r galw. Fel y dywedodd un:

'Mae llawer yn cael ei godi gan yr elusennau ac mae'r elusennau'n llusgo o gyllid i gyllid, felly maen nhw'n cyflwyno ceisiadau am arian y Loteri Fawr sy'n eu cadw am dair blynedd ac yna mae angen iddyn nhw ei ariannu eto ac eto . Cuddio'r craciau amlwg maen nhw, mae'n ymddengys bod llawer o wirio'n digwydd, mae'n anodd cael pobl i mewn i wasanaethau'. (ALI, A5)

10.39 Dywedodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod llawer o wasanaethau cefnogi sydd ar gael i gynorthwyo'r rheiny sy'n dioddef problemau iechyd meddwl neu ddianc rhag trais domestig ac roedd camdriniaeth wedi gostwng yn sylweddol. Rhoddwyd y mater o sut yr oeddid yn mynd i'r afael â chymorth i bobl sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig mewn perthynas â thoriadau cyllidebol mewn cyd-destun gan un darparwr gwasanaethau trydydd sector:

'Gallwn, mi allwn ni ddeddfu, ond mewn gwirionedd pwy sy'n plismona hynny a heb gymorth cyfreithiol, heb gynrychiolaeth gyfreithiol a gyda chyfyngiadau a gwasanaethau sy'n crebachu. Does neb yno'n ymladd am yr hawliau hynny, ac mae tai yn cael ei gynnwys yn hynny.' (TS, A1)

10.40 Fodd bynnag, nid asiantaethau'r trydydd sector yn unig oedd yn gweld effaith y gostyngiadau mewn cyllid gan fod rhaid i ddarparwyr statudol hefyd adolygu'r modd y darperir gwasanaethau yn sgil toriadau yn y gyllideb. O ganlyniad, dywedwyd hefyd nad oedd gan rai darparwyr gwasanaethau awdurdodau lleol ddigon o adnoddau fel y portreadwyd gan gyfranogwr a ganlyn y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig:

'Maen nhw i gyd yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg adnoddau, diffyg llety, torri'n ôl ar y gwir ofal cymdeithasol yn y gymuned. Mae hefyd yn anodd cael apwyntiad gyda'r cyngor i gofrestru'n ddigartref pan fydd eu swyddfa wedi cau.' (LCC, A1)

10.41 Er gwaethaf yr heriau sy'n deillio o doriadau yn y gyllideb, mewn un awdurdod lleol, roedd y tîm Atebion Tai o'r farn eu bod wedi ymdopi'n dda:

'Mae hi wedi bod yn ddwy flynedd anodd, rwy'n meddwl ac mae'r staff wedi ymdopi'n dda iawn ... i gynnal ansawdd y gwaith. Rwy'n meddwl ein bod ni yno neu'n ddigon

agos. Mae gennym staff da ac maen nhw'n ei deall hi ac maen nhw'n gwneud eu gorau.' (ALI, A1)

- 10.42 Mae'n amlwg felly bod y toriadau yn y gyllideb wedi cael effaith ar ddarparu'r gwasanaeth hwnnw (o ran cefnogaeth ymarferol a chynghor). Cafodd systemau penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft cymorth ariannol, yr oeddid wedi gwneud i ffwrdd â nhw, eu nodi fel y Grant Gofal Cymunedol a'r Gronfa Cymorth Dewisol. O'r herwydd, ni welwyd bod effaith llymder wedi'i gyfyngu ar draws sectorau nag yn ôl grŵp defnyddwyr gwasanaethau. At hynny, roedd darparwyr gwasanaethau'n disgwyl y byddai canlyniadau toriadau a thoriadau cyllidebol yn gwaethygu yn y dyfodol pan fyddai effeithiau llawn Diwygio Lles yn dod i'r amlwg.

Heriau'r gweithlu

- 10.43 Roedd nifer o'r sefydliadau ar draws safleoedd yr astudiaeth achos wedi gweld trosiant staff uchel yn ystod cyflwyno'r Ddeddf ac wedi hynny. Dywedai darparwyr yn aml fod hyn yn amharu ar wasanaethau ond y câi ei ystyried fel ymateb anochel i newidiadau polisi ac arfer sylweddol. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau'r trydydd sector:

'Cafwyd trosiant yn y staff yn gyson, felly does byth amser sefydlog lle ceir pobl dda, gymwys, brofiadol yn delio â'r materion hyn.' (TS, A2)

- 10.44 Mewn un ardal astudiaeth achos fawr, amlygwyd bod nifer y staff newydd a / neu dros dro yn Atebion Tai yn arbennig o broblemus gan fod rhanddeiliaid mewn asiantaethau partneriaid o'r farn nad oedd gan y swyddogion hyn ddigon o gymwysterau neu eu bod yn ddibrofiad:

'I fod yn gweithio yn yr amgylchedd hwnnw oherwydd maent wedi dod o ryw beth hollol wahanol ac yna chwe mis yn ddiweddarach, maen nhw wedi mynd oherwydd mai swyddi dros dro ydyn nhw i gyd, maen nhw wedi mynd ac maent yn ailgyflogi pobl newydd. Felly, mae yna elfen o anhrefn yn y math hwnnw o strwythur.' (TS, A2)

- 10.45 Gwelwyd bod hyn yn broblem arbennig i ddarparwyr cymorth (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac asiantaethau'r trydydd sector) gan y credid nad oedd y staff newydd yn deall rôl a chylch gwaith eu partneriaid: *'nid yw'r aelodau newydd o staff yn deall o'r prosiectau sydd yno'*. O ganlyniad, ni allai'r defnyddwyr gwasanaethau gael mynediad at yr ymyraethau priodol gan nad ydynt yn cael eu cyfeirio atynt neu eu cyfeirio at ddarparwyr cymorth.

- 10.46 Felly, ystyriwyd bod trosiant staff neu ddiffyg profiad staff o fewn Atebion Tai yn dod â heriau. Roedd y rhain yn cynnwys partneriaethau peryglus gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr y trydydd sector, bylchau mewn gwybodaeth, rhoi cyngor aneffeithlon ac arwyddion gwael.

Yr adnoddau sydd ar gael: cyllid a'r stoc dai

- 10.47 Nododd sawl darparwr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos ddiffyg cyffredinol mewn adnoddau. Yng ngeiriau un darparwr gwasanaethau awdurdodau lleol, mae gwasanaethau *'ar hyn o bryd, yn cynorthwyo'r ychydig yn hytrach na'r torfeydd, a diwedd y gân yw adnoddau'* (ALI, A4). Cydnabuwyd bod y canlyniadau'n amrywiol ac yn cael effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion:

'Y rhwystrau, fyddwn i'n meddwl, yw nad oes gennym lawer o arian. Rydw i newydd gael gwraig nawr gyda chwe phlentyn sy'n cael eu troi allan. Roedd ar ei hôl hi'n sylweddol gydag ôl-ddyledion rhent; roedd ganddi £4,000, ond llwyddodd i grafu £500. Rhoes fy mhennaeth ... yr arian yma i mi fel cymhelliant, ac mae hi'n cael talu £25 yr wythnos yn ôl ... Ond allwn ni ddim gwneud hynny i bawb. Ein pryder oedd, iawn, mae o'n ei throi hi allan, mae o'n cario ymlaen; lle ydyn ni am roi gwraig efo chwech o blant?' (ALI, A1)

- 10.48 Yn yr achos hwn, roedd mater adnoddau ynghlwm wrth gyllid atal (gan yr awdurdod lleol sy'n talu'r ôl-ddyledion cronedig) a'r diffyg llety mwy ar gyfer teuluoedd. Y gred oedd bod prinder adnoddau'n cyfyngu ar y gallu i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau yn y cam atal:

'Oni bai fod yr arian yna allwn ni ddim ei gyflawni. Cymaint ag y mae gennych chi'r staff sy'n barod i'w wneud, os nad yw'r gwasanaethau ar gael ... Mae'n dwylo wedi'u clymu ac mae ymdeimlad o, ie, iawn, rydym eisiau cynorthwyo ac rydym eisiau bod yn canolbwyntio ar unigolion ac yn gwneud y Ddeddf Cydraddoldeb a sicrhau bod pawb yn cael eu trin y gorau gallwn ni ond allwch chi ddim pan fo amser yn brin.' (TS, A2)

- 10.49 Yn amlwg, roedd y ffaith nad oedd adnoddau ar gael (cyllid atal, cyllid yn fwy cyffredinol ar gyfer gweithrediadau dyddiol, llety priodol ac sydd ar gael, amser staff) yn broblem barhaol oedd y tu allan i gylch gorchwyl y Ddeddf.

Prinder darpariaeth ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed a phobl ag anghenion cymhleth

- 10.50 Codwyd diffyg cefnogaeth a llety priodol sydd ar gael i grwpiau sy'n agored i newid a phobl ag anghenion cymhleth fel mater gan ddarparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos. Adroddwyd ar heriau i bobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl, i bobl sy'n gadael y carchar ag anghenion ychwanegol (anableddau dysgu, anghenion corfforol ac iechyd) a mwy wrth iddynt ddod o hyd i lety. Nodwyd materion penodol mewn perthynas â graddfa a natur y gefnogaeth sydd eu hangen ar bobl ag anghenion cymhleth o ran diffyg capasiti a phrinder staff:

'Mae yna ddiffyg cyfleusterau i bobl. Mae gennym ychydig o drigolion yma ar hyn o bryd. Nid ydym wedi'n paratoi ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth o'r fath oherwydd bod prinder anferth yn y lleoedd iddynt fynd.' (TS, A5)

- 10.51 Gallai'r canlyniadau i bobl ag anghenion cymhleth fod yn denantiaeth anghynaliadwy sy'n arwain at droi pobl allan o'u cartrefi. Nodwyd bod materion penodol, sef iechyd meddwl, yn heriau sylweddol sy'n arbennig o broblemus, fel y nododd darparwr gwasanaethau trydydd sector, *'nid oes digon o dai â chymorth i bobl dan iechyd meddwl; does dim'* (TS, A2). Myfyriodd darparwr gwasanaethau trydydd sector mewn lleoliad gwledig ar sefyllfa ddiweddar *'cafodd y ddau ohonyn nhw eu troi allan yn y pen draw oherwydd nad oedd unrhyw adnodd i gael cymorth iddynt'*. Lle'r oedd adnoddau, roedd *'galw enfawr amdanynt'* ac, o'r herwydd, gwelwyd bod y gwasanaethau hyn *'mond yn cyffwrdd wyneb y nifer sydd gennym'* (ALI, A4).

- 10.52 Dywedodd darparwyr gwasanaethau na fyddai rhai defnyddwyr gwasanaethau byth yn gallu byw'n annibynnol, ond nid oes darpariaeth ar gael ar gyfer y bobl hynny y bydd angen tŷ a chymorth parhaus arnynt: *'Felly, cymaint ag yr ydym yn ceisio'u gwthio i fyw'n annibynnol, dydyn nhw byth yn mynd i ymdopi ... rydym yn cydnabod hynny ac rydym yn ei reoli'r gorau gallwn ni.'* (TS, A2). At hynny, y teimlad hefyd oedd bod pobl â materion cymhleth yn anaddas ar gyfer llawer o'r tai â chymorth presennol oherwydd yr effaith ar drigolion eraill:

'Mae llety â chymorth yn adnodd gwerthfawr yn y sir oherwydd nad oes gennym lawer ohono ... Os nad ydych chi'n deall yr hyn y mae'r prosiect yn bwriadu ei wneud ac i bwy y bwriedir iddynt fod, os ydynt yn rhoi rhywun i mewn nad yw'n ffitio'r proffil hwynnw, gall ansefydlogi pawb arall, yn enwedig os ydych chi'n sôn am bobl â phroblemau iechyd meddwl' (ALI, A4)

Llety a rennir a'r rhai dan 35

- 10.53 Yng nghyswllt y rhai dan 35 oed, trafodwyd cyfradd llety a rennir budd-dal tai yng nghydestun fforddiadwyedd, cynaliadwyedd a'r heriau sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau sy'n gweithio gydag oedolion iau:

'Rwy'n meddwl mai dyna un o'r prif heriau a fydd yn ein hwynebu am dai oherwydd mai dim ond y gyfradd llety a rennir y byddant yn ei chael. Felly, rydym yn edrych ar ddelio â hynny'n strategol ac fel partneriaeth â'r gofrestr tai cyffredin ... Mae'n esblygu, chi'n gwybod, yr heriau yr ydym yn eu hwynebu ond y prif un nawr yw fforddiadwyedd, wrth gynnal tenantiaethau.' (LCC, A1)

- 10.54 Roedd un darparwr gwasanaethau trydydd sector o'r farn bod yna waith i'w wneud o hyd wrth ddod o hyd i strategaeth i weithio gyda'r bobl dan 35 oed, gan nodi *'mewn gwirionedd, rhaid i ni fynd i'r afael â sut yr ydym yn gweithio gyda charfan o bobl nad oes ganddynt fudd-dal tai sydd ynghlwm wrthynt neu sydd â sgôr a rennir yn unig'* (TS, A2). Yr hyn oedd yn fwy pryderus oedd y posibilrwydd y byddai pobl yn y categori dan 35 yn cael eu *'gorfodi i aros mewn cartref teuluol lle ceir camdriniaeth'* (LCC, A1) pe na baent yn gallu cael llety amgen, diogel a fforddiadwy.

- 10.55 Yn ogystal, mae llety a rennir yn broblem benodol i rieni sengl o ran cyswllt â phlant gan fod llety a rennir yn cyfyngu ar y modd y gellir cael cyswllt (heb gyswllt dros nos, er enghraifft).

Problemau gyda llety a rennir

- 10.56 Soniodd sawl darparwr gwasanaethau hefyd am y problemau a grëwyd gan wrthdaro personoliaeth a gwrthdaro rhwng tenantiaid sy'n rhannu *'eu sodro gyda'i gilydd a'u cymysgu - ond, yn y bôn, rydych chi'n gwybod y byddai hynny, o bosib, yn drychineb. Efallai y bydd yn gweithio i rai, bydd, ond mae'n debyg na fydd i'r mwyafrif'* (LCC, A1).
- 10.57 Rhoes un gwasanaeth trydydd sector bortread bychan i oleuo'r problemau gyda rhannu llety:
- 'Gallwch, gallwch chi gyfateb y dynion tebyg hynny â chamddefnyddio sylweddau neu problemau iechyd meddwl, mae gennym dri ohonyn nhw i gyd efo'i gilydd mewn un tŷ. Fyddai neb yn glanhau'r gegin, fyddai neb yn talu'r biliau, fyddai neb yn cymryd cyfrifoldeb am wneud unrhyw beth.'* (ALI, A1)
- 10.58 Roedd darparwyr gwasanaethau'n gweld y broblem o bwy fyddai'n rheoli'r math hwn o lety yn ddadleuol i landlordiaid. Natur y problemau hyn oedd nad ystyriwyd bod llety a

rennir yn ateb tymor hir, ond eu bod yn creu tenantiaethau anghynaliadwy ac yn ychwanegu at y cylch 'drws cylchdroi'.

Atebion amgen ar gyfer y rhai dan 35: Tai cynwysyddion

- 10.59 Awgrymodd rhai darparwyr gwasanaethau ddefnyddio 'tai cynhwysyddion' (cartrefi fforddiadwy a adeiladir o gynwysyddion llongau) fel dewis arall i lety a rennir:

'Rydym yn edrych ar atebion eraill. Rydym yn edrych ar, wel, maen nhw'n cael eu galw'n dai cynwysyddion, sy'n derm ofnadwy ond maen nhw'n neis iawn. Maen nhw'r math o dai a adeiladwyd yn bwrpasol lle gallwn gynyddu nifer yr unedau a fyddai'n addas i bobl sengl dan 35 oed. Felly, rydym yn edrych ar fentrau eraill heblaw am lety a rennir.' (LCC, A3)

- 10.60 Roedd awdurdodau eraill wedi ystyried tai cynwysyddion. Fodd bynnag, nododd un darparwr gwasanaethau:

'Mae ein prif weithredwr, mae wedi'i arswydo gan y cysyniad o fyw mewn cynhwysydd. Fel ydych yn dweud, gallai fod yn ateb dros dro, ond os yw'n ateb dros dro, rwy'n meddwl y dylai gael ei ariannu 100 y cant o grant fel na fyddwn ni'n cario'r baich ariannol; oherwydd dyna'r peth arall y mae'n rhaid i ni ei gofio - cymdeithas dai – busnes ydyw yn y pen draw.' (LCC, A1)

- 10.61 Felly, er bod tai cynwysyddion yn cael eu hystyried fel rhywbeth sy'n cynnig rhai posibiliadau i gynyddu'r stoc dai yn y dyfodol, dyddiau cynnar yw hi o ran a fydd hyn yn cynnig cyfleoedd go iawn i adeiladu tai fforddiadwy a hygyrch. Yn ogystal, nid oedd yn glir bod tai cynwysyddion yn gwneud synnwyr busnes da ac mae hyn yn codi cwestiynau yng nghyd-destun mesurau llymder presennol a chyllidebau cyfyngedig.

Lleoliad a darparu gwasanaeth

- 10.62 Roedd lleoliad yn broblem o ran tai sydd ar gael a thai fforddiadwy. Fel y nodir uchod, mae darpariaeth annigonol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth ledled Cymru a dywedodd darparwyr gwasanaethau ar draws sectorau ac ardaloedd yr astudiaeth achos bod diffyg amlwg o ran llety a chymorth priodol ar gyfer pobl ag iechydd meddwl gwael. I un defnyddiwr gwasanaeth, roedd yr eiddo a ddangoswyd iddi yn rhy bell i ffwrdd iddi ei ystyried. Esboniodd:

'Roedd un o'r eiddo a awgrymwyd yn daith oddeutu 45 munud i mi. Rwy'n ennill £14,000 y flwyddyn, mae'n rhaid i mi gael car i ddod i 'ngwaith oherwydd bod y llefydd hyn mor anghysbell. Mae angen i mi gadw costau rhedeg y cerbyd hwnnw'n eithaf isel

er mwyn cyrraedd y gwaith! ... taith 45 munud bob dydd yno ac yn ôl - mae'n llyncu'r ychydig arian sydd gennych chi i fyw arno.' (DG, A5)

- 10.63 Ym marn darparwyr gwasanaethau eraill, roedd natur wledig eu hawdurdod lleol yn creu rhwystrau i bobl sy'n teithio i apwyntiadau, yn enwedig os nad oedd llawer o gludiant cyhoeddus. Yn ychwanegol, roedd rhwystrau wrth fynd at wasanaethau eraill, er enghraifft, meddygon neu ysbytai, a rhaid oedd i ddefnyddwyr gwasanaethau gynnal trafodaethau gydag Atebion Tai pan gynigiwyd iddynt eiddo nad oedd mewn lleoliadau priodol, fel y gwelir yn y darn isod:

'Fe ddywedais wrthynt gyda'r eiddo hwn, lle'r oedd o, mae gen i lawer o apwyntiadau ysbyty, ac nid oes gen i ddewis gyda lle maen nhw oherwydd yr adrannau y mae angen i chi eu gweld. ... Dywedais wrthyn nhw, 'Does dim bysys i lawr i'r eiddo hwn.'
Dywedodd, 'Rydych yn gallu symud.' Dywedodd, 'Archebwch dacsî.' Beth yr oeddwn yn ceisio'i esbonio iddi oedd bod tacsî o'r eiddo hwnnw i'r dref yn £5. Os oes rhaid i mi gael tacsî yn y bore, mae'n costio £5 i mi gael i mewn. Os na fyddaf yn cael yn ôl, oherwydd ei fod yn un o'r rhai y bu raid i mi fynd iddo yn yr ysbyty 'lly, roeddwn i'n gwybod wedyn na allwn gael bws yn ôl oherwydd ei fod yn apwyntiad trwy'r dydd.' (DG, A4)

- 10.64 Roedd rhai awdurdodau'n ymestyn dros ardaloedd daearyddol mawr iawn ac roedd gwahaniaethau o ran yr hyn oedd ar gael:

'Yn y de, nid oes llawer. Mae gennych chi'ch llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed, ond nid oes unrhyw lety â chymorth yna ar ôl hynny. Mae gennych [X]. Mae gennych [X] ond maen nhw ar gyfer merched sengl, neu ferched un rhiant â phlant, ond i ddynion sengl, sy'n gadael carchar, nid oes llety â chymorth yn y de. Mae gennych chi [X], [X], i fyny yno yn y gogledd, ond mae galw mawr, oherwydd mae[awdurdodau lleol eraill] yn eu defnyddio. ' (ALI, A1)

- 10.65 Wrth ystyried daearyddiaeth Gogledd Cymru, nododd darparwr gwasanaethau trydydd sector:

'Byddwn i'n diffinio Gogledd Cymru fel ardal wledig iawn. Does gennych chi ddim gwasanaethau sefydlog, felly os ydych chi'n byw mewn pentref bychan yn y mynyddoedd, gall gymryd tri bws i chi gyrraedd canol dinas. Nid yw budd-daliadau'n talu eich bysiau, felly bydd y rhan fwyaf o bobl yn yr ardal hon yn tueddu, yn enwedig o ran digartrefedd, yn ymgynnull yn yr ardal lle mae yna wasanaethau'. (TS, A1)

- 10.66 Eglurodd darparwyr gwasanaethau fod y galw am dai wedi'i gysylltu â seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau awdurdodau lleol. Wrth ddisgrifio'r awdurdodau gwledig, dywedwyd bod llai o alw lle'r oedd cludiant cyhoeddus cyfyngedig a gwasanaeth arall yn cael ei gynnig, a mwy o alw mewn ardaloedd oedd â seilwaith rhesymol effeithlon. Er y credid bod defnyddio'r sector rhentu preifat yn mynd i'r afael yn rhannol â'r prinder stoc tai, roedd fforddiadwyedd yn broblem mewn ardaloedd penodol. Mewn trefi Prifysgol gwelwyd bod poblogaeth y myfyrwyr wedi peri i renti gynyddu. Roedd rhenti hefyd yn cael eu hystyried yn uchel mewn trefi a dinasoedd glan môr poblogaidd ac roedd prinder mewn rhai ardaloedd gwledig dymunol. O ganlyniad, yn y meysydd mwy poblogaidd hynny, roedd beichiau ychwanegol yn cael eu rhoi ar wasanaethau digartrefedd.
- 10.67 Roedd yr her o ddarparu gwasanaethau ar draws tirwedd ddaearyddol Cymru yn anodd i rai awdurdodau o ran bod yn ymatebol a chynnig gwasanaeth amserol oedd yn canolbwyntio ar unigolion. Yn ogystal, lle'r oedd awdurdodau'n fwy gwledig, roedd cael Atebion Tai yn broblem os na allai defnyddwyr gwasanaethau deithio i swyddfeydd. Nid oedd yn hawdd i rai timau Atebion Tai gael man lle gallent gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau ac roedd toriadau mewn cyllid yn atal ymweliadau cartref. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd staff Atebion Tai yn dueddol o gwblhau asesiadau dros y ffôn ac nid oeddent byth yn cwrdd â defnyddwyr gwasanaethau, sefyllfa nad oedd sawl darparwr gwasanaethau ar draws sectorau yn ei ystyried yn ddelfrydol:
- 'Does dim cyswllt wyneb yn wyneb. Mae angen rhoi gwybod eich bod yn ddigartref dros y ffôn nawr, ac mae'n rhaid i mi ddweud, os ydych chi'n ddigartref ar y stryd, beth yw'r tebygrwydd o gael ffôn? ... [neu] fod â digon o gredyd.'* (TS, A4)
- 10.68 Fel y nodwyd gan y darparwr gwasanaethau hwn, mae yna broblemau penodol wrth ddefnyddio'r ffôn i gynnal asesiadau pan fydd gan y defnyddiwr gwasanaethau heriau lluosog Hefyd, dadleuwyd pe bai rhywun yn profi trallod neu gamdriniaeth ddomestig, nid yw'n bosib canfod hyn yn ystod galwad ffôn.
- 10.69 At ei gilydd, dyweddodd darparwyr gwasanaethau bod amrywiad yn y gwasanaethau a ddarperir o ran eu bod ar gael a'u darparu ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos. Roedd yna gonsensws bod cyswllt wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaethau'n well gan ei fod yn fwy buddiol o ran cwblhau asesiadau, datblygu cydberthynas a gallu cynnig y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion a ffefrir yn y Ddeddf.

Cefnogi pobl: symud i ffwrdd oddi wrth arbenigeddau

- 10.70 Fel y nodir uchod, cyfeiriwyd yn aml at anghenion cymorth pobl ag anghenion cymhleth ac at absenoldeb llety arbenigol. Gan gysylltu hyn gyda'r gyllideb lai ar gyfer Cefnogi Pobl, mynegwyd hyn gan un darparwr gwasanaethau yng nghyd-destun symud i ddarpariaeth gwasanaeth generig, yn hytrach nag arbenigol:

'Wrth i'r gyllideb Cefnogi Pobl grebachu ac mae mwy o bwysau ar y gwasanaethau hynny a chan edrych ar fodelau newydd ac rwy'n meddwl, yn debygol, o ganlyniad i'r Ddeddf hefyd. Symud tuag at ddarpariaeth fwy generig, yn hytrach na chael y gwasanaethau arbenigol hynny, mae gennym wasanaeth generig mwy, sy'n fwy seiliedig ar leoliad a all godi llawer o wahanol anghenion ac yna gallai dynnu oddi ar arbenigeddau os oes angen.' (TS, A5)

- 10.71 Mewn awdurdodau eraill, ystyriwyd bod darparwyr gwasanaethau'n nodi bod cyllideb Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â'r diffyg. Yng ngeiriau darparwr gwasanaethau yn y trydydd sector:

'Fwyaf sydyn nawr, er ei fod yn dal yn anstatudol, mae disgwyl i ni ddefnyddio arian Cefnogi Pobl i ariannu gwasanaethau statudol oherwydd bod atal yn wasanaeth statudol nawr, yn tydi, mae atal digartrefedd yw rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei wneud yn ôl y gyfraith, ond rydym yn defnyddio Cefnogi Pobl i'w wneud. Felly, mewn ffordd anuniongyrchol, rydym yn defnyddio Cefnogi Pobl ar gyfer gwasanaethau statudol pan na ddylem fod yn defnyddio Cefnogi Pobl ar gyfer gwasanaethau statudol.' (ALI, A2)

Diffyg Tai Cymdeithasol

- 10.72 Cydnabuwyd yn gyffredinol bod diffyg tai cymdeithasol ledled Cymru yn rhwystr sylfaenol rhag mynd i'r afael â digartrefedd gan fod *'galw mawr am dai cymdeithasol, fel ym mhobman, ac nid oes llawer ohonynt'* (TS, A1). Mynegodd dros draean o ddefnyddwyr gwasanaethau rwystredigaeth ynghylch y diffyg tai cymdeithasol a'r rhwystrau rhag mynd i mewn i'r farchnad rhentu breifat:

'Does ganddyn nhw ddim digon o dai i fynd o gwmpas. Gadewch i ni ei roi fel hyn. Mae hynny'n amlwg. All neb wneud dim ynghylch hynny. Wel, iawn, gallai'r llywodraeth wneud llawer yn ei gylch. Beth am wneud yr hyn a wnaethon nhw yn y 60au / 70au a dechrau adeiladu?' (DG, A4)

10.73 Lleisiodd un darparwr gwasanaethau ei bryderon o ran fforddiadwyedd:

'Rwy'n gwybod bod llawer mwy o sôn am fforddiadwyedd tai cymdeithasol nawr a bod profion fforddiadwyedd yn cael eu gwneud cyn rhoi tenantiaeth, i weld a yw pobl yn gallu fforddio. Fy mhryder i yw, os na fyddwn yn cartrefu pobl sy'n edrych fel pe na allant fforddio byw mewn tai cymdeithasol; pwy ar y ddaear sydd yn mynd i'w cartrefi nhw? Dyna yw'r broblem sydd gen i.' (LCC, A1)

10.74 O'r herwydd, nid oedd defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo bod ganddynt na dewis na rheolaeth ond eu bod yn gwerthfawrogi pa gefnogaeth yr oedd awdurdodau lleol yn ei rhoi er nad oedd bob amser yn datrys eu sefyllfa. Yn sgil hyn, roedd canran sylweddol wedi canfod llety gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac roeddent i gyd yn dweud eu bod yn hapus â'u llety. Roedd hyn yn arbennig o wir lle rhoddwyd cymorth tenantiaeth yn rheolaidd:

'Mae wedi bod yn help garw i mi, a bod yn onest. Rwy'n teimlo fy mod yn poeni ychydig pan oeddwn yn symud allan o [hostel] am y tro cyntaf, oherwydd cyn i mi ddod i lawr yma, rwy'n amlwg wedi byw gyda 'nghynbartner a 'mhlant ac yna rwyf wedi bod mewn hosteli am y 18 neu am y 18 mis blaenorol nes i mi symud allan, felly roeddwn wastad wedi arfer cael pobl o gwmpas a chael rhywfaint o gefnogaeth ... ac felly roeddwn yn eithaf pryderus pan symudais allan yn gyntaf na fyddai yno gymaint wedyn ond mae [y gweithiwr cefnogi] wedi bod yn hollol wych, hollol wych' (DG, A3)

Crynodeb

10.75 Yn ôl Monitor Digartrefedd Cymru, roedd bron pob un o awdurdodau lleol Cymru a ymatebodd yn credu bod Diwygio Lles wedi 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal, ac mae Diwygio Lles wedi cael effaith anghymesur mewn sawl rhan o Gymru o ganlyniad i ddirywiad diwydiannol dros amser (Fitzpatrick et al, 2017).

10.76 Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol a Diwygio Lles yn fwy cyffredinol yn mynd yn groes i'r ethos yn y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion (atal a chanolbwyntio ar unigolion). Cyfyngedig yw gallu llywodraethau datganoledig mewn gwledydd bychain i weithredu newid polisi (Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru, 2017). Mae Diwygio Lles, trwy ostwng lefel y taliadau budd-dal a chyfyngu taliadau i'r rhai dan 35 oed, yn peryglu gallu pobl i dalu am lety rhent preifat a hefyd yn rhwystro landlordiaid preifat rhag gosod eiddo i bobl sy'n derbyn budd-daliadau.

- 10.77 Yn union fel y priodolir achosi digartrefedd yn rhannol i broblemau strwythurol (prinder llety, diweithdra, tlodi) mae'r atebion i ddigartrefedd hefyd yn strwythurol ac felly y tu allan i gylch gorchwyl y Ddeddf. Nid yw'r Ddeddf yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, ac yn y pen draw mae'r Ddeddf yn gyfyngedig i reoli angen a galw (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018).
- 10.78 Mae prinder llety - yn enwedig ar gyfer deiliadaeth sengl - ar draws y sector rhentu cymdeithasol a phreifat yn peryglu gallu awdurdodau lleol i atal a lleddfu digartrefedd.

11. Casgliadau ac Argymhellion

Cyflwyniad

- 11.1 Barn y mwyafrif llethol yw bod y fframwaith digartrefedd statudol newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf wedi cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol. Mae wedi cynorthwyo i symud diwylliant awdurdodau lleol tuag at weithred fwy ataliol, sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ar ganlyniadau, sydd wedi golygu ymateb sylweddol well gan wasanaethau i fynd i'r afael â digartrefedd.
- 11.2 Mae'r datganiadau ystadegol swyddogol yn cadarnhau hyn, gyda bron i ddwy ran o dair o gartrefi dan fygythiad digartrefedd yn cael eu hatal rhagddo a dwy ran o bump o aelwydydd digartref yn cael eu rhyddhau o ddigartrefedd.
- 11.3 Fel y disgwyliwyd, mae nifer yr aelwydydd ag angen blaenoriaethol a gynorthwyr dan y 'ddyletswydd i sicrhau llety', ac a weithredwyd yn unig ar ôl i ymdrechion atal a / neu rwystro fethu, yn llawer is na lefelau 'derbyn' digartrefedd statudol dan y system cyn 2015.
- 11.4 Fodd bynnag, mae cysgu allan yn cynyddu yng Nghymru ac fe'i cydnabyddir yn gyffredinol ar draws awdurdodau lleol ac ymhlith darparwyr gwasanaethau mai pobl sy'n cysgu allan sydd wedi elwa lleiaf o'r newidiadau deddfwriaethol diweddar. Mae yna gydnabyddiaeth ar gynnydd bod angen gwneud rhywbeth.
- 11.5 Mae'r bennod olaf hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol gwerthuso'r Ddeddf ac yn cyflwyno cyfres o argymhellion yn seiliedig ar y rhain.

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Effaith a phrosesau'r Ddeddf

- 11.6 Cafwyd cefnogaeth unfrydol i ethos a bwriad y Ddeddf gan ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol ac ymhlith darparwyr gwasanaethau. Mae tystiolaeth o fwy o weithgarwch atal a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol wedi croesawu 'camau rhesymol' yn strategol ac mae hyn hefyd wedi arwain at well canlyniadau i bobl sy'n ddigartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd. Felly, mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith lle mae'n bosib atal digartrefedd ystod eang o bobl na fyddai wedi'u cynnwys o dan y trefniadau blaenorol a'u rhyddhau ohono.
- 11.7 Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol ar draws Cymru a hefyd o fewn ardaloedd awdurdodau lleol o ran y graddau y mabwysiadwyd ethos y Ddeddf newydd ac effeithiolrwydd atal a chamau rhesymol: mae hyn yn bryder.

- 11.8 Mae tystiolaeth o amrywiad yn y dehongliad o fwriadoldeb a chysylltiad lleol. Gwelai lleiafrif o ddarparwyr gwasanaethau ddigartrefedd bwriadol fel ffordd o wirio mynediad at wasanaethau; fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r farn ei fod yn groes i ethos y Ddeddf ac yn niweidiol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
- 11.9 Mae gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus yn dibynnu ar nifer o ffactorau: sgiliau, arbenigedd ac ymddygiad y staff sy'n darparu'r gwasanaeth (yn enwedig y staff rheng flaen, y pwynt cyswllt cyntaf); a hefyd ar ffactorau strwythurol, er enghraifft, tai sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy mewn ardal benodol.
- 11.10 Mae angen cydbwysu bod yn ymatebol i anghenion lleol ac amgylchiadau unigol â sicrhau dehongliad unffurf o 'gampau rhesymol', yn enwedig er mwyn osgoi rhoi pobl sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion cymhleth dan anfantais (trafodir hyn ymhellach isod).
- 11.11 O'r 90 o ddefnyddwyr gwasanaethau a gyfwelwyd y gellid gwirio eu sefyllfa dai yn ystod yr ail don o waith maes, roedd 50 wedi cael eu hailgartrefu'n llwyddiannus (33 mewn tai cymdeithasol, 17 yn y sector rhentu preifat). Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol yn parhau mewn tai nad ydynt yn rhai sicr chwe mis ar ôl iddynt ddweud eu bod yn ddigartref (21) ac roedd naw o bobl yn cysgu allan.
- 11.12 Hefyd, er bod 21 allan o 22 o awdurdodau lleol yn cadarnhau eu bod yn cymryd camau i gynnal cysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau sy'n colli apwyntiadau gyda staff Atebion Tai, pryder arall yw'r 64 o bobl na ellid dilysu eu hamgylchiadau tai. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd awdurdodau lleol wedi cau achosion – gan nodi'n aml 'methu cydweithio' - ond nid oedd y rhesymau am hyn bob amser yn glir.

Gweithredu a Gweinyddu

- 11.13 Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bod heriau sylweddol wrth weithredu'r Ddeddf. Mae heriau o'r fath yn cynnwys baich gweinyddol cynyddol; trefniadau gweithio mwy biwrocrataidd; a llwyth gwaith uwch a mwy cymhleth i staff Atebion Tai. Caiff adnoddau hefyd eu hystyried yn her sylweddol i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus yn y dyfodol (fe'i trafodir isod).
- 11.14 Ystyrir bod y Côt Canllawiau'n ddefnyddiol fel dogfen gyfeirio (y diben y bwriadwyd ar ei gyfer). Fodd bynnag, gwnaethpwyd rhai awgrymiadau ynghylch sut y gallai fod yn haws ei ddefnyddio.

- 11.15 Nododd rhai darparwyr gwasanaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a thrydydd sector nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y Ddeddf, ac roedd amrywiad ymhlith staff awdurdodau lleol o ran amseriad, ansawdd a faint o hyfforddiant a gafwyd. Mae'r gwerthusiad yn dangos bod defnyddwyr gwasanaethau'n gwerthfawrogi cael clust i wrando arnynt a pheidio â chael eu barnu ac, felly, gellir dadlau bod angen sgiliau ychwanegol bellach ar ddarparwyr gwasanaethau - e.e. negodi; arfer empathig; a chyfweld ysgogol - nag oeddynt o'r blaen. Gall staff nad ydynt yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol gael effaith negyddol ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a pheryglu gweithrediad y Ddeddf.
- 11.16 Mae'n amlwg bod cwblhau / cyflwyno ffurflenni ystadegol yn broses feichus i awdurdodau lleol. Mae yna hefyd faterion yn ymwneud ag ansawdd y data oherwydd amrywiad mewn arferion cofnodi ar draws awdurdodau. Yn arwyddocaol, nid yw'r data bob amser yn casglu'r gwaith sy'n cael ei wneud, yn enwedig o ran atal.
- Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion a newid diwylliant*
- 11.17 Mae'r symudiad mewn diwylliant o asesu gwaith a arweinir gan broses i ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion a chanolbwyntio ar ganlyniadau'n waith sy'n parhau ledled Cymru. Mae mabwysiadu diwylliant a dull trefniadaethol newydd tuag at fynd i'r afael â digartrefedd hefyd yn amrywio ledled Cymru (ac mewn awdurdodau) ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod yno wrthwynebiad i newid, yn enwedig ymhlith staff oedd yn gweithio dan y trefniadau blaenorol. Mae hyn yn cael effaith ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau ac mae'n amlwg bod angen gwaith parhaus i ymgorffori diwylliant y Ddeddf sy'n canolbwyntio ar unigolion yn gywir. Mae'n amlwg nad yw holl staff yr awdurdodau lleol wedi ymrwymo'n llwyr i ethos y Ddeddf newydd oherwydd bod rheoli a gwirio'n parhau mewn rhai ardaloedd.
- 11.18 Ymddengys bod Cynlluniau Tai Personol yn allweddol wrth hyrwyddo arfer oedd yn canolbwyntio ar unigolion, a darparwyr gwasanaethau'n aruthrol o gadarnhaol dros eu defnyddio, er gwaethaf y gwaith papur cynyddol dan sylw. Ymddengys bod Cynlluniau Tai Personol yn allweddol i Dimau Atebion Tai wrth ymgorffori ethos sy'n canolbwyntio ar unigolion. Fodd bynnag, ymddengys nad yw Cynlluniau Tai Personol yn fuddiol i ddefnyddwyr y gwasanaeth, sy'n dweud nad ydynt yn eu cael yn arbennig o ddefnyddiol, felly mae angen mwy o waith i wneud y mwyaf o'r manteision i ddefnyddwyr gwasanaethau.

11.19 Mae llywio systemau newydd a gyflwynir gan y Ddeddf yn creu heriau i rai defnyddwyr gwasanaethau, a gall derbyn nifer o lythyrau trwy gydol y broses fod yn ddryslyd yn hytrach na bod o gymorth.

Gweithio mewn partneriaeth

11.20 Mae'n amlwg bod cefnogaeth strategol i weithio mewn partneriaeth ymhlith awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae tystiolaeth hefyd bod gweithio mewn partneriaeth wedi cynyddu rhwng awdurdodau lleol a'r tu mewn iddynt, a chyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector. Fodd bynnag, unwaith eto, mae llawer o amrywiad y tu mewn i awdurdodau lleol a rhyngddynt.

11.21 Ceir enghreifftiau o drefniadau gweithio mewn partneriaeth gadarnhaol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae gwaith partneriaeth llwyddiannus rhwng digartrefedd a gwasanaethau ieched ac ieched meddwl yn arbennig yn parhau i fod yn faes lle gellid gwneud gwelliannau sylweddol.

11.22 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod gwaith partneriaeth llwyddiannus yn datblygu o ganlyniad i berthynas unigol rhwng darparwyr gwasanaeth yn hytrach nag yn strategol. Mae tystiolaeth sylweddol o sefydliadau'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth llwyddiannus, ond eto mae hyn yn aml yn dibynnu ar berthynas unigol yn hytrach na chael ei yrru'n strategol.

11.23 Yn yr un modd, gall etifeddiaeth o berthnasoedd gwael rhwng unigolion ar draws sectorau beri i anawsterau wrth gydweithio barhau.

11.24 Ymhlith rhwystrau ychwanegol rhag datblygu ac ymgorffori gweithio mewn partneriaeth mae agendâu / blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Er enghraifft, gallai awdurdodau lleol roi pwyslais ar atal troi pobl allan o'u cartrefi, tra gallai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig flaenoriaethu pryderon cymdogaeth / cymuned ehangach.

11.25 Yn gyffredinol, ystyrir y gwaith o ddefnyddio pyrth / llwybrau fel rhywbeth cadarnhaol ar lefel strategol, er bod darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau'n dweud bod heriau wrth lywio systemau lluosog.

Y Sector Rhentu Preifat

11.26 Er bod ymatebwyr i'r arolwg o'r awdurdodau lleol a chyfranogwyr darparwyr gwasanaethau yn yr ymchwil yn derbyn rôl y sector rhentu preifat wrth fynd i'r afael â digartrefedd, roedd amheuaeth sylweddol ynghylch sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae pryderon yn troi o amgylch: y diffyg llety fforddiadwy sydd ar gael - eiddo un ystafell

wely yn arbennig, deiliadaeth nad yw'n un sicr, cyflwr gwael rhai eiddo ac amharodrwydd rhai landlordiaid preifat i ailgartrefu pobl sy'n derbyn budd-daliadau lles.

- 11.27 Mae'r system les hefyd yn cael effaith ar ddefnyddio'r sector rhentu preifat. Mae yna ofnau ynghylch effaith Credyd Cynhwysol, lefelau budd-dal, a chyfyngiadau i'r lwfans tai lleol yn y dyfodol, yn enwedig i bobl dan 35 oed.
- 11.28 Yn ogystal, mae rhwystrau i bobl gael mynediad at y sector preifat o ganlyniad i ffioedd asiantaethau gosod taia'r rheiny ar incwm isel yn methu fforddio'r eiddo.
- 11.29 Mae rhai pryderon ynglŷn â phrofiad landlordiaid preifat wrth gefnogi pobl sy'n agored i niwed a'u parodrwydd i ailgartrefu pobl ag anghenion lluosog.
- 11.30 Ymddengys bod asiantaethau gosod tai cymdeithasol yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol i greu perthynas dda â landlordiaid preifat.
- 11.31 Roedd barn gymysg mewn perthynas â Rhentu Doeth Cymru. Mae wedi sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector rhentu preifat, ond mae canfyddiad y gallai fod wedi annog rhai landlordiaid preifat llai i beidio â rhentu eiddo. Yn ogystal, nid yw wedi gweithredu safon ofynnol ar gyfer llety.

Grwpiau sy'n Agored i Niwed

- 11.32 Cafodd pobl sengl ganlyniadau gwael dan y ddeddfwriaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, dan y Ddeddf newydd, bod y canlyniadau ar gyfer pobl sengl yn dal yn wael gan eu bod yn parhau heb ateb ar ôl pob cam. Gellir priodoli hyn yn rhannol i ddiffyg llety addas, fforddiadwy a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.
- 11.33 Mae'n ymddangos bod nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref / dan fygythiad digartrefedd yn cynyddu, ac yn aml mae eu hanghenion o ran tai hefyd yn cael eu dwysáu gan gydfodolaeth materion eraill, e.e. iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau.
- 11.34 Mae cymorth ariannol cyfyngedig i bobl dan 35 oed hefyd yn rhwystr posib rhag datrys digartrefedd pobl ifanc. Mae gosod pobl ag anghenion cymhleth mewn llety a rennir yn peri heriau ychwanegol.
- 11.35 Roedd iechyd meddwl gwael yn cael effaith ar fwyafrif y defnyddwyr gwasanaethau a gymerodd ran yn yr astudiaeth. Roedd gan lawer o bobl gyflyrau oedd eisoes yn bodoli, tra nododd eraill ddirywiad yn eu hiechyd meddwl o ganlyniad i brofi digartrefedd neu sefyllfa dai ansicr. Yn arwyddocaol, dywedwyd mai sicrhau llety i bobl â phroblemau

iechyd meddwl oedd yr her fwyaf yn wynebu'r darparwyr gwasanaethau. Yn amlwg, mae hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

- 11.36 Mae'n amlwg bod pobl sydd heb gael diagnosis i'w cyflyrau iechyd meddwl yn profi heriau wrth gael at wasanaethau cymorth. Yn ogystal, mae'r bobl hynny y mae gwasanaethau iechyd meddwl yn tybio nad ydynt yn bodloni trothwy yn cael trafferth cael cefnogaeth. Mae pobl â phroblemau iechyd meddwl mwy difrifol hefyd yn wynebu heriau os nad oes digon o gefnogaeth. Nid gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl arbenigol yw timau Atebion Tai ac mae angen cymorth arnyn nhw hefyd i asesu anghenion pobl yn effeithiol.
- 11.37 Fel y nodir uchod, mae'r gweithio mewn partneriaeth sy'n digwydd rhwng gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau iechyd meddwl yn aml yn ddiffygiol, rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.
- 11.38 Mae'n amlwg y gall profiadau blaenorol o'r system gofal barhau a chael effaith tymor hwy ar sefydlogrwydd tai pobl.
- 11.39 Yn ogystal, mae heriau'n parhau o ran darparu gwasanaethau i bobl sy'n ffoi rhag Trais a Chamdriniaeth Ddomestig; mae'n debyg bod y canlyniadau'n dibynnu ar leoliad, gyda rhai ardaloedd yn fwy ymatebol yn y pwynt cyswllt cyntaf nag eraill.
- 11.40 Mae'n ymddangos bod y Llwybr Carcharorion Cenedlaethol yn gweithio'n llawer mwy effeithiol lle mae Swyddog Ailsefydlu Carchardai (a ariennir weithiau trwy gyllid trosiannol Llywodraeth Cymru) ysgogol a deinamig yn ei le.
- 11.41 Ers cyflwyno'r Ddeddf, mae cysgu allan wedi cynyddu ledled Cymru. Mewn termau amlwg, nid oes modd atal digartrefedd pobl sy'n cysgu allan ac, yn aml, nid ydynt yn bodloni'r trothwy o ran bod yn agored i niwed i gael eu hystyried ag angen blaenoriaethol. Felly, nid ydynt yn derbyn dyletswydd ailgartrefu yng nghyfnod olaf y ddeddfwriaeth. Yn ychwanegol, yn aml mae gan bobl broblemau sydd wedi'u hen sefydlu (materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau). Unwaith eto, mae prinder llety addas yn dwysáu'r materion hyn.
- 11.42 Mae diffyg gwaith monitro cadarn ar draws awdurdodau yng Nghymru, ac mae tystiolaeth o ddiffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldeb am fonitro cydraddoldeb dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Heriau Strwythurol

- 11.43 Mae nifer o heriau strwythurol sylweddol fydd yn cael effaith ar weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.

- 11.44 Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol yn atal digartrefedd ar sail unigolion ac yn ymateb i ddigartrefedd a'r problemau y mae'n eu hachosi. Fodd bynnag, parhau heb fynd i'r afael ag achosion strwythurol digartrefedd y mae'r Ddeddf. Mae galw cynyddol am wasanaethau ers cyflwyno'r Ddeddf hefyd yn heriol, wedi'i ddwysáu gan y prinder llety sydd ar gael i symud pobl iddynt. Mae hyn yn cael effaith ar allu'r awdurdodau lleol i atal a lleddfu digartrefedd yn effeithiol.
- 11.45 Caiff gwaith Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ei lunio gan bolisiâu cymdeithasol a sefydlwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn enwedig mewn perthynas â budd-daliadau lles.
- 11.46 Mae Diwygio Lles yn benodol yn broblemus ac yn tanseilio ethos ataliol / canolbwyntio ar unigolion y Ddeddf. Yn ymarferol, bydd Diwygio Lles yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i aelwydydd incwm isel yng Nghymru ac yn cael effaith ar eu gallu i fforddio rhenti yn y sector preifat. Mae hyn yn bryder sylweddol, gan fod gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus yn dibynnu ar allu awdurdodau lleol i gyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy'r sector rhenti preifat.
- 11.47 Yn ogystal, y disgwyl yw y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn gwaethygu heriau i fynd i'r afael â digartrefedd. Yn aml, nid oes gan bobl y profiad na'r sgiliau i gyllidebu / rheoli arian ac mae cynnydd mewn dyledion / ôl-ddyledion rhent yn debygol o arwain at droi pobl allan o'u cartrefi a chynyddu digartrefedd.
- 11.48 Mae cymhlethdod y system les yn debygol o ddrysu pobl a hefyd gael effaith negyddol ar eu lefelau incwm.
- 11.49 Bydd y diffyg rhwng taliadau budd-daliadau a lefelau rhent hefyd yn cael effaith ar fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat.
- 11.50 Er bod awdurdodau lleol wedi derbyn cyllid ychwanegol i weithredu'r ddeddfwriaeth a lefelau cymorth Cefnogi Pobl wedi parhau'n gymharol sefydlog, mae prif setliad yr awdurdod lleol wedi gostwng. Mae gostyngiadau o'r fath i gyllidebau awdurdodau lleol hefyd wedi arwain at ostyngiadau mewn gwasanaethau cymorth - e.e. cymorth tenantiaeth – rhywbeth a fydd, unwaith eto, yn cael effaith negyddol ar lefelau digartrefedd. Yn ogystal, mae'r cyllid tymor byr i ddarparwyr y trydydd sector yn her arall.

- 11.51 Mae effaith y Dreth Ystafell Wely a diffyg llety person sengl hefyd yn cael effaith negyddol ar bobl sengl.
- 11.52 Mae daearyddiaeth a demograffeg amrywiol Cymru'n golygu nad oes darlun unffurf ac mae pob ardal awdurdod lleol (gwledig / arfordirol / trefol) yn wynebu heriau gwahanol. Yn benodol, gall darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb mewn ardaloedd gwledig fod yn broblem.

12. Argymhellion

- 12.1 Cyflwynir yr argymhellion isod yn nhrefn blaenoriaeth, gyda rhai wedi'u dynodi ar gyfer eu gweithredu ar unwaith (argymhellion â blaenoriaeth), eraill fel argymhellion tymor canolig - hir a'r gweddill fel ystyriaethau ar gyfer y dyfodol.

Argymhellion blaenoriaeth

Argymhellion â blaenoriaeth i wneud y gorau o'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau

- 12.2 Dylai awdurdodau lleol gynnal asesiadau cyfannol, sy'n mynd y tu hwnt i angen o ran tai i ddatgelu unrhyw anghenion ychwanegol sydd heb eu diwallu.
- 12.3 Mae Cynlluniau Tai Personol yn ddefnyddiol i staff ac maent wedi bod yn allweddol wrth newid y diwylliant mewn Timau Atebion Tai. Fodd bynnag, gan eu bod yn ymddangos yn llai defnyddiol i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae angen mwy o gydweithio rhwng Atebion Tai a defnyddwyr gwasanaethau wrth bennu blaenoriaethau i sicrhau bod y Cynlluniau Tai Personol wedi'u teilwra i amgylchiadau'r unigolyn. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad strategol yn y Côd Arweiniad a dylai awdurdodau lleol fonitro canlyniadau'n well.
- 12.4 Mae angen i wasanaethau digartrefedd fod yn rhai y gall pobl gael atynt yn gorfforol: cyswllt wyneb yn wyneb yw'r ffordd sy'n canolbwyntio mwyaf ar yr unigolyn. Dylai awdurdodau gwledig ystyried darparu cymorthfeydd cyngor 'fel bo'r angen', symudol.
- 12.5 Dylai awdurdodau lleol symleiddio prosesau cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau a chyfathrebu'n rheolaidd â nhw. Dylai fod gofynion yn eu lle i gadw cysylltiad (o fewn y rheoliadau diogelu data), er enghraifft drwy neges destun bob wythnos o leiaf. Dylai awdurdodau lleol fonitro hyn.
- 12.6 Mae angen mwy o hyblygrwydd i bobl sy'n fregus mewn perthynas â dehongli camau rhesymol - mae angen teilwra camau rhesymol i'r unigolyn yn hytrach na'u safoni ar draws pob cleient; mae angen rhoi ystyriaeth lawn i allu. Mae angen i awdurdodau lleol fonitro achosion unigol yn fwy cadarn, a dylid gwneud ymdrech i gadw cysylltiad â phobl sy'n dod i'r awdurdod ac yn dweud eu bod yn ddigartref. Mae angen monitro methiant i gydweithredu yn agosach hefyd gan fod cymaint o bobl yn syrthio'r tu allan i'r system.

- 12.7 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu Dull Gweithredu Cymru o ran Tai yn Gyntaf. Wrth i hwn ddatblygu, dylai gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r Heddlu fod yn rhan o'r gwaith fel partneriaid strategol allweddol.

Argymhellion â blaenoriaeth i wneud y gorau o weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus

- 12.8 Gan fod y cynnydd wrth weithredu'r Ddeddf yn amrywiol ledled Cymru, mae angen rhannu a gwreiddio arferion da ar draws awdurdodau lleol. Dylid gwneud hyn drwy'r Rhwydwaith Digartrefedd³⁶ a'i gynnwys fel eitem reolaidd ar yr agenda. Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu ymweliadau / gwaith cysgodi / cyfnewid cymheiriaid ar draws awdurdodau lleol er mwyn dysgu sut mae gwahanol feysydd yn ymdrin â gwahanol broblemau.
- 12.9 Gallai Llywodraeth Cymru wneud y Côd Arweiniad yn un y mae'n haws i bobl gael ato a'i ddefnyddio trwy nodi lle mae gwelliannau wedi'u gwneud (er enghraifft, trwy restru diwygiadau mewn atodiad) a chynnwys hyperddolenni yn y ddogfen pdf er mwyn gwneud y gwaith o fynd drwyddi'n haws. Yn yr ailddrafftiaid nesaf, ac er mwyn cael mwy o eglurder, dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu 'Canllaw Arfer Gorau' gan gynnwys senarios fel dogfen ar wahân o'r Côt Arweiniad.

Argymhellion â blaenoriaeth i wella gweithio mewn partneriaeth

- 12.10 Mae angen dealltwriaeth glir o natur a chylch gorchwyl partneriaethau ar draws awdurdodau er mwyn gwneud y gorau o'r defnydd a wneir o adnoddau, osgoi dyblygu gwasanaethau a sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y sefydliadau y maent yn eu hariannu'n gweithio'n briodol gydag awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda'u partneriaid a nodi safonau eglur ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth. Dylai awdurdodau lleol fonitro contractau'n agos hefyd. Dylai awdurdodau lleol gyflwyno protocolau rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd a thai, a rhwng Budd-daliadau Tai a Datrysiadau Tai, gan dynnu ar gytundebau lefel gwasanaeth sydd wedi'i hen wreiddio.
- 12.11 Dylai awdurdodau lleol weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atal pobl rhag cael eu troi allan a chynyddu cynaliadwyedd tenantiaethau, er enghraifft, drwy gynnal cyfweiliadau ar y cyd cyn gwrandawiadau llys. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gallu nodi'r tenantiaid sydd mewn perygl o gael eu troi allan er mwyn sefydlu cefnogaeth. Dylai pecynnau cymorth fod yn hyblyg a

³⁶ Bellach Cyngor Sir Casnewydd sy'n rheoli'r Rhwydwaith Digartrefedd ar ran y 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru

chydabod mai cymorth tymor hir sydd ei angen ar rai defnyddwyr gwasanaeth, nid cymorth a gaiff ei gyfyngu gan amser. Ni ddylai gwasanaethau Cefnogi Pobl ddod i ben yn awtomatig pan roddir sylw i ddigartrefedd.

Argymhellion â blaenoriaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau awdurdodau lleol

- 12.12 Dylid gwella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae angen iddi fod yn gyfredol ac yn hawdd cael ati. Dylai awdurdodau lleol sicrhau fod gwaith ddiweddarau gwybodaeth ar wefannau'n flaenoriaeth. Dylai'r wybodaeth hon gael ei monitro gan awdurdodau lleol a'i hadolygu gan y Rhwydwaith Digartrefedd. Dylid ailsefydlu'r gweithgor biwrocratiaeth i archwilio prosesau cyfathrebu.
- 12.13 Dylai pob awdurdod lleol benodi Swyddog Ailsefydlu Carchardai a sicrhau bod gan y person a benodir i'r rôl y sgiliau a'r gefnogaeth angenrheidiol a'i fod yn derbyn hyfforddiant priodol.
- 12.14 Mae angen mwy o hyfforddiant i staff a hwnnw'n hyfforddiant parhaus, ac un sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar fanylion technegol / darpariaethau'r Ddeddf ond ar ei hethos a'i heffaith ar ymarfer. Mae angen i'r set sgiliau sydd ei angen i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus - cyfweld ysgogol; gwasanaeth cwsmeriaid; empathi; cyfryngu; datrys problemau; cyswllt; arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; cynghori; ymwybyddiaeth iechyd meddwl - hefyd fod yn sail i hyfforddiant. Mae, hefyd, angen cyflwyno hyfforddiant i bartneriaid anstatudol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Rhwydwaith Digartrefedd ac awdurdodau lleol i werthuso sut y gellid diwallu anghenion hyfforddi orau.
- 12.15 Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried mentora ar gyfer staff mewn timau tai. Dylai hyn fod ar gael i'r holl staff, gan gynnwys y sawl sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad fel bod staff ar bob lefel yn cael cefnogaeth barhaus ac yn gallu datblygu. Dylai cefnogaeth briodol gan reolwyr llinell - a chymorth clinigol lle bo'n briodol - fod ar gael hefyd i sicrhau lles staff rheng flaen.
- 12.16 Er mwyn lliniaru effeithiau Diwygio Lles, mae angen i awdurdodau lleol fod yn fwy ymwybodol o effeithiau Credyd Cynhwysol a sut i reoli oedi yn y system. Dylai'r hyn a ddysgwyd gan awdurdodau sydd wedi gweithredu'r Credyd Cynhwysol gael ei rannu drwy'r Rhwydwaith Digartrefedd. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio taliadau tai dewisol i hwyluso gwaith atal digartrefedd.

- 12.17 Dylai cyllidebu a rheoli arian fod yn rhan o hyfforddiant i denantiaid newydd. Dylid cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau am hyfforddiant cyflogadwyedd a sgiliau fel rhan o'r gwaith rhoi camau rhesymol ar waith. Dylai pob awdurdod lleol benodi Swyddog Diwygio Lles i ganolbwyntio ar gynyddu incwm a lleihau gwariant defnyddwyr gwasanaethau.
- 12.18 Dylid defnyddio swyddogion sector rhentu preifat ac asiantaethau gosod tai cymdeithasol ar draws awdurdodau a dylai awdurdodau lleol fabwysiadu dull gweithredu safonedig. Gellid datblygu hyn drwy'r Rhwydwaith Digartrefedd.

Argymhellion â blaenoriaeth i wneud y gorau o rôl y Sector Rhentu Preifat a rhoi cymorth i denantiaid y sector preifat

- 12.19 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallant gefnogi landlordiaid preifat a thenantiaethau sector preifat i sicrhau cysondeb mewn gwasanaethau gyda darpariaeth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- 12.20 Dylai awdurdodau lleol barhau i weithio gyda landlordiaid preifat i roi cymorth (ariannol) a chynyddu cymorth i reoli tenantiaeth, yn enwedig i denantiaid sy'n fregus. Dylai mwy o gymhellion fod yn eu lle ar gyfer landlordiaid preifat, gan gynnwys talu am atgyweiriadau / ôl-ddyledion rhent a defnyddio contractwyr Awdurdodau Lleol i wneud gwaith atgyweirio.
- 12.21 Dylai awdurdodau lleol roi mwy o gefnogaeth i landlordiaid preifat gyda thenantiaid sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu Gwasanaeth Cefnogi Landlordiaid yn eu hardal i sicrhau eu bod yn aros yn y sector.

Argymhellion â blaenoriaeth ar gyfer newidiadau mewn monitro

- 12.22 Byddai cadw cofnodion llawn o adolygiadau ac apeliadau yn helpu i greu darlun cywirach o'r modd y mae awdurdodau lleol a defnyddwyr yn dehongli'r ddeddfwriaeth ac unrhyw wahaniaethau rhwng y ddau. Byddai hefyd yn fodd i gynnal gwaith monitro cywirach yn gyffredinol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i nodi meysydd lle mae angen mwy o arweiniad.
- 12.23 Dylai seilweithiau TG fod yn gymorth i fonitro ac olrhain achosion unigol. Dylai hyn olygu newid dulliau casglu data cyfredol fel bod data cofnodi unigol yn cael eu casglu (yn hytrach na thablau cyfan). Ynghyd â helpu awdurdodau lleol i olrhain achosion unigol yn well, byddai hyn hefyd yn fodd i ymchwilyr ddadansoddi'r data ystadegol yn ddyfnach er mwyn deall yn well sefyllfa aelwydydd digartref / y rhai hynny sydd dan fygythiad digartrefedd yng Nghymru dros amser. Mae angen arweiniad pellach ar hyn gan Lywodraeth Cymru.

- 12.24 Mae angen i awdurdodau lleol fonitro cydraddoldeb yn well, gyda thystiolaeth o sut mae monitro o'r fath yn llywio arfer yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru ategu hyn a'i egluro ymhellach yn y Côd Canllawiau.

Argymhellion â blaenoriaeth i fynd i'r afael â heriau strwythurol

- 12.25 Er mwyn cwrdd â strategaethau digartrefedd, dylai awdurdodau lleol weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu nifer y lletyau priodol sydd ar gael trwy ddefnyddio cronfeydd Grant Tai Cymdeithasol. Dylid ystyried cyfres o opsiynau - gan roi sylw i'r angen am eiddo un a dwy ystafell wely i fodloni'r galw. Dylai hyn gael ei lywio gan dystiolaeth ym mhob ardal awdurdod lleol.

Argymhellion tymor canolig

Argymhellion tymor canolig-hir ar gyfer newidiadau deddfwriaethol

- 12.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cam cyntaf i gael gwared â bwriadoldeb gan y bydd aelwydydd â phlant yn cael 'ail gyfle' o 2019 ymlaen. Dylai Llywodraeth Cymru roi ail gyfle i bob aelwyd ag angen blaenoriaethol a gweithio tuag at gael gwared â bwriadoldeb i bob aelwyd sy'n cael ei ystyried ag angen blaenoriaethol.
- 12.27 Dylid rhoi pobl ddigartref nad ydynt ag angen blaenoriaethol mewn llety dros dro am gyfnod o hyd at 21 diwrnod i'w hatal rhag cysgu allan. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arian dewisol i awdurdodau lleol i hwyluso hyn. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys cysgu allan fel categori angen â blaenoriaeth.
- 12.28 Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach ar gysylltiad lleol gyda'r bwriad o sefydlu gwasanaeth ailgysylltu cenedlaethol ledled Cymru. Gallai hyn gael ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai angen i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ymrwmo i'r gwasanaeth ailgysylltu cenedlaethol a byddai angen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fonitro'r canlyniadau'n ofalus.
- 12.29 Yn unol â Deddf Tenantiaethau Preswyl yr Alban (mewn grym o fis Ionawr 2018 ymlaen), dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno capiau rhent mewn ardaloedd lle mae rhenti'n cynyddu'n gyflym.
- 12.30 Gan fod 'bod yn agored i niwed' yn asesiad hynod oddrychol, dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Côt Canllawiau gyda'r bwriad o sefydlu mwy o gysondeb ac eglurder, yn enwedig o ran oedran ac iechyd meddwl. Dylai hyfforddiant ychwanegol fod ar gael i staff Atebion Tai ar ddiffiniad 'y rheswm arbennig arall' (categori 'bod yn agored i niwed') o angen â blaenoriaeth i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hasesu a'u cyfleu'n llawn.

Argymhellion tymor canolig-hir i wneud y gorau o'r canlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth

- 12.31 Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaethau, dylai awdurdodau lleol weithio tuag at gysoni gwasanaethau digartrefedd a Chefnogi Pobl. Mae awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl i weithio gyda thimau Atebion Tai i hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaethau a chymorth cynnar i ddefnyddwyr gwasanaethau. Dylai pecynnau cymorth gynnwys rheoli tenantiaeth, cyngor ar arian, a chynghor ar gyflogaeth a hyfforddiant a dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Argymhellion tymor canolig-hir i wneud y gorau o weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus

- 12.32 Er bod buddsoddiad ariannol sylweddol eisoes wedi'i wneud, mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i roi cyllid i gefnogi awdurdodau lleol ar ôl 2019/20. Bydd angen cyllid i dalu costau staff; hyfforddiant sgiliau; ac atal. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro lefelau digartrefedd a gwneud addasiadau i gyfeirio adnoddau at y mannau hynny lle mae nifer y bobl sy'n dod i'r awdurdod yn dweud ei bod yn ddigartref ac yn cysgu allan wedi cynyddu.
- 12.33 Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil pellach er mwyn deall sut mae defnyddio pyrrh a'r Grant Atal Digartrefedd yn dylanwadu ar waith atal, a dylid rhannu arfer gorau trwy 'Canllawiau Arferion Gorau' fel y disgrifir uchod. Dylai'r Rhwydwaith Digartrefedd weithio gydag awdurdodau lleol i gymryd perchnogaeth o waith cynhyrchu'r Canllawiau Arferion Gorau.
- 12.34 Dylid edrych ar y Protocol Gadael Ysbyty ar gyfer Pobl Ddigartref³⁷ a defnyddio mwy arno i sicrhau bod timau tai awdurdodau lleol yn cael digon o rybudd i roi trefniadau ar waith ar gyfer pobl ddigartref sy'n gadael yr ysbyty. Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu gweithwyr cyswllt rhanbarthol i weithredu rhwng ysbytai a Thimau Atebion Tai.

Argymhellion tymor canolig-hir i wella gweithio mewn partneriaeth

- 12.35 Mae angen i Lywodraeth Cymru wella'i gwaith cysoni agendâu (digartrefedd / iechyd meddwl / gwasanaethau cymdeithasol a lles / arferion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) yn strategol gan ddatblygu dangosyddion a rennir sy'n cyfleu perfformiad. Byddai'n ddefnyddiol cael hyfforddiant ar y cyd ar resymau sylfaenol achosion cymhleth ar draws awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sefydliadau'r trydydd sector a Shelter. Byddai hyfforddiant Amgylchedd ar sail Seicoleg (PIE)³⁸ yn briodol i

³⁷ Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2014

³⁸ Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan Cymorth, hyfforddiant ar Amgylchedd ar sail Seicoleg a'i nod yw cefnogi gwaith atal digartrefedd trwy weithredu dulliau ar sail trawma i gwrdd ag anghenion pobl o ran tai a chymorth.

wreiddio hwn. Mae angen cyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau gwell cysylltiad rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau iechyd meddwl. Dylai'r Gweinidog dros Tai ac Adfywio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y strategaeth cysgu allan.

- 12.36 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn canolbwyntio mwy ar atal pan fyddant wedi'u lleoli mewn adrannau tai yn hytrach nag yn y gwasanaethau cymdeithasol. Dylai awdurdodau lleol gryfhau gwaith comisiynu a monitro gwaith ariannu Cefnogi Pobl.

Argymhellion tymor canolig-hir i ddatblygu gwasanaethau awdurdodau lleol

- 12.37 Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi safonau gwasanaeth sy'n manylu ar yr hyn y gall defnyddwyr gwasanaethau ei ddisgwyl a dylai'r rhain gael eu cyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau, eu monitro gan awdurdodau lleol a'u harchwilio gan y Rhwydwaith Digartrefedd. Dylid ysgrifennu safonau gwasanaeth mewn iaith y mae'n hawdd ei deall a dylid rhoi syniad o'r amserlen.
- 12.38 Byddai penodi ymarferydd iechyd meddwl i weithio ochr yn ochr â Thimau Atebion Tai yn gwella canlyniadau i bobl â phroblemau iechyd meddwl, Gallai hyn weithredu mewn ffordd debyg i'r Swyddog Ailsefydlu Carchardai. Dylai asesiadau o anghenion o ran tai gynnwys asesiadau iechyd meddwl lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth ar gyfer materion iechyd meddwl.
- 12.39 Dylai awdurdodau lleol wreiddio gwasanaethau eraill mewn timau Atebion Tai. Er enghraifft, dylai cydlynwyr iechyd meddwl arbenigol, cyngor ar ddyled a chyffuriau ac alcohol gael eu cynnwys mewn Timau Atebion Tai / ar draws awdurdodau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd hwyluso gwahanol wasanaethau gan rannu eu profiadau o fynd i'r afael â digartrefedd ac achosion cymhleth trwy ariannu hyfforddiant PIE. Dylai awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau fod staff yn mynd am hyfforddiant o'r fath i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol.
- 12.40 Mae'r pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau (sef staff rheng flaen) yn bwysig. Gallai awdurdodau lleol archwilio hyn trwy ddefnyddio 'siopwyr dirgel' a gallai arwain at roi mesurau ar waith i gefnogi staff Atebion Tai. Gallai'r Rhwydwaith Digartrefedd hwyluso hyn.
- 12.41 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyllido cynllun bond ym mhob ardal awdurdod lleol.

Argymhellion tymor canolig-hir i wneud y gorau o rôl y Sector Rhentu Preifat a darparu cymorth i denantiaid y sector preifat

- 12.42 Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r Sector Rhentu Preifat i edrych a fyddai tenantiaethau hirach (o leiaf 12 mis) yn gweithio iddyn nhw er mwyn cynyddu sicrwydd daliadaeth i unigolion.
- 12.43 Dylai Llywodraeth Cymru edrych i mewn i ddefnyddio hysbysiadau Adran 21 mewn perthynas â'r effaith ar denantiaid a'r cyflenwad tai i aelwydydd digartref.

Argymhellion tymor canolig-hir ar gyfer newidiadau mewn monitro

- 12.44 Er mwyn mynd i'r afael â diffygion cyfredol mewn prosesau monitro, rhaid cael mwy o safoni ymysg awdurdodau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r canllawiau presennol a rhoi mwy o eglurder o ran cael awdurdodau lleol yn gweithredu'n safonol wrth gasglu data sy'n dal yr ystod lawn o weithgarwch ym mhob ardal awdurdod lleol, yn cynnwys gan asiantaethau partner cyn belled â bod modd.

Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

- 12.45 Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff rheoleiddio i fonitro perfformiad a gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau ac awdurdodau.

13. Cyfeirnodau

Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru (2017) Datganiad Cyntaf Ystadegol: Digartrefedd yng Nghymru, 2016-17. <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170727-homelessness-2016-17-en.pdf>

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. & Wood, J. (2017) The Homelessness Monitor: Wales. Crisis, JRF, Institute for Social Policy, Housing and Equalities Research, Heriot-Watt University; City Futures Research Centre, University of New South Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Y Cynllun Digartefedd Deng Mlynedd i Gymru 2009-2019, Merthyr Tudful, LICC

Mackie, P. (2014) The Welsh homelessness legislation review: delivering universal access to appropriate assistance? *Contemporary Wales* (27) tud 1-20

Mackie, P. (2015) Homelessness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies *Housing Studies*, vol 30 no 1 tud 40-50

Mackie, P., Thomas, I. & Bibbings, J. (2017) Homelessness Prevention: Reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice *European Journal of Homelessness* vol pp

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2017) The Development and Implementation of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014: Lessons for Policy and Practice in Wales, Gorffennaf 2017

Shelter Cymru (2016a) Accessing and Sustaining Social Tenancies: Exploring Barriers to Homelessness, Swansea, Shelter Cymru

Shelter Cymru (2016b) Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014, Swansea, Shelter Cymru

Stats Cymru (2017) Digartrefedd. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness>

Swyddfa Archwilio Cymru (2018) How Local Government Manages Demand: Homelessness, Caerdydd, Swyddfa Archwilio Cymru (8^{fed} Ionawr 2018)

Atodiad 1 Arolwg o'r Awdurdodau Lleol - Ton 2

Arolwg o'r Awdurdodau Lleol 2: Gwerthusiad Ôl-Weithredu o Ran Digartrefedd o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Cyflwyniad

Croeso i'r Arolwg dilynol o'r Awdurdod Lleol ar Werthusiad Ôl-weithredu o Ran Digartrefedd o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser gymryd rhan yn yr arolwg.

Yn yr un modd â'r llynedd, mae'r arolwg yn gynhwysfawr ac yn cwmpasu nifer o feysydd y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, bydd y cwestiwn olaf yn fodd i chi wneud unrhyw sylwadau yr ydych chi'n teimlo sy'n berthnasol i'r gwerthusiad nad yw'r arolwg wedi gallu eu cyfleu.

Efallai y byddwch yn sylwi bod rhai o'r cwestiynau'r un fath neu'n debyg i rai'r llynedd. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf gan eich Awdurdod Lleol ac y gallwn archwilio unrhyw newidiadau y gellid fod wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf (ers mis Gorffennaf / Awst 2016).

Mae modd cyfeirio unrhyw gwestiynau a fyddo gennych am yr arolwg at m.a.wilding@salford.ac.uk

Diolch ymlaen llaw i chi am gymryd rhan.

1. Cwblhewch y wybodaeth a ganlyn:

Enw'r Awdurdod Lleol:

Eich rôl:

Enw:

Cyswllt (ni fyddwn yn cysylltu â chi oni bai y bydd angen eglurhad):

Atebwch y cwestiynau a ganlyn yn fanwl, a rhwch resymau dros eich atebion.

Gyda chwestiynau sy'n cyfeirio at y llynedd, yr amser ers i chi gwblhau'r arolwg ddiwethaf ym mis Gorffennaf / Awst 2016 yw hwn.

O ran gweithredu'r Ddeddf

Rydym nawr am ofyn i chi am y gwaith gweithredu'r Ddeddf yn eich Awdurdod Lleol.

2. Yn y flwyddyn ddiwethaf (ers mis Gorffennaf / Awst 2016), oes newid wedi bod yn y ffordd y mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio'r 'Côd Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd'?

Oes

Nac oes

2a. Os 'oes', esboniwch.

3. Pa mor hyderus ydych chi eich bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf?

Hyderus iawn

Yn eithaf hyderus

Nac yn hyderus nac yn anhyderus

Ddim yn hyderus iawn

Ddim yn hyderus o gwbl

3a. Esboniwch eich ateb:

4. Beth fydddech chi'n ei ddweud oedd y tair prif her a wynebodd eich Awdurdod Lleol wrth weithredu Rhan 2 o'r Ddeddf yn y flwyddyn ddiwethaf? Dewiswch o'r rhestr isod. Peidiwch â dewis mwy nag un ateb mewn rhes. Dewiswch rhwng un a thri ateb. Peidiwch â dewis mwy nag un ateb mewn unrhyw golofn unigol.

	1	2	3
Baich gweinyddol			
Sicrhau bod gwasanaethau cefnogi ar gael			
Dealltwriaeth cwsmeriaid o'r Ddeddf			
Datblygu perthynas â'r sector rhentu preifat			
Adnoddau ariannol			
Cynnydd yn nifer yr achosion			
Dim llety rhent preifat / fforddiadwy / addas			
Dim tai cymdeithasol fforddiadwy / addas			
Monitro a chasglu data			
Dealltwriaeth partneriaid o'r Ddeddf			
Llwybr Carcharorion			
Ailstrwythuro / ffyrdd newydd o weithio			
Hyfforddiant			
Dealltwriaeth staff o'r Ddeddf			
Uwchraddio systemau TG			
Diwygio lles			
Arall 1 (rhowch fanylion isod)			
Arall 2 (rhowch fanylion isod)			
Arall 3 (rhowch fanylion isod)			

Adnoddau

Rydym nawr am ofyn i chi sut mae newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf wedi cael effaith ar adnoddau yn eich Awdurdod Lleol.

5. Beth oedd effaith y Ddeddf ar y galw am wasanaethau digartrefedd yn eich Awdurdod Lleol yn y flwyddyn ddiwethaf?

Cynnydd sylweddol

Peth Cynnydd

Dim newid

Peth Lleihad

Lleihad sylweddol

5a. Esboniwch eich ateb:

6. Sut ydych chi wedi cwrdd â'r galw hwn? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Newidiadau i systemau TG

Perthynas agosach â'r sector rhentu preifat

Perthynas agosach â phartneriaid allanol eraill

Perthynas agosach â gwasanaethau Cefnogi Pobl

Perthynas agosach â phartneriaid mewnol eraill

Symud staff i rolau sy'n ymwneud â'r cyhoedd

Ailfodelu gwasanaethau

Hyfforddiant staff

Cyllid trosiannol

Arall 1 (rhowch fanylion isod)

Arall 2 (rhowch fanylion isod)

Arall 3 (rhowch fanylion isod)

Dyletswyddau dan Ran 2 o'r Ddeddf

Rydym nawr am ofyn i chi am y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth i gael cymorth y mae eich Awdurdod Lleol yn ei ddarparu.

Gwybodaeth ac asesiad

7. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes unrhyw newid wedi bod yn y sianelau y mae eich Awdurdod Lleol yn eu defnyddio i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghylch cael cymorth i bobl sy'n ddigartref / mewn perygl o fod yn ddigartref dan adran 60 y Ddeddf?

Peidiwch â dewis mwy nag un ateb mewn rhes. Dewiswch o leiaf un ateb

	Cynnydd Sylweddol	Peth Cynnydd	Dim Newid	Peth Gostyngiad	Gostyngiad Sylweddol
Wyneb yn wyneb					
Ffôn					
Ar y we					
E-bost					
Neges destun					
Telegynhadledd / cyswllt fideo					
Arall 1 (rhowch fanylion isod)					
Arall 2 (rhowch fanylion isod)					
Arall 3 (rhowch fanylion isod)					

8. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydyw eich gwasanaeth gwybodaeth a chyngor wedi newid i fynd i'r afael ag anghenion y grwpiau penodol dan adran 60 (4) y Ddeddf? Yn benodol:

Ydyw	Nac	Ychwanegwch unrhyw
ydyw		wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chwestiwn 8 yma:

Pobl sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuenctid:

Pobl ifanc sy'n gadael gofal:

Pobl sy'n gadael lluoedd arfog parhaol y Goron:

Pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol
am anhwylder meddwl fel claf mewnol:

Pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn
y gymuned:

9. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydyw eich gwasanaeth gwybodaeth a chyngor wedi newid i fynd i'r afael ag anghenion:

Ydyw	Nac	Ychwanegwch unrhyw
ydyw		wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â chwestiwn 9 yma:

Pobl sengl

Pobl sy'n cysgu allan

Pobl â 'nodweddion gwarchodedig'

Pobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol

Pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn
y gymuned

10. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn eich Awdurdod Lleol, oes newid wedi bod yn y broses (ar y pwynt y gwneir y cyswllt cyntaf gan bobl sy'n ddigartref / sydd mewn perygl o fod yn ddigartref) pan fyddwch chi'n penderfynu a yw asesiad digartrefedd yn berthnasol dan adran 62 y Ddeddf.

Oes

Nac oes

10a. Os 'oes', eglurwch:

11. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes newid wedi bod yn y ffordd y mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio cynlluniau tai personol?

Oes

Nac oes

11a. Os 'oes', eglurwch:

Atal

Rydym nawr am ofyn i chi am y gwaith y mae eich Awdurdod Lleol yn ei wneud i helpu i atal ymgeisydd rhag dod yn ddigartref.

12. I gynorthwyo i atal ymgeisydd rhag dod yn ddigartref dan adran 66 y Ddeddf, nodwch p'run ai yw pob un o'r gwasanaethau a restrir isod yn cael eu darparu trwy ddarpariaeth Awdurdod Lleol ynteu drwy ddarpariaeth nad yw'n un Awdurdod Lleol. Nodwch hefyd a yw'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu ers y Ddeddf: Ticiwch bob un sy'n berthnasol

	Darpariaeth Awdurdod Lleol	Darpariaeth nad yw'n un Awdurdod Lleol	Cynnydd mewn darpariaeth yn y flwyddyn ddiwethaf
Allgymorth			
Cyfryngu			
Taliadau trwy grant neu fenthyciad			
Gwarantau y caiff taliadau eu gwneud			
Cefnogaeth wrth reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent			
Mesurau diogelwch i ymgeiswyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin			
Eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall			
Ffuriau eraill o gymorth tenantiaeth			
Llety			
Rhaglenni i gynyddu nifer y lletyau fforddiadwy sydd ar gael			
Cynlluniau gosod tai cymdeithasol			
Gwybodaeth a chyngor			
Trafod gyda landlordiaid preifat / cymdeithasol			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			

13. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf yn lefel yr adnoddau sydd gan eich awdurdod lleol i gynnig y gwasanaethau a drafodir yng nghwestiwn 12?

Cynnydd sylweddol

Peth cynnydd

Dim newid

Peth lleihad

Lleihad sylweddol

Arall

13a. Esboniwch eich ateb:

14. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf yn y modd yr ydych yn dyrannu adnoddau er mwyn cynnig y gwasanaethau a drafodir yng nghwestiwn 12?

Oes

Nac oes

14a. Os 'oes', sut?

15. Oes unrhyw broblemau sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd adnoddau cyfyngedig yn y gwasanaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 12?

Oes

Nac oes

15a. Os 'oes', esboniwch eich ateb a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i ddatrys y rhain:

16. Oes newid wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y modd y mae eich Awdurdod Lleol yn ymateb i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref mewn mwy na 56 diwrnod?

Oes

Nac oes

16a. Os 'oes', esboniwch:

17. Pam, yn eich profiad chi, y mae cymaint o weithgarwch atal llwyddiannus yn arwain at ddod o hyd i lety amgen? Er enghraifft, pa rwystrau sydd i helpu i atal rhywun rhag colli'r llety gwreiddiol?

Angen blaenoriaethol

Rydym nawr am ofyn i chi am Angen Blaenoriaethol yn eich Awdurdod Lleol

18. Ydyw eich Awdurdod Lleol wedi newid y ffordd yr oedd yn defnyddio'r prawf bregusrwydd dan a71 yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ydyw

Nac ydyw

18a. Os 'ydyw', sut?

19. Ydyw eich Awdurdod Lleol wedi newid ei ddull gweithredu gyda'r rhai sy'n gadael carchar a / neu ddalfa ieuencid yn y flwyddyn ddiwethaf?

Ydyw

Nac ydyw

19a. Os 'ydyw', sut?

Cymorth i sicrhau llety

Rydym nawr am ofyn i chi sut y byddwch yn cynorthwyo i sicrhau llety i ymgeiswyr digartref yn eich Awdurdod Lleol (h.y. y cam rhyddhad)

20. I gynorthwyo i sicrhau llety diogel i ymgeiswyr digartref dan adran 73 y Ddeddf, nodwch p'run ai yw pob un o'r gwasanaethau a restrir isod yn cael eu darparu trwy'r Awdurdod Lleol ynteu drwy ddarpariaeth nad yw'n un Awdurdod Lleol. Nodwch hefyd a yw'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu ers y Ddeddf: Ticiwch bob un sy'n berthnasol

	Darpariaeth Awdurdod Lleol	Darpariaeth nad yw'n un Awdurdod Lleol	Cynnydd mewn darpariaeth yn y flwyddyn ddiwethaf
Allgymorth			
Cyfyngu			
Taliadau trwy grant neu fenthyciad			
Gwarantau y caiff taliadau eu gwneud			
Cefnogaeth wrth reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent			
Mesurau diogelwch i ymgeiswyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin			
Eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall			
Ffuriau eraill o gymorth tenantiaeth			
Llety			
Rhaglenni i gynyddu nifer y lletyau fforddiadwy sydd ar gael			
Cynlluniau gosod tai cymdeithasol			
Gwybodaeth a chynghor			
Trafod gyda landlordiaid preifat / cymdeithasol			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			
Gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill (rhowch fanylion isod)			

21. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf yn lefel yr adnoddau sydd gan eich awdurdod lleol ar gyfer y gwasanaethau a drafodir yng nghwestiwn 20?

Cynnydd sylweddol

Peth cynnydd

Dim newid

Peth lleihad

Lleihad sylweddol

21a. Esboniwch:

22. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes unrhyw broblemau sylweddol wedi bod oherwydd adnoddau cyfyngedig yn y gwasanaethau a drafodwyd yng nghwestiwn 20?

Oes

Nac oes

22a. Esboniwch eich ateb:

23. I ba raddau y mae newid wedi bod wrth ddefnyddio'r sector rhentu preifat yn eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Cynnydd sylweddol

Peth cynnydd

Dim newid

Peth lleihad

Lleihad sylweddol

23a. Esboniwch:

24. I ba raddau ydych chi'n teimlo y mae newid wedi bod wrth ddefnyddio hosteli yn eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Cynnydd sylweddol

Peth cynnydd

Dim newid

Peth lleihad

Lleihad sylweddol

24a. Esboniwch eich ateb trwy gyfeirio at unrhyw newidiadau mewn angen, neu newidiadau mewn mathau o lety a hyd sy'n ofynnol:

25. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod newid wedi bod wrth ddefnyddio llety dros dro (heblaw hosteli) yn eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Cynnydd sylweddol

Peth cynnydd

Dim newid

Peth lleihad

Lleihad sylweddol

25a. Esboniwch eich ateb trwy gyfeirio at unrhyw newidiadau mewn angen, neu newidiadau mewn mathau o lety a hyd sy'n ofynnol:

26. Oes unrhyw newid wedi bod ym mhrofiadau eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â sicrhau llety ar gyfer:

Oes Nac oes Eglurwch

Pobl sengl

Pobl sy'n cysgu allan

Pobl â 'nodweddion gwarchodedig' (ac eithrio iechyd meddwl)

Pobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol

Pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned

Arall 1 (rhowch fanylion isod)

Arall 2 (rhowch fanylion isod)

Arall 3 (rhowch fanylion isod)

Dyletswydd i Sicrhau

Rydym nawr am ofyn i chi am y Ddyletswydd i Sicrhau yn eich Awdurdod Lleol.

27. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf o ran sut mae eich Awdurdod Lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd i sicrhau llety i ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol (a75) pan fydd y ddyletswydd yn a73 yn dod i ben?

Cynnydd	Peth	Dim	Peth	Gostyngiad	Eglurwch
sylweddol	cynnydd	newid	gostyngiad	sylweddol	

Defnyddio sector rhentu preifat

Defnyddio tai cymdeithasol

Defnyddio tai â chymorth

Arall (rhowch fanylion isod)

28. Ydyw eich Awdurdod Lleol yn cymryd camau i gadw cysylltiad ag aelwydydd sy'n methu apwyntiad neu sy'n methu dod yn ôl gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani?

Ydyw

Nac ydyw

28a. Esboniwch:

29. Amlinellwch y broses o sut mae eich Awdurdod Lleol yn penderfynu bod aelwyd wedi gwrthod cydweithredu:

Bwriadoldeb

Rydym nawr am ofyn i chi am yr ystyriaeth a roddir i fwriadoldeb yn eich Awdurdod Lleol.

30. Ydyw eich Awdurdod Lleol wedi diystyru bwriadoldeb ar gyfer unrhyw un o ddibenion a75 yng nghyswllt unrhyw grwpiau ag angen blaenoriaethol penodol?

Ydyw

Nac ydyw

30a. Os 'ydyw', pa gategorïau, a pha effaith y mae hyn wedi ei chael?

31. Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'ch sefyllfa wreiddiol ar fwriadoldeb ers mis Gorffennaf 2015?

Ydyw

Nac ydyw

31a. Esboniwch eich ateb:

Cysylltiad lleol

Rydym nawr am ofyn i chi am gysylltiad lleol yn eich Awdurdod Lleol.

32. Sut, ydych chi'n meddwl y cafodd y ffaith nad oedd prawf cysylltiad lleol yn a66 ac a73 (yn amodol ar a73 (2)) y Ddeddf effaith ar y galw am gymorth digartrefedd yn eich ardal?

Cynnydd sylweddol yn y galw

Peth cynnydd yn y galw

Dim newid yn y galw

Peth lleihad yn y galw

Lleihad sylweddol yn y galw

33. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf ym mhroses eich Awdurdod Lleol o roi cefnogaeth i bobl sy'n chwilio am gymorth heb gysylltiad lleol yn ardal eich Awdurdod Lleol?

Oes

Nac oes

33a. Esboniwch:

Adolygiadau ac apeliadau

Rydym nawr am ofyn i chi am adolygiadau ac apeliadau yn eich Awdurdod Lleol.

34. Faint o adolygiadau ac apeliadau y gofynnwyd amdanynt yng nghyswllt penderfyniadau eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Apeliadau

Adolygiadau

Nifer y rhai llwyddiannus:

Nifer y rhai aflwyddiannus

Cyfanswm:

35. Ydyw nifer y ceisiadau i adolygu penderfyniadau eich Awdurdod Lleol / apelio yn eu herbyn wedi cynyddu neu ostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Wedi cynyddu

Wedi gostwng

35a. Esboniwch eich ateb:

36. Oes cynnydd neu ostyngiad wedi bod yn nifer yr adolygiadau a'r apeliadau llwyddiannus yng nghyswllt penderfyniadau eich Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Cynnydd

Lleihad

36a. Esboniwch eich ateb:

Gwaith Partneriaeth ac Agendâu'r Llywodraeth

Rydym nawr am ofyn i chi am waith eich Awdurdod Lleol ar bartneriaethau ac Agendâu'r llywodraeth.

37. Yn y flwyddyn ddiwethaf oes unrhyw newidiadau wedi bod mewn gweithio mewn partneriaeth: Er enghraifft, mwy o bartneriaethau gyda'r sector preifat; sefydliadau sy'n cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl, pobl ifanc / rhai sy'n gadael gofal, a chyn-filwyr.

37a. Yn eich Awdurdod Lleol

Cynnydd	Peth	Dim	Peth	Lleihad	Eglurwch
Sylweddol	cynnydd	newid	lleihad	sylweddol	

Gwasanaethau cymdeithasol plant

Gwasanaethau cymdeithasol oedolion

Iechyd yr amgylchedd

Cefnogaeth tenantiaeth

Arall 1 (rhowch fanylion isod)

Arall 2 (rhowch fanylion isod)

Arall 3(rhowch fanylion isod)

37b. Gyda phartneriaid allweddol

Cynnydd	Peth	Dim	Peth	Lleihad	Eglurwch
Sylweddol	cynnydd	newid	lleihad	sylweddol	

Ysbytai

Carchardai / Canolfannau Cadw

Ieuenctid

Sector rhentu preifat

Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Awdurdodau lleol eraill

Arall 1 (rhowch fanylion isod)

Arall 2 (rhowch fanylion isod)

Arall 3 (rhowch fanylion isod)

38. Yn y flwyddyn ddiwethaf ydych chi wedi cyflwyno:

	Naddo,		Naddo, nid oes gan	
	roedd gan	Naddo, nid	f'Awdurdod Lleol un	Os 'do', sut
	f'Awdurdod	oes gan	ond mae'n bwriadu	mae hyn yn
	Lleol un	f'Awdurdod	cyflwyno un yn y	gweithio'n
Do	eisoes	Lleol un	ddwy flynedd nesaf	ymarferol?

Cynllun porth ar gyfer
 gwasanaethau Cefnogi Pobl
 Proses atgyfeirio ffurfiol ar gyfer
 gwasanaethau Cefnogi Pobl

39. Sut caiff adnoddau Cefnogi Pobl eu targedu i gefnogi gwaith atal digartrefedd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Oes	Nac	Ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol
oes		mewn perthynas â chwestiwn 39 yma:

Cydlleoli gwasanaethau digartrefedd /
 Cefnogi Pobl
 Llwybrau uniongyrchol i'r gwasanaeth
 digartrefedd
 Cefnogaeth fel bo'r angen
 Gwasanaeth cwbl integredig
 Gwasanaeth cymorth generig

40. Ydyw'r agenda digartrefedd yn llywio gwaith comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl?

Ydyw

Nac ydyw

40a. Os ydyw, sut? Ticiwch bob un sy'n berthnasol
Comisiynu gwasanaethau ar y cyd
Fforymau ar y cyd a gynhelir i lywio penderfyniadau
Lleihau gwariant meysydd Cefnogi Pobl eraill
Arall 1 (rhowch fanylion isod)
Arall 2 (rhowch fanylion isod)
Arall 3 (rhowch fanylion isod)

Mesur Canlyniadau

Rydym nawr am ofyn i chi sut caiff canlyniadau eu mesur yn eich Awdurdod Lleol.

41. Oes newid wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf yn y modd y mae eich Awdurdod Lleol yn monitro effaith y Ddeddf ar ddefnyddwyr gwasanaethau (gan gynnwys pobl sengl, pobl sy'n cysgu allan, pobl â 'nodweddion gwarchodedig', a phobl o awdurdodau lleol eraill / trawsffiniol) ?

Oes

Nac oes

41a. Os 'oes', eglurwch:

42. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes newid wedi bod yn y modd y mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio'r data monitro cydraddoldeb?

Oes

Nac Oes

42a. Os 'oes', eglurwch:

43. Oes trefniadau ar waith yn eich Awdurdod Lleol i fesur canlyniadau i bobl sy'n cael cymorth dan Ran 2 o'r Ddeddf?

Oes

Nac Oes

43a. Os 'oes', eglurwch:

44. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes newid wedi bod yn y ffordd yr ydych chi'n defnyddio data'r canlyniadau hyn?

Oes

Nac Oes

44a. Os 'oes', eglurwch:

45. Yn y flwyddyn ddiwethaf, oes newid wedi bod yn y ffordd y byddwch chi'n dadansoddi data'r canlyniadau hyn?

Oes

Nac Oes

45a. Os 'oes', eglurwch:

Sgorio'r Datganiad

46. Nodwch pa mor gryf yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau a ganlyn.

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Na'n cytuno na'n anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Nid yw eich Awdurdod Lleol wedi wynebu unrhyw heriau sylweddol wrth weithredu'r Ddeddf o fis Ebrill 2015 ymlaen.					
Mae cynnydd wedi bod yn yr adnoddau sydd ar gael yn eich Awdurdod Lleol ar gyfer atal digartrefedd a mynd i'r afael ag o, ar wahân i gyllid trosiannol Llywodraeth Cymru.					
Mae gostyngiad wedi bod yn yr adnoddau sydd ar gael yn eich Awdurdod Lleol ar gyfer atal digartrefedd a mynd i'r afael ag o, ar wahân i gyllid trosiannol Llywodraeth Cymru.					
Mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar eich Awdurdod Lleol i gynnig gwell gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n ymwneud â digartrefedd.					
Mae eich Awdurdod Lleol yn ymgymryd â gwaith mwy ataliol.					
Mae'r gwaith ataliol yn fwy cynhwysol.					
Mae'r gwaith ataliol yn fwy effeithiol.					
Mae cynyddu'r cyfnod yr ystyrir bod ymgeiswyr dan fygythiad digartrefedd i 56 diwrnod wedi cael effaith gadarnhaol ar atal digartrefedd					
Mae newid y prawf bwriadoldeb o ddyletswydd i bŵer wedi bod yn fodd i gynnig cymorth mwy effeithiol i bobl ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.					
Mae'r newidiadau ynghylch cysylltiad lleol wedi ei gwneud yn ofynnol cynnig cefnogaeth fwy effeithiol i bobl ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref nad oes ganddynt gysylltiad lleol.					
Mae'r Ddeddf wedi arwain at bwyslais cryfach ar gydweithredu rhwng amrywiol wasanaethau Awdurdodau Lleol a gwaith amlasiantaethol.					

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Na'n cytuno na'n anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae'r Ddeddf wedi bod yn fodd i wneud defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat i atal / lleddfu digartrefedd					
Mae'r Ddeddf wedi bod yn fodd i wneud defnydd mwy effeithiol o'r sector rhentu preifat i gyflawni dyletswyddau digartrefedd.					
Mae'r Ddeddf wedi bod yn fodd i gydweithredu'n fwy effeithiol gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.					
Mae gan eich Awdurdod Lleol brosesau ar waith i ddilyn ceisiadau sy'n cael eu tynnu'n ôl dan Ran 2 o'r Ddeddf.					
Mae eich Awdurdod Lleol yn gwneud mwy o waith monitro cydraddoldeb					
Mae'r gwaith monitro cydraddoldeb yn fwy effeithiol					
Mae eich Awdurdod Lleol yn defnyddio gwaith monitro cydraddoldeb i lywio'i weithgareddau dan Ran 2 o'r Ddeddf					
Mae'r Ddeddf wedi bod yn fodd i newid diwylliant i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.					
Mae llwybrau clir yn eich Awdurdod Lleol ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion o ran cymorth i gael cymorth tai.					
At ei gilydd, mae'r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol yn eich Awdurdod Tai Lleol ar bobl y mae angen cymorth digartrefedd arnynt.					

47. Ysgrifennwch unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynghylch effaith Rhan 2 o'r Ddeddf yn eich Awdurdod Lleol, isod:

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod yn cymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn ac yn cyfrannu at Werthuso'r Ddeddf Digartrefedd.

Atodiad 2: Cwestiynau ar gyfer cyfweld penaeithiaid gwasanaeth

1. Dywedwch wrthym am eich rôl wrth weithredu'r dull sy'n canolbwyntio ar atal? Ydyw wedi newid? Sut?
2. Pa oblygiadau sydd gan Ran 2 o'r Ddeddf ar gyfer eich awdurdod / sefydliad?
3. Beth yw'r gweithgareddau atal allweddol yn eich awdurdod? Beth sy'n gweithio'n dda / allai weithio'n well?
4. Sut mae'r ddeddfwriaeth wedi gwneud cymorth yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eich awdurdod? (holwch yn fanwl am effeithiau newid diwylliant ar staff / adnoddau a sut mae'r diwylliant o fewn y tîm wedi newid, gan gynnwys cyfeiriad at drosiant staff.)
5. Pa effaith y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar wasanaethau a ddarperir i bobl sy'n dod i'r Awdurdod yn dweud eu bod yn ddigartref ac nad oes ganddynt gysylltiad lleol? Sut ydych chi'n dehongli cysylltiad lleol?
6. Beth yw eich profiad o weithio mewn partneriaeth dan y Ddeddf? Yn benodol:
 - * Ydyw gweithio mewn partneriaeth wedi cynyddu / gostwng? A chyda phwy (Awdurdodau Lleol eraill, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, y Trydydd Sector ac ati)?
 - * Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau o arfer da yn eich awdurdod?
7. Sut mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael effaith ar agendâu eraill yn eich awdurdod? (e.e. iechyd, iechyd yr amgylchedd, gofal cymdeithasol ac agendâu Camdriniaeth a Thrais Domestig)?
8. Pa mor effeithiol yw gwasanaethau Cefnogi Pobl yn galluogi gweithredu Rhan 2 o'r Ddeddf yn eich awdurdod?
9. Yn eich barn chi, pa mor glir ydyw'r llwybrau ar gyfer pobl ddigartref ag anghenion o ran cymorth yn eich awdurdod chi? A ellid gwella'r rhain? Sut?
10. Pa effaith y mae Rhan 2 o'r Ddeddf wedi'i chael ar y rhai sydd ag angen blaenoriaethol a'r rhai nad ydynt ag angen blaenoriaethol yn eich awdurdod?
11. Pa effaith y mae Rhan 2 o'r Ddeddf wedi'i chael ar y rhai â nodweddion gwarchodedig yn eich awdurdod? (nodwch: pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned) Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'ch dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth ddigartrefedd?
12. Allwch chi nodi unrhyw anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig â gweithredu?
13. Sut gellir defnyddio adnoddau yn fwyaf effeithiol i helpu i weithredu Rhan 2?
14. Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol ydyw 'Côd Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd' (2015 a 2016) wedi bod wrth hwyluso gweithredu effeithiol? Oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gellid ei gryfhau?

15. Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd yr ydych yn cadw cofnodion yn dilyn y Ddeddf? Os ydych, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud? Pam? Beth oedd yr effeithiau?

16. Beth yw eich barn ar y data sy'n ofynnol ar gyfer y datganiad ystadegol ar ddigartrefedd i Llywodraeth Cymru? Ydych chi o'r farn fod yr ystadegau'n ddefnyddiol at ddibenion meincnodi? I ba raddau mae'r data'n cyfleu'r gwaith rydych chi'n ei wneud? A yw casglu'r data hwn wedi cael unrhyw effaith ar eich adnoddau? Os ydyw, beth?

17. Beth ydych chi'n ei feddwl yw cryfderau'r Ddeddf?

18. Oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y Ddeddf?

20. Oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol / annisgwyl wedi bod yn sgil gweithredu Rhan 2?

21. Pa gamau pellach y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi gweithredu Rhan 2?

22. Sut ydych yn sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaid yn cael cynnig cymorth dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014?

24. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i gyfyngu ar y baich biwrocraidd ar eich staff yn ogystal â chynyddu'r dealltwriaeth o waith papur yn y grŵp cleientiaid?

25. Pa drefniadau cyhoeddusrwydd a gynhaliwyd cyn y gweithredu ac ar ei ôl gyda:

- * Partneriaid y trydydd sector

- * Cymdeithasau Tai

- * Defnyddwyr Gwasanaethau

- * Y Cyhoedd

- * Partneriaid eraill (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ac ati)

26. Oes unrhyw beth arall y credwch fod angen i ni ei wybod?

Atodiad 3: Cwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen yr awdurdod lleol

1. Beth yw'r prif weithgareddau atal digartrefedd yn eich awdurdod? (beth sy'n gweithio'n dda / beth allai fod yn well)
2. Allwch chi ddweud wrthym sut mae cefnogaeth bellach yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn'? Sut mae diwylliant eich sefydliad wedi newid? Beth mae hyn wedi ei olygu i'ch rôl? (holwch yn fanwl am gyfnod amser yn y rôl / cyn y ddeddf ac wedi hynny)
3. Ydyw gwaith partneriaeth wedi newid ers y Ddeddf? (holwch yn fanwl am gynnydd / ostyngiad mewn gwaith partneriaeth ac enghreifftiau o arfer da - Cefnogi Pobl / Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / gwaith partneriaeth y trydydd sector a phrofiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / y Sector Rhentu Preifat yn ymarferol)
4. Oes unrhyw heriau i chi / eich rôl / eich sefydliad?
5. Allwch chi nodi unrhyw anghenion hyfforddi sydd heb gael sylw ac sy'n gysylltiedig â gweithredu?
6. Pa ddarpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc / pobl sengl / pobl â nodweddion gwarchodedig? (holwch yn fanwl am y llety dros dro sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt ac am bobl â phroblemau iechyd meddwl)
7. A allwch ddweud wrthym sut mae dyblu'r cyfnod y credir bod ymgeiswyr dan fygythiad digartrefedd yn gweithio'n ymarferol yn eich awdurdod chi?
8. Sut mae eich awdurdod yn dehongli / gweithredu 'y camau rhesymol' y mae angen eu cymryd i atal a lleddfu digartrefedd?
9. Sut mae eich awdurdod yn defnyddio: bwriadoldeb; angen blaenoriaethol; cysylltiad lleol?
10. Sut ydych chi'n cymhwyso'r ddeddfwriaeth yng nghyd-destun pobl sy'n cysgu allan, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael?
11. Pa mor ddefnyddiol ydyw 'Côd Canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar ddyrannu llety a digartrefedd' (2016) yn eich barn chi?
12. At ei gilydd - beth yw eich barn am oblygiadau Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn eich awdurdod (holwch yn fanwl am gryfderau / gwendidau / materion sy'n ymwneud â gweithredu ac ati)
13. Oes unrhyw beth arall y credwch fod angen i ni ei wybod?

Atodiad 4: Cwestiynau'r grŵp ffocws i staff rheng flaen y Landlordiaid Cymdeithasol / Trydydd Sector

1. Beth yw eich rôl chi mewn perthynas â digartrefedd? (holwch yn fanwl am gyfnod amser yn y rôl / cyn y ddeddf ac wedi hynny)
2. Beth yw'r prif weithgareddau atal yn eich maes gweithredu? (beth sy'n gweithio'n dda / beth allai fod yn well)?
3. Allwch chi ddweud wrthym sut mae cefnogaeth bellach yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn'? Sut mae diwylliant eich sefydliad wedi newid mewn ymateb i hyn? Beth mae hyn wedi ei olygu i'ch rôl?
4. Ydyw gwaith partneriaeth wedi newid ers y Ddeddf ac, os ydyw, sut? (holwch yn fanwl am gynnydd / ostyngiad mewn gwaith partneriaeth ac enghreifftiau o arfer da - holwch yn fanwl am Gefnogi Pobl / Awdurdodau Lleol / gwaith partneriaeth arall y trydydd sector)?
5. Oes gennych brosesau cyfeirio strwythuredig ar waith i sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 os ydynt dan fygythiad digartrefedd mewn 56 diwrnod neu'n ddigartref, hyd yn oed wrth i chi barhau i'w cefnogi?
6. Sut ydych chi'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau, pan fo rhywun dan fygythiad o gael ei droi allan, naill ai yn eich tai eich hunain neu lle rydych chi'n eu helpu gyda'u landlord, bod camau trylwyr yn cael eu cymryd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref?
7. Oes unrhyw heriau i chi / eich rôl / eich sefydliad wrth gefnogi proses gweithredu'r ddeddfwriaeth?
8. Allwch chi nodi unrhyw anghenion hyfforddi sydd heb gael sylw ac sy'n gysylltiedig â gweithredu?
9. Pa ddarpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc / pobl sengl / pobl â nodweddion gwarchodedig? (holwch yn fanwl am y llety dros dro sydd ar gael a'r defnydd a wneir ohonynt ac am bobl â phroblemau iechyd meddwl)
10. At ei gilydd - beth yw eich barn am oblygiadau Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn eich awdurdod (holwch yn fanwl am gryfderau / gwendidau / materion sy'n ymwneud â gweithredu ac ati)
11. Oes unrhyw beth arall y credwch fod angen i ni ei wybod?

Atodiad 5: Cwestiynau ar gyfer cyfweld defnyddwyr gwasanaethau (Ton 2)

(Crynodeb byr o'r cyfweiliad blaenorol)

1. Allwch chi ddweud wrthyf am yr hyn sydd wedi digwydd yn y pump/chwe mis diwethaf o ran eich sefyllfa byw?
 - Ydyw wedi newid? Er gwell ynteu er gwaeth? Os ydyw wedi newid, pwy wnaeth ei sicrhau? Ydyw dros dro ynteu'n barhaol ac ati; pa mor sicr yw'r llety?
 - Arwydd ar gyfer a ydynt yn gwneud cais am dŷ mewn ardal lle mae ganddynt gysylltiad lleol
2. Beth yw eich sefyllfa nawr? Oes unrhyw beth yr hoffech ei newid?
3. Wnaethoch chi gais i gael eich ailgartrefu mewn ardal lle mae gennych gysylltiad lleol?
4. Pa gymorth ydych chi wedi'i dderbyn gan y Cyngor?
 - Oeddech chi'n deall y dogfennau a gawsoch gan y cyngor (Cynllun Tai Personol / llythyrau rhyddhau)
 - Sut ydych chi'n teimlo y mae eich cyngor wedi ymdrin â'ch sefyllfa? Beth ydych chi wedi ei weld i fod y mwyaf / lleiaf o gymorth?
 - Beth oedd agwedd staff yr awdurdod lleol?
 - Wrth edrych yn ôl dros y misoedd diwethaf ydych chi'n meddwl bod unrhyw fylchau mewn gwasanaethau?
5. Oedd gennych gynllun tai personol?
 - Os 'oedd', oeddech chi'n rhan o waith ei ddatblygu? Pa mor ddefnyddiol oedd o i'ch helpu i ddod o hyd i dŷ?
 - Beth oedd angen i chi ei wneud fel rhan o'r cynllun?
 - Oeddech chi'n gallu gwneud hyn? Os nad oeddech, pam ddim?
6. Beth ydych chi'n ei feddwl yw'r effaith a gafwyd yn sgil y gefnogaeth a gawsoch? (gan y gwasanaethau digartrefedd) Beth fyddai wedi digwydd pe na byddech wedi derbyn y gefnogaeth hon?
7. Ydych chi wedi cael unrhyw wasanaeth cefnogi (ar wahân i dai)? Ydych chi'n meddwl bod angen hyn arnoch? Pa fath ac ati
 - Oes gennych unrhyw anghenion eraill (y tu hwnt i lety)? A roddwyd sylw i'r rhain? A yw'r awdurdod lleol wedi'ch helpu i gael unrhyw gefnogaeth? Os felly - allwch chi ddweud wrthym sut yr oedd hyn yn gweithio?
8. Pan siaradon ni ddiwethaf, fe sonioch eich bod yn gobeithio y byddai xxxx yn digwydd yn y 6 mis nesaf - felly mae hyn wedi digwydd / nid yw hyn wedi digwydd? Sut / pam nad yw?

9. Beth yw eich profiadau / barn am y sector rhentu preifat yn eich ardal chi?
10. Beth yw eich profiadau / barn am gymdeithasau tai yn eich ardal chi?
11. Beth yw eich profiadau / barn am awdurdodau lleol yn eich ardal chi?
12. A wnaeth yr awdurdod roi'r gorau i roi cefnogaeth gan honni eich bod 'wedi methu'n rhesymol â chydweithredu'? Os felly,
 - a. Beth ydych chi'n ei ddeall o'r term 'methu'n rhesymol â chydweithredu'?
 - b. Sut cafodd ei gyfleu, os cafodd ei gyfleu o gwbl?
 - c. Gafodd o'i ddefnyddio fel bygythiad yn gyntaf?
 - d. Dderbynioch chi rybudd ysgrifenedig (neu neges destun) ymlaen llaw?
 - e. Beth oedd y rheswm dros ryddhau?
13. Os ydych yn gyn-droseddwr, a gafodd hyn effaith ar ddod o hyd i dŷ / cael i mewn i'r system dai?
14. Oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am eich profiad gyda'r gwasanaeth tai?
15. Mae angen hefyd sefydlu cyfansoddiad teuluol ac ati (llenwi'r daflen wybodaeth ddemograffig)

Atodiad 6: Ymgynghoriad â Darparwyr Gwasanaethau ar draws ardaloedd astudiaethau achos

Safle Astudiaeth Achos A1


- 13.1 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 16 o bobl: wyth yn cynrychioli'r sector statudol; chwech yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a dau o ddarparwyr y trydydd sector. Cynhwyswyd un pennaeth gwasanaeth, chwech o bobl mewn swyddi rheoli a naw aelod o staff rheng flaen.

Tabl 9: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A1

Sector statudol	Cyfweliad: Swyddog Opsiynau Tai
	Cyfweliad: Swyddog Opsiynau (cymorth gyda budd-daliadau) Tai
	Cyfweliad: Warden Hostel
	Cyfweliad: Swyddog Cefnogaeth Tenantiaeth
	Cyfweliad: Swyddog Cefnogaeth Tenantiaeth
	Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): Swyddog Digartrefedd
	Cyfweliad: Arweinydd Cefnogi Pobl
Landlordiaid	Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): Rheolwr Tai â Chymorth Rheolwr
Cymdeithasol Rhestredig	Hostel (LCC 1)
	Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaethau (LCC 2)
	Grŵp Ffocws (tri chyfranogwr): Rheolwr a Swyddogion Tai
Trydydd sector	Cyfweliad: Rheolwr Cyngor / Gwaith achosion
	Cyfweliad: Rheolwr (asiantaeth camdriniaeth ddomestig)

Ffigur 37: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A1

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



■ Statudol ■ Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ■ Trydydd

Safle Astudiaeth Achos A2


- 13.2 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 46 o bobl: 26 yn cynrychioli'r sector statudol; chwech yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a 14 o ddarparwyr y trydydd sector. Ymgynghorwyd â dau Bennaeth gwasanaeth, saith o bobl mewn swyddi rheoli a 37 aelod o staff rheng flaen.

Tabl 10: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A2

Sector statudol	Cyfweliad: Arweinydd Cefnogi Pobl Cyfweliad: Hosteli, unedau llety dros dro & Gwasanaethau Allgymorth i'r rhai sy'n cysgu allan - Rheolwr Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaethau Tai Cyfweliad: Pennaeth Tai Cyfweliad: Rheolwr Opsiynau Tai Grŵp Ffocws (14 o gyfranogwyr): Gwasanaethau Opsiynau Tai a Digartrefedd Grŵp Ffocws (7 cyfranogwr): hosteli a staff rheng flaen digartrefedd
Landlordiaid	Cyfweliad: Swyddog Tai / Digartrefedd
Cymdeithasol	Cyfweliad: Rheolwr Llety Dros Dro
Rhestredig	Grwp Ffocws (4 cyfranogwr): staff hosteli
Trydydd sector	Cyfweliad: Rheolwr Materion Cyhoeddus ac Ymchwil Cyfweliad: Gweithiwr achosion Cyngor Grwp Ffocws (pum cyfranogwr): Llety Dros Dro a hostel – (Asiantaeth 1) Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): Llety Dros Dro a hostel – rheolwyr (asiantaeth 1) Grŵp Ffocws (tri chyfranogwr): staff hostel (asiantaeth 2) Grŵp Ffocws (two cyfranogwr) staff hostel (asiantaeth 3)

Ffigur 38: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A2

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



Safle Astudiaeth Achos A3

- 13.3 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 23 o bobl: 10 yn cynrychioli'r sector statudol; tri yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a 10 o ddarparwyr y trydydd sector.


Ymgynghorwyd â Thri Phennaeth gwasanaeth, dau berson mewn swyddi rheoli a 18 aelod o staff rheng flaen.

Tabl 11: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A3

Sector statudol	Cyfweliadau (pum cyfranogwr): Staff Opsiynau Tai Cyfweliad: Swyddog Sector Rhentu Preifat Cyfweliad: Pennaeth Gwasanaeth (Cefnogi Pobl) Cyfweliad: Cynghorydd (Portffolio ar gyfer Cefnogi Pobl, Iechyd a Gofal Cymdeithasol) Cyfweliad: Arweinydd Tîm Opsiynau Tai Cyfweliad: Rheolwr Opsiynau Tai
Landlordiaid	Cyfweliad: Pennaeth Tai
Cymdeithasol	Grŵp Ffocws (saith cyfranogwr): Arweinydd Tîm a swyddogion tenantiaeth / tai
Rhestredig	Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): Rheolwr Tai a Swyddog Rheoli Tenantiaeth
Trydydd sector	Grŵp Ffocws (tri chyfranogwr): Hostel i bobl ifanc Staff rheng flaen

Ffigur 39: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A3

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



Safle Astudiaeth Achos A4


- 13.4 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 19 o bobl: 10 yn cynrychioli'r sector statudol; tri yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a chwech o ddarparwyr y trydydd sector. Ymgynghorwyd ag un Pennaeth Gwasanaeth, wyth o bobl mewn swyddi rheoli a 10 aelod o staff rheng flaen.

Tabl 12: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A4

Sector statudol	Cyfweliad: Arweinydd Tai a Chefnogi Pobl Grŵp Ffocws (pum cyfranogwr): Arweinydd Tîm Opsiynau Tai a Swyddogion Grŵp Ffocws (pedwar cyfranogwr): Rheolwr Safonau Tai, Swyddog Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol a dau Swyddog Sector Rhentu Preifat
Landlordiaid Cymdeithasol	Cyfweliad: Arweinydd Tîm Cefnogi Pobl Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaethau Tai (LCC 1)
Rhestredig	Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaethau Tai (LCC 2)
Sector gwirfoddol	Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Pobl (LCC 2) Cyfweliad: Arweinydd Tîm ac Ymgynghorydd Dyledion (asiantaeth cynghori) Grŵp Ffocws (pum cyfranogwr): tri rheolwr darparwyr hosteli, rheolwr asiantaeth iechyd, rheolwr tai â chymorth a darparwr cymorth, staff rheng flaen

Ffigur 40: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A4

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



■ Statudol ■ Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ■ Gwirfoddol

Safle Astudiaeth Achos A5


- 13.5 1.4 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 20 o bobl: 14 yn cynrychioli'r sector statudol; tri yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a thri o ddarparwyr y trydydd sector. Ymgynghorwyd â phedwar Pennaeth Gwasanaeth / Arweinydd, chwech o bobl mewn swyddi rheoli ac 11 aelod o staff rheng flaen.

Tabl 13: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A5

Sector statudol	Cyfweliad: Rheolwr Gwasanaeth (comisiynu ar gyfer gofal cymdeithasol a Chefnogi Pobl) Grŵp Ffocws (saith cyfranogwr): Swyddogion Atebion Tai Cyfweliad: Rheolwr Datblygu/Cefnogi Tai (Iechyd Meddwl), Awdurdod Iechyd Grŵp Ffocws (tri chyfranogwr): Cynghorydd/Cadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol a Chefnogi Pobl, Rheolwr Cyfarwyddiadau Tai, Gwasanaethau Pennaeth Ffordd o Fyw (yn cynnwys Tai) Cyfweliad: Uwch-swyddog Digartrefedd ac Atebion Tai
Landlordiaid	Cyfweliad: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid (Tai)
Cymdeithasol Rhestredig	Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): Cyfarwyddwr Tai a Chymorth, a'r Rheolwr Tai
Sector gwirfoddol	Cyfweliad: Rheolwr Prosiect (hosteli – camddefnyddio sylweddau, troseddwyd) Cyfweliad ar y cyd (dau gyfranogwr): staff nos hosteli Cyfweliad: Rheolwr lloches nos

Ffigur 41: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A5

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



Safleoedd Astudiaeth Achos A6


- 13.6 Ymgynghorwyd â chyfanswm o 24 o bobl: 11 yn cynrychioli'r sector statudol; tri yn cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a 10 o ddarparwyr y trydydd sector. Ymgynghorwyd ag un Pennaeth Gwasanaeth, 12 o bobl mewn swyddi rheoli ac 11 aelod o staff rheng flaen.

Tabl 14: Darparwyr Gwasanaethau a Gyfwelwyd yn A6

Sector statudol	Cyfweliad: Arweinydd Polisi (Swyddog Cyfeirio Pwrth gynt) Grŵp Ffocws (tri chyfranogwr): Arweinydd Opsiynau Tai, Pennaeth Tai, Rheolwr Gwasanaethau Tai Grŵp Ffocws (saith cyfranogwr): Opsiynau Tai a staff rheng flaen digartrefedd
Landlordiaid Cymdeithasol Rhestredig	Grŵp Ffocws (pedwar cyfranogwr) tri o brosiect atal digartrefedd (un rheolwr, dau weithiwr achos) ac un arall*
Sector gwirfoddol	Grŵp Ffocws (chwe chyfranogwr): Rheolwr Byw â Chymorth (un) a rheolwyr hosteli (pump) Cyfweliad: Rheolwr – Gwasanaeth Cymorth Tenantiaeth (Cymorth Iechyd Meddwl) Cyfweliad: Rheolwr (Camdriniaeth ddomestig) Cyfweliad: Gweithiwr achosion asiantaeth cynghori * Gweithiwr achosion asiantaeth cynghori (daeth i'r Grŵp Ffocws – gweler uchod)

Ffigur 42: Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector A6

Dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl sector



Cydnabyddiaeth

Ariannwyd yr ymchwil a'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn ddiolchgar am ei chefnogaeth.

Yn benodol, hoffem ddiolch i'r unigolion a ganlyn a'n harweiniodd a rhoi sylwadau ar yr adroddiad hwn (a'r adroddiad interim): Lucie Griffiths, Carl Spiller a Geoff Marlowe. Diolch hefyd i Simon Protheroe a'r unigolion eraill hynny a'n harweiniodd yng nghamau cynnar yr ymchwil. Diolch i aelodau Rhwydwaith Digartrefedd Llywodraeth Leol Cymru am fewnbwn i'r dyluniad ymchwil a'r argymhellion terfynol. Diolch i bob darparwr gwasanaethau a rhanddeiliaid cenedlaethol a gymerodd ran yn yr ymchwil

Yn olaf, diolch yn ddiffuant i'r 154 o bobl a rannodd eu profiadau o fod yn ddigartref.

Ymwadiad

Cyfrifoldeb yr awduron yw unrhyw farn neu gamgymeriadau yn yr adroddiad hwn. Ni ddylid tybio mai barn Llywodraeth Cymru yw'r farn a fynegir.